# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>17 GORFFENNAF 2017<br>10.00 o'r gloch** | **MONDAY<br>17 JULY 2017<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

John Griffith, Llinos Medi Huws, R Meirion Jones, Robert G Parry, OBE, FRAgS

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2017.

**4** **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 9 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 4, 2016/17** (Tudalennau 25 - 36)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**6** **CRYNODEB O'R CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2016/17** (Tudalennau 37 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151.

**7** **STRATEGAETH TAI GWAG** (Tudalennau 53 - 102)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**8** **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016/17** (Tudalennau 103 - 146)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes).

**9** **MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI – YMGYNGHORIAD STATUDOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**10** **MODERNEIDDIO YSGOLION – RHAGLEN AMLINELLOL STRATEGOL - BAND B (2019-2024)**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## 11 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

## 12 ARIANNU COSTAU STAFF O FEWN GWASANAETHAU PLANT

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, John Griffith, R. Meirion Jones, R.G. Parry, OBE, FRAgs, Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 4)<br>Prif Syrfëwr (RG) (ar gyfer eitem 9)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Aled Morris Jones, Alun Mummery, Shaun Redmond |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Gwaith o dan y Cyngor newydd.

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorwyr R.G. Parry, OBE, FRAgS a Ieuan Williams ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w adrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd i'w cadarnhau, gofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2017.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Ebrill, 2017.**

### 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd er cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Gorffennaf 2017 i Chwefror 2018.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y newidiadau i'r Blaen Raglen Waith ers y cyfnod adrodd blaenorol, fel a ganlyn -

- **Eitemau newydd i'r Blaen Raglen Waith**

  - Eitemau 12, 33 a 38 sy'n ymwneud â dileu dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth. Mae'r hawl i benderfynu ar hyn wedi'i ddirprwyo i'r Aelod Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adran 151 o dan gynllun dirprwyo'r Cyngor.
  - Eitemau 9 a 11 sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf, 2017.
  - Eitemau 18 a 21 sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2017.
  - Eitem 23 sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 30 Hydref 2017.
  - Eitemau 29 a 30 sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2017.
  - Eitemau 35 a 36 sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr, 2017.
  - Eitemau 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46 a 47 sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod i drafod y Gyllideb ar 19 Chwefror 2018.

- **Eitemau a ohiriwyd tan ddyddiad diweddarach**

  - Eitem 6 (Diweddariad ar y Rhaglen Welliannau i'r Mân Ddaliadau) sydd wedi ei haildrefnu i'w thrafod yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Medi 2017 yn hytrach na 17 Gorffennaf 2017.
  - Eitem 8 (Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr) sydd wedi ei haildrefnu i'w thrafod yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith ddiweddaredig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o fis Gorffennaf, 2017 i Chwefror, 2018 yn amodol ar y newid ychwanegol yr adroddwyd amdano yn y cyfarfod.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2016/17

Cyflwynwyd er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn amlinellu'r canlyniadau dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol o 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid mai'r sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2016/17 yw tanwariant o £633k; mae hyn yn well na'r gorwariant a ragwelwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3. Mae'r esboniadau am yr amrywiadau sylweddol yn y cyllidebau a reolir gan wasanaethau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Mae nifer o eitemau'n cael eu heithrio o gyllidebau'r gwasanaeth am fod gwariant yn erbyn y penawdau hyn y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth. Ar ôl cymryd yr eitemau hyn i ystyriaeth, mae'r tanwariant cyffredinol i'r Cyngor yn gostwng i £311k a hwn yw'r swm sydd i'w drosglwyddo i Falansau Cyffredinol y Cyngor.

Amlygodd yr Aelod Portffolio Cyllid y canlynol fel pwyntiau i'w nodi -

- Ymrwymiad posibl oddeutu £2.8m i setlo hawliadau tâl cyfartal sy'n parhau i fod angen sylw, sy'n golygu y bydd lefel yr arian wrth gefn heb ei ymrwymo yn gostwng o £7.886m i £5.086m. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau cytundeb gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n caniatáu i'r Cyngor drin y gwariant fel gwariant cyfalaf a fyddai'n trosglwyddo'r gost i'r gyllideb refeniw dros nifer o flynyddoedd. Os bydd y cais yn llwyddiannus, yna bydd y swm o £2.8m yn arian nad yw wedi ei ymrwymo ac yn cael ei roi'n ôl yn y gronfa wrth gefn gyffredinol sydd ar gael i'r Cyngor.
- Roedd gorwariant o £861k yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y sefyllfa hon yn waeth na'r un a adroddwyd arni yn chwarter 3, sef £775k. Mae'r cynnydd yn nifer y lleoliadau all-sirol arbenigol ers cychwyn y flwyddyn academaidd newydd wedi arwain at bwysau ariannol sylweddol ar y Gwasanaeth ac mae'r gorwariant am y flwyddyn ariannol ar y cyllidebau hyn yn £396k. Cafwyd gorwariant o £331k ar gludiant ysgolion.
- Roedd gorwariant o £1,019k yn y Gwasanaethau Plant ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n sylweddol uwch na'r canlyniad a ragwelwyd yn Chwarter 3, a'r rheswm dros y gorwariant yw cost y ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, sy'n ddarpariaeth arbenigol fel arfer. Mae hon yn ddarpariaeth sy'n cael ei harwain gan y galw ac ychydig iawn o reolaeth sydd gan y gwasanaeth drosti. Fodd bynnag, mae mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith, yn bennaf drwy fabwysiadu ymagwedd ataliol, er mwyn sicrhau lles y boblogaeth sy'n derbyn gofal yn Ynys Môn fel y disgrifir ym mharagraff 3.3.2 yr adroddiad.

- Tanwariant o £1.541m yn y Cyllid Corfforaethol a briodolir yn bennaf i arian annisgwyl unwaith ac am byth. Bydd arbedion Cyllid Corfforaethol yn ariannu gorwariant ar wasanaethau.

  Daeth yr Aelod Portffolio Cyllid i'r casgliad bod yr arbedion a gyflawnwyd yn 2016/17 wedi deillio'n rhannol oherwydd amgylchiadau rhagluniaethol a bod rhaid cwestiynu a fyddent yn parhau i fod ar gael yn 2017/18. Y neges i wasanaethau yw ei bod yn hanfodol eu bod yn cyrraedd eu targedau arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.

  Ategodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 fod gwasanaethau, yn arbennig Addysg a Gwasanaethau Plant, o dan bwysau ariannol. Fodd bynnag, wrth i arbedion gael eu hychwanegu at y cyllidebau mae'n fwyfwy anodd i wasanaethau danwario; o dan yr amgylchiadau hynny mae'n rhaid rheoli cyllidebau'n fanwl ac yn ofalus.

  Nododd y Pwyllgor Gwaith y sefyllfa gyffredinol a chyfeiriwyd yn benodol at y gorwariant yn y Gyllideb Addysg Ganolog. Nododd y Pwyllgor Gwaith fod Cludiant Ysgol yn faes sy'n gorwario'n hanesyddol ac oherwydd hynny gofynnwyd a oedd y cyllidebau ar gyfer y ddarpariaeth hon, yn ogystal â'r cyllidebau ar gyfer lleoliadau tu allan i'r sir, yn realistig ac oni fyddai'n fwy buddiol defnyddio dull cyllidebu ar sail sero gyda chyllid yn cael ei ddyrannu ar sail angen? Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ei fod yn credu y gallai cludiant ysgol ganfod arbedion pellach drwy wneud trefniadau ystyriol a gofalus; daeth y gyllideb lleoliadau tu allan i'r sir o dan bwysau ym mis Medi ac nid oedd modd rhagweld hynny; mae'r gyllideb hon yn fwy agored i symudiad plant i mewn ac allan o'r system ofal.

  Nododd y Pwyllgor Gwaith fod blwyddyn ariannol 2017/18 yn debygol o fod yn un heriol a bod angen ei monitro'n ofalus.

  **Penderfynwyd –**

  - **Nodi'r sefyllfa a amlinellir mewn perthynas â pherfformiad ariannol 2016/17.**
  - **Bod y canlyniad yr adroddir arno yn y ddogfen yn parhau i fod yn ganlyniad amodol hyd nes y cwblheir yr archwiliad statudol.**

**6. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF 2016/17 – CHWARTER 4**

Cyflwynwyd er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn amlinellu canlyniadau dros dro y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio Cyllid at y tabl ym mharagraff 2.1 yr adroddiad sy'n rhoi crynodeb o wariant cyfalaf hyd at 31 Mawrth 2017. Adroddodd bod y gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yn £38.665m a gwariwyd £28.033m hyd at 31 Mawrth 2017, sef 73% o'r gyllideb. Y prif resymau dros y tanwariant oedd y tanwariant mawr yn erbyn y cyllidebau ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, y Cynlluniau Isadeiledd Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni a'r Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd. Gellir dwyn cyllid ar gyfer y prosiectau hyn ymlaen i 2017/18. Rhoddir manylion am wariant yr holl gynlluniau cyfalaf yn erbyn y gyllideb yn Atodiad B yr adroddiad. Cynigir bod £4.677m yn cael ei ddwyn ymlaen i 2017/18 yn sgil llithriad yn y cynlluniau cyfalaf na chafodd eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2017.

Cafodd y rhaglen gwella mân-ddaliadau ei hymestyn am flwyddyn. O gymryd i ystyriaeth y diffyg o £1.281m a ddygwyd ymlaen o 2015/16, cyfanswm derbyniadau cyfalaf o £2.854m ar ddiwedd y flwyddyn a gwariant o £1.226m, mae gwarged o £0.307m erbyn hyn. Bydd gwarged net o werthu mân-ddaliadau a'r rhaglen wella yn cael ei glustnodi i'w ddefnyddio'n benodol ac yn unig ar gyfer gwneud gwelliannau i fân-ddaliadau yn y dyfodol.

Ar y cyfan, roedd 2016/17 yn flwyddyn ariannol lwyddiannus o ran derbyniadau cyfalaf a derbyniwyd dros £5m.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi sefyllfa alldro drafft Rhaglen Gyfalaf 2016/17 a fydd yn destun archwiliad.**



DRAFFT

- **Cymeradwyo dwyn £4.677m ymlaen i 2017/18 oherwydd tanwariant ar y rhaglen yn sgil llithriad. Dygir ymlaen y cyllid ar gyfer y swm hwn hefyd i 2017/18.**

**7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI 2016/17 – CHWARTER 4**

Cyflwynwyd er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn amlinellu perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2016/17.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y sefyllfa ariannol ddrafft ar gyfer 2016/17 yn dangos tanwariant o £3,263k. Felly, cynhyrchodd y CRT warged o £525k (yn erbyn diffyg cynlluniedig o £2,738k) gan adael balans o £7,567k yn y cronfeydd wrth gefn y gellir ei ddwyn ymlaen i ariannu rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol, gan gynnwys codi tai newydd, fel yr amlinellir yn y cynllun busnes 30 mlynedd diweddaraf. Gweler mwy o fanylion yn Atodiad A yr adroddiad.

Gofynnodd y Cadeirydd i Sgriwtini dderbyn adroddiadau diweddaru chwarterol ar y gyllideb CRT i gyd-fynd â'r adroddiadau ariannol rheolaidd a ddarperir i sgriwtini mewn perthynas â'r cyllidebau refeniw a chyfalaf. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 mai dyma oedd y bwriad.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2016/17.**

- **Bod y sefyllfa alldro yr adroddir arni yn y ddogfen yn parhau i fod yn ganlyniad dros dro hyd nes y cwblheir yr archwiliad statudol.**

**8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU DEWISOL YN Y DRETH I FUSNESAU'R STRYD FAWR AM GYFNOD DROS DRO 2017/18**

Cyflwynwyd er ystyriaeth, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith ddefnyddio ei bwerau dewisol i ganiatáu gostyngiad dan Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol Cymru 1988 i weithredu cynllun gostyngiadau dros dro yn y dreth fusnes.

*Wedi datgan diddordeb sy'n rhagfarnu yn y mater hwn, gadawodd y Cynghorwyr R.G. Parry, OBE, FRAgS ac Ieuan Williams y cyfarfod ac nid oeddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ar y mater hwn.*

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn darparu gostyngiadau yn nhrethi annomestig y stryd fawr am flwyddyn yn unig o 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018. Mae'r gostyngiad wedi'i dargedu tuag at adwerthwyr stryd fawr yng Nghymru, a bydd yn darparu dwy haen o ostyngiadau ar gyfer trethi annomestig ar gyfer adwerthwyr cymwys ar y stryd fawr sydd mewn eiddo â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai ym mlwyddyn ariannol 2017/18, yn amodol ar gyfyngiadau cymorth gwladol. Rhaid llenwi ffurflen gais i ymgeisio am y cymorth hwn. Mae mwy o fanylion am y meini prawf cymhwyster ac eithriadau yn Atodiad A yr adroddiad.

**Penderfynwyd –**

- **Bod yr Awdurdod yn defnyddio ei bwerau dewisol i ganiatáu dan Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol 1988 gweithredu cynllun dros dro Llywodraeth Cymru ar gyfer "Gostyngiadau yn Nhrethi'r Stryd Fawr". Rhoddir y gostyngiad yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru - "Canllawiau Trethi Annomestig - Gostyngiadau yn Nhrethi'r Stryd Fawr" 19 Ebrill, 2017 fel y gwelir yn Atodiad A i'r adroddiad.**
- **Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor i Swyddogion (rhan 3.5.3.5.19 y Cyfansoddiad) yn gwneud trefniadau priodol i weinyddu a phenderfynu ar geisiadau dan y Cynllun "Gostyngiadau yn Nhrethi Annomestig y Stryd Fawr."**

## 9. STRATEGAETH EFFEITHIOLRWYDD YNNI

Cyflwynwyd er ystyriaeth a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) yn ymgorffori Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni am y cyfnod 2017 i 2022.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y strategaeth wedi'i llunio mewn ymateb i ymrwymiadau cenedlaethol ar ynni yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; y cynnydd mewn costau ynni a niwed tymor hir i'r amgylchedd. Mae'r strategaeth hefyd yn dynodi swyddogaethau a chyfrifoldebau er mwyn gweithredu'r strategaeth, i nodi a gwneud y defnydd gorau o grantiau gan y Llywodraeth ac i ledaenu'r neges ynglŷn ag arbed ynni ar draws y Cyngor. Nod y strategaeth yw galluogi Cyngor Sir Ynys Môn i wneud gostyngiad o 15% yn ei ddefnydd o ynni erbyn 2022 ac i sicrhau bod yr holl ynni y mae'n ei ddefnyddio'n dod o ffynhonnell garbon niwtral erbyn 2050. Roedd cyfanswm gwariant blynyddol y Cyngor ar ynni a gwastraff yn 2015/16 yn fwy na £2.1m; drwy fabwysiadu argymhellion y strategaeth gall y Cyngor liniaru effaith cynnydd mewn costau tanwydd sy'n uwch na chwyddiant. Mae'r Cyngor wedi rhoi nifer o brosiectau arbed ynni ar waith yn barod, ac mae rhai ohonynt wedi dwyn ffrwyth. Yr amcanion cyffredinol yw lleihau'r defnydd o ynni; hyrwyddo ffynonellau ynni gwyrdd a chreu cyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant ynni gwyrdd. Ar y dechrau bydd hyn yn cael ei wneud ar sail buddsoddi i arbed, gyda'r disgwyl y bydd llawer o'r gwariant hwnnw'n cael ei adennill dros amser yn sgil costau ynni is.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo y bydd y Pwyllgor Gwaith yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd; mae Aelodau'r Pwyllgor Gwaith hefyd yn awyddus i dderbyn gwybodaeth fwy penodol am gynlluniau arbed ynni gwirioneddol a chynlluniau posib.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) fod gan y Cyngor raglen o waith arbed ynni sy'n gwbl ddibynnol ar grantiau gan Lywodraeth Cymru e.e. rhaglen ariannu SALIX Cymru. Mae'r Awdurdod wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran sicrhau cyllid ar gyfer goleuadau stryd, gyda 40% o oleuadau stryd erbyn hyn yn oleuadau LED. Talwyd amdanynt drwy ddefnyddio arbedion ar yr ynni a ddefnyddir a chostau cynnal a chadw is goleuadau o'r fath. Derbynnir nad oes arian cyfalaf ar gael yn fewnol yn y Cyngor ar hyn o bryd i gefnogi'r rhaglen hon gan fod blaenoriaethau eraill yn y rhaglen gyfalaf.

Er bod y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r strategaeth, gofynnwyd am sicrwydd ynglŷn â pha mor gyraeddadwy yw nodau'r strategaeth o ystyried y cyfyngiadau ariannol. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith hefyd am gael gweld y rhaglen o waith arbed ynni y cyfeiriodd y Swyddog ati ac awgrymwyd ymhellach fod ffynonellau cyllido eraill y gellir ymchwilio iddynt ar gyfer y rhaglen e.e. benthyciadau di-log.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) bod modd gwireddu'r strategaeth. Mae grantiau/cyllid ar gael ar gyfer goleuadau, er enghraifft, y gellir eu talu'n ôl dros gyfnod penodol ac os yw cynllun yn cyfarfod â meini prawf effeithlonrwydd ynni yna mae siawns dda o dderbyn grant - cynllun blaenoriaeth uchel arall yw adnewyddu boeleri'r canolfannau hamdden. Dywedodd y Swyddog y bydd y rhaglen arbed ynni yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn y dyfodol agos.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) y bydd y Grŵp Tir ac Asedau Corfforaethol yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun effeithlonrwydd ynni.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Effeithiolrwydd Ynni am y cyfnod 2017 i 2022 fel y'i chyflwynwyd.**

## 10. GORCHYMYN PRYNIANT GORFODOL – FFORDD GYSWLLT LLANGEFNI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) yn gofyn am ganiatâd i wneud Gorchymyn Pryniant Gorfodol o dan adran 239 Deddf Priffyrdd 1980 i gaffael tir sydd ei angen ar gyfer Rhan 3 o Ffordd Gyswllt Llangefni.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod adrannau 1 a 2 Ffordd Gyswllt Llangefni wedi eu hagor ym mis Mawrth 2017 a bod gwaith ar ran 4 wedi dechrau ym mis Mehefin 2017. Rhaglenwyd gwaith rhagbaratoadol ar ran 3 i gychwyn ym mis Hydref 2017 ac er bod telerau

wedi eu cytuno â'r tirfeddiannwr, nid yw pryniant y tir wedi'i gwblhau oherwydd anghydfod rhwng cyfarwyddwyr y cwmni. Er mwyn symud ymlaen mae angen awdurdod ffurfiol ar gyfer GPG gyda'r gobaith y bydd hynny'n cymell y tirfeddianwyr i ddod i gytundeb.

**Penderfynwyd –**

- **Bod y Cyngor yn gwneud Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG) o dan adran 239 Deddf Priffyrdd 1980 i gaffael tir sydd ei angen ar gyfer Rhan 3 o Gynllun Ffordd Gyswllt Llangefni fel a ddangosir ar y cynllun sydd wedi'i atodi i'r adroddiad.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) gymryd yr holl gamau sydd eu hangen i sicrhau cadarnhau'r GPG.**

### 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd o dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 12, oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y'i cyflwynwyd.

### 12. FFOADURIAID SYRIA

Cyflwynwyd er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn amlinellu'r cynnydd hyd yma o ran darparu'r cynllun Adsefydlu Ffoaduriaid Syria yn Ynys Môn.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y sefyllfa a chroesawyd y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma.**
- **Cadarnhau'r camau nesaf, sef cymryd hyd at 10 unigolyn dros y 12 mis nesaf.**
- **Cadarnhau argymhelliad y Swyddogion bod y Cyngor ddim yn cymryd rhan ar hyn o bryd yn y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu pennau eu hunain sydd yn ceisio lloches, am y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiad.**

### 13. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn cynnwys dwy swydd ychwanegol ar y Pwyllgor Gwaith. Hysbyswyd y Pwyllgor Gwaith yr ystyrir bod y newidiadau'n angenrheidiol er mwyn darparu capasiti ychwanegol a'r hyblygrwydd mwyaf posibl er mwyn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth penodol o fewn y Cyngor ac y byddant yn adlewyrchu darpariaethau statudol. Byddai cynyddu aelodaeth y Pwyllgor Gwaith yn y modd sy'n cael ei argymell yn gost niwtral ar y sail bod y Dirprwy Arweinydd ac un Cadeirydd yn parhau i wrthod derbyn yr uwch gyflogau sy'n daladwy ar gyfer eu swyddi.

**Penderfynwyd –**

**Argymell bod adran 2.7.2 y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio i ddarllen fel a ganlyn –**

**"Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cynnwys yr Arweinydd ynghyd ag o leiaf 2, ond dim mwy na 9 Cynghorydd arall, gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd, a bydd y cyfan yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Gwaith gan yr Arweinydd."**

- **Argymell bod nifer y swyddi ar y Pwyllgor Gwaith sy'n gymwys i dderbyn cyflog uwch yn codi ar unwaith o 7 i 8.**

- **Cytuno mewn egwyddor bod y Cyngor yn cyflwyno cais i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) am ganiatâd i godi nifer Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gymwys i dderbyn cyflog uwch o'r cap presennol o 15 hyd at uchafswm o 16.**



DRAFT

- **Ar yr amod y bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cais terfynol ac ar yr amod y ceir caniatâd gan PACGA , rhoi awdurdod i benodi Aelod pellach o'r Pwyllgor Gwaith (cyfanswm o 9) a fydd yn gymwys i dderbyn cyflog uwch.**

- **Cydnabod y bydd penodi dau Aelod pellach o'r Pwyllgor Gwaith yn gost niwtral ar y sail y byddant yn cael eu cyllido o arbedion o gyflogau'r Dirprwy Arweinydd ac un Cadeirydd a fyddant ill dau yn parhau i wrthod y cyflogau uwch sy'n daladawy ar gyfer eu swyddi.**

### 14. CYNLLUN ARWEINYDDIAETH STRATEGOL AR GYFER YSGOLION

Cyflwynwyd, er ystyriaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Dysgu yn amlinellu'r camau a'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu cynllun datblygu i ddatblygu arweinyddion ysgol ar gyfer y dyfodol yn Ynys Môn.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Addysg bod y cynigion yn seiliedig ar egwyddorion y rhaglen Foderneiddio Ysgolion a fabwysiadwyd eisoes a'u bod yn ymateb i'r newidiadau yn Strwythur y Gwasanaeth Ysgolion a'r angen i ddatblygu arweinwyr ysgol yn lleol.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y cynigion a gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cwblhau a gweithredu'r Cynllun/Rhaglen Ddatblygu yn ogystal ag unrhyw ymrwymiadau/costau ariannol y tu hwnt i'r costau amcangyfrifedig o £56k yn y flwyddyn gyntaf.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu nad cwrs unwaith ac am byth yw'r Rhaglen Ddatblygu ond yn hytrach ei bod yn rhaglen ddatblygu barhaus dros gyfnod o amser ac y bydd modd teilwra gwahanol fath o gefnogaeth yn ôl anghenion yr unigolyn tu mewn a thu allan i'r ysgol. Mae nifer o unigolion wedi eu hadnabod eisoes i gymryd rhan yn y rhaglen ac mae gwaith cefnogi rhagbaratoadol a datblygiad proffesiynol wedi dechrau'n barod. Rhagwelir y bydd y modd ariannu'r rhaglen drwy'r Grant Arloesedd Ysgolion Bach a Gwledig sydd eto i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Os na fydd Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r grant mae'n bosib y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gefnogi trefniadau i gyllido'r rhaglen hon yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Addysg yn hyderus bod y pecyn ar gyfer Arweinwyr Ysgolion y Dyfodol yn cyd-fynd â'r gweithgareddau a nodwyd yn y meini prawf ar gyfer y grant.

**Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Datblygu i ddatblygu arweinwyr ysgol y dyfodol i gynnwys yr elfennau a amlinellir yn yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Gorffennaf 2017** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Medi 2017 – Ebrill 2018;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Gyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Medi 2017 – Ebrill 2018. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Medi 2017 – Ebrill 2018** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Medi 2017** | | | |
| 1 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br><br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adran 151 | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>29 Medi 2017 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |
| 3 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | 4 Medi 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | 26 Medi 2017 |
| 4 | **Cynllun Corfforaethol 2017 – 2022**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | 4 Medi 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | 26 Medi 2017 |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | 4 Medi 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |
| 6 | **Buddion Gweithwyr**<br><br>Awdurdodi prynu gwasanaeth a reolir ar gyfer buddion gweithwyr. | | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |
| 7 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |
| 8 | **Adolygiad Blynyddol - Rheoli'r Trysorlys 2016/17** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |
| 9 | **Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau**<br><br>Argymell i'r Cyngor llawn y newidiadau a gynigiwyd gan yr Uned | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn rhoi argymhelliad ymlaen I'r Cyngor, gan y bydd y penderfyniad terfynol | Adnoddau / Busnes y Cyngor | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Lynn Ball | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | 26 Medi 2017 |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Caffael cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad terfynol. | yn newid y Cyfansoddiad. | | Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng John Griffith<br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | | |
| 10 | **Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella** | | Gwasanaethau Plant | Llyr Bryn Roberts<br>Pennaeth Interim – Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | 11 Gorffennaf a 4 Medi 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017<br><br>**I'w gadarnhau** | |
| 11 | **Adolygiad Perfformiad o'r Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC)** | | | Caroline Turner<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol – Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |
| 12 | **Polisi Gosod Sensitif** | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn oherwydd ei gysylltiad â'r Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai. | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |
| 13 | **Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr** | | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | **Rhaglen Welliannau i'r Mân-ddaliadau - diweddariad** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Dewi Williams<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng Bob Parry OBE | 4 Medi 2017<br>(I'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |
| 15 | **Fframwaith Etifeddiaeth Prosiectau Mawr**<br><br>Cymeradwyo Fframwaith. | Mater i'r Pwyllgor Gwaith o dan Rh13(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000, hy gan nad yw wedi'i neilltuo i'r Cyngor nag ychwaith yn cael ei wahardd o dan Reoliadau Swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Medi 2017 | |
| | | | | **Hydref 2017** | | | |
| 16 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | |
| 17 | **Cynllun Strategol y Gyllideb Gyfalaf 2018/19** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni - Achos Busnes Amlinellol**<br><br>Cymeradwyo'r achos busnes amlinellol. | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Hydref 2017 | |
| | | | | **Tachwedd 2017** | | | |
| 19 | **Cyllideb 2018/19 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | 17 Hydref 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>6 Tachwedd 2017 | |
| | | | | | | | |
| 20 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 21 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | 13 Tachwedd 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 23 | **Sylfaen y Dreth Gyngor 2018/19**<br><br>Pennu Sylfaen y dreth ar gyfer 2018/19 | Mae hyn yn fater dirprwyiedig i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn dod o fewn fframwaith y Cyngor ar gyfer gosod y Gyllideb a'r Dreth Gyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| 24 | **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19**<br><br>Argymell i'r Cyngor llawn y cynllun arfaethedig ar gyfer 2018/19. | Mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn fel rhan o Fframwaith Gosod y Gyllideb a'r Dreth Gyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | 12 Rhagfyr 2017 |
| 25 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | | Dysgu | Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | 13 Tachwedd 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 26 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | 14 Tachwedd 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Tachwedd 2017 | |
| | | | | **Rhagfyr 2017** | | | |
| 27 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br><br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adran 151 | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>15 Rhagfyr 2017 | |
| | | | | | | | |
| 28 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |
| 29 | **Rheoli'r Trysorlys 2017/18 – Adolygiad Canol Blwyddyn** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 30 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>18 Rhagfyr 2017 | 28 Chwefror 2018 |
| | | | | **Ionawr 2018** | | | |
| 31 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ionawr 2018 | |
| | | | | **Chwefror 2018** | | | |
| 32 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br><br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adran 151 | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>28 Chwefror 2018 | |
| | | | | | | | |
| 33 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | **Cyllideb 2018/19 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | 5 Chwefror 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | 28 Chwefror 2018 |
| 35 | **Ffioedd a Thaliadau 2018/19** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 36 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 37 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes**<br><br>Mabwysiadu polisi newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 38 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 39 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 40 | **Ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio yn y Sector Annibynnol 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |
| 41 | **Graddfeydd Talu am wasanaethau Gofal Cartref annibynnol yn ystod 2018/19**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Chwefror 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mawrth 2018** | | | | | | |
| 42 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 43 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 44 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 45 | **Polisi Dewisol Taliadau Tai 2018/19**<br><br>Adrodd ar weinyddiaeth y polisi ac unrhyw newidiadau yr argymhellir – pennu polisi. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Medi 2017 – Ebrill 2018

Diweddarwyd: 7 Gorffennaf 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ebrill 2018** | | | |
| 46 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Ebrill 2018 | |

Tudalen 24

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL A'R PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **26 MEHEFIN & 17 GORFFENNAF 2017** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2016/17)** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD THOMAS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **SCOTT ROWLEY** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Hwn yw cerdyn sgorio olaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17.

**1.2** Mae'n dangos sefyllfa gymharol gadarnhaol y Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer Chwarter 4.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

**1.3.1** Cydnabyddir meysydd sy'n tanberfformio (dangosyddion coch neu ambr ar y cerdyn sgorio) a sefydlir mesurau priodol ar gyfer eu gwella fel a nodir yn yr adroddiad. Bydd angen i'r rhain cael eu gyflwyno bob mis i'r aelod portffolio perthnasol a'r byrddau rheoli cysylltiedig.

**1.3.1.1** Cynnal gweithdy gyda'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn ystod Ch2 i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol a fydd yn cael eu cynnwys ar gerdyn sgorio 17/18.

**1.3.1.2** Adolygu'r targedau ar gyfer 17/18 er mwyn sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy ac mewn achosion lle nad yw targedau'n cael eu cyflawni blwyddyn ar ôl blwyddyn, bod disgwyl iddynt o leiaf wella

**1.3.2** Mae data salwch yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu a targedu adnoddau i gynnal paneli herio salwch gwasanaeth yn ystod 2017/18, sydd wedi bod yn allweddol wrth wella ein ffigyrau salwch ar gyfer

2016/17

**1.3.3** Y Gwasanaethau Plant i fonitro'r cynllun gwella gwasanaeth gan gynnwys perfformiad yn erbyn targedau drwy'r Panel Sgriwtini Plant.

**1.3.4** Darperir cymorth pellach i werthuso'r prosesau ar gyfer casglu'r wybodaeth ar gyfer y dangosyddion yn y maes Dysgu yn ystod y flwyddyn ariannol newydd a'r angen i wella perfformiad mewn ysgolion ar bob lefel.

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd y mater gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin ac mae eu sylwadau wedi eu hadlewyrchu yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Sylwadau wedi eu cynnwys yng nghorff yr adroddiad |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 4, 2016/17 a'r Cerdyn Sgorio.
Atodiad B – Crynodeb Byrddau Rhaglen, Ebrill 2017
Atodiad C – Adroddiad Rheoli Absenoldeb Mehefin 2017, SAC

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Adroddiad monitro Cerdyn Sgorio 2016/17 - Chwarter 3 (fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2017 a'i dderbyn ganddo).

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2016/17)**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Un o amcanion y Cyngor dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau bod gennym ddull o dystiolaethu a chyflwyno gwelliant parhaus ar draws y sefydliad. I'r perwyl hwn, llunnir adroddiad ar berfformiad bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos y cynnydd a wnaed neu'r diffyg cynnydd (fel sy'n berthnasol).

**1.2** Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i roi gwybod i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn dangosyddion sy'n dangos yn eglur bod gwaith dydd i ddydd y Cyngor yn cael ei wneud yn llwyddiannus ac i gynorthwyo i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad ar berfformiad.

**1.3** Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad A) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd 2016/17 a bydd yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mehefin.

## 2.1. RHEOLI PERFFORMIAD

**2.1.1** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad yn dangos perfformiad yn erbyn dangosyddion y gofynnwyd amdanynt gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**2.1.2** Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'n galonogol nodi bod y mwyafrif o'r dangosyddion wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, nodwn fod 2 o ddangosyddion yn tanberfformio ac yn Ambr neu'n Goch yn erbyn eu targed am y flwyddyn.

**2.1.3** Mae un dangosydd o fewn y Gwasanaethau Oedolion yn parhau i danberfformio yn erbyn y targed ar gyfer y flwyddyn –

(i) PM19 – AMBR - Oedi gyda throsglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn. Ch4 – 6.05 Targed - 1.5. Mae hwn yn ddangosydd newydd ac mae'r targed yn un uchelgeisiol. Mae diffyg capasiti yn y maes gofal cartref yn cael effaith negyddol ar y DP hwn a nodwyd yn yr adroddiad ar Ch3 nad oedd y targed hwn am gael ei gyflawni ar gyfer y flwyddyn am y rheswm hwn.

***Camau lliniaru*** – Mae'r camau lliniaru a nodwyd yn yr adroddiad Ch3 yn parhau i fod yn berthnasol. Mae cynllun trawsnewid yn mynd rhagddo i sicrhau mwy o gapasiti gofal cartref cynhwysfawr yn ystod 2017. Mae problemau ychwanegol yn codi yn sgil diffyg capasiti nyrsio EMI. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r gwasanaeth yn datblygu capasiti arbenigol ychwanegol mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd.

**2.1.4** Roedd un dangosydd yn y Gwasanaethau Plant yn parhau i danberfformio o Ch3 fel a ganlyn –

(i) SCC/025 - y % o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yr oedd angen eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau Ch4 – 79.35% Targed – 100% **COCH**. Mae hyn yn cymharu gyda pherfformiad o 82.79% yn 2015/16. Trafodwyd y dangosydd hwn hefyd yn yr adroddiad ar gerdyn sgorio Ch3.

***Camau lliniaru*** – Roedd y cynnydd yn y nifer o Blant Mewn Gofal (LAC) wedi arwain at gynnydd yn y galw sydd wedi effeithio ar berfformiad y dangosydd perfformiad yma. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar wella mewn nifer o feysydd allweddol. Mae disgwyliad clir bod plant yn cael eu gweld o fewn yr amserlen berthnasol. Mae ymyriadau pwrpasol yn cael ei gynnal gyda Gweithwyr Cymdeithasol unigol i wella eu perfformiad mewn perthynas ag ymweliadau statudol plant mewn gofal. Mae atebolrwydd proffesiynol am eu perfformiad eu hunain yn cael ei bwysleisio drwy sesiynau goruwchwylio a chyfarfodydd tîm.

**2.1.5** Mae dangosyddion 15-18 ar y cerdyn sgorio'n ymwneud â pherfformiad ysgolion. Mae'r gwasanaeth Dysgu'n cydnabod bod y canlyniadau ar gyfer dangosyddion 15 a 16, perfformiad CA4 a CA3 wedi gwella ond nad ydynt wedi gwella ar yr un lefel â'r gwelliant ar draws Cymru a bod angen gwneud mwy o waith i wella'r sefyllfa'n gyflymach. Mae perfformiad dangosyddion 17 ac 18, CA2 a'r Cyfnod Sylfaen wedi dirywio o gymharu â pherfformiad 2014/15. Mae'r gwasanaeth wedi nodi'r angen i wella'r ddau gam, yn enwedig y Cyfnod Sylfaen.

**2.1.7** Er bod gweddill y dangosyddion i gyd yn **WYRDD** neu'n **FELYN** yn y rhan sy'n ymwneud â rheoli perfformiad, dylid nodi nad yw hyn yn golygu y bydd ein safle ar lefel genedlaethol yn gwella. Er enghraifft, yn seiliedig ar ganlyniadau chwartel 15/16, byddai chwarteli 6 o'n dangosyddion yn newid (dim ond yn erbyn 8 dangosydd mae modd i ni gymharu ein hunain yn genedlaethol ar hyn o bryd) –

(i) Byddai 3 yn dangos gwelliant gymharu â chanlyniad chwartel 15/16

a. WMT/009b - Canran y gwastraff sirol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu – oherwydd ein llwyddiant yn cyflawni 65.79% y flwyddyn yma
b. WMT/004b - Canran y gwastraff sirol a anfonwyd i'w dirlenwi – yn disgyn y flwyddyn yma i 6.6%
c. THS/011c - % y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan (blynyddol) – gwella i 10.1%.

(ii) Byddai s yn dangos dirywiad o gymharu â chanlyniad chwartel 15/16

a. STS/005b - Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glanweithdra
b. STS/006 - Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ar ôl i rywun adrodd amdanynt
c. SCC/025 - % yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau

**2.1.8** Er bod hon yn stori gymysg at ei gilydd, ni fyddwn yn gwybod sut yr ydym wedi perfformio o gymharu ag eraill hyd oni chaiff eu canlyniadau nhw ar gyfer 16/17 eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi. Caiff y darlun cyffredinol sylw yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gaiff ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith cyn ei fabwysiadu gan y Cyngor yn yr hydref.

**2.1.9** Mae nifer o ddangosyddion wedi dod yn agos at neu wedi cyflawni eu targedau ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn galonogol, fodd bynnag, mae 4 o'r dangosyddion hynny wedi dirywio blwyddyn ar flwyddyn. Er mwyn sicrhau cynnydd a gwella ein statws fel cyngor sy'n cyflawni, mae'r **UDA yn argymell** -

**2.1.9.1** Cynnal gweithdy gyda'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn ystod Ch2 i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol a fydd yn cael eu cynnwys ar gerdyn sgorio 17/18.


**2.1.9.2** Adolygu'r targedau ar gyfer 17/18 er mwyn sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy ac mewn achosion lle nad yw targedau'n cael eu cyflawni blwyddyn ar ôl blwyddyn, bod disgwyl iddynt o leiaf wella.

**2.1.10** Mae Atodiad B yn dangos y rhaglen waith gyfan y mae'r ddau Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol yn eu goruchwylio. Er bod rhai o'r rhaglenni / prosiectau'n GOCH, mae'n bwysig nodi bod y materion a amlygwyd yn cael eu rheoli a'u tracio drwy'r Byrddau sy'n cyfarfod bob dau fis.

## 2.2 RHEOLI POBL

**2.2.1** O ran Rheoli Pobl, nodir bod perfformiad y Cyngor o safbwynt cyfraddau salwch (*dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio dan 'rheoli pobl')* ar ddiwedd 2016/17, wedi cyflawni'r targed corfforaethol o **9.78** Diwrnod o Salwch fesul pob aelod o staff ALIC) yn erbyn y targed o 10 Diwrnod o Salwch fesul pob aelod o staff ALIC a'i fod yn **WYRDD** ar y cerdyn sgorio. Mae hwn yn welliant sylweddol o'i gymharu gyda 2015/16 pryd cofnodwyd 11.68 Diwrnod o Salwch fel ALIC. Mae hyn yn gyfanswm o 4737 o ddiwrnodau salwch yn well na 2015/16.

**2.2.2** Mae'r canlyniad cadarnhaol hwn yn adlewyrchu'r gwaith caled a wnaed gan y Cyngor yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf dan arweiniad y Prif Weithredwr a'r panelau herio salwch a gefnogwyd gan AD. Mae graff isod yn dangos y gwelliant hwn (Tabl 1).





Tabl 1

**2.2.3** Dylai'r canlyniad 9.78 Diwrnod o Salwch fesul pob aelod o staff ALIC weld ein perfformiad ar lefel genedlaethol yn gwella o'r chwartel gwaelod i'r chwartel canolrifol uwch (yn seiliedig ar ddata perfformiad 2015/16).

**2.2.4** Mae perfformiad y Gwasanaethau yn erbyn y targedau hyn ar gyfer Ch4 yn nodi mai dim ond 2 o Wasanaethau sy'n GOCH o gymharu â'u targedau ar gyfer y chwarter:

**2.2.4.1** Gwasanaethau Plant- COCH – 13.91 o ddiwrnodau o salwch fesul ALIC (Targed 10.5). Mae cyfraddau salwch wedi gwella'n sylweddol yn y gwasanaeth yn ystod Ch4 (Tabl 2).





Tabl 2

**2.2.4.2** Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo - COCH – 11.23 o ddiwrnodau o salwch fesul ALIC (Targed o 9.5). Gwelwyd gwelliant bychan yng nghyfraddau salwch y gwasanaeth yn ystod Ch4 (Tabl 4) gyda gostyngiad bach ar eu cyfradd salwch cyffredinol o gymharu â canlyniad 15/16 o 11.18.

**2.2.4.3** Mae'r gwasanaeth yn cynnwys nofer o is-adrannau ac mae nifer o'r is-adrannau hynny wedi perfformio'n dda yn erbyn targedau eleni, sef Priffyrdd (6.6 diwrnod fesul CALI) ac Eiddo (9.09 diwrnod fesul CALI).

**2.2.4.4** Mae Gwastraff (19 diwrnod fesul CALI), wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol gyda nifer o achosion salwch hirdymor sydd bellach wedi gadael y Cyngor. Rhagwelir o ganlyniad, bydd y gwelliant yn parhau yn 17/18. Yn o'gystal, rydym wedi gweld rhywfaint o welliant yn y cyfraddau salwch Glanhawyr (10.84 diwrnod fesul CALI), ond mae yna broblem wedi bod gyda gweithwyr Trafnidiaeth Cymunedol Môn (MCT) (25.2 diwrnod fesul CALI) lle mae salwch difrifol wedi effeithio perfformiad yr uned.

**2.2.4.5** Fodd bynnag, er bod perfformiad yn erbyn y targed wedi llithro yn ystod 16/17, o'r 334 o staff y mae'r gwasanaeth yn cyflogi, roedd 132 ohonnynt wedi bod yn bresennol bob dydd o'r flwyddyn.




Tabl 3

**2.2.5** Nid yw'r ffigyrau yr adroddwyd arnynt yn ystadegau salwch eleni'n cynnwys y diwrnodau salwch a gymerwyd oherwydd profedigaeth (916 o ddiwrnodau). Petaem yn cynnwys profedigaethau yn y swm, byddem yn parhau i weld gwelliant sylweddol o gymharu â 15/16 (10.18 Diwrnod fesul pob aelod o staff ALIC), fodd bynnag byddem fymryn ar yr ochr anghywir o'r targed corfforaethol. Mae'r newid hwn yn y swm wedi cael ei wneud er mwyn cwrdd â'r canllawiau a ddarparwyd gan Uned Data Cymru mewn perthynas â'r dangosydd cenedlaethol.

**2.2.6** Er mwyn parhau i gadw i fyny â rheoli salwch, mae targedau Gwasanaeth wedi cael eu nodi ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gwelir y rhain yn Nhabl 4 isod:

| Gwasanaeth | Targed 2017/18 |
|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | 12.5 |
| Gwasanaethau Plant | 12.5 |
| Busnes y Cyngor | 8 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | 10 |
| Tai | 10 |
| Dysgu | 9.5 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 7 |
| Adnoddau | 7 |
| Uwch Reolwyr | 7 |
| Trawsnewid | 7 |

**2.2.7** Un maes lle methwyd â chwrdd â'r targed oedd y Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP). Mae ffigyrau CAP ar gyfer Ch4, 57%, wedi gostwng o gymharu â pherfformiad o 75% yn Ch3 (nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys Ysgolion). Er bod hyn yn ddirywiad ac er bod y dangosydd yn GOCH bellach ar y cerdyn sgorio, mae Adnoddau Dynol wedi nodi bod safon y CAP sy'n dod drwodd gan y gwasanaethau wedi gwella'n sylweddol. Atgoffwyd Gwasanaethau o'r angen i gynnal CAP a bydd hyn yn faes sydd yn cael sylw arbennig yn y paneli herio yn 17/18.

**2.2.8** Yn dilyn cais y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am adroddiad dilyn-i-fyny gan Swyddfa Archwilio Cymru ar reoli absenoldeb yn y Cyngor, mae'r adroddiad bellach wedi bod i law. Mae'r adroddiad yn un cadarnhaol ac wedi cael ei drafod gyda'r UDA. Mae'n dangos o safbwynt y Swyddfa Archwilio Cymru –

**2.2.8.1** bod y Cyngor wedi atgyfnerthu ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer rheoli presenoldeb;

**2.2.8.2** bod y Cyngor wedi blaenoriaethu rheolaeth presenoldeb ac wedi atgyfnerthu ei ddull strategol sy'n gadarn ac yn heriol; a

**2.2.8.3** bod rheolaeth y Cyngor o bresenoldeb staff y Cyngor wedi gwella'n sylweddol a'i fod yn fwy rhagweithiol nag o'r blaen o ran sicrhau bod ysgolion yn atebol am reoli presenoldeb.

**2.2.9** Er bod hyn yn gadarhaeol yn ei natur, fodd bynnag mae'r adroddiad yn nodi dau cynig ar gyfer gwella –

**2.2.9.1** Er mwyn herio ysgolion yn briodol mewn perthynas â'u trefniadau rheoli presenoldeb, dylai'r Cyngor barhau i sicrhau bod ganddo gapasiti i ddarparu data cymharol yn fisol i bob ysgol yn ymwneud â chyfraddau absenoldeb athrawon a staff nad ydynt yn athrawon, a darparu'r gefnogaeth a'r arweiniad berthnasol i bob ysgol er mwyn gweithredu trefniadau rheoli presenoldeb.

**2.2.9.2** Dylai'r Cyngor ystyried perfformiad presenoldeb ysgolion yn ei adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a Sgriwtini Corfforaethol sy'n ymwneud â gwasanaethau'r Cyngor.

**2.2.10** Mae'r adroddiad - Adolygiad o Reolaeth Presenoldeb, Cyngor Sir Ynys Môn – SAC, yn atodol fel Atodiad C.

**2.2.11** Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Cyngor arolwg staff am y tro cyntaf ers 2013 ac mae 3 o ddangosyddion wedi cael eu cynnwys yn yr adran ar Reoli Pobl (dangosyddion 15-17). Cymerodd cyfanswm o 560 o staff ran yn yr arolwg a rydd lefel hyder 95% i'r cyngor (gyda hyblygrwydd o 4% y naill ochr) bod y data'n cynrychioli teimladau'r staff ar draws y cyngor.

**2.2.12** Mae'r argymhellion a ddaeth allan o'r arolwg staff wedi cael eu cyflwyno i'r UDA a byddant yn cael eu cynnwys yn Hunanasesiad y Cyngor. Mae Hunanasesiad y Cyngor yn ymdrech gydweithredol gan nifer o reolwyr a staff ar draws y sefydliad sy'n nodi cryfderau a gwendidau o fewn ffiniau gweithredu. Rhagwelir y bydd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno i aelodau etholedig yn yr wythnosau nesaf.

***2.2.13 Mae'r UDA felly'n argymell –***

**2.2.13.1** *Mae data salwch yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu a targedu adnoddau i gynnal paneli herio salwch gwasanaeth yn ystod 2017/18, sydd wedi bod yn allweddol wrth wella ein ffigyrau salwch ar gyfer 2016/17*.

## 2.3 GWASANAETH CWSMER

**2.3.1** Roedd dau o'r dangosyddion newydd o ran newid sianelau yn edrych ar lansio AppMôn yn llwyddiannus, lle defnyddiodd pobl y dechnoleg i roi gwybod am 248 o faterion a oedd angen sylw hyd at ddiwedd Ch4 (yn cynnwys gadael gwastraff yn anghyfreithlon, goleuadau stryd ddiffygiol, canmoliaethau neu gwynion, pafinau wedi torri, ffurflenni data-bas clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Saethodd y ffigwr hwn i fyny i 1001 o adroddiadau yn ystod Ch4 oherwydd cyflwynwyd ffurflenni ar-lein ar y wefan. Credir y bydd yr adroddiadau hyn yn parhau i gynyddu wrth i fwy o ffurflenni gael eu hychwanegu i'r wefan. Yn anffodus, nid ydym ar hyn o bryd yn medru cael gwybod gan y cyflenwr faint o weithiau y mae AppMôn wedi ei lawrlwytho.

**2.3.2** Mae'r dangosyddion sy'n weddill yn canolbwyntio ar y wefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cyhoeddus. Cafwyd 541k o ymweliadau unigol i'r wefan yn ystod y flwyddyn. Mae ein presenoldeb ar y cyfryngau cyhoeddus wedi arwain at 21k o gyfrifon cyfryngau cyhoeddus yn ein dilyn - Facebook (9.5k o ddilynwyr) a Twitter (11.5k o ddilynwyr). Roedd hyrwyddo'r ymgynghoriad ar y gyllideb ar Facebook a chyrraedd 44,339 o bobl (3,849 wedi ymateb yn Gymraeg a 40,490 yn Saesneg) yn enghraifft dda o'r rhesymau pam y mae'r cyfryngau cymdeithasol yn bwysig i'r agenda newid sianelau.

**2.3.3** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, roedd 71 o gwynion wedi dod i law erbyn diwedd y flwyddyn (o gymharu â 59 yn 15/16) a 5 o gwynion Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (derbyniwyd yr un nifer yn 15/16). Ymatebwyd i'r holl gwynion ac o'r rhain, cadarnhawyd 15 ohonynt yn llawn (Gwasanaethau Oedolion [1], Gwasanaethau Plant [1], Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [2], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [5], Adnoddau [3], Dysgu [1] a Busnes y Cyngor [1]), Cadarnhawyd 10 yn rhannol (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [4], Busnes y Cyngor [1] a Tai [3]) ac ni chadarnhawyd y 49 oedd yn weddill. Mae'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer yn cael gwybod am y rhain ac yn eu monitro.

**2.3.4** Ymatebwyd i 80% o'r cwynion o fewn yr amserlen ond roedd rhai ymatebion hwyr (Gwasanaethau Oedolion [5], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [1], Tai [1],Gwastraff a Thai [1], Gwastraff a Thai [1]. Busnes y Cyngor [1] a Gwasanaethau Plant [17]. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'r 64% a gafwyd ar ddiwedd 2015/16 ond mae wedi cwrdd â'r targed o 80% ar gyfer y flwyddyn.

**2.3.5** Ymatebwyd i 77% o'r ceisiadau am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen erbyn diwedd 2016/17 o gymharu â 67% ar ddiwedd 2015/16. Mae hyn yn welliant blwyddyn ar flwyddyn sylweddol o gofio bod y Cyngor wedi delio gyda 5700 o gwestiynau yn ystod 2016/17.

**2.3.6** Cafwyd 1037 o geisiadau DRhG yn 2016/17 gyda 236 o ymatebion hwyr. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hwyr o'r Gwasanaeth Adnoddau, sef 33%. Mae hyn wedi cael ei nodi gan y Pennaeth Gwasanaeth fel maes y mae angen ei wella ac mae newidiadau wedi cael eu cyflwyno o ran y modd y mae ceisiadau DRhG yn cael eu prosesu gyda hynny'n arwain at welliant yn Ch4 gyda 43% o ymatebion hwyr wedi eu cofnodi ar gyfer 16/17 o gymharu â 59% hyd at ddiwedd Ch3. Mae gwasanaethau eraill yn cynnwys Dysgu gyda 17% (41% o'r 97 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth),

Gwasanaethau Cymdeithasol gyda 21% (24% o'r 203 a dderbyniwyd yn y gwasanaeth) a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gyda 13% (17% o'r 187 a dderbyniodd y gwasanaeth). Mae ein hymateb i'r ceisiadau hyn yn bwysig ac mae'r UDA a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn parhau i fonitro perfformiad yn y maes hwn yn agos.

**2.3.7** Cafodd yr ymarfer Siopwr Cudd (eitemau 16-19 ar y cerdyn sgorio) ei gynnal unwaith eto gan y Grŵp Ymgynghorol Tenantiaid yn dilyn eu hymdrechion yn 2015/16. Cytunwyd ar un newid ar gyfer eleni sef canolbwyntio ar nifer ddethol o wasanaethau rheng flaen er mwyn cynnal archwiliad manylach nag un 2015/16. Y gwasanaethau a archwiliwyd oedd Llyfrgelloedd, Hamdden, Tai, Gwarchod y Cyhoedd, Addysg a Gwasanaethau Plant. Canolbwyntir ar y gwasanaethau eraill yn yr archwiliad sydd wedi ei gynllunio ar gyfer 2017/18.

**2.3.8** Yn yr adroddiad, nodir bod "Safon Gofal Cwsmer yn gyffredinol yng Nghyngor Ynys Môn wedi gwella ers yr archwiliad diwethaf, fodd bynnag, mae lle i wella o hyd" a gweler isod argymhellion eu hadroddiad:

- Pob e-bost i gynnwys llofnod yn nodi enw a rôl y swyddog
- Sefydlu ymatebion cydnabod awtomatig ar gyfer yr holl e-byst sydd ar gael yn gyhoeddus megis tai@ynysmon.gov.uk
- Pob swyddog yn y dderbynfa i wisgo bathodynnau'n hytrach na chardiau adnabod ar gortyn o gwmpas eu gyddfau
- Yr holl swyddogion sy'n ateb ffôn i fod yn ymwybodol o'r siarter gofal cwsmer

**2.3.9** Mae'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer wedi derbyn yr argymhellion ac wedi cytuno ar raglen i'w gweithredu.

## 2.4 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.4.1** Roedd cyfanswm y tanwariant ar gyfer yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2017 yn £311k (0.47%).

**2.4.2** Gwelodd y Gwasanaethau orwariant o £538k yn y cyllidebau a reolir ganddynt, sy'n well na'r sefyllfa yr adroddwyd arni yn chwarter 3. Bu pwysau sylweddol ar gyllidebau'r swyddogaeth Dysgu Gydol Oes a'r Gwasanaethau Plant. Roedd hynny i'w briodoli i gost gwasanaethau statudol ar gyfer lleoliadau arbenigol nad oes gan y gwasanaethau hyn ond rheolaeth gyfyngedig drostynt. Cafodd y gorwariant ar wasanaethau ei gyllido gan danwariant o £1.541m mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol sydd i'w briodoli'n bennaf i gyllid annisgwyl unwaith ac am byth ac arbedion a'r Gyllido Corfforaethol.

**2.4.3** Yn ychwanegol at hyn, amcangyfrifir bod diffyg o £370k mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor a hynny'n bennaf oherwydd yr angen i wneud darpariaeth ar gyfer dyledion drwg. Daw Addasiadau Cyfrifo o £321k â chyfanswm y gorwariant ar gyfer yr Awdurdod yn ôl i £311k.

**2.4.4** Mae'n bwysig i nodi bod y gwariant cyfalaf a nodir yn y cerdyn sgorio ddim yn cynnwys ffigurau Cyfrif Refeniw Tai (HRA). O ganlyniad, mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar wariant cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn yn amrywio o'r ffigwr yma gan ei fod yn cynnwys y gwariant HRA.

**2.4.5** Dylid nodi mai adroddiad ar y canlyniadau amodol yw hyn, mae Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod wrthi'n cael ei baratoi ar hyn o bryd erbyn y dyddiad cau statudol o 30 Mehefin 2017 a bydd wedyn yn cael Archwiliad Allanol a bydd y Datganiad Cyfrifon terfynol yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor Llawn ym mis Medi 2017. Bydd unrhyw amrywiadau ar y canlyniadau hyn yn cael eu nodi yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Medi

## 3 ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

**3.1.1** Cydnabyddir meysydd sy'n tanberfformio (dangosyddion coch neu ambr ar y cerdyn sgorio) a sefydlir mesurau priodol ar gyfer eu gwella fel y nodir yn yr adroddiad. Bydd angen i'r rhain cael eu cyflwyno bob mis i'r aelod portffolio perthnasol a'r byrddau rheoli cysylltiedig.

**3.1.1.1** Cynnal gweithdy gyda'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn ystod Ch2 i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol a fydd yn cael eu cynnwys ar gerdyn sgorio 17/18.

**3.1.1.2** Adolygu'r targedau ar gyfer 17/18 er mwyn sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy ac mewn achosion lle nad yw targedau'n cael eu cyflawni blwyddyn ar ôl blwyddyn, bod disgwyl iddynt o leiaf wella

**3.1.2** Mae data salwch yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu a thargedu adnoddau i gynnal paneli herio salwch gwasanaeth yn ystod 2017/18, sydd wedi bod yn allweddol wrth wella ein ffigyrau salwch ar gyfer 2016/17.

**3.1.3** Y Gwasanaethau Plant i fonitro'r cynllun gwella gwasanaeth gan gynnwys perfformiad yn erbyn targedau drwy'r Panel Sgriwtini Plant.

**3.1.4** Darperir cymorth pellach i werthuso'r prosesau ar gyfer casglu'r wybodaeth ar gyfer y dangosyddion yn y maes Dysgu yn ystod y flwyddyn ariannol newydd a'r angen i wella perfformiad mewn ysgolion ar bob lefel.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2016/17

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Melyn / Yellow | ↓ | 71 | 59 | 59 | 65 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | → | 5 | - | 5 | |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | ↓ | 25 | - | 21 | |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↑ | 80% | 80% | 64% | |
| 05) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↑ | 191 | - | 261 | 71 |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | → | 54 | - | 53 | |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | ↓ | 566 | - | 712 | 521 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Melyn / Yellow | ↑ | 77% | 80% | 67% | 65% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | - | 1037 | - | 854 | 894 |
| 10) % o'r galwadau ffôn heb ei ateb | Gwyrdd / Green | ↓ | 13% | 15% | 12% | |
| 11) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn | - | - | - | - | - | |
| 12) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 1001 | - | - | |
| 13) Nifer o daliadau dros y we | - | - | 10144 | - | - | |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 21k | - | - | |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↑ | 541k | - | - | |
| 16) % o gyfathrebu ysgrifenedig a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o'u derbyn (Siopwr Cudd) | Gwyrdd / Green | ↑ | 78% | - | 67% | |
| 17) % o ymatebion ysgrifenedig mewn dewis iaith y cwsmer (Siopwr Cudd) | Gwyrdd / Green | ↑ | 100% | - | 100% | |
| 18) % o alwadau ffôn a atebwyd yn ddwyieithog (Siopwr Cudd) | Gwyrdd / Green | ↑ | 83% | - | 77% | |
| 19) % y staff a gymerodd y cyfrifoldeb am ymholiad y cwsmer (Siopwr Cudd) | Melyn / Yellow | ↓ | 87% | - | 90% | |

| People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2258 | - | 2310 | 2336 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1250 | - | 1303 | 1362 |
| 03) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 9.78 | 10 | 11.68 | 11.53 |
| 04) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 4.72 | - | 4.89 | 5.49 |
| 05) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 5.06 | - | 6.79 | 6.04 |
| 06) % o salwch sy'n gysylltiedig â straen | - | → | 7% | 9% | 7% | 5% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Melyn / Yellow | → | 78% | 80% | 84% | 85% |
| 08) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Melyn / Yellow | ↑ | 91% | 95% | - | |
| 09) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Coch / Red | ↓ | 57% | 80% | - | |
| 10) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | - | 10% | - | - | |
| 11) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen | Gwyrdd / Green | ↓ | 80% | 80% | - | |
| 12) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | ↓ | 91.40% | - | 98% | |
| 13) Nifer o staff Asiantaeth | - | ↑ | 15 | - | 26 | 21 |
| 14) Yn gyffredinol rwy'n fodlon gyda'm swydd | - | → | 83% | - | - | 85% |
| 15) Rwy'n gwybod beth a ddisgwylir gennyf | - | ↑ | 94% | - | - | 92% |
| 16) Rwy'n teimlo fy mod yn derbyn cefnogaeth gan Ynys Môn i'm helpu i ymdopi â straen | - | ↓ | 51% | - | - | 69% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Gwyrdd / Green | - | £124,037,000 | £123,726,000 | - | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | - | £38,664,770 | £28,033,124 | - | - | - |
| 03) Amrywiad yn y Gyllideb ar gyfer Talu Cyflogau hyd yma yn y Flwyddyn | - | - | - | - | - | - | - |
| 04) % y Gyllideb a wariwyd ar Gyflogau | - | - | - | - | 39.71% | - | - |
| 05) Cost staff asiantaeth | Coch / Red | ↓ | £252,860 | £1,411,093 | 458.05% | - | - |
| 06) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | - | - | - | - | - | - | - |
| 07) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | ↑ | £2,980,000 | £2,569,560 | -13.77% | - | - |
| 08) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | £25,717,640 | £28,708,199 | 11.63% | - | - |
| 09) Swm a fenthycwyd | - | - | - | £6.2M | - | - | - |
| 10) Chost benthyca | - | - | £8,435,760 | £7,605,780 | -9.84% | - | - |
| 11) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Ambr / Amber | → | - | 81.15% | - | - | - |
| 12) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 98.90% | - | - | - |
| 13) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | - | 98.90% | - | - | - |
| 14) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 97.70% | - | - | - |
| 15) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | - | - | 100.26% | - | - | - |
| 16) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | - | - | 100.63% | - | - | - |

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 15/16 Result. | Chwartel 15/16 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↓ | 20.51 | 22 | → | 20.3 | Isaf / Lower |
| 02) Ll/18b Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 94.4 | 93 | ↑ | 90.8 | - |
| 03) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 90.48 | 90 | - | - | - |
| 04) PM19 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd | Ambr / Amber | ↓ | 6.05 | 1.5 | - | - | - |
| 05) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | - | ↑ | 62.6 | - | - | - | - |
| 06) PM20b - The percentage of adults who completed a period of reablement and have no package of care and support 6 months later | - | → | 33.33 | - | - | - | - |
| 07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Coch / Red | ↓ | 79.35 | 100 | ↓ | 82.79 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 08) PM24 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol (42 diwrnod gwaith) | Melyn / Yellow | ↓ | 89.17 | 100 | - | - | - |
| 09) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | Melyn / Yellow | ↓ | 17.53 | 15 | - | - | - |
| 10) PM33 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 5.04 | 8 | - | - | - |
| 11) Presenoldeb – Cynradd (%) | - | - | 94.8 | - | - | 95.1 | - |
| 12) Presenoldeb – Uwchradd (%) | - | - | 94.6 | - | - | 94.5 | - |
| 13) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Cynradd | - | - | 21.5 | - | - | - | - |
| 14) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Uwchradd | - | - | 241 | - | - | - | - |
| 15) CA4 – % y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2+ | - | - | 58.8 | - | ↑ | 56.9 | - |
| 16) CA3 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | - | - | 87.6 | - | ↑ | 84.5 | - |
| 17) CA2 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC | - | - | 89.4 | - | ↓ | 91.8 | - |
| 18) CS - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC/DCS | - | - | 84.7 | - | ↓ | 86.2 | - |
| 19) LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn | Melyn / Yellow | → | 288k | 290k | ↓ | 289k | - |
| 20) LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn | Melyn / Yellow | ↓ | 272k | 284k | ↓ | 284k | - |
| 21) Nifer yr ymgeiswyr gyda phlant sy'n ddibynyddion iddynt y mae'r Cyngor wedi sicrhau llety gwely a brecwast iddynt (llety nad yw'n hunangynhaliol) | Gwyrdd / Green | → | 0 | - | → | 0 | - |
| 22) % y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol | Melyn / Yellow | ↓ | 90.2 | 92 | ↑ | 89.5 | - |
| 23) Cynhyrchiant y gweithlu – % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel amser cynhyrchiol | Gwyrdd / Green | ↑ | 80.1 | 75 | ↑ | 74.6 | - |
| 24) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Melyn / Yellow | ↑ | 28 | 25 | ↑ | 33.7 | - |
| 25) STS/005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glanweithdra | Melyn / Yellow | ↓ | 93.4 | 94 | ↓ | 95.1 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 26) STS/006: Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ar ôl i rywun adrodd amdanynt | Gwyrdd / Green | ↓ | 97.31 | 96 | ↑ | 98.5 | Uchaf / Upper |
| 27) WMT/009b: Canran y gwastraff sirol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu | Gwyrdd / Green | ↑ | 65.79 | 60 | ↑ | 59.5 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 28) WMT/004b: Canran y gwastraff sirol a anfonwyd i'w dirlenwi | Gwyrdd / Green | ↑ | 6.6 | 16.9 | ↑ | 16.9 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 29) THS/011c: % y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 10.1 | 13.5 | ↑ | 13.5 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 30) Nifer y bobl ifanc sydd wedi mynychu rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth | Gwyrdd / Green | ↑ | 113k | 70k | ↓ | 132k | - |
| 31) LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol | Melyn / Yellow | ↑ | 464k | 467k | ↑ | 458k | Canolrif Isaf / Lower Median |

Atodiad B – Diweddariad Ch4 2016/17
CAG: Wedi ei gwblhau Ar y trywydd iawn Ar ei hôl hi – angen penderfyniadau/cefnogaeth allweddol Hwyr (Gwyn = heb gychwyn)

| **Rhaglen/Prosiect** | **Prosiectau Cysylltiedig** | **CAMG a Diweddariad Cryno** |
|---|---|---|
| Moderneiddio Ysgolion | **Ardal y Llannau** | Strwythur allanol yr adeilad wedi ei gwblhau |
| | **Ardal Caergybi** | Y prosiect yn parhau i gael ei ddatblygu ar amser. |
| | **Bro Rhosyr a Bro Aberffraw** | LlC wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn mewn egwyddor |
| | **Ardal Llangefni** | Adroddiad ar yr ymgynghoriad yn mynd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 17 |
| **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | **Gofal Ychwanegol Llangefni** | Mae'r gwaith o baratoi'r safle ar gyfer adeiladu'n parhau ar hen safle Ysgol y Bont. Mae cyfarfodydd rheolaidd o Weithgor Hafan Cefni'n cael eu cynnal. Disgwylir i'r gwaith adeiladu fod wedi ei gwblhau erbyn yr haf 2018. |
| | **Gofal Ychwanegol Amlwch** | Mae'r gwaith yn ardal Amlwch bellach yn destun 'Seibiant ac Adolygiad' tan 2018 |
| | **Gofal Ychwanegol De'r Ynys** | Mae'r Bwrdd wrthi'n rhoi sylw i ystyriaethau cyfannol ar gyfer ardal newydd. |
| | **Gofal Ychwanegol Garreglwyd** | |
| | **Byw â Chymorth** | Mae angen cadarnhad pellach o strategaeth risg y prosiect ynghyd ag ail-asesiad o'r sefyllfa ariannol gysylltiedig. |
| | **Tendro'r Gwasanaethau Gofal Cartref** | |
| | **Allanoli'r Gwasanaethau Warden** | |
| **Trawsnewid Llyfrgelloedd, Gwasanaethau Ieuenctid, Amgueddfeydd a Diwylliant** | **Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant** | Mae amserlen ddiwygiedig wedi cael ei chytuno gan Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid ar 20/12/16 |
| | **Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | Mae amserlen ddiwygiedig wedi cael ei chytuno gan Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid ar 20/12/16 – model newydd yn ei le erbyn Ionawr 2018 |
| | **Adolygiad o'r Gwasanaethau Ieuenctid** | Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar y bwriad i ailfodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cael ei ymestyn i 13.02.2017 er mwyn cyd-ddigwydd â'r ymgynghoriad ar y gyllideb |
| **Hamdden** | | |
| **Ynys Ynni** | | Cafodd tîm y rhaglen wahoddiad i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2017 i roi diweddariad ar ddyfodol y rhaglen |

Atodiad B – Diweddariad Ch4 2016/17
CAG: Wedi ei gwblhau Ar y trywydd iawn Ar ei hôl hi – angen penderfyniadau/cefnogaeth allweddol Hwyr (Gwyn = heb gychwyn)

| | | |
|---|---|---|
| **Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP)** | | Mynd rhagddo'n dda ar y cyfan, rhaid risgiau wedi cael eu nodi fel a nodir uchod gyda phrosiect Neuadd y Farchnad |
| **Neuadd y Farchnad** | | Rhagwelir oedi o 4 wythnos (allan o raglen 92.5 o wythnosau) oherwydd oedi annisgwyl oherwydd problemau gtyda chyflwr y ddaear. Mae gwaith Rhan 2 yn mynd yn ei flaen ac mae'r dogfennau tendr ar gyfer Rhan 2 bron wedi eu cwblhau a rhagwelir y byddant yn cael eu cyhoeddi ddiwedd mis Gorffennaf.. |
| **Cynllun Datblygu Lleol** | | |
| **Cynllun Rheoli Cyrchfan** | | Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. Mae angen gwell dealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir gan y Cyngor o ran gwireddu'r cynllun |
| **Arfarnu Swyddi a Statws Sengl** | | |
| **Cyswllt Adnoddau – Northgate (AD)** | | |
| **Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer** | | |
| **Caffael** | | |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | |
| **Parhad Busnes** | | |
| **Strategaeth TGCh** | | |
| **Moderneiddio a Chydlynu'r gwasanaeth cyngor ar fudd-daliadau** | | |
| **WCCIS** | | |
| **Rheoli Polisïau** | | |

Atodiad C

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Reolaeth Presenoldeb – **Cyngor Sir Ynys Môn**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 326A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Andy Bruce a Gwilym Bury dan arweiniad Huw Rees.

# Cynnwys

Mae’r Cyngor wedi gwella ei drefniadau corfforaethol yn sylweddol ar gyfer rheoli presenoldeb trwy gyflwyno polisïau a gweithdrefnau absenoldeb mwy cadarn.

Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer gwelliant 4

Adroddiad manwl

Mae’r Cyngor wedi gwella ei drefniadau corfforaethol yn sylweddol ar gyfer rheoli presenoldeb trwy gyflwyno polisïau a gweithdrefnau absenoldeb mwy cadarn 5

Mae’r Cyngor wedi atgyfnerthu ei bolisïau a’i weithdrefnau ar gyfer rheoli presenoldeb 5

Mae’r Cyngor wedi blaenoriaethu rheolaeth presenoldeb ac mae wedi atgyfnerthu ei arddull sy’n gadarn ac yn heriol 6

Mae rheolaeth y Cyngor o bresenoldeb staff y Cyngor wedi gwella’n sylweddol ac mae’n rhagweithiol sicrhau bod ysgolion yn atebol am reoli presenoldeb 7

# Adroddiad cryno

1 Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei Adroddiad Asesu Corfforaethol a ddaeth i'r casgliad bod y Cyngor yn mynd i'r afael â materion parhaus o ran lefelau uchel o absenoldeb salwch a chyfraddau isel o gwblhau Adolygiadau Datblygu Perfformiad.

2 Er mwyn cefnogi Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) i leihau ei lefelau absenoldeb salwch, mae wedi cytuno i Swyddfa Archwilio Cymru gwblhau adolygiad lleol o reolaeth presenoldeb.

3 Yn yr adolygiad hwn, rydym wedi dod i'r casgliad bod y **Cyngor wedi gwella ei drefniadau corfforaethol yn sylweddol ar gyfer rheoli presenoldeb trwy gyflwyno polisïau a gweithdrefnau absenoldeb mwy cadarn**. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y Cyngor wedi atgyfnerthu ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer rheoli presenoldeb;
- bod y Cyngor wedi blaenoriaethu rheolaeth presenoldeb ac wedi atgyfnerthu ei ddull strategol sy'n gadarn ac yn heriol; a
- bod rheolaeth y Cyngor o bresenoldeb staff y Cyngor wedi gwella'n sylweddol a'i fod yn fwy rhagweithiol nag o'r blaen o ran sicrhau bod ysgolion yn atebol am reoli presenoldeb.

4 Rydym wedi gwneud dau gynnig ar gyfer gwelliant.

## Cynigion ar gyfer gwelliant

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwelliant

| Cynigion ar gyfer gwelliant | |
|---|---|
| P1 | Er mwyn herio ysgolion yn briodol mewn perthynas â'u trefniadau rheoli presenoldeb, dylai'r Cyngor barhau i sicrhau bod ganddo gapasiti i ddarparu data cymharol yn fisol i bob ysgol yn ymwneud â chyfraddau absenoldeb athrawon a staff nad ydynt yn athrawon, a darparu'r gefnogaeth a'r arweiniad berthnasol i bob ysgol er mwyn gweithredu trefniadau rheoli presenoldeb. |
| P2 | Dylai'r Cyngor ystyried perfformiad presenoldeb yn ei adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a Sgriwtini Corfforaethol yn ymwneud â gwasanaethau'r Cyngor. |

5 Hoffai'r tîm archwilio ddiolch i'r rhai y bu i ni gyfarfod â nhw am eu hamser wrth gyfrannu at yr adolygiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau corfforaethol yn sylweddol ar gyfer rheoli presenoldeb trwy gyflwyno polisïau a gweithdrefnau absenoldeb mwy cadarn

### Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer rheoli presenoldeb

6 Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei Adroddiad Asesu Corfforaethol a ddaeth i'r casgliad bod y Cyngor yn mynd i'r afael â materion parhaus yn ymwneud â lefelau uchel o absenoldeb salwch a chyfraddau isel o ran cwblhau Adolygiadau Datblygu Perfformiad.

7 Roedd yr Asesiad Corfforaethol yn adrodd bod Cynllun Trawsnewid y Cyngor wedi nodi'r Strategaeth AD a Phobl a rheolaeth o berfformiad staff fel meysydd a oedd angen sylw er mwyn galluogi cynnydd pellach. Roedd y Cyngor wedi nodi ei hun bod angen iddo ddeall y sgiliau a'r galluoedd newydd fydd yn angenrheidiol yn y tymor canolig, ac i gynllunio sut i ychwanegu'r capasiti hwn i'w weithlu.

8 Ym mis Mehefin 2016, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei Adroddiad Gwelliant Blynyddol a ddaeth i'r casgliad bod y Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â materion parhaus yn ymwneud â lefelau uchel o absenoldeb salwch. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r mater hwn ac mae wedi canolbwyntio'n fwy clir ar atal absenoldeb salwch hir dymor, cynyddu lefelau cyfarfodydd adolygu absenoldeb (ARM) i'r un canran â chyfweliadau dychwelyd i'r gwaith ac mae'n cynllunio cynyddu canran y cyfarfodydd adolygu absenoldeb (ARM) yn 2017. Er mwyn galluogi gwasanaethau i dderbyn y gefnogaeth angenrheidiol er mwyn gwella lefelau salwch, mae'r Cyngor wedi ymestyn cytundeb y Cydlynydd Rheoli Absenoldeb Salwch hyd fis Medi 2017.

9 Er mwyn cefnogi'r Cyngor i leihau ei lefelau absenoldeb salwch, mae wedi cytuno i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal adolygiad lleol o reolaeth absenoldeb. Mae absenoldeb salwch yn amlwg yn arwain at gostau mesuradwy ac mae hefyd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chysondeb darpariaeth y gwasanaeth.

10 Mae gan y Cyngor ddogfennau polisi a gweithdrefnau clir a chynhwysfawr yn ymwneud â rheoli absenoldeb. Mae'r rhain yn seiliedig yn bennaf ar bolisi cenedlaethol a ddatblygwyd i'w ddefnyddio gan nifer o gynghorau yn y DU. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi'r polisi diwygiedig ar ffurf hyfforddiant ar gyfer rheolwyr a chynrychiolwyr staff sy'n disgrifio effaith a chostau absenoldeb salwch. Mae'r polisi yn rhoi trosolwg o'r polisi sy'n gwneud y gorau o bresenoldeb yn y gwaith, yn amlinellu'r ffactorau a all gyfrannu at absenoldeb staff ac yn egluro'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol i reolwyr eu dilyn er mwyn rheoli absenoldebau yn y tymor byr a'r tymor hir.

11 Mae'r polisi hefyd yn cynnwys mesurau perfformiad, cyfrifoldebau gweithwyr a rheolwyr llinell, salwch tymor byr a thymor hir a chefnogaeth Iechyd Galwedigaethol. Mae'r rhain yn feysydd allweddol y byddem yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys o fewn dogfen polisi a gweithdrefnau.

12 Mae'r Cyngor hefyd wedi cynhyrchu canllawiau i staff er mwyn gwneud y gorau o bresenoldeb yn y gwaith ac mae'n amlinellu manylion y polisi'n ymwneud â rheoli absenoldeb salwch a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff. Mae'r holl staff newydd yn derbyn hyfforddiant anwytho sy'n cynnwys y polisi rheoli salwch ac effaith absenoldeb salwch ar y Cyngor.

## Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu rheolaeth presenoldeb ac wedi atgyfnerthu ei arddull strategol sy'n gadarn ac yn heriol

13 Roedd y staff a'r rheolwyr Adnoddau Dynol (AD) y buom yn siarad â nhw yn hyderus, gyda'u cefnogaeth nhw, bod absenoldeb salwch yn cael ei reoli mewn modd rhagweithiol gan bob rheolwr llinell ac yn unol â'r polisi a'r weithdrefn absenoldeb salwch. Mae'r Cyngor yn archwilio cydymffurfiaeth gyda'r polisi absenoldeb salwch yn rheolaidd trwy adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a Sgriwtini Corfforaethol. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd misol gyda gwasanaethau i drafod absenoldeb salwch ac i gytuno ar gamau gweithredu pan nad yw perfformiad yn bodloni targedau'r Cyngor. Mae cronfa ddata rheoli achosion AD yn ymwneud ag achosion absenoldeb salwch, lle bo gweithgaredd rheolwyr yn cael ei gofnodi.

14 Roedd y Cyngor yn credu ar adeg yr Asesiad Corfforaethol bod posib i system Adolygu a Datblygu Perfformiad (PDR) effeithiol ganfod problemau megis sgiliau a diffygion. Mae cyfradd cwblhau'r adolygiadau PDR wedi bod yn anghyson yn y gorffennol, gan ddwysáu diffyg cynllunio gweithlu ar lefel strategol. Fodd bynnag, roedd ffocws diweddar ar gwblhau adolygiadau PDR wedi arwain ar welliant, a dylai hyn, yn ei dro, arwain at fwy o ymwybyddiaeth o faterion sylfaenol a allai fod yn effeithio ar lefelau salwch.

15 Mae'r Cyngor yn ystyried achosion salwch ar sail unigol ond nid yw'r arweiniad a gynigir i reolwyr yn bwrpasol yn annog y gred bod cofnodion salwch staff yn dderbyniol o reidrwydd hyd yn oed os nad yw'r pwyntiau trothwy a ddiffinnir yn y polisi wedi eu cyrraedd. Mae trothwy'r Cyngor sy'n symbylu pwyntiau gweithredu (tri chyfnod neu fwy o salwch gyda chyfanswm o bum diwrnod o fewn cyfnod 12 mis) yn gadarn ac yn fwy heriol i reolwyr na nifer o gyrff sector cyhoeddus eraill. Mae rheolwyr yn chwilio am unrhyw batrymau absenoldeb sylfaenol ac yn cyfweld â staff i ddeall y rhesymau hyd yn oed pan nad oedd y pwyntiau trothwy wedi'u cyrraedd. Dywedodd y tîm AD a'r rheolwyr y bûm yn siarad â nhw bod cyfarfodydd rhwng rheolwyr gweithredol a staff AD yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn trafod patrymau absenoldeb problematig fel rhan o reolaeth absenoldeb salwch.

16 Mae'r Cyngor yn cynnal cyfarfodydd adolygu presenoldeb gyda staff lle bo trothwy wedi'i gyrraedd er mwyn edrych ar resymau dros yr absenoldeb o'r gwaith ac adnabod problemau sylfaenol. Mae'r drefn ar gyfer cynnal y cyfarfodydd hyn yn cael ei amlinellu'n glir ac yn yr achosion enghreifftiol y bu i ni edrych arnynt, roeddent wedi'u dogfennu'n dda ac roedd targedau a phwyntiau gweithredu clir wedi eu hamlinellu ar gyfer staff a'u rheolwyr.

17 Lle bo angen gweithredu ymhellach, mae gan baneli galluogrwydd salwch (ar gyfer achosion o absenoldeb tymor byr rheolaidd) a phaneli adolygu achosion (ar gyfer achosion o salwch tymor hir) weithdrefnau clir ar gyfer cynnal y cyfarfodydd hyn ac yn yr achosion enghreifftiol a welwyd, roedd y cyfarfodydd wedi'u dogfennu'n glir ac yn dangos cydymffurfiaeth gyda gweithdrefnau'r Cyngor.

18 Polisi'r Cyngor yw cymryd camau i ddarparu cefnogaeth i staff sy'n sâl ac i gynorthwyo i hybu gwellhad cyflymach, fel eu bod yn gallu dychwelyd i'r gwaith. Fodd bynnag, pan nad yw dychwelyd i'r gwaith yn debygol yn y dyfodol rhagweladwy, bydd cyflogaeth yn dod i ben lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol.

## Mae rheolaeth y Cyngor o bresenoldeb staff y Cyngor wedi gwella'n sylweddol ac mae'n rhagweithiol o ran sicrhau bod ysgolion yn atebol am reoli presenoldeb

19 Mae'r Cyngor wedi gwella ei reolaeth o bresenoldeb staff yn sylweddol, gyda lefelau absenoldeb salwch yn cwympo o 14.4 diwrnod ar gyfartaledd i bob aelod o staff llawn amser yn 2012-13 i 9.78 diwrnod yn 2016-17. Yn 2013, sefydlwyd rôl Cydlynydd Rheoli Absenoldeb Salwch Corfforaethol ar sail dros dro gyda chyfrifoldeb i gefnogi ac i weithio gyda phenaethiaid gwasanaeth rheolwyr gwasanaeth a'r tîm AD i wella lefelau absenoldeb salwch. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr holiaduron dychwelyd i'r gwaith a gwblhawyd o 59% yn 2013-14 i 90% yn ystod naw mis cyntaf 2016-17.

20 Mae cyfraddau salwch tymor hir hefyd wedi lleihau dros 25% yn 2016-17, ac mae'n bosib y bydd cyfradd absenoldeb salwch y Cyngor yn gyffredinol o 9.78 diwrnod yn 2016-17, a oedd ymysg yr uchaf bedair blynedd yn ôl, bellach yn agosach at gyfartaledd cynghorau yng Nghymru.

21 Un o'r meysydd mwyaf lle collir dyddiau o ganlyniad i absenoldeb salwch mewn unrhyw wasanaeth yw Addysg. Yn 2015-16, collwyd 11,318 diwrnod o ganlyniad i absenoldeb staff ysgolion.

Arddangosyn 2: Absenoldeb salwch staff ysgolion Ynys Môn ar gyfer 2015-16

| | Nifer y dyddiau salwch |
|---|---|
| Athrawon Ysgol Gynradd | 1,821 |
| Athrawon Ysgol Uwchradd | 3,249 |
| Staff arall Ysgol Gynradd | 2,098 |
| Staff arall Ysgol Uwchradd | 4,150 |
| Cyfanswm | 11,318 |

22 Mae gan gyrff llywodraethu'r ysgolion gyfrifoldeb dros arolygu trefniadau rheolaeth presenoldeb staff mewn ysgolion. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i hyrwyddo safonau uchel yn ei ysgolion. Mae rheolaeth effeithiol o adnoddau ac absenoldeb staff yn chwarae rôl allweddol o ran darparu safonau uchel, a dylai'r Cyngor fonitro, herio, a chefnogi ei ysgolion.

23 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella'r gefnogaeth a'r her a gynigir i ysgolion o ran rheoli eu habsenoldebau salwch. Yn yr adroddiad cenedlaethol [1] gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013 yn ymwneud ag Effaith Absenoldeb Athrawon, un o'r argymhellion oedd y dylai cynghorau ddarparu data cymharol i ysgolion ar gyfraddau absenoldeb athrawon. Yn 2016, cynhaliodd swyddogion y Cyngor gyfres o gyfarfodydd gydag ysgolion i drafod lefelau absenoldeb salwch mewn rhai ysgolion ar Ynys Môn. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi diwygio'r 'Cynllun Absenoldeb' ysgolion Cynradd sy'n darparu ad-daliad ariannol ar gyfer ysgolion cynradd pan fo staff yr ysgol yn absennol am unrhyw reswm.

24 Nid yw'r materion sy'n ymwneud â rheoli absenoldeb a wynebir gan y Cyngor ac ysgolion yn newydd, ond mae'r brys a'r cyflymder sydd ei angen er mwyn ymateb i'r materion hyn yn dod yn fwy pwysig. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu data cymharol misol yn ymwneud â chyfraddau absenoldeb athrawon a staff nad ydynt yn athrawon i bob ysgol ond nid yw'n rhoi ystyriaeth benodol i berfformiad absenoldeb ysgolion yn ei adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a Sgriwtini Corfforaethol. Er mwyn herio'r ysgolion mewn modd priodol o ran eu trefniadau rheoli absenoldeb, rydym yn cynnig y dylai'r Cyngor ystyried atgyfnerthu ei drefniadau adrodd.

[1] Adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru: **Effaith Absenoldeb Athrawon**, Medi 2013

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **17 GORFFENNAF 2017** |
| **PWNC:** | **CRYNODEB O'R CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT 2016/17** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH – AELOD PORTFFOLIO (ADNODDAU)** |
| **PENNAETH GWASANAETH{** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD;**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>01248 751865<br>ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r drafft o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2016/17 a'r Fantolen Ddrafft fel yr oedd ar 31 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr arian wrth gefn a'r balansau.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigyrau hyn wedi cael eu harchwilio eto ac y gallant newid o'r herwydd. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith wedi i'r Archwiliad Allanol gael ei gwblhau.

Argymhellion:-

**1)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r prif ddatganiadau ariannol (heb eu harchwilio) ar gyfer 2016/17;

**2)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran arian wrth gefn clustnodedig ac yn cymeradwyo'r defnydd o, neu gynnydd i, gronfeydd wrth gefn unigol fel y nodir yn Atodiad 4;

**3)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn newydd, cyfanswm o £482k fel a nodir yn nhabl 2 isod;

**4)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo defnyddio £250k o'r gronfa wrth gefn gyffredinol i gyllido costau diswyddo gwirfoddol ychwanegol yn 2017/18;

**5)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi'r sefyllfa o ran balansau'r ysgolion;

**6)** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi balansau'r CRT fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2017.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn o gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall(eraill)** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad yn crynhoi'r prif ddatganiadau ariannol a'r effaith ar arian wrth gefn;
- Atodiad 2 – Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft 2016/17;
- Atodiad 3 – Mantolen Ddrafft fel yr oedd ar 31 Mawrth 2017;
- Atodiad 4 – Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig 2016/17;
- Atodiad 5 – Balansau Ysgolion fesul Ysgol.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- 2016/17 Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 12 Gorffennaf 2017 ar ganlyniad cyllideb refeniw;
- 14 Chwefror 2017 – Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar ddefnyddio arian wrth gefn a balansau.

**ATODIAD 1**

## 1. PWRPAS

Bwriad yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17. Cyflwynir hefyd grynodeb o'r holl gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor i'w cymeradwyo.

## 2. CEFNDIR

**2.1** Bob blwyddyn, rhaid i'r Cyngor, yn unol â'r gyfraith, gynhyrchu set ddrafft o gyfrifon a rhaid i'r Swyddog Adran 151 eu llofnodi erbyn y 30 Mehefin dilynol. Mae'r cyfrifon drafft ar gyfer 2016/17 wedi cael eu cwblhau a chychwynnodd yr archwilwyr allanol, Deloitte, ar y gwaith o'u harchwilio ar ddydd Llun 12 Mehefin 2017.

**2.2** Cyflwynwyd y datganiad cyfrifon drafft llawn ar gyfer 2016/17 i'r Pwyllgor Archwilio ar 28 Mehefin 2017. Cyflwynir y cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio i'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn ym mis Medi 2017.

**2.3** Caiff y prif ddatganiadau ariannol drafft, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer 2016/17 a'r Fantolen fel yr oedd ar 31 Mawrth 2017 eu cyflwyno isod.

**2.4** Rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio ar neu cyn 30 Medi 2017.

## 3. DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT AR GYFER 2016/17

**3.1** Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Drafft (CIES) ar gyfer 2016/17 ei gyflwyno yn Atodiad 2.

**3.2** Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol ac mae'n cynnwys Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) mewn un datganiad ariannol. Mae'n cyflwyno costau'r gwasanaethau yn wahanol i'r modd yr adroddwyd arnynt ar gyfer y canlyniad ariannol drafft i'r Pwyllgor Gwaith ar 12 Mehefin 2017.

**3.3** Adroddir ar y canlyniad ariannol ar sail strwythur y sefydliad ac adroddir ar gostau a gyllidir drwy'r Grant Cymorth Refeniw a'r Dreth Gyngor ac ati. Mae'r penawdau gwasanaeth ar y CIES, o 2016/17, wedi eu trefnu yn seiliedig ar strwythur y sefydliad ar lefel Gwasanaeth/Swyddogaeth. Fodd bynnag, mae'r CIES hefyd yn cynnwys addasiadau cyfrifo statudol megis dibrisiant ac addasiadau ar gyfer pensiwn. Nid yw'r rhain yn cael effaith ar y canlyniad ac, o'r herwydd, nid oes modd tynnu cymhariaeth uniongyrchol rhwng yr adroddiad ar y canlyniad a'r CIES.

**3.4** Mae'r CIES yn dangos mai £121.897m oedd cost net y gwasanaethau gyda'r diffyg o £8.548m ar ddarpariaeth y gwasanaethau. Yn ychwanegol at hyn, mae gwarged o £299k ar wariant ac incwm cynhwysfawr arall yn codi o addasiadau cyfrifo mewn perthynas ag ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol, megis Tir ac Adeiladu ac ailfesur yr Atebolrwydd Pensiynau. Mae cyfanswm y gwariant ac incwm cynhwysfawr ar y CIES yn ddiffyg o £8.249m ar wasanaethau. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf ag addasiadau cyfrifo yn hytrach na gwir gost y gwasanaethau. Mae'r Llywodraeth yn derbyn na ddylai trethdalwyr orfod cyllido'r addasiadau cyfrifo hyn. O'r herwydd, nid yw cyfrifon yr awdurdod lleol yn cynnwys effaith y rhain ac fe sonnir amdanynt yn y nodyn Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Gyllido dan y Rheoliadau (nodyn 7 yn Natganiad Cyfrifon yr Awdurdod). Mae'r nodyn hwn ar gyfer 2016/17 yn dangos gwerth £5.805m o addasiadau cyfrifo sydd wedi cael eu canslo allan yn y Datganiad ar Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn (MIRS). Mae hyn yn golygu fod gwir effaith darparu gwasanaethau ar arian wrth gefn y Cyngor a'r CRT yn gostwng o £7.392m i £2.743m.

**3.5** Roedd yr adroddiad ar y canlyniad drafft dyddiedig 12 Mehefin 2017 yn amlygu gorwariant net bras o £311k. Mae gwaith pellach a wnaed ers paratoi'r adroddiad hwnnw wedi canfod camgymeriadau yn y modd y cafodd gwariant cyfalaf, grant cyfalaf ac ad-daliad benthyciad eu trin. Yn dilyn cywiro'r eitemau hyn, mae'r tanwariant ar gyfrif refeniw Cronfa'r Cyngor wedi codi i £447k. Bydd cronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn cynyddu gan y swm hwn o gymharu â pherfformiad ariannol y Cyngor yn 2016/17. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad yn y gronfa wrth gefn gyffredinol yn ystod y flwyddyn yn dilyn symud gwerth £1.027m i gronfeydd wrth gefn clustnodedig Buddsoddi i Arbed. Cafodd gwerth £395k o arian wrth gefn clustnodedig ei ddychwelyd i Gronfa Wrth Gefn gyffredinol y Cyngor oherwydd nad oedd ei angen mwyach ar gyfer y pwrpas y cafodd ei glustnodi'n wreiddiol ar ei gyfer. Mae hyn yn golygu gostyngiad net o £189k yn y balansau cyffredinol. Ceir crynodeb o'r symudiad yn yr arian wrth gefn cyffredinol yn Nhabl 1 isod.

## 4. MANTOLEN DDRAFFT FEL YR OEDD AR 31 MAWRTH 2017

**4.1** Mae Atodiad 3 yn cyflwyno'r fantolen ddrafft ar gyfer y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2017.

**4.2** Mae hon yn dangos asedau ac ymrwymiadau'r Cyngor fel yr oeddynt ar y dyddiad hwnnw. Roedd gan y Cyngor £375.235m o asedau anghyfredol (£360.566m ar 31 Mawrth 2016). Mae hyn yn ymwneud ag asedau gweithredol y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu ei wasanaethau sy'n cynnwys eiddo, cyfarpar ac offer. Mae hefyd yn cynnwys asedau treftadaeth, eiddo buddsoddi, asedau anniriaethol a dyledwyr tymor hir.

**4.3** Roedd gwerth asedau anghyfredol wedi cynyddu £14.669m, roedd hyn o ganlyniad i gyfuniad o wariant ar asedau newydd neu asedau a atgyweiriwyd ac enillion ar ôl ailbrisio asedau. Mae'r fantolen hefyd yn amlygu asedau cyfredol net o £39.035m (£47.822m ar 31 Mawrth 2016). Mae'r rhain yn cynnwys asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu, stoc, dyledwyr tymor byr ac arian a chywerthoedd arian. Gellir priodoli'r prif newidiadau i: gostyngiad o £2.684m mewn arian a chywerthoedd arian, gostyngiad o £3.159m o ran dyledwyr y mae arnynt arian i'r Cyngor a gostyngiad o £2.864m yn yr asedau a ddelir i'w gwerthu. Mae'n debyg bod y gostyngiad yn yr asedau cyfredol i'w briodoli i'r cynnydd a wnaed gyda rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif a gwariant cyfalaf arall sydd wedi cyfrannu at y cynnydd mewn asedau anghyfredol a ddisgrifir uchod.

**4.4** Mae cyfanswm yr ymrwymiadau cyfredol yn £28.813m (£26.0m ar 31 Mawrth 2016), sy'n cyfeirio at y symiau sy'n ddyledus i eraill. Mae £5.553m o'r swm hwn yn ymwneud â benthyciadau gan PWLB a Llywodraeth Cymru sydd i'w talu'n ôl yn ystod 2017/18.

**4.5** Mae ymrwymiadau tymor hir yn dod i gyfanswm o £219.646m (£208.328m ar 31 Mawrth 2016), mae £111.557m yn ymwneud â benthyciadau tymor hir gan y PWLB. Yn ystod mis Mawrth 2017, benthycwyd £6.2m pellach gan y PWLB ar gyfradd ostyngol o 2.2% yn benodol ar gyfer prosiectau Ysgolion y 21ain Ganrif. Fodd bynnag, mae £4m o'r benthyciad hwn yn ymwneud ag elfen benthyca gyda chymorth Llywodraeth Cymru o'r prosiect a bydd y Cyngor yn derbyn ad-daliad o'r llog a swm y benthyciad dros gyfnod o 20 mlynedd drwy'r Grant Cymorth Refeniw.

**4.6** Mae asedau net y Cyngor yn £165.811m (£174.060m ar 31 Mawrth 2016). Mae'r rhan fwyaf o'r swm hwn, £134.173m, yn cael ei ddal fel cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy, er enghraifft y cronfeydd cyfrifyddu wrth gefn megis y gronfa wrth gefn ailbrisio, y cyfrif addasiad cyfalaf a chronfeydd wrth gefn megis y gronfa bensiwn wrth gefn. Mae'r balans sy'n weddill yn cael ei ddal fel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sy'n dod i £31.638m (£34.381m ar 31 Mawrth 2016). Mae'r rhain yn cynnwys cronfa gyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn clustnodedig, balansau ysgolion a chronfeydd wrth gefn y CRT a thrafodir rhain isod. Mae'r gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i'w priodoli i'r defnydd a wnaed o gronfeydd wrth gefn clustnodedig i gyllido'r gwariant yr oedd y cronfeydd wedi eu neilltuo ar ei gyfer megis costau Arfarnu Swyddi.

## 5. ARIAN WRTH GEFN CRONFA'R CYNGOR

### 5.1 Cronfa Wrth Gefn Cyffredinol

**5.1.1** Yn Nhabl 1 isod, ceir crynodeb o effaith y canlyniadau a'r cyfrifon ar falansau cyffredinol.

**Tabl 1**

| **Dadansoddiad o'r Symudiad yng Nghronfa'r Cyngor a Chronfeydd Cyffredinol y CRT 2016/17** | **Cronfa'r Cyngor £m** | **CRT £m** | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|
| **Balans agoriadol y gronfa wrth gefn gyffredinol ar 1 Ebrill 2016** | **8.886** | **7.042** | **15.928** |
| Trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn clustnodedig buddsoddi i arbed | -1.027 | 0 | -1.027 |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig a ddychwelwyd i'r grofna wrth gefn gyffredinol oherwydd nad oedd eu hangen mwyach | 0.395 | 0 | 0.395 |
| Trosglwyddiadau o'r gronfa wrth gefn gyffredinol er mwyn ychwanegu at y gronfa wrth gefn tâl cyfartal | -0.513 | 0 | -0.513 |
| Balans diwygiedig ar ôl trosglwyddiadau arian rhwng y gronfa wrth gefn gyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 7.741 | 7.042 | 14.783 |
| Diffyg net ar y ddarpariaeth o gwasanaethau | -7.392 | -1.156 | -8.548 |
| Addasiadau cyfrifo statudol sydd wedi cael eu canslo allan yn y MIRS | 4.196 | 1.609 | 5.805 |
| Balans net cyn trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig i gyllido costau clustnodedig o fewn cost gwasanaeth | 4.545 | 7.495 | 12.04 |
| Defnydd o gronfeydd wrth gefn clustnodedig i gyllido costau clustnodedig o fewn cost gwasanaethau (ac eithrio'r symudiadau rhwng y cronfa wrth gefn cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig a nodir uchod) | 4.152 | 0 | 4.152 |
| **Balans Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2017** | **8.697** | **7.495** | **16.192** |
| Y balansau gweddilliol yn y cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau'r ysgolion | 15.446 | 0 | 15.446 |
| **Cyfanswm yr Arian Wrth Gefn Defnyddiadwy a oedd ar gael i'r Cyngor ar 31 Mawrth 2017** | **24.143** | **7.495** | **31.638** |

**5.1.2** Roedd Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor yn £8.886m. Trosglwyddwyd £1.0m o Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor fel a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2016 er mwyn creu cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer prosiectau buddsoddi i arbed. Yn ogystal, trosglwyddwyd £0.027m i gronfa wrth gefn glustnodedig i greu capasiti i adennill mwy o ddyledion. Yn ychwanegol at hyn, fel rhan o'r canlyniadau, trosglwyddwyd £0.513m i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Tâl Cyfartal er mwyn helpu i gyllido costau Tâl Cyfartal yn y dyfodol. Gwnaeth y Cyngor ddarpariaeth o £0.513m ar gyfer hyn yn y flwyddyn ond oherwydd addasiad cyfrifol statudol a oedd yn angenrheidiol dan y côd, cafodd hyn ei ganslo i ddim. Fe wnaeth hynny wella balans Cronfa'r Cyngor gan y swm hwnnw, a dyna pam y cafwyd cynnydd am yr un swm yn y gronfa wrth gefn ar gyfer Tâl Cyfartal. Yn ychwanegol at y symudiadau hyn o Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor, dychwelwyd £0.395m i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar ôl rhyddhau arian wrth gefn clustnodedig nad oedd ei angen mwyach.

**5.1.3** Effaith net y gost o ddarparu gwasanaethau ar Gronfa'r Cyngor yn 2016/17 oedd £3.196m. Mae hyn yn celu'r ffaith bod y Cyngor wedi tanwario £0.447m ar gyllideb 2016/17. Mae hyn oherwydd, yn ychwanegol at y costau y cyllidebwyd ar eu cyfer, bod cost y gwasanaethau'n cynnwys costau a ariannwyd o arian wrth gefn clustnodedig yn hytrach nag o gyllideb flynyddol y Cyngor yn unig.

**5.1.4** Pan mae'r holl symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn cael eu cymryd i ystyriaeth, mae balans y gronfa wrth gefn gyffredinol ar adeg cau'r cyfrifon yn £8.697m, gostyngiad o £0.189m dros y flwyddyn. Byddai'r gostyngiad wedi bod £0.447m yn uwch petai'r Cyngor heb danwario y swm yma.

**5.1.5** Ymddengys bod y balans diwedd blwyddyn o £8.697m yn iach, fodd bynnag, bydd y balans hwn dan gryn bwysau os bydd raid i'r Cyngor gyllido costau Tâl Cyfartal o'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn y dyfodol. Mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 wedi lliniaru effaith hyn drwy gynyddu'r gronfa wrth gefn ar gyfer Tâl Cyfartal i £1.059m.

**5.1.6** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried cymeradwyo £250k o'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn 2017/18 ar gyfer cyllido diswyddiadau gwirfoddol. Cafwyd mwy o geisiadau am ddiswyddo gwirfoddol yn 2017/18 nag a ragwelwyd ar adeg gosod y gyllideb.

**5.1.7** Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror 2017, gosodwyd balans isaf y gronfa wrth gefn gyffredinol ar £6m. Roedd y swm wedi cynyddu o'r £5m yn 2015/16 yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Gronfeydd Wrth Gefn a chan gymryd i ystyriaeth bwysau costau yn y dyfodol ac effaith Tâl Cyfartal.

## 5.2 Cronfeydd wrth gefn clustnodedig

**5.2.1** Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2017, cafodd cronfeydd wrth gefn clustnodedig cyfredol y Cyngor, a oedd werth £15.994m ar ddechrau'r flwyddyn, eu hystyried a chymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith eu bod yn parhau. Bryd hynny, tybiwyd y byddai £11.610m o'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cario drosodd i 2017/18. Mewn gwirionedd, roedd £11.717m yn cario drosodd o'r cronfeydd wrth gefn hyn ar 31 Mawrth 2017. Yn ychwanegol at hyn, roedd £1.158m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig wedi cael eu cymeradwyo eisoes gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd y rhain yn ymwneud â throsglwyddo £1m o'r gronfa wrth gefn gyffredinol i'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig fel y trafodir uchod. Yn ogystal, rhoes y Pwyllgor Gwaith ei ganiatâd ar 19 Medi 2016 i unrhyw danwariant ar Ddatblygiadau Cynllunio Mawr gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn glustnodedig. Gwnaed hynny er mwyn darparu capasiti i gefnogi datblygiadau mawr yn y dyfodol. Trosglwyddwyd £241k o'r incwm cynllunio a oedd dros ben o brosiectau mawr i gronfa wrth gefn glustnodedig. Yn ychwanegol at hyn, cafodd cronfa wrth gefn glustnodedig o £482k ei chreu ar ddiwedd y flwyddyn yn unol â Pholisi Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor. Isod yn Tabl 2 ceir manylion am y cronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd hyn a grëwyd. Roedd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar 31 Mawrth 2017 yn £13.357m fel a ddangosir yn Atodiad 4.

**Tabl 2**

| Cronfa Wrth Gefn | Cronfa Wrth Gefn | Gwasanaeth | Balans ar gychwyn y flwyddyn £'000 | Trosglwydd-iadau Mewn £'000 | Trosglwydd-iadau Allan £'000 | Balans ar ddiwedd flwyddyn £'000 | Rheswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ZQ322 | Cyfraniad Datblygwr Priffyrdd | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | - | 54,480 | - | 54,480 | I ganiatau cyfraniadau datblygwyr gael eu ail-fuddsoddi ar Ynys Môn yn y dyfodol |
| ZQ422 | Datblygu Prosiect – Parc Morglawdd | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | - | 20,000 | - | 20,000 | I gefnogi prosiect y Parc Morglawdd |
| ZQ423 | Costau Cynllunio a Chyfreithiol | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | - | 50,000 | - | 50,000 | I liniaru yn erbyn costau apêl Cynllunio |
| ZQ424 | Cynnal a Chadw'r Gaeaf | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | - | 33,478 | - | 33,478 | I ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer costau cynnal a chadw'r Gaeaf yn y dyfodol |
| ZQ425 | Prosiect AD / Cyflogau Northgate | Trawsnewid ac Adnoddau | - | 302,843 | - 53,900 | 248,943 | I weithredu'r prosiect Adnoddau Dynol / Cyflogau Northgate |
| ZQ426 | Prosiectau Cyfyngedig a gyllidir gan gronfeydd wrth gefn | Adnoddau | - | 20,830 | - | 20,830 | Gwaith Datblygu Civica |
| | | | - | 481,631 | - 53,900 | 427,731 | |

**5.2.2** Ceir diweddariad ar y cronfeydd wrth gefn yn Atodiad 4. Dengys y dadansoddiad o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn Atodiad 4 fod £7.279m wedi cael ei wario o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd arian ychwanegol yn rhai o'r cronfeydd wrth gefn a chrëwyd cronfeydd wrth gefn newydd er mwyn darparu ar gyfer prosiectau hanfodol yn y dyfodol. Cafodd cyfanswm o £4.641m ei ychwanegu at y cronfeydd wrth gefn clustnodedig. Mae'r mwyafrif o'r rhain yn ymwneud â chronfeydd wrth gefn clustnodedig hir-sefydlog ac mae unrhyw gynnydd wedi cael ei gynnwys oherwydd gofynion penodol i gynnwys y symiau hynny yn y cronfeydd wrth gefn. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynyddiadau yma. Mae hyn hefyd yn cynnwys cronfeydd wrth gefn newydd sydd hefyd wedi eu cyflwyno yn Nhabl 2 uchod i'r Aelodau eu cymeradwyo. Yn gyffredinol, gwelwyd gostyngiad o £2.634m yn y cronfeydd wrth gefn.

## 6. BALANSAU YSGOLION

**6.1** Yn Nhabl 3, ceir crynodeb o falansau'r ysgolion, cyfanswm o £2.089m ar 31 Mawrth 2017 (£2.462m ar 31 March 2016). Roedd gan yr holl ysgolion warged yn eu balansau ac eithrio 4 ysgol gynradd (3 ar 31 March 2016) ac 1 ysgol uwchradd (1 ar 31 Mawrth 2016). Gyda'i gilydd, roedd gan yr ysgolion hyn ddiffyg o £0.260m (£0.160m ar 31 Mawrth 2016). Mae cynllun gweithredu yn ei le ar gyfer pob ysgol ac eithrio un i ddod â'r ysgolion allan o ddiffyg. Rydym yn parhau i weithio gyda'r ysgol sy'n weddill i gytuno ar gamau gweithredu i leihau'r diffyg.

**Tabl 3**

| | Balans £'000 | Ychwanegiad / (Lleihad) ar gyfer 2015/16 £'000 | Balans 31/03/2016 £'000 | Ychwanegiad / (Lleihad) ar gyfer 2016/17 £'000 | Balans 31/03/2017 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd Cymunedol a Gwirfoddol | 1,511 | 205 | 1,716 | (294) | 1,422 |
| Ysgolion Uwchradd Cymunedol | 629 | (325) | 304 | (76) | 228 |
| Ysgol Arbennig Gymunedol | 98 | 68 | 166 | (10) | 156 |
| Ysgol Gynradd Sefydledig | 200 | 76 | 276 | 7 | 283 |
| **Cyfanswm** | **2,438** | **24** | **2,462** | **(373)** | **2,089** |

**6.2** Mae rhestr lawn am sefyllfa'r ysgolion i'w gweld yn Atodiad 5.

## 7. BALANS Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Balans agoriadol y CRT ar 1 Ebrill 2016 oedd £7.042m. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd gwarged o £0.453m a oedd yn golygu bod y balans ar adeg cau'r cyfrifon yn £7.495m. Caiff y balans hwn ei ailfuddsoddi yn y CRT yn y dyfodol a'i ddefnyddio tuag at ad-dalu'r benthyciad prynu allan o'r CRT.

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR DRAFFT 2016/17

| 2016/17 | | | Gwasanaethau | Nodyn | 2015/16 Wedi ei ail-ddatgan | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | | | Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 |
| 64,775 | (14,267) | 50,508 | Dysgu Gydol Oes | | 61,525 | (15,615) | 45,910 |
| 31,430 | (9,054) | 22,376 | Gwasanaethau Oedolion | | 29,418 | (7,286) | 22,132 |
| 8,902 | (466) | 8,436 | Gwasanaethau Plant | | 8,108 | (327) | 7,781 |
| 5,993 | (3,906) | 2,087 | Tai | | 5,448 | (3,917) | 1,531 |
| 29,214 | (7,700) | 21,514 | Priffydd, Eiddo a Gwastraff | | 29,237 | (7,076) | 22,161 |
| 11,694 | (6,284) | 5,410 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | | 11,078 | (5,304) | 5,774 |
| 4,433 | (223) | 4,210 | Trawsnewid | | 4,042 | (192) | 3,850 |
| 28,461 | (19,598) | 8,863 | Adnoddau | | 28,285 | (19,490) | 8,795 |
| 1,994 | (458) | 1,536 | Busnes y Cyngor | | 1,811 | (384) | 1,427 |
| 2,321 | (194) | 2,127 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 2,333 | (26) | 2,307 |
| 892 | (11) | 881 | Rheolaeth Corfforaethol | | 1,273 | - | 1,273 |
| 97 | - | 97 | Costau heb eu ddosbarthu | | 96 | - | 96 |
| 10,137 | (16,285) | (6,148) | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | | 31,062 | (14,894) | 16,168 |
| **200,343** | **(78,446)** | **121,897** | **Diffyg ar weithrediadau sy'n parhau** | | **213,716** | **(74,511)** | **139,205** |
| | | 23,042 | Gwariant gweithredu arall | 12 | | | 19,167 |
| | | 8,861 | Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi | 13 | | | 9,664 |
| | | (145,252) | Trethiant ac incwm grant amhenodol | 14 | | | (144,024) |
| | | **8,548** | **Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **24,012** |
| | | (7,632) | Gwarged ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol | 11c, 15 & 17 | | | (12,825) |
| | | 7,333 | Ailfesur y rhwymedigaeth Pensiwn Net | 11ch & 41 | | | (35,938) |
| | | **(299)** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(48,763)** |
| | | **8,249** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(24,751)** |

**ATODIAD 3**

## MANTOLEN DDRAFFT AR 31 MAWRTH 2017

| | Nodyn | 31 Mawrth 2017<br>£'000 | 31 Mawrth 2016<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 15 | 364,436 | 350,283 |
| Asedau Treftadaeth | 17 | 3,454 | 3,194 |
| Eiddo Buddsoddi | 18 | 6,092 | 5,983 |
| Asedau Anniriaethol | 19 | 606 | 417 |
| Buddsoddiadau Tymor Hir | 44 | 1 | 1 |
| Dyledwyr tymor hir | 24 | 646 | 688 |
| **Asedau tymor hir** | | **375,235** | **360,566** |
| | | | |
| Buddsoddiadau tymor byr | 44 | 5 | - |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | 21 | 3,524 | 6,388 |
| Rhestrau stoc | 23 | 367 | 452 |
| Dyledwyr tymor byr | 24 | 20,199 | 23,358 |
| Arian a chywerthoedd arian | 25 | 14,940 | 17,624 |
| **Asedau Cyfredol** | | **39,035** | **47,822** |
| | | | |
| Benthyca tymor byr | 44 | (5,553) | (9) |
| Credydwyr tymor byr | 26 | (20,156) | (22,130) |
| Darpariaethau tymor byr | 27 | (2,831) | (2,559) |
| Derbyniadau grantiau cyfalaf ymlaen llaw | 37 | (273) | (1,302) |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(28,813)** | **(26,000)** |
| Credydwyr tymor hir | 26 | (166) | (59) |
| Darpariaethau tymor hir | 27 | (2,414) | (2,512) |
| Benthyca tymor hir | 44 | (111,557) | (110,735) |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 41 | (105,509) | (95,022) |
| **Rhwymedigaethau tymor hir** | | **(219,646)** | **(208,328)** |
| **Asedau net** | | **165,811** | **174,060** |
| Cronfeydd wrth gefn y mae modd ei ddefnyddio | MIRS | 31,638 | 34,381 |
| Cronfeydd wrth gefn nad oes modd ei ddefnyddio | 11 | 134,173 | 139,679 |
| | | | |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn** | | **165,811** | **174,060** |

**ATODIAD 4**

## CYFANSWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG AR 31 MAWRTH 2017

| Cronfa Wrth Gefn | Gwasanaeth | Balans ar gychwyn y flwyddyn £ | Trosglwyddiadau i mewn £ | Trosglwyddiadau Allan £ | Balans ar ddiwedd y flwyddyn £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian wrth Gefn Diwrnodau Ysgol | Dysgu – Addysg | (66,860) | - | - | (66,860) |
| Gwastraff / Ailgylchu | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | 323,681 | 73,099 | - | 396,780 |
| Arfarnu Swyddi | Corfforaethol | 2,770,003 | - | (2,770,003) | - |
| Adran 117 | Gwasanaethau Cymdeithasol – Iechyd Meddwl Gwasanaethau Oedolion | 150,000 | - | - | 150,000 |
| Incwm Proses Ailgylchu | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | 382,739 | 6,633 | - | 389,372 |
| Cronfa Brynu'r Amgueddfeydd | Dysgu Gydol Oes – Diwylliant | 19,167 | - | - | 19,167 |
| Cronfa Wrth Gefn Gwella Hamdden | Rheoleiddo a Datblygu Economaidd – Hamdden | 173,600 | - | (173,600) | - |
| Cronfa Wrth Gefn Yswiriant (Trychineb) | Corfforaethol – Adnoddau | 1,250,000 | 356,125 | (235,412) | 1,370,713 |
| Cyfraniadau Refeniw heb eu defnyddio | Corfforaethol | 899,190 | - | - | 899,190 |
| Cronfa Wrth Gefn Rheoli Safle Penhesgyn | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | 2,000,000 | - | - | 2,000,000 |
| Cronfa Wrth Gefn Gwasanaeth | Corfforaethol | 93,500 | - | (93,500) | - |
| Cost Newid | Corfforaethol | 502,156 | - | (81,060) | 421,096 |
| Cynllun Trwsio a Chynnal a Chadw Ysgolion Cynradd | Dysgu - Addysg | 51,547 | - | (51,547) | - |
| Cynllun Salwch/Hysbysebion Ysgolion Cynradd | Dysgu - Addysg | 61,740 | - | (13,467) | 48,273 |
| Cronfa Wrth Gefn Trwyddedu | Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 23,000 | - | - | 23,000 |
| Maes Awyr 0607 – wedi ei glustnodi | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | 93,990 | - | - | 93,990 |
| Gwaith Trin Gwastraff Gogledd Orllewin Cymru | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | 1,306,250 | - | (100,094) | 1,206,156 |
| Ynys Ynni – Cronfa Wrth Gefn Datblygu Economaidd | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd - Economaidd | 213,133 | - | (165,237) | 47,896 |
| Rhesymoli Rheoli Asedau | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Eiddo | 99,517 | - | (42,721) | 56,796 |
| Stryd Wellington – Gwas Cym | Gwasanaethau Oedolion | 123,826 | - | (123,826) | - |
| Rhesymoli Ysgolion | Dysgu – Addysg | 1,164,302 | 208,154 | (484,982) | 887,474 |
| Cyfraniad Datblygwyr – Priffyrdd | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | - | 54,480 | - | 54,480 |
| Tîm Ledjer Newydd | Corfforaethol | 685 | - | (685) | - |
| Cefnogi Pobl | Tai | 1,611,945 | - | (1,611,945) | - |
| Cronfa Wrth Gefn ELWA – Cyllido Ôl-16 | Dysgu – Addysg | (81,416) | 81,416 | - | - |
| Cronfa Wrth Gefn Prosiectau'r UE | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | 50,000 | - | - | 50,000 |
| Datblygiadau Mawr | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | 198,387 | 34,975 | - | 233,362 |
| System Gyfrifiadurol Pridiannau Tir | Busnes y Cyngor - Cyfreithiol | 8,100 | - | - | 8,100 |
| Prynu System Rheoli | Busnes y Cyngor - Cyfreithiol | 30,000 | - | - | 30,000 |

| Cronfa Wrth Gefn | Gwasanaeth | Balans ar gychwyn y flwyddyn<br>£ | Trosglwyddiadau i mewn<br>£ | Trosglwyddiadau Allan<br>£ | Balans ar ddiwedd y flwyddyn<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Achosion Cyfreithiol Newydd | | | | | |
| Buddsoddi i Arbed – talu am brydau ysgol ar-lein | Dysgu Gydol Oes – Addysg | 50,000 | 24,154 | (48,612) | 25,542 |
| Estyn Allan y Gogledd | Dysgu Gydol Oes – Diwylliant | 2,643 | - | - | 2,643 |
| Costau Addasu PSBA | Trawsnewid - TGCh | 38,267 | - | (37,285) | 982 |
| Risg Adeiladu – Trwsio a Chynnal a Chadw | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Eiddo | 3,337 | - | (3,337) | - |
| Buddsoddi i Arbed – Gwasanaeth Lleoli Plant | Gwasanaethau Plant – Gwasanaeth Lleoli Plant | 45,420 | - | (45,000) | 0 |
| Trawsnewid | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant ac Oedolion | 321,074 | - | (124,139) | 196,935 |
| Darpariaeth Digartrefedd | Tai | 92,700 | - | (4,750) | 87,950 |
| Gwelliannau Landlordiaid / Tenantiaid | Tai | 15,000 | - | (10,000) | 5,000 |
| Tai Fforddiadwy | Tai | 117,500 | - | (18,500) | 99,000 |
| Rheoli Tai | Tai | 56,300 | - | - | 56,300 |
| Arian Wrth Gefn Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd – Grant PIF | Rheoleiddio – Cynllunio | 12,871 | - | - | 12,871 |
| Grantiau Cyfyngedig i Briffyrdd – Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Llifogydd | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd | 36,473 | - | - | 36,473 |
| Grantiau Cyfyngedig i Briffyrdd – Cronfa Wrth Gefn y Llwybr Arfordirol | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd | 7,553 | 22 | - | 7,575 |
| Grantiau Cyfyngedig i Briffyrdd - Incwm Maes Parcio'r Maes Awyr | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd | 6,406 | - | - | 6,406 |
| Mân-ddaliadau (Cyllid Penodol) | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | 1,928 | - | (1,928) | - |
| Cyllid Corfforaethol – Datblygu System CIVICA | Corfforaethol – Adnoddau | 99,099 | - | (77,506) | 21,593 |
| Economaidd ac Adfywio Cymunedol – cynlluniau cynnal a chadw Hamdden | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Hamdden | 2,941 | - | - | 2,941 |
| Adnoddau – TG Refeniw a Budd-daliadau | Adnoddau | 162,750 | - | (107,880) | 54,870 |
| Cynllun Datblygu Lleol (cynllun blaenorol ac arian wrth gefn PP) | Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 258,600 | - | (50,410) | 208,190 |
| Grant Ewropeaidd SETS | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | 37,116 | - | - | 37,116 |
| Gweddarlledu | Busnes y Cyngor – Polisi | 8,434 | - | (7,934) | 500 |
| Cronfa Wrth Gefn SCWDP | Trawsnewid – AD | 40,430 | - | - | 40,430 |
| Cronfa Wrth Gefn Prynwch Efo Hyder | Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 6,240 | - | (3,093) | 3,147 |
| Camddefnyddio Sylweddau Cymdeithasol | Trawsnewid – AD | 54,000 | - | - | 54,000 |
| Atal Masnachu Pobl | Tai | 6,549 | - | (6,549) | - |
| Swyddog Caffael Dros Dro | Adnoddau – Caffael | 33,620 | - | (33,620) | - |
| Buddsodd i Arbed – Toiledau Cyhoeddus | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff | 72,600 | - | (43,719) | 28,881 |
| System Rheoli Polisïau | Busnes y Cyngor – Polisi | 32,600 | - | - | 32,600 |
| Cynllunio | Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 25,000 | - | - | 25,000 |
| Goruchwyliwr Staff Refeniw a Budd-daliadau | Adnoddau – Refeniw a Budd-daliadau | - | 27,000 | - | 27,000 |
| Cronfa Wrth Gefn Tâl Cyfartal | Corfforaethol | 864,851 | 512,591 | (318,151) | 1,059,291 |

| Cronfa Wrth Gefn | Gwasanaeth | Balans ar gychwyn y flwyddyn<br>£ | Trosglwyddiadau i mewn<br>£ | Trosglwyddiadau Allan<br>£ | Balans ar ddiwedd y flwyddyn<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddi i Arbed | ZB00304 EDRMS Refeniw a Budd-daliadau | - | 170,000 | - | 170,000 |
| Buddsoddi i Arbed | ZB00305 Cyfeirlyfr Tir ac Eiddo Lleol | - | 10,800 | - | 10,800 |
| Buddsoddi i Arbed | ZB00307 Porth Taliadau | - | 27,000 | - | 27,000 |
| Buddsoddi i Arbed | ZB00308 System Gynllunio | - | 118,000 | - | 118,000 |
| Buddsoddi i Arbed | ZB00309 System Rheoli Arian | - | 150,000 | - | 150,000 |
| Buddsoddi i Arbed | ZB00310 Moderneiddio Prosesau Busnes | - | 87,000 | - | 87,000 |
| Buddsoddi i Arbed | ZB00311 Gwasanaethau Digidol - Staffio | - | 120,000 | - | 120,000 |
| Buddsoddi i Arbed | ZB00312 Cysylltiad Digidol yn LL | - | 45,000 | - | 45,000 |
| Buddsoddi i Arbed | ZB00308 System Gynllunio | - | - | (12,028) | (12,028) |
| Datblygiadau Mawr – Cynllunio | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | - | 240,849 | - | 240,849 |
| Gweinyddu Cefnogi Pobl | Gwasanaethau Cymunedol – Gwasanaethau Tai | - | 911,945 | (177,934) | 734,011 |
| Pobl Fregus - Corfforaethol | Gwasanaethau Cymunedol – Gwasanaethau Tai | - | 700,000 | (130,000) | 570,000 |
| Datblygu Prosiect – Parc y Morglawdd | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | - | 20,000 | - | 20,000 |
| Cynllunio a Chostau Cyfreithiol | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | - | 50,000 | - | 50,000 |
| Gwaith Cynnal a Chadw dros y Gaeaf | Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | - | 33,478 | - | 33,478 |
| Prosiect AD /Cyflogau Northgate | Corfforaethol | - | 302,843 | (53,900) | 248,943 |
| Prosiectau wedi eu Cyllido o Gronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig | Adnoddau | - | 20,830 | - | 20,830 |
| **Cyfanswm** | | **15,994,484** | **4,641,394** | **(7,279,090)** | **13,356,788** |

**Balansau Ysgolion ar 31 Mawrth 2017**



| YSGOL / SCHOOL | Arian yn cario drosodd 2015/16 balance brought forward | Dyraniad 2016/17 Allocation | Cyfanswm Gwariant 2016/17 Total Expenditure | Arian yn cario drosodd 2016/17 Balance carried forward | *% o'r Gyllideb / % of the budget* | Defnyddio i Gydbwyso cyllideb 2017/18 / Used to balance 2017/18 budget | Arian wrth gefn 2016/17 yn weddill / Balance left of 2016/17 reserves |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | **£** | £ | £ | % | £ | £ |
| AMLWCH | 23,640 | 1,050,040 | 1,042,018.37 | 8,022 | 1% | | 8,022 |
| BIWMARES | 19,060 | 364,550 | 353,495.46 | 11,055 | 3% | -870 | 10,185 |
| BODEDERN | 21,926 | 486,170 | 461,128.89 | 25,041 | 5% | -22,140 | 2,901 |
| BODFFORDD | 12,122 | 320,150 | 319,734.17 | 416 | 0% | | 416 |
| BODORGAN | 14,283 | 235,930 | 208,017.91 | 27,912 | 12% | -11,000 | 16,912 |
| BRYNGWRAN | 25,785 | 280,500 | 258,233.95 | 22,266 | 8% | -10,840 | 11,426 |
| BRYNSIENCYN | 28,520 | 288,900 | 282,587.17 | 6,313 | 2% | -6,310 | 3 |
| CEMAES | 22,340 | 402,980 | 378,175.76 | 24,804 | 6% | | 24,804 |
| DWYRAN | 16,139 | 227,060 | 210,770.83 | 16,289 | 7% | | 16,289 |
| ESCEIFIOG | 28,331 | 636,090 | 585,420.81 | 50,669 | 8% | -3,000 | 47,669 |
| GARREGLEFN | 24,198 | 237,790 | 205,050.45 | 32,740 | 14% | -7,110 | 25,630 |
| GWALCHMAI | 51,974 | 423,570 | 412,069.93 | 11,500 | 3% | -170 | 11,330 |
| PARC,CAERGYBI | 84,360 | 883,560 | 809,023.07 | 74,537 | 8% | -15,950 | 58,587 |
| MOELFRE | 44,477 | 455,290 | 413,375.26 | 41,915 | 9% | -11,250 | 30,665 |
| LLANBEDRGOCH | 22,189 | 241,850 | 228,567.69 | 13,282 | 5% | -8,990 | 4,292 |
| LLANFACHRAETH | 17,963 | 271,150 | 257,677.55 | 13,472 | 5% | -3,410 | 10,062 |
| FFRWD WIN | 21,646 | 263,840 | 244,746.97 | 19,093 | 7% | | 19,093 |
| LLANFAIRPWLL | 54,469 | 1,244,740 | 1,222,425.41 | 22,315 | 2% | | 22,315 |
| LLANFECHELL | 7,423 | 393,150 | 393,885.54 | -736 | 0% | | -736 |
| Y GRAIG | 103,889 | 1,494,560 | 1,431,912.14 | 62,648 | 4% | -59,890 | 2,758 |
| LLANGOED | 38,364 | 431,870 | 417,704.19 | 14,166 | 3% | -11,240 | 2,926 |
| LLANGRISTIOLUS | 9,881 | 465,790 | 453,347.65 | 12,442 | 3% | -3,630 | 8,812 |

| YSGOL / SCHOOL | Arian yn cario drosodd 2015/16 balance brought forward | Dyraniad 2016/17 Allocation | Cyfanswm Gwariant 2016/17 Total Expenditure | Arian yn cario drosodd 2016/17 Balance carried forward | *% o'r Gyllideb / % of the budget* | Defnyddio i Gydbwyso cyllideb 2017/18 / Used to balance 2017/18 budget | Arian wrth gefn 2016/17 yn weddill / Balance left of 2016/17 reserves |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| LLANERCHYMEDD | -1,715 | 520,450 | 536,225.62 | -15,776 | -3% | -2,850 | -18,626 |
| LLANRHUDDLAD | 29,688 | 269,700 | 233,559.33 | 36,141 | 13% | | 36,141 |
| PENCARNISIOG | 11,319 | 270,160 | 274,245.30 | -4,085 | -2% | | -4,085 |
| PENTRAETH | 27,453 | 420,620 | 412,670.66 | 7,949 | 2% | | 7,949 |
| PENYSARN | -771 | 387,820 | 385,719.09 | 2,101 | 1% | | 2,101 |
| RHOSCOLYN | 25,302 | 473,470 | 465,599.17 | 7,871 | 2% | -2,190 | 5,681 |
| RHOSNEIGR | 63,597 | 323,480 | 268,125.11 | 55,355 | 17% | -16,210 | 39,145 |
| RHOSYBOL | 40,237 | 346,440 | 319,880.05 | 26,560 | 8% | -5,630 | 20,930 |
| TALWRN | 17,952 | 255,930 | 217,125.85 | 38,804 | 15% | -1,490 | 37,314 |
| Y DYFFRYN | 66,849 | 591,760 | 518,950.21 | 72,810 | 12% | -47,980 | 24,830 |
| LLANFAWR | 73,356 | 1,119,860 | 1,088,435.46 | 31,425 | 3% | | 31,425 |
| GORONWY OWEN | -22,505 | 448,010 | 479,887.03 | -31,877 | -7% | | -31,877 |
| LLAINGOCH | 75,160 | 795,450 | 734,455.36 | 60,995 | 8% | -10,020 | 50,975 |
| NIWBWRCH | 42,203 | 345,540 | 301,303.48 | 44,237 | 13% | -8,550 | 35,687 |
| Y TYWYN | 91,640 | 659,310 | 581,499.04 | 77,811 | 12% | -25,180 | 52,631 |
| LLANDEGFAN | 48,792 | 611,260 | 577,052.08 | 34,208 | 6% | | 34,208 |
| Y BORTH | 44,303 | 896,490 | 815,083.74 | 81,406 | 9% | -40,120 | 41,286 |
| KINGSLAND | 54,580 | 767,020 | 684,372.18 | 82,648 | 11% | -34,350 | 48,298 |
| MORSWYN | 31,191 | 653,050 | 621,889.48 | 31,161 | 5% | | 31,161 |
| CORN HIR | 75,685 | 865,250 | 771,631.90 | 93,618 | 11% | -120 | 93,498 |
| PARCH THOMAS ELLIS | 132,461 | 755,760 | 642,475.59 | 113,284 | 15% | -24,200 | 89,084 |
| PARC Y BONT | 17,182 | 505,270 | 476,341.57 | 28,928 | 6% | -11,750 | 17,178 |
| LLANGAFFO | 23,914 | 281,250 | 268,062.57 | 13,187 | 5% | -11,050 | 2,137 |
| SANTES FAIR | 56,323 | 733,690 | 709,183.59 | 24,506 | 3% | -1,140 | 23,366 |
| CAERGEILIOG | 275,632 | 1,436,723 | 1,153,799 | 282,924 | 20% | | 282,924 |

| YSGOL / SCHOOL | Arian yn cario drosodd 2015/16 balance brought forward | Dyraniad 2016/17 Allocation | Cyfanswm Gwariant 2016/17 Total Expenditure | Arian yn cario drosodd 2016/17 Balance carried forward | *% o'r Gyllideb / % of the budget* | Defnyddio i Gydbwyso cyllideb 2017/18 / Used to balance 2017/18 budget | Arian wrth gefn 2016/17 yn weddill / Balance left of 2016/17 reserves |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***IS-GYFANSWM Cynradd)/ SUB TOTAL (Primary)*** | **1,992,808** | **25,833,293** | **24,126,942** | **1,706,351** | **7%** | | **1,287,721** |
| SYR THOMAS JONES | -135,385 | 2,713,500 | 2,922,870.91 | -209,371 | -8% | | -209,371 |
| CAERGYBI | 9 | 4,111,140 | 3,952,506.28 | 158,634 | 4% | | 42,404 |
| LLANGEFNI | 71,536 | 3,505,330 | 3,474,542.90 | 30,787 | 1% | | 30,787 |
| DAVID HUGHES | 157,716 | 5,170,080 | 5,087,845.99 | 82,234 | 2% | | 82,234 |
| BODEDERN | 209,939 | 3,624,700 | 3,459,584.01 | 165,116 | 5% | -100,000 | 65,116 |
| ***IS-GYFANSWM (Uwchradd)/ SUB TOTAL (Secondary)*** | **303,815** | **19,124,750** | **18,897,350** | **227,400** | **1%** | **-216,230** | **11,170** |
| Y BONT | 165,824 | 1,670,320 | 1,514,733.46 | 155,587 | 9% | -105,270 | 50,317 |
| ***IS-GYFANSWM (Arbennig) / SUB TOTAL ( Special)*** | **165,824** | **1,670,320** | **1,514,733** | **155,587** | **9%** | **-105,270** | **50,317** |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **2,462,447** | **46,628,363** | **44,539,025** | **2,089,338** | **4%** | **-740,130** | **1,349,208** |

| | Diffyg 2016/17 | Gwarged 2016/17 | Balansau 2016/17 |
|---|---|---|---|
| Cynradd | -52,473 | 1,758,825 | 1,706,351 |
| Uwchradd | -209,371 | 436,771 | 227,400 |
| Arbennig | 0 | 155,587 | 155,587 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **-261,844** | **2,351,182** | **2,089,338** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Gorffennaf,2017** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Tai Gwag 2017-2022** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Elliw Llyr**<br>**01248 752137**<br>**ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dd/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn:-

**A1.** Cefnogi a mabwysiadu Strategaeth Tai Gwag 2017- 2022 yn dilyn cymeradwyaeth yn y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol.

**Rhesymau**

Er mwyn sefydlu trefn ar gyfer delio gyda thai gwag a gallu gwneud defnydd o arian sydd ar gael drwy fentrau Llywodraeth Cymru a dynodiadau gan y Cyngor.

**1.0 Cefndir**

Dyma'r ail Strategaeth Tai Gwag i Wasanaethau Tai ei lunio. Mae'r Grynodeb Weithredol yn rhoi trosolwg o'r Strategaeth yng nghyd â'r prif amcanion strategol. Cafodd y Strategaeth ei ddatblygu mewn ymgynghoriad gydag ein prif bartneriaid a wnaeth fynychu gweithdy, gyda'r bwriad o adeiladu ar hyn sydd yn gweithio yn dda, rhannu syniadau newydd a gwyntyllu unrhyw weithredu yng nghyd-destun beth sydd yn bosib ac yn realistig. Mae Partneriaeth Tai Ynys Môn hefyd wedi eu hymgynghori ar y Strategaeth arfaethedig.

**Trosolwg y Strategaeth**

Fel nodi'r uchod mae'r Crynodeb Gweithredol yn rhoi trosolwg o'r strategaeth gyda phwyslais ar y 5 amcan strategol:

1. Gwybodaeth a thargedu - i gynnal a gwella cywirdeb gwybodaeth am ddata tai gwag
2. Cydweithio- i gryfhau partneriaethau cyfredol a datblygu rhai newydd i leihau nifer tai gwag hir dymor, mabwysiadu dynesiad cyngor cyfan i daclo tai gwag
3. Cyhoeddusrwydd – codi ymwybyddiaeth materion tai gwag
4. Dynesiad arloesol – cynyddu opsiynau yn y 'toolkit' i annog perchnogion tai gwag i ddod a

| |
|---|
| hwy yn ôl i ddefnydd<br><br>5. Gorfodaeth – i flaenoriaethu gorfodaeth ar tai gwag ac annog a chryfhau bod dynesiad cyngor gyfan i daclo tai gwag<br><br>Mae'r Strategaeth yn dangos beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma a pha adnoddau sydd angen ei dargedu wrth symud ymlaen. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Byddai peidio cael Strategaeth i ddelio gyda Thai Gwag yn golygu gwastraff adnodd ar yr Ynys a chynnydd mewn cwynion gan drigolion |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| I sichrau dynesiad Strategol i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Mae pob menter sydd yn ymwneud a thai gwag wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor gyda'r dull ariannu yn dod o Gynllun Busnes Gwasanaethau Tai neu fentrau sydd yn cael eu cyllido drwy Lywodraeth Cymru sydd yn cael ei weinyddu gan Swyddog Tai Gwag.<br>Mae'r Polisi i gynyddu Treth Cyngor ar berchnogion ail gartrefi a pherchnogion tai sydd yn wag am gyfnod hir yn cyfrannu tuag at y Strategaeth fydd yn cael ei weithredu o 2017 ymlaen. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylw |
| **5** | **Eiddo** | Dim sylw |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | Cafodd y Strategaeth Tai Gwag2017 – 2022 ei chyflwyno i Bwyllgor Craffu Corfforaethol ar 26 Mehefin, 2017 a cefnogwyd yr argymhelliad. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Effaith positif |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Effaith positif |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Effaith positif |
| **4** | **Amgylcheddol** | Effaith positif |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Gweler asesiad effaith sydd wedi atodi |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Dd/b |
| **7** | **Arall** | Dd/b |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Stratgaeth Tai Gwag 2017-2022<br>Asesiad Effaith |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



# STRATEGAETH TAI GWAG
# 2017 - 2022



**FERSIWN 2** **MAWRTH 2017**

## TABL O'R CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1. CRYNODEB GWEITHREDOL | 1 |
| 2. CYFLWYNIAD | 3 |
| 3. DIFFINIO TŶ GWAG | 3 |
| 4. TAI GWAG – Y CYD-DESTUN CENEDLAETHOL | 4 |
| 4.1 Tai Gwag Tymor Hir | 4 |
| 4.2 Newidiadau allweddol i'r Ddeddfwriaeth Tai Gwag | 4 |
| 5. Y CYD-DESTUN CORFFORAETHOL A LLEOL | 5 |
| 5.1 Yr angen am Dŷ a Phwerau Gwleidyddol / y Farchnad | 5 |
| 5.2 Beth ydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn ym Môn? | 6 |
| 5.3 Y llun cyfredol o ran tai gwag ym Môn | 9 |
| 5.4 Y rhesymau pam fod tai'n parhau'n wag ym Môn. | 11 |
| 6. Y PECYN CYMORTH TAI GWAG | 12 |
| 6.1 Cyngor | 13 |
| 6.2 Cymorth a Chymhellion Ariannol | 14 |
| 6.3 Gorfodi | 15 |
| 6.4 Blaenoriaeth ar gyfer Gorfodi | 18 |
| 6.5 Adnoddau ar gyfer Gorfodi | 18 |
| 7. CYDWEITHIO | 19 |
| 8. NODAU AC AMCANION AR GYFER Y DYFODOL | 20 |
| 9. ALLWCH CHI HELPU | 23 |
| CYNLLUN GWEITHREDU | 24 |
| GEIRFA | 29 |
| ATODIAD 1 | 31 |
| Eithriadau Treth y Cyngor<br>Premiymau Treth y Cyngor ar Eiddo Gwag Tymor Hir - Eithriadau | |
| ATODIAD 2 | 33 |
| Deddfwriaeth i Gefnogi Cynghorau i ddatrys eiddo problemus | |

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Ar hyn o bryd ym Môn, mae oddeutu 840 o gartrefi sydd yn wag er chwe mis neu fwy, gyda 61% yn wag ers dwy flynedd. Ar yr eiddo gwag "tymor hir" hyn y mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf.

Dros y pedair blynedd diwethaf mae 389 o dai gwag wedi'u defnyddio eto, i raddau helaeth oherwydd gwaith y Gwasanaeth Tai Gwag. Fodd bynnag, parhau mae'r sefyllfa o ran gwastraffu tai da a'r felltith sy'n gysylltiedig â thai gwag.

Mae hefyd oddeutu 380 o geisiadau ar restr aros Cyngor Sir Ynys Môn  gyda'r angen am dŷ cymdeithasol yn dangos yn glir yr adnodd gwastraffus y mae tai gwag yn ei gynrychioli a'r rôl sydd ganddynt i gwrdd ag angen.

Wedi i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r cynllun benthyca Troi Tai'n Gartrefi i gynorthwyo gwaith adnewyddu tai gwag neu addasu adeiladau masnachol segur, ychwanegwyd dimensiwn newydd at Gynghorau ar gyfer ymdrin ag eiddo gwag. Mae buddsoddi'n barhaus yn y cynllun yn dangos fod Llywodraeth Cymru'n cydnabod ac yn gweld gwerth yn rôl y tai gwag a gânt eu defnyddio eto i gwrdd â'r angen am dai, nid yn unig yn y sector rhentu cymdeithasol a phreifat ond hefyd dai fforddiadwy i'w prynu.

Ym Môn yn unig mae 55 eiddo wedi neu wrthi'n cael eu hadnewyddu/addasu trwy'r cynllun benthyca Troi Tai'n Gartrefi. Trwy addasu adeiladau masnachol segur, crëwyd 29 o unedau llety ychwanegol yn y sector rhentu preifat. Mae'r rhain yn rhoi refeniw ychwanegol i'r Cyngor trwy Dreth y Cyngor a gesglir. Wrth weithio gyda landlordiaid a'r Tîm Opsiynau Tai, mae llawer o'r eiddo hyn wedi'u gosod am rent fforddiadwy i bobl sydd wedi dod at y Cyngor am dŷ cymdeithasol.

Gyda chymorth grant adnewyddu, mae 75 o brynwyr tro cyntaf ym Môn wedi gallu cael eu troed ar yr ysgol dai trwy brynu eiddo gwag tymor hir, cost isel y mae angen ei adnewyddu.

Wrth weithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, mae 12 o dai gwag tymor hir wedi'u prynu trwy gymhorthdal grant tai cymdeithasol ac, felly, mae'n codi nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael ar yr Ynys. Yn fwy diweddar, mae'r Cyngor wedi bod yn prynu hen dai cyngor gwag tymor hir er mwyn eu defnyddio eto yn rhan o'u stoc tai cymdeithasol.

At hyn, mae'r Cyngor yn arbrofi gyda chynllun newydd sy'n golygu prynu eiddo gwag y mae angen eu hadnewyddu. Bydd yr eiddo'n cael ei adnewyddu gan y Cyngor a'i werthu fel tŷ fforddiadwy ar sail rhannu ecwiti.

Wrth ymdrin â pherchenogion tai gwag, mae'n well gan y Cyngor wastad weld gweithred wirfoddol trwy negodi a darbwyllo.  Mae cyngor, cymorth a chymhellion yn rhoi llai o bwysau ar adnoddau'r Cyngor a llai o alw am orfodi yn hwyrach ymlaen. Gyda'r rhan helaeth o achosion, mae hyn yn ddigon ond ceir adegau pan nad oes modd cael hyd i berchenogion neu eu bod yn anfodlon siarad yn wirfoddol.  Dan yr

amgylchiadau hyn mae angen ystyried defnyddio camau gorfodi. Er mai’r cam olaf fyddai hyn, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ddefnyddio pwerau gorfodi, yn enwedig, felly, werthu gorfodol.

O’r 1af o Ebrill 2017, bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn codi premiwm Treth y Cyngor o 25% o gyfradd safonol Treth y Cyngor ar dai gwag tymor hir ar yr Ynys. Ym mis Chwefror 2017, cymeradwyodd y Cyngor Bolisi ar gyfer gweithredu dau gynllun i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf, wedi’u hariannu o’r premiymau ychwanegol hyn. Yr hyn yw’r cynlluniau yw i) grant i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf i brynu ac adnewyddu tŷ gwag a ii) benthyciadau ecwiti i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf.

Mae’r strategaeth hon yn darparu’r fframwaith i sicrhau fod Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau ar flaen y gad o ran arfer gorau yng nghyswllt tai gwag ac yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth ddefnyddio tai gwag eto ac, felly, yn gwneud y mwyaf o’r manteision i bobl Môn.

Ei bum amcan strategol yw:-

1. Gwybodaeth a Thargedu – cynnal a gwella cywirdeb data tai gwag
2. Cydweithio - cryfhau partneriaethau sydd eisoes yn bodoli a datblygu rhai newydd er mwyn gostwng nifer yr eiddo gwag tymor hir, gan weithredu ar draws y cyngor cyfan i fynd i’r afael â thai gwag.
3. Cyhoeddusrwydd - codi ymwybyddiaeth o faterion tai gwag
4. Dulliau Gweithredu Arloesol - Cynyddu opsiynau yn y ‘Pecyn Cymorth’ i annog perchenogion tai gwag i’w defnyddio eto.
5. Gorfodi - Blaenoriaethu tai gwag ar gyfer camau gorfodi a hyrwyddo a chryfhau’r dull sydd eisoes yn bodoli o weithredu ar draws y cyngor cyfan i fynd i’r afael â thai gwag.

## 2 CYFLWYNIAD

Adnodd gwastraffus yw tai gwag, pan fo angen tai o ansawdd dda ar lawer o bobl a theuluoedd. Bydd tai gwag sy'n cael eu defnyddio eto'n rhoi cartrefi saff, diogel a fforddiadwy i bobl Môn.

Gall hyd yn oed un tŷ gwag a adawyd i fynd â'i ben iddo fod yn felltith ar stryd neu gymuned gyfan, gostwng gwerth tai o'i amgylch, creu niwsans i breswylwyr lleol a chyfrannu at ddirywiad ardal. Mae tŷ sydd â phobl yn byw ynddo'n gwella cymuned. Byddir yn gofalu amdano a bydd ei breswylwyr yn cyfrannu'n economaidd ac yn gymdeithasol i'r gymuned.

Yn ogystal â denu trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol megis llosgi bwriadol, fandaliaeth, sgwatio, tresmasu a dwyn, cynyddu'r baich ar yr heddlu a'r gwasanaeth tân, gall tai gwag greu mwy o broblemau trwy ddenu llygod mawr, tipio anghyfreithlon a thamprwydd. Yn aml iawn, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymyrryd i gael gwared â'r peryglon hyn ac mae hyn yn wastraff costus o adnoddau, gan fynd i'r afael ag effeithiau tymor byr yn unig eiddo gwag. Yr ateb tymor hir gorau fyddai defnyddio'r eiddo eto.

Cyhoeddwyd Strategaeth Tai Gwag cyntaf Cyngor Sir Ynys Môn yn 2009 ac roedd yn ymwneud â deall effaith tai gwag ar gymunedau a rhesymau pam fod tai'n cael eu gadael yn wag. Bydd yr ail strategaeth hon yn:-

- Diffinio'r cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud ac yn adeiladu arno;
- Ymgorffori'r negeseuon allweddol o'r gweithdy rhanddeiliaid mewnol;
- Gosod allan sut bydd y Cyngor yn ceisio gweithio gyda pherchenogion eiddo gwag tymor hir yn y dyfodol;
- Canolbwyntio ar gydweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddiffinio a chyflawni atebion ar gyfer defnyddio tai gwag eto;
- Rhoi gwybod i berchenogion tai gwag beth yw'r opsiynau sydd ar gael iddynt.

## 3 DIFFINIO TŶ GWAG

Mae modd rhannu tai gwag yn chwe chategori:-

**Eiddo gwag rhyngweithiol** - eiddo sy'n wag am gyfnod byr yw'r rhain, yn bennaf rhwng perchenogaeth a thenantiaeth ac maent yn rhan o gylch arferol pobl yn symud tai. Er eu bod yn llai o flaenoriaeth i'r cyngor, byddid yn ymdrin â nhw pe byddent yn creu perygl neu niwsans.

**Eiddo gwag tymor hir** - eiddo sydd yn wag ers chwe mis neu fwy yw'r rhain ac ar y rhain y mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf gan eu bod yn debygol o aros yn wag heb ymyrraeth y Cyngor i'w defnyddio eto.

**Tŷ gwag go iawn** - mae canfyddiad bod tai gwag i'w cael mewn ardaloedd sydd wedi dirywio, eu bod bron â mynd â'u pennau iddynt, bod eu ffenestri wedi'u byrddio neu eu bod yn achosi problemau ond, mewn gwirionedd, mae modd rhannu eiddo gwag yn rhai problemus neu fel arall ond, er hynny, maent yn wag pan allent fod yn lle i rywun fyw ynddynt ac, felly, maent yn cael eu gwastraffu.

**Lle dibreswyl na chaiff ei ddefnyddio** - gall y rhain amrywio o adeilad nad yw mwyach yn bosib ei ddefnyddio ar gyfer ei ddefnydd blaenorol neu loriau uwch adeiladau na chânt eu defnyddio ddigon ac sydd uwchben lle masnachol ac a allai fod yn addas i'w addasu'n eiddo.

**Ail gartrefi** - caiff eiddo a gânt eu diffinio o ran Treth y Cyngor fel ail gartref, tai haf a rhandai i eiddo eraill eu heithrio ond nid yw wastad yn hawdd gwahaniaethu rhwng y rhai hynny nad oes neb yn byw ynddynt a'r rhai sy'n syrthio i'r categorïau olaf.

**Anheddau sydd wedi'u tynnu oddi ar restr Treth y Cyngor** - eiddo yw'r rhain nad yw'n bosib byw ynddynt, er enghraifft oherwydd eu bod wedi'u difrodi gan y tywydd, pydredd neu fandaliaeth ac y byddai angen gwneud gwaith strwythurol mawr arnynt i'w gwneud yn addas rhag y gwynt a'r glaw eto.

## 4 TAI GWAG – Y CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

### 4.1 Tai Gwag Tymor Hir

Yn ôl yr Amcangyfrifon o Stoc Anheddau yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, amcangyfrifiwyd bod 1.4 miliwn o anheddau yng Nghymru ar 31 Mawrth 2016. Ar gyfartaledd yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, mae oddeutu 26,000 o anheddau'r flwyddyn wedi bod yn wag am fwy na 6 mis, sy'n cyfrif am ychydig dros 1.85% o'r stoc dai yn ei chyfanrwydd.

I gydnabod y cyfraniad y gall defnyddio tai gwag eto ei wneud i gwrdd â'r angen am dai, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o fesurau i gefnogi awdurdodau lleol, gan arwain at 7,560 o dai gwag tymor hir yn cael eu defnyddio eto. Mae hyn yn cynnwys y cynllun benthyca "Troi Tai'n Gartrefi" a gafodd gyfanswm o £30 miliwn o fuddsoddiad hyd yn hyn.

Daeth gwerthusiad[1] o'r cynllun a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil Rhanbarthol, Economaidd a Chymdeithasol, Sheffield Hallam, i'r casgliad fod y cynllun yn rhoi impact a gwerth am arian, yn cynnwys:-

- Dod ag 83 ceiniog o arian personol a sector preifat ychwanegol i mewn am bob £1 o fenthyciad a gymeradwyir
- 144 o eiddo gwag (280 uned llety) wedi'u defnyddio eto erbyn 31 Mawrth, 2015.
- £46.0 miliwn mewn allbwn economaidd yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy gost lawn y gwaith
- Darparu incwm rhentu a gwerthu i berchenogion
- Wedi bod o fudd i'r cymunedau lleol yng nghyffiniau agos y tai gwag problemus.

### 4.2 Newidiadau allweddol i'r Ddeddfwriaeth Tai Gwag

O 1 Ebrill 2017, bydd awdurdodau lleol yn medru codi premiwm o hyd at 100% o gyfradd safonol Treth y Cyngor ar dai gwag tymor hir yn eu hardaloedd. Gwnaed y newidiadau deddfwriaethol gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Bwriad y pwerau dewisol a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm yw bod yn fodd i'w cynorthwyo i:

[1] http://www.shu.ac.uk/research/cresr/sites/shu.ac.uk/files/houses-homes-final-eval-report.pdf

- Ddefnyddio tai gwag tymor hir eto i ddarparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
- Chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol.

## 5 <u>Y CYD-DESTUN CORFFORAETHOL A LLEOL</u>

Mae'n hanfodol deall sefyllfa benodol Môn o ran tai gwag a'r angen am dai os ydym am gydnabod y cyfraniad y gall defnyddio tai gwag eto ei wneud i adnewyddu cymunedau a chynyddu opsiynau tai; dau amcan a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol pum mlynedd y Cyngor (2013 - 2017).

### 5.1 Yr Angen am Dai, a Phwerau Gwleidyddol / y Farchnad

**Tai Ychwanegol** – Mae'r Strategaeth Dai (2014 – 2019) wedi nodi bod angen oddeutu 240 o gartrefi ychwanegol ar yr Ynys bob blwyddyn. Gall defnyddio tai gwag eto gyfrannu at gwrdd â'r angen hwn, mae'n llai dadleuol na chodi tai newydd ac mae'n defnyddio llai o adnoddau.

**Fforddiadwyedd** - Gan fod prisiau tai'n codi'n gynt na chodiadau mewn incwm, mae'n anodd i brynwyr tro cyntaf ar incwm isel gael morgais. Ers ei sefydlu yn 2012, mae 325 o bobl o Fôn, sydd â diddordeb mewn bod yn berchen ar dŷ ond yn methu fforddio prisiau'r farchnad, wedi cofrestru eu dymuniad i gael eu hystyried i gael bod yn berchen ar dŷ gyda chymorth, ar y gofrestr Tai Teg. Gall eiddo gwag y mae angen eu hadnewyddu gynnig opsiwn o brynu tŷ cost isel, yn enwedig felly os ydynt wedi'u cysylltu â grant adnewyddu prynwyr tro cyntaf.

**Digartref** - Wrth i'r cyngor wneud defnydd o'r pŵer newydd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 i arfer ei ddyletswydd i roi llety mewn tenantiaeth rhent preifat i'r rhai sy'n ddigartref ac y mae eu hangen yn flaenoriaeth, crëir angen pellach am eiddo rhent preifat. Gall addasu adeiladau masnachol, segur a gwneud eiddo gwag yn addas i bobl fyw ynddynt eto gynorthwyo i gwrdd â'r galw hwn.

**Mwy o Alw** - Gyda chwmnïau ynni byd-eang mawr yn gweithio tuag at fuddsoddi'n sylweddol ym Môn, bydd y mewnlifiad cysylltiedig o weithwyr hefyd yn rhoi mwy o bwysau ar dai marchnad a thai'r sector rhentu preifat. Rhaid i'r Cyngor sicrhau gweithio gyda'r datblygwr i sicrhau cynllun i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd.Byddai modd blaenoriaethu ardaloedd dros gyfnod y datblygiad.

**Cyflawni Gwasanaeth Cyhoeddus** - Mae'r Cyngor nawr yn mynd i gyfnod o her ariannol ac ansicrwydd na welwyd mo'u tebyg o ran cynnig Llywodraeth Cymru am newid yn y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflawni. O'r herwydd, nid yw'r strategaeth hon yn canolbwyntio'n unig ar gynnal y momentwm sydd eisoes wedi'i greu ond, hefyd, ar ganfod ffyrdd newydd ac arloesol o fynd i'r afael â defnyddio eiddo preswyl a masnachol eto. I wneud hyn yn effeithiol, rhaid gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael ar draws y Cyngor, uchafu cyfleoedd ariannu a chael mwy o weithio mewn partneriaeth.

## 5.2 Beth ydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn ym Môn?

Gwnaed cynnydd sylweddol wrth weithredu'r cynllun cyflawni a amlinellir yn y Strategaeth Tai Gwag gyntaf:-


| | |
|---|---|
| **(i)** | **Creu data-bas o eiddo gwag** |

Mae data-bas o eiddo gwag wedi'i greu a chaiff ei ddiweddaru'n flynyddol. Cedwir y ffynhonnell ystadegol orau sydd ar gael i Gyngor Sir Ynys Môn o ran gwybodaeth am dai gwag ar ddata-bas Treth y Cyngor. Er bod y wybodaeth hon mor gyfredol ag y gallai fod, mae eithriadau a gallai'r rhain beri i'r data fod yn anghyflawn mewn amgylchiadau penodol.

| | |
|---|---|
| **(ii)** | **Nifer yr eiddo gwag a ddefnyddir eto yn erbyn targedau blynyddol a osodwyd** |

**389 eiddo wedi'u defnyddio eto dros y pedair blynedd diwethaf**

Dengys y graff isod nifer yr eiddo a ddefnyddiwyd eto. Mae nifer uwch y tai a ddefnyddiwyd eto yn 13 -14 a 14 - 15 yn arwydd clir o'r effaith a'r manteision a gafwyd o sicrhau arian o amryfal wahanol ffrydiau i ariannu'r Grant Adnewyddu Tai Gwag Prynwyr Tro Cyntaf a Chynllun Benthyca Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru.





Bob blwyddyn mae nifer y tai gwag a ddefnyddiwyd eto wedi bod yn uwch na'r targed a osodwyd.

Yn ystod y strategaeth nesaf, bwriad y Cyngor yw mynd i'r afael â'r eiddo gwag tymor hir y gellid bod angen gwneud gwaith adnewyddu sylweddol arnynt neu eiddo lle nad oes cymhelliad i'r perchennog eu defnyddio eto gan eu bod wedi'u tynnu o system Treth y Cyngor. Bydd mynd i'r afael â'r eiddo hyn yn ddefnydd effeithiol o adnoddau a gallai arwain at nifer lai o eiddo'n cael eu defnyddio eto.

| (iii) | **Wedi datblygu “Pecyn Cymorth o Opsiynau” ar gyfer Tai Gwag** |
|---|---|

Mae stori wahanol i bob tŷ ac mae angen ateb pwrpasol ar ei chyfer. Wrth wrando ar berchenogion, mae’r Cyngor wedi datblygu “Pecyn Cymorth”, sy’n sicrhau fod cefnogaeth ac ymyrraeth yn cael ei deilwrio’n unigol. Yr hyn sy’n well gan y Cyngor yw defnyddio eiddo eto trwy negodi a chytuno gyda pherchennog, gan osgoi gorfod cael mesurau gorfodi sy’n cymryd amser ac sy’n gostus. Fodd bynnag, lle mae negodi’n methu a gwrthodir dull gweithredu neu ei fod yn ofer, fel cam olaf, gallai’r Cyngor gymryd camau gorfodi.

Mae llwyddiant gweithredu fel hyn yn amlwg i’w weld yn y siart isod, sy’n dangos canran y tai gwag a ddefnyddiwyd eto trwy ddefnyddio gwahanol ddulliau.




| (iv) | **Dosbarthu Gwybodaeth – Cyngor ac Arweiniad** |
|---|---|

Mae gan y Cyngor dudalen bwrpasol ar gyfer cynlluniau tai gwag ar ei wefan. At hyn, mae pob perchennog eiddo gwag ar yr Ynys wedi cael cynnig arweiniad, cymorth, cyngor a gwybodaeth ysgrifenedig i ddefnyddio’u cartrefi eto, a chysylltwyd â nhw o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen isod:-
http://www.anglesey.gov.uk/searchresults?qsearch=1&qkeyword=empty+homes

| (v) | **Cynlluniau Cymell a Chymorth Ariannol** |
|---|---|

Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau'n cynnig cymorth ariannol i berchenogion eiddo gwag iddynt eu defnyddio eto.

- Prynodd 58 o brynwyr tro cyntaf eiddo fforddiadwy, gyda chymorth Grant Adnewyddu Prynwyr Tro Cyntaf a ariannwyd gan y Cyngor a Chronfa Partneriaeth Môn a Menai.
- Prynodd 17 o brynwyr tro cyntaf eiddo fforddiadwy, gyda chymorth Grant Adnewyddu Prynwyr Tro Cyntaf a ariannwyd trwy'r Cynllun Adnewyddu Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Nododd gwerthusiad o'r cynllun fod pob £1 o grant a wariwyd yn dod â £4.31 i mewn i'r sector preifat.
- Bydd 55 eiddo'n cael eu defnyddio eto /eu creu trwy'r cynllun benthyca Troi Tai'n Gartrefi.
- Prynwyd 12 o dai gwag gan Gymdeithas Dai gan ddefnyddio Cymhorthdal Grant Tai Cymdeithasol.
- Prynwyd 1 eiddo gwag tymor hir, problemus ac yna ei adnewyddu a'i werthu fel tŷ fforddiadwy ar sail rhannu ecwiti fel rhan o'r Arbrawf Pryniant trwy Gytundeb / Gorchymyn Prynu Gorfodol. Bydd elw'r gwerthiant yn cael ei ailfuddsoddi yn y cynllun.

| (vi) | **Gorfodi** |
|---|---|

Ystyrir camau gorfodi yn gam olaf ac fe'u defnyddir yn unig pan fo negodiadau wedi methu neu nad oes gwir obaith defnyddio tŷ gwag eto. Mae Polisi Gwerthu Gorfodol yn ei le ac mae dau eiddo wedi'u gwerthu er mwyn adennill dyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaeth y dylai'r perchennog fod wedi'i wneud. Mae un eiddo wrthi'n cael ei adnewyddu, mae rhywun yn byw yn y llall.

| (vii) | **Cymhorthfa Tai Gwag** |
|---|---|

Caiff gwybodaeth a phwerau statudol ynghylch tai gwag eu rhannu ar draws gwasanaethau.  Sefydlwyd cymhorthfa Tai Gwag er mwyn sefydlu dull cydgysylltiedig o weithredu ar draws yr holl wasanaethau yn y Cyngor. Golyga hyn ddefnyddio adnoddau cyfyngedig yn fwy effeithiol, yn ariannol ac o ran gweithlu, gan ganolbwyntio ar ateb tymor hir yn hytrach nag ymateb i gwynion penodol.

Cydnabu Sefydliad Siartredig Tai'r dull hwn o weithredu fel enghraifft o Arfer Da ac mae wedi'i fabwysiadu gan Gynghorau eraill.

| (viii) | **Gwasanaethau Paru Eiddo** |
|---|---|

Nod y gwasanaeth paru eiddo yw cysylltu perchenogion sy'n dymuno gwerthu eiddo gwag â darpar brynwyr.

| (x) | **Gweithio ar Draws Ffiniau** |
|---|---|

Cynrychiolir y Cyngor gan y Swyddog Tai Gwag mewn digwyddiadau a gweithgorau Tai Gwag Rhanbarthol a Chenedlaethol.


## 5.3 Y Llun Cyfredol o ran Tai Gwag ym Môn

Ar y 1[af] o Ebrill, 2016, cofnodwyd 842 o eiddo ar y data-bas tai gwag. Mae'r rhain yn dai sydd wedi parhau'n wag am chwe mis neu fwy yn ôl cofnodion Treth y Cyngor – mae'r nifer wirioneddol yn debygol o fod yn sylweddol uwch gan na fydd pobl wedi dweud bod nifer yn wag.

### Dosbarthiad Tai Gwag yn ôl Côd Post

Pan fydd tai gwag yn cael eu hamlinellu ar fap, mae'n amlwg fod eu dosbarthiad yn eang ar draws yr Ynys. Mae hyd yn oed un tŷ gwag a ddefnyddir eto mewn cymuned yn gymorth sylweddol i gwrdd â'r angen am dŷ yn y gymuned honno, gan ei gwneud yn bosib i bobl aros yn eu milltir sgwâr, yn agos at eu rhwydwaith teuluol a chynorthwyo i gadw a chynnal y Gymraeg. (Ffynhonnell: data-bas tai gwag 1.4.16).


**Dosbarthiad Tai Gwag yn ôl Côd Post**




### Arwyddocâd Ymyrraeth Gynnar

Awgryma tystiolaeth po hiraf y mae eiddo'n wag, yr anoddaf yw ymgysylltu â'r perchennog. Yn wyneb hyn, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i fynd i'r afael ag eiddo sy'n wag hyd at ddwy flynedd a thros bum mlynedd. Er gwaethaf hyn, dengys y siart isod fod 514 (neu 61%) o eiddo gwag tymor hir ar yr Ynys wedi bod yn wag ers mwy na dwy flynedd, gyda 283 yn cael eu cofnodi fel rhai sydd yn wag ers dros bedair blynedd.

**Eiddo Gwag yn ôl hyd yr amser y maent yn wag**
**(Ffynhonnell Bas-data Tai Gwag 1 Ebrill 2016)**




**Atebion pwrpasol -** Er y gallai rhai ystyried fod Môn yn ffodus nad oes ganddi strydoedd o eiddo gwag yn mynd â'u pennau iddynt ac sydd â ffenestri wedi'u byrddio fel y gwelir mewn rhai ardaloedd, gall mynd i'r afael ag eiddo unigol sydd wedi'u gwasgaru'n eang ar draws lleoliadau trefol, lled-wledig a gwledig fod yr un mor heriol. Mae teilwrio cymorth ar gyfer y cyfryw eiddo'n gofyn am ddull gweithredu unigol, sy'n cynnwys darbwyllo a negodi, gan ei fod yn syrthio'r tu allan i brosiectau adnewyddu graddfa fawr a'u ffrydiau ariannu cysylltiedig.

**Lleoliadau pellennig -** Yn aml iawn nid oes gan eiddo gwag mewn ardaloedd gwledig iawn gyfleusterau sylfaenol megis dŵr neu drydan ac maent mor bellennig nad oes neb yn sylwi arnynt ac nid ydynt yn creu problem. Ni fyddid yn ymdrin â'r eiddo hyn ar hyn o bryd oni bai y ceid cwynion yn eu cylch.

**Fflatiau uwchben siopau -** Mae gan Fôn nifer o fannau dibreswyl uwchben siopau a ddefnyddir un ai fel man storio (ac, felly, gellir ystyried y cânt eu defnyddio) neu y gallent fod wedi'u defnyddio fel lle i fyw ar un adeg. Mae angen gwneud gwaith atgyweirio ar rai ond nid yw perchenogion yn cael eu denu at waith adnewyddu neu addasu oherwydd y gost uchel sydd ynghlwm wrtho. Mae adnewyddu canol trefi'n golygu llawer mwy na llenwi siopau gwag. Mae'n golygu creu canol tref fywiog. Wrth sicrhau fod unrhyw fidiau ariannu yn y dyfodol ar draws y Cyngor yn cynnwys defnyddio fflatiau uwchben siopau eto, gallwn ddod â gwerth ychwanegol i gynllun, gan gynyddu'r cyflenwad tai a nifer y bobl a ddaw i ganol trefi.

**Addasu Adeiladau Masnachol –** Oherwydd y dirywiad economaidd, mae gan Fôn ei chyfran deg o adeiladau masnachol segur.  Mae'r safleoedd hyn yn ddelfrydol ar gyfer eu hailddatblygu ond mae angen llawer o adnoddau ar gyfer y cyfryw brosiectau a mewnbwn partneriaid mewnol ac allanol os yw'r cyfryw eiddo/safleoedd hyn am gael eu datgloi a defnyddiau eraill, posib a ffrydiau ariannol am gael eu hadnabod a'u gwireddu.

**Angen eu Moderneiddio -** Mae rhai eiddo ar draws yr Ynys wedi elwa o gyfuniad o amlennu a chynlluniau atgyweirio grŵp. Mae llawer o'r eiddo hyn i'w gweld yn dwt ond yn aml iawn mae hyn yn cuddio'r angen am foderneiddio'r tu mewn iddynt. Gallai gwaith gwerthu'r cyfryw eiddo faglu neu fethu yn y cyfnod arolwg, pan fo cost gwaith adfer yn dod yn rhwystr i gael morgais.

**Problemus ac wedi'u Tynnu oddi ar restr Treth y Cyngor -** Mae cyfran o'r eiddo gwag mwyaf problemus ar yr Ynys wedi'u tynnu oddi ar restr Treth y Cyngor. Ar adegau fel hyn, oherwydd na chodir Treth y Cyngor, nid oes cymhelliant i berchenogion gymryd camau cadarnhaol ac, oherwydd eu cyflwr gwael, y rhain y mae pobl yn cwyno fwyaf wrth y Cyngor yn eu cylch. Gall ymyrryd olygu defnyddio

llawer o adnoddau ac mae angen gweithredu ar draws sawl adran ond, pan fyddir yn llwyddiannus, gall ddod â refeniw Treth y Cyngor ychwanegol, nid yn unig i'r Cyngor Sir ond hefyd i'r Heddlu a Chynghorau Tref a Chymuned, fel y dangosir yn y siart isod.

| Nifer yr eiddo a ddefnyddiwyd eto wedi i'r Cyngor gymryd camau gorfodi | *Refeniw Ychwanegol i Dreth y Cyngor |
|---|---|
| 4 | £5,362 |

*Yn seiliedig ar Dreth y Cyngor gyfartalog ar gyfer eiddo Band D o £1340.57 yn 2016/17. Codir £1061.46 gan y Cyngor / £240.12 gan Heddlu a Chomisiynydd Trosedd Gogledd Cymru a £38.99 y praesept cyfartalog a osodir gan Gynghorau Tref a Chymuned.

**Premiwm Treth y Cyngor ar Eiddo Gwag -** O'r 1af o Ebrill, 2017, bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn codi premiwm Treth y Cyngor o 25% o gyfradd safonol Treth y Cyngor ar dai gwag tymor hir ar yr Ynys. Bydd hyn yn berthnasol i'r holl eiddo gwag tymor hir sydd wedi bod yn wag am gyfnod parhaus er y 1af o Ebrill, 2016. Fodd bynnag, bydd nifer o ddosbarthiadau eithrio, sy'n benodol berthnasol i eiddo gwag tymor hir. Lle mae tŷ gwag yn syrthio i mewn i un o'r dosbarthiadau hyn, ni fydd y Cyngor yn medru codi premiwm Treth y Cyngor. Mae rhestr o Eithriadau ar gael yn Atodiad 1. Gan nad yw hyn yn dod i rym tan y 1af o Ebrill 2017, bydd yn cymryd ychydig o flynyddoedd cyn y bydd y Cyngor yn gallu asesu'r effaith y gall cynnydd o'r fath ei chael ar ostwng nifer yr eiddo gwag.

Mae'r Cyngor wedi'i annog i fuddsoddi cyfran o'r refeniw ychwanegol mewn cynlluniau i gefnogi gostyngiad yn nifer yr eiddo gwag ar yr Ynys ac i gwrdd ag anghenion ei breswylwyr am dai fforddiadwy. Yn Chwefror 2017 cymeradwyodd y Cyngor Bolisi ar gyfer gweithredu dau gynllun i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf. Bydd y ddau gynllun yn cael eu cyllido o bremiwm Treth y Cyngor a godir ar ail gartrefi a thai gwag o Ebrill 2017 ymlaen. Dyma'r cynlluniau:

1) Grant i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf i brynu ac adnewyddu tŷ gwag.
2) Benthyciadau ecwiti i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf

### 5.4 Y rhesymau pam fod tai'n parhau'n wag ym Môn

Mae rhai eiddo'n wag oherwydd prosesau arferol prynu, gwerthu a gosod eiddo. Adwaenir y rhain fel eiddo rhyngweithredol ac ni fyddid yn eu targedu oni bai eu bod yn achosi problem.

Ymhlith rhesymau cyffredin eraill mae:-

- **Y deilydd yn marw**
- **Y deilydd yn symud i ysbyty neu sefydliad**
- **Deiliaid yn cael eu taflu allan neu ailfeddiannu**
- **Angen gwneud gwaith atgyweirio neu ailwampio** sydd y tu draw i'r hyn y gall y perchennog ei fforddio
- **Ofnau ynghylch rhentu'r eiddo** – gallai'r perchennog fod wedi cael profiad drwg wrth osod yr eiddo ac nid yw'n dymuno mentro gwneud hyn eto. Mae gan eraill ganfyddiadau di-sail o broblemau gyda rhentu. Nid oes gan

berchenogion y wybodaeth ac mae ganddynt bryderon ynghylch cyfrifoldebau bod yn landlord.

- **Gwerthu'r eiddo** - gall yr eiddo hyn fod mewn cyflwr da ond mae'r perchenogion wedi methu gwerthu am wahanol resymau. Ymhlith rhesymau eraill mae disgwyl am gyflwr gwell y farchnad neu bryderon ynghylch y goblygiadau treth.
- **Eiddo a etifeddwyd** - Efallai nad oes gan y perchennog y wybodaeth i wneud unrhyw beth gydag eiddo a etifeddwyd na'r awydd. Mae rhai yn eu cadw rhag ofn i'w plant ddewis byw ynddynt yn y dyfodol.
- **Eu heiddo/eu busnes** - dewisa perchenogion beidio ag ymgysylltu â'r Cyngor gan y credant nad oes gan y Cyngor yr hawl i gymryd camau iddo gael ei ddefnyddio eto gan fod yr eiddo mewn perchenogaeth breifat. Efallai nad ydynt yn ymwybodol o'r effaith y mae'r eiddo'n ei chael ar yr ardal leol a'r eiddo o'i gwmpas. Fel arfer y rhain yw'r eiddo sy'n debygol o gael eu gadael yn wag am sawl blwyddyn a mynd â'u pennau iddynt. Gan eu bod yn cael eu cadw'n wag yn fwriadol gan y perchennog, cânt eu hystyried yn "dai gwag bwriadol"
- **Pryniant ar hap** – Eiddo a brynir fel buddsoddiad gan berchenogion nad oes ganddynt awydd wneud dim gyda nhw.
- **Materion cyfreithiol -** er enghraifft gall oedi a/neu ddadleuon yng ngweinyddiaeth y stad pan fo perchennog wedi marw arwain at beidio â cheisio neu roi brofeb. Efallai bod dadl ynghylch perchenogaeth neu bod sawl perchennog ac, felly, nid oes modd cytuno ar yr hyn i'w wneud gyda'r eiddo. Mewn amgylchiadau penodol, mae dyledion eisoes yn ddyledus i'r Cyngor e.e. ffioedd gofal cartref neu gost gwaith a wnaed oherwydd nad oedd y perchennog wedi'i wneud os yw rhywun eisoes wedi cwyno am yr eiddo.
- **Perchenogion absennol/nad oes modd cael hyd iddynt** - efallai nad yw'n amlwg yn syth pwy sy'n berchen ar eiddo na lle maent gan eu bod o bosib wedi symud i ffwrdd gyda fawr ddim gwybodaeth ar gael i'w canfod. Er bod manylion perchenogaeth yr holl eiddo cofrestredig yn y Gofrestrfa Tir, nid yw nifer sylweddol o eiddo ar yr Ynys wedi newid perchenogaeth ers i gofrestru ddod yn orfodol ac, felly, nid oes gwybodaeth am eu perchenogaeth ar gael wrth law. Lle nad oes gwybodaeth ar gael o'r ffynhonnell hon, gall canfod pwy yw'r perchennog fod yn anodd.

## 6 Y PECYN CYMORTH TAI GWAG

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn wastad yn ceisio gweithio gyda pherchenogion eiddo gwag yn y lle cyntaf, yn cynnig cyngor, cymorth ac opsiynau sydd â'r bwriad o gynorthwyo perchenogion tai gwag fel yr amlinellir yn y pecyn cymorth isod. Mae'r Cyngor yn disgwyl i berchenogion tai gwag ymgysylltu'n llwyr gyda'r broses o'u defnyddio eto ac i gydweithredu â'r Cyngor.

Os gwrthodir y cyngor a'r cymorth hwn yn gyson, efallai na fydd gan y Cyngor ddewis ond cymryd camau gorfodi i ddatrys y problemau sy'n gysylltiedig â'r eiddo a sicrhau y caiff ei ddefnyddio eto. Mae ychwanegu at y pecyn cymorth yn nodwedd barhaus a fydd yn parhau'n flaenoriaeth ar draws telerau'r strategaeth newydd. Trwy wneud perchenogion yn ymwybodol o'r pecynnau cymorth sydd gan y Cyngor i'w defnyddio, mae'r Strategaeth hon yn cyflawni ei phedwerydd amcan, sef annog perchenogion tai gwag i ddefnyddio eu heiddo eto.

## 6.1 Cyngor

Bydd y Cyngor yn gwneud ei orau glas i ddatrys problem ynghylch tŷ gwag trwy gydweithredu a chanfod ateb a fydd o fantais i'r naill ochr a'r llall sy'n caniatáu i'r perchennog ddal ei afael yn yr eiddo.

Yn ogystal â chynnig cyngor sy'n bwrpasol ar gyfer perchenogion eiddo gwag tymor hir, mae'r Cyngor yn cynnig nifer o gynlluniau sydd â'r nod o gynorthwyo i gymell perchenogion eiddo gwag i wneud y gorau o'u hadnodd nad oes defnydd yn cael ei wneud ohono.

| **Cyngor a gwybodaeth<br>I berchenogion tai gwag ac aelodau'r cyhoedd** | |
|---|---|
| **Cynorthwywch berchenogion i werthu eiddo** | **Cynorthwywch berchenogion i brynu eiddo** |
| • Cyngor ar: werthu'n breifat, swyddfeydd gwerthu tai neu ocsiynau<br>• Gwasanaeth paru eiddo – paru gwerthwyr eiddo gwag â darpar brynwyr eiddo gwag.<br>• Hysbysebwch eiddo gwag cost isel sydd ar werth ar Wefan Tai Fforddiadwy 'Tai Teg' a phan geir cyfleoedd yn cynnig cymorth ariannol tuag at gost adnewyddu ac, felly, yn cysylltu pobl y mae angen tai fforddiadwy arnynt â chyfleoedd i brynu.<br>• Canfod a chyfeirio eiddo addas i'w prynu fel tai rhent cymdeithasol. | • Cyfeirio eiddo rhent at Ddatrysiadau Tai i gynorthwyo i gael hyd i Denant<br>• Rhoi gwybodaeth am ddod yn landlord, asiantau gosod preifat a safonau tai derbyniol<br>• Cyngor ynghylch rheidrwydd i gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru |
| **Cymhellion Ariannol (Dewisol)** | **Cynorthwywch berchenogion sy'n dymuno adnewyddu** |
| • Benthyciadau di-log ar gael i landlordiaid/perchenogion tai gwag y mae angen eu hadnewyddu ac sy'n bwriadu un ai eu gosod neu eu gwerthu.<br>• Benthyciadau gwella cartref ar gael i berchenogion eiddo gwag y mae angen eu hadnewyddu ar gyfer bod yn berchen-ddeiliad.<br>• Grant adnewyddu tai gwag prynwyr tro cyntaf ar gael i brynwyr tro cyntaf sy'n prynu eiddo gwag y mae angen ei adnewyddu er mwyn bod yn berchen-ddeiliaid. | • Rhowch wybodaeth am wasanaethau'r Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Datblygu.<br>• Darparwch opsiynau ynghylch rheoli prosiectau a chyfeirio at arweinlyfrau ymarfer da a gwefannau.<br>• Rhowch wybodaeth am y cynllun TAW gostyngedig sydd ar gael i berchenogion sy'n adnewyddu eiddo sy'n wag ers dros ddwy flynedd. |

### 6.2 Cymorth a Chymhellion Ariannol

Mae'r Cyngor yn cynnig nifer o gynlluniau cymorth ariannol dewisol i gynorthwyo perchenogion eiddo gwag eu defnyddio eto.

| | |
|---|---|
| **Benthyciad Troi Tai'n Gartrefi i'w gosod** | Ar gael i landlordiaid/berchenogion eiddo gwag y mae gofyn eu hadnewyddu cyn eu gwerthu.<br><br>Benthyciad hyd at £25,000 yr uned llety a ddefnyddir eto hyd at uchafswm o £150,000.<br><br>Di-log, mae modd ei ad-dalu ar ôl tair blynedd.<br><br>Wedi'i ddiogelu yn erbyn yr eiddo, ni all benthyciad i werth, yn cynnwys morgais fod dim uwch na 80% o werth cyfredol yr eiddo.  Rhaid i'r eiddo gwrdd â Safonau Tai Gweddus |
| **Benthyciad Troi Tai'n Gartrefi i'w gwerthu** | Ar gael i landlordiaid/berchenogion eiddo gwag y mae gofyn eu hadnewyddu cyn eu gwerthu.<br><br>Benthyciad hyd at £25,000 yr uned llety a ddefnyddir eto hyd at uchafswm o £150,000.<br><br>Di-log, mae modd ei ad-dalu ar ôl dwy flynedd.<br><br>Wedi'i ddiogelu yn erbyn yr eiddo, ni all benthyciad i werth, yn cynnwys morgais fod dim uwch na 80% o werth cyfredol yr eiddo.  Rhaid i'r eiddo gwrdd â Safonau Tai Gweddus |
| **Benthyciad Gwella Cartref** | Benthyciad di-log o hyd at £25,000 ar gael i berchenogion eiddo gwag y mae gofyn eu hadnewyddu cyn i'r perchennog symud i mewn iddo.<br><br>Gellir ychwanegu ffi weinyddol o 15% o gyfanswm y benthyciad at y benthyciad ei hun.<br><br>Wedi'i ddiogelu yn erbyn yr eiddo, ni all benthyciad i werth, yn cynnwys morgais fod dim uwch na 70% o werth cyfredol yr eiddo.<br>Rhaid i'r eiddo fod yn "Gynnes, Saff a Diogel". |
| **Grant adnewyddu tai gwag prynwyr tro cyntaf (Wedi'i gyfyngu i ardal Caergybi wedi'i ariannu trwy'r Prosiect Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid )** | Grant o hyd at £20,000 ar gyfer eiddo gwag y mae gofyn eu hadnewyddu cyn i'r perchennog symud i mewn iddynt.<br><br>Rhaid i'r eiddo fod wedi bod yn wag er chwe mis neu fwy i'w brynu a rhaid i ymgeiswyr orfod cael eu hasesu ar gyfer fforddiadwyedd<br><br>Diogelir grant yn erbyn yr eiddo fel pridiant tir lleol am gyfnod amser penodol o adeg cwblhau'r gwaith. |

**Gwerth Ychwanegol** - Nid yn unig y mae buddsoddi'n ariannol yn y cynlluniau uchod yn mynd i fod o fantais i berchenogion a gwella mwynder yr ardal ond hefyd bydd yn fantais:-

- I'r economi lleol - contractwyr lleol sy'n gwneud y gwaith felly buddsoddir yr arian yn y gweithlu lleol a'r gadwyn cyflenwi busnesau.
- Gosodir y tai i bobl leol a all aros yn eu cymunedau.
- Mwy o bobl yn dod i mewn i ganolfannau trefi a phentrefi a phentrefi'n cynorthwyo cynaliadwyedd manwerthu.
- Mae'r 27 o unedau ychwanegol a ddefnyddir eto trwy addasu adeiladau segur neu adnewyddu tai sydd eisoes wedi'u codi yn rhoi refeniw ychwanegol i'r Cyngor ar adeg pan fo cyllidebau'n gostwng.

| **Unedau ychwanegol** | **Refeniw cyfartalog ychwanegol Treth y Cyngor yn flynyddol yn seiliedig ar eiddo band D** |
|---|---|
| 27 | £36,195 |

.

## 6.3 Gorfodi

Lle mae trafodaethau wedi methu a pherchenogion eiddo gwag tymor hir yn gwrthod cymorth y Cyngor neu'n methu defnyddio eu heiddo eto o fewn amser rhesymol, gellir dilyn camau llymach a fyddai'n gofyn i'r perchennog ymgysylltu neu fentro colli ei eiddo. Pan fo gofyn am weithredu fel hyn, mae'r Cyngor yn ymrwymo i lynu wrth ei egwyddorion gorfodi, sy'n darparu ar gyfer gwaith gorfodi teg a chyson.

Dyma'r dulliau gorfodi sydd ar gael i'r Cyngor: Gweithdrefn Gwerthu Gorfodol, Gorchymyn Rheoli Anheddau Gwag a Gorchymyn Pryniant Gorfodol. Mae modd stopio gorfodi ar unrhyw adeg pe byddai'r perchennog yn dymuno ymgysylltu â'r Cyngor i ddefnyddio'i eiddo eto. Mae toreth o ddeddfwriaethau ar gael i'r Cyngor i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig ag eiddo gwag ac yn y diagram isod cyflwynir rhai o'r deddfwriaethau sydd ar gael i'r Cyngor i'w defnyddio i gynorthwyo wrth fynd i'r afael ag eiddo gwag tymor hir. (Mae Atodiad 2 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y deddfwriaethau sydd ar gael).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Camau Gorfodi | | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a215 – effaith andwyol ar fwynder ardal (edrychiad eiddo) | | Gorfodaeth Gynllunio |
| | | | | |
| | | Deddf Adeiladu 1984<br>A77,78,79 – strwythurau peryglus | | Rheoli Adeiladu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwella cyflwr eiddo | | Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949 – plâu<br>Deddf Gwarchod yr Amgylchedd A.80 – gwrthod<br>Deddf Tai 2004 - Dim yn atgyweirio tai neu dai'n mynd â'u pennau iddynt<br>Deddf Gwarchod yr Amgylchedd A.80 – niwsans<br>Deddf Iechyd Cyhoeddus a.79 – cael gwared â deunyddiau andwyol<br>Deddf Llywodraeth Leol (AS) 1982 a.29 – diogelu eiddo | | Iechyd yr Amgylchedd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Deddf Adeiladau 1984 A78 Adfeilion a mynd â'u pennau iddynt | | |

**Gwaith a wnaeth y Cyngor y dylai'r perchennog fod wedi'i wneud** – sicrhau'r ddyled fel pridiant tir lleol dan y rhybuddion cyfreithiol uchod (ac eithrio Deddf Llywodraeth Leol 1979 a.29)

**Gwerthu Gorfodol**

Lle mae dyled na thalwyd mohoni i'r cyngor wedi'i diogelu gan bridiant tir lleol ar eiddo gwag tymor hir (o bosib trwy gamau gorfodi a amlinellir uchod), gall y Cyngor orfodi gwerthu'r eiddo i drydydd parti.

**Gorchymyn Rheoli Anheddau Gwag**

Rhaid i'r eiddo fod mewn ardal lle mae angen tai ynddi a lle nad oes gobaith i'r perchennog presennol fyw ynddo. Byddai'r Cyngor yn hwyluso gwaith y byddid ei angen fel bod modd i'r eiddo gael ei ddefnyddio i bobl, y mae angen tai arnynt, fyw ynddo a byddai gofyn cael adnoddau i gwrdd â chost codi safon yr eiddo i safon lle byddai modd ei osod.

**Gorchymyn Pryniant Gorfodol**

Lle bo'r eiddo'n wag am dymor hir, mewn cyflwr gwael (ac mewn ardal lle mae angen am dai yno), byddir yn ystyried cosbi'r perchenogion hynny sy'n methu defnyddio'u heiddo eto a'u bygwth gyda defnyddio pwerau gorfodol a hefyd ddefnyddio'r cyfryw bwerau. Gwneir hyn fel y cam olaf.

## (i) Prynu gorfodol

Gellir defnyddio'r weithdrefn prynu gorfodol pan fo perchennog yr eiddo gwag mewn dyled i'r Cyngor. Lle mae'r Cyngor yn gwneud gwaith y dylai'r perchennog fod wedi'i wneud er mwyn sicrhau fod eiddo'n ddiogel neu nad yw'n cael effaith negyddol ar yr ardal leol, bydd y costau'n cael eu hysgwyddo gan y perchennog. Pe na byddai'r perchennog yn talu'r dyledion hyn, bydd y Cyngor yn gwerthu'r eiddo er mwyn adfer y costau.
Gellir defnyddio gwerthiant gorfodol hefyd i adfer dyledion Treth y Cyngor. Mae modd stopio'r broses hon ar unrhyw adeg os bydd y perchennog yn penderfynu ymgysylltu a thalu ei ddyledion i'r Cyngor. Ceir rhestr yn Atodiad 2 o'r deddfwriaethau sy'n caniatáu i'r Cyngor wneud gwaith na wnaed gan y perchennog

Astudiaeth Achos






**Hanes:** Eiddo'n wag er 2002 a bu llawer o gwyno yn ei gylch wrth y Cyngor yn cynnwys gerddi'n mynd yn wyllt, wedi gweld llygod mawr a phobl yn torri mewn. Chafwyd dim lwc yn cael hyd i bwy oedd y perchennog. Cyflwynodd y Cyngor Rybudd dan Ddeddf Atal Difrod gan Blâu 1943 i glirio'r gordyfiant. Yn sgil hyn, y Cyngor wnaeth y gwaith hwn a gwerthwyd yr eiddo trwy'r broses gwerthu gorfodol i adfer costau. Elwodd y perchennog newydd ar fenthyciad "Troi Tai'n Gartrefi" ac ar dalu llai o DAW ar gostau adnewyddu cyn gwerthu'r eiddo.

**Manteision i'r Gymuned**: Roedd cymdogion yn fodlon fod y Cyngor wedi cymryd camau a gwellodd mwynder yr ardal. Cwmni lleol oedd yn rhoi gwaith i grefftwyr lleol wnaeth y gwaith adnewyddu.

**Manteision i'r Cyngor:** Y manteision i'r Cyngor oedd i'w broblemau oedd yn gysylltiedig â'r eiddo gwag gael eu datrys, gallodd adfer costau, casglodd Dreth y Cyngor am y tro cyntaf er 2002 ac nid oedd angen iddo mwyach ddefnyddio adnoddau i ymdrin â rhagor o gwynion.

**(ii) Gorchymyn Rheoli Anheddau Gwag**

Mae Gorchymyn Rheoli Anheddau Gwag yn golygu bod y Cyngor yn cymryd drosodd waith rheoli eiddo gwag. Gall y Cyngor gymryd camau yn erbyn eiddo gwag nad oes neb wedi bod yn byw ynddo er chwe mis, gan ei godi i Safon Tai Gweddus cyn ei osod ar raddfa fforddiadwy. Bydd unrhyw gostau a geir wrth adnewyddu a rheoli'r eiddo eu hadfer o'r rhent am yr eiddo. Gellir rhoi Gorchymyn Rheoli Anheddau Gwag am saith mlynedd. Ar ôl hynny mae modd trosglwyddo'r cyfrifoldeb yn ôl i'r perchennog.

Er nad yw hwn yn gam y mae'r Cyngor wedi'i gymryd hyd yn hyn, mae'n ddewis y mae modd ei arfer yn ystod y Strategaeth nesaf ar yr amod bod arian i gychwyn ar gael.

**(iii) Gorchymyn Pryniant Gorfodol**

Gorchymyn Pryniant Gorfodol yw'r mesur llymaf sydd ar gael i'r Cyngor. Mae'n golygu fod y Cyngor yn cael eiddo gwag ond yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd gyda gwerthiant gorfodol, nid yw'n gofyn bod yn rhaid i'r Perchennog fod yn ddyledus i'r Cyngor yn gyntaf.

Un fantais o bryniant gorfodol yw ei fod yn cynnig i'r Cyngor fwy o hyblygrwydd wrth benderfynu ar ddefnydd yr eiddo yn y dyfodol e.e. y dewis o roi'r eiddo'n ôl i'r sector rhentu cymdeithasol yn hytrach nag i'r sector rhentu preifat.

Fel dewis arall i Orchymyn Pryniant Gorfodol, fel cam cyntaf byddai'r Cyngor yn ceisio cael yr eiddo trwy gytundeb gyda'r perchennog heb yr angen am Orchymyn Pryniant Gorfodol mwy ffurfiol.

## 6.4 Blaenoriaethu ar gyfer Gorfodi

Bydd eiddo gwag tymor hir, nad yw eu perchenogion yn cydweithredu neu eu bod yn absennol, yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer camau gorfodi.

Er mwyn sicrhau y gweithredir yn deg ac yn gyson, caiff matrics blaenoriaethu ei ddatblygu fel offeryn ar gyfer pennu pa eiddo gwag problemus i'w targedu a'u blaenoriaethu ar gyfer gweithredu wrth ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

## 6.5 Adnoddau ar gyfer Gorfodi

Er edrych ar gamau gweithredu fel y cam olaf, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod mai cymryd camau fydd yr unig ddewis fydd ar gael mewn rhai achosion pan fo perchenogion yn methu gweithio gyda'r Cyngor.

Pan gymerir camau gorfodi ac mae'r perchennog yn methu cydymffurfio â gofynion Rhybudd, mae arian ar gael i'r Cyngor wneud y gwaith y dylai'r perchennog fod wedi'i wneud trwy'r Cynllun Benthyca Troi Tai'n Gartrefi a gellid adfer y ddyled trwy'r broses gwerthiant gorfodol.

Gallai'r penderfyniad i godi premiwm Treth y Cyngor ar eiddo sydd y'n wag ers mwy na blwyddyn fod yn gyfle i fuddsoddi ymhellach i gefnogi defnyddio tai gwag eto, er enghraifft trwy roi arian ar gyfer Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag neu ddatblygu math o fodel adnewyddu/rhentu a fyddai'n cynyddu faint o eiddo rhent sydd ar gael.

## 7. CYDWEITHIO

Treulia swyddogion llawer iawn o amser yn ymateb i gwynion a digwyddiadau mewn tai gwag unigol. Heb drefn, gallai swyddogion o wahanol adrannau ddyblygu neu hyd yn oed danseilio ymdrechion.

Bydd y strategaeth hon yn cynnwys camau i gydweithio ar draws gwasanaethau fel yr amlinellir isod.

**Aelodau'r Cyngor**

- Arweinyddiaeth strategol
- Cymeradwyaeth a chefnogaeth ar draws y pleidiau i bolisi gorfodi tai gwag
- Cyfeirio tai gwag ar gyfer ymchwilio i mewn iddynt

**Rheoli Adeiladu**

- Cymorth a chyngor i berchenogion ar geisiadau rheoliadau adeiladu.
- Camau gorfodi yn erbyn strwythurau peryglus a allai beryglu'r cyhoedd

**Gwasanaeth Tai Gwag**

- Cyfrifoldeb cyffredinol am ddefnyddio tai gwag eto
- Cydlynu dull gweithredu'r Cyngor i orfodi tai gwag
- Rhoi cyngor a chymorth i berchenogion
- Blaenoriaethu eiddo ar gyfer camau gorfodi
- Cyflawni gwasanaethau cymhelliant ariannol

**Gwasanaethau Cyfreithiol**

- Cymryd camau cyfreithiol i ddefnyddio eiddo gwag eto.
- Rhoi cyngor a chymorth ar agweddau cyfreithiol i adrannau eraill

**Iechyd yr Amgylchedd**

- Camau gorfodi yn erbyn eiddo sy'n andwyol i'r ardal neu'r amgylchedd.
- Archwilio eiddo gwag tymor hir dan Ddeddf Tai 2004

**Treth y Cyngor**

- Rhoi cyngor a chymorth i berchenogion eiddo gwag ar eithriadau i Dreth y Cyngor.
- Cadw data ar berchenogion eiddo gwag a pherchenogion ail gartrefi.
- Rhoi gwybodaeth i'r swyddogion Tai Gwag

**Gwasanaethau Cynllunio**

- Cyngor a chymorth i berchenogion ar bosibilrwydd ailddatblygu/adnewyddu eiddo
- Cyngor ar ddeddfwriaeth gynllunio. Camau gorfodi i warchod gwerth mwynderol ardaloedd preswyl.

**Datblygu Economaidd**

- Cyngor a chymorth i'r swyddog tai gwag i ganfod ffrydiau arian pan fo angen atebion pwrpasol.
- Sicrhau y caiff tai gwag eu hystyried i'w cynnwys mewn unrhyw fid ar gyfer cynlluniau adfywio neu gynlluniau tai eraill.

## 8. NODAU AC AMCANION WRTH SYMUD YMLAEN

### 8.1

| |
|---|
| **NOD**<br><br>**Cydweithio – Gostwng nifer yr eiddo gwag tymor hir ym Môn** |

Er gwaethaf y cynigion am newid yn y modd y cyflawnir gwasanaethau cyhoeddus, rhaid i'r Cyngor fod yn uchelgeisiol wrth ganfod ffyrdd newydd ac arloesol i fynd i'r afael â phroblem eiddo gwag ac adlewyrchir hyn yn ei bum amcan.

### 8.2 Amcanion Strategol

| |
|---|
| **AMCAN 1**<br><br>**Gwell gwybodaeth – Cynnal a gwella cywirdeb y data ar eiddo gwag** |

Daw'r wybodaeth am dai gwag yn bennaf o restr eithriadau Treth y Cyngor. Ceir cyfyngiadau ynghylch sut caiff y data hwn ei ddefnyddio gan fod y wybodaeth yn newid yn ddyddiol a gall fynd yn hen mewn dim gan ei fod yn dibynnu ar berchenogion tai yn rhoi gwybod i'r Cyngor pan gaiff newidiadau eu gwneud i'w heiddo.

Mewn amgylchiadau penodol yn unig y ceir rhannu gwybodaeth at ddefnydd Treth y Cyngor fel y nodir isod:-

At ddibenion cyffredinol, defnyddir adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 2003 er mwyn rhannu gwybodaeth Treth y Cyngor â swyddogion eiddo gwag. Mae adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn caniatáu defnyddio gwybodaeth am fanylion a chyfeiriad eiddo, enw'r perchennog a gwybodaeth gyswllt a gafwyd gan Dreth y Cyngor i ganfod eiddo gwag a chymryd camau i ddefnyddio anheddau gwag eto.

Lle ystyrir camau gorfodi, fodd bynnag, mae Adran 237 Deddf Tai 2004: Treth y Cyngor a Budd-dal Tai (Rhan 1 i 3 y Ddeddf - Gorfodi / Gorchymyn Rheoli Anheddau Gwag ac ati) yn caniatáu i'r holl wybodaeth gael ei rhannu.

| |
|---|
| **AMCAN 2**<br><br>**Cydweithio - Cryfhau partneriaethau mewnol ac allanol sydd eisoes yn bodoli er mwyn gostwng nifer yr eiddo tymor hir, gan weithredu ar draws y cyngor cyfan i fynd i'r afael â thai gwag.** |

Mae eiddo gwag yn cael effaith ar lawer o rannau o'r Cyngor, sefydliadau allanol a phreswylwyr. O weithredu'r Strategaeth Tai Gwag hon, bydd y Cyngor yn sicrhau y byddir yn gweithredu'n strategol wrth fynd i'r afael â'r mater fel bod ymdrechion wedi'u cydlynu ac yn drefnus. Bydd gan aelodau'r Gymhorthfa Tai Gwag rôl i gyflawni'r gweithredoedd yn y strategaeth hon ac adolygu'r cynllun gweithredu nawr ac yn y man.

Mae gwahanol bwerau a dyletswyddau ar gael i aelodau'r Gymhorthfa Tai Gwag ac wrth gydweithredu, gellir gostwng sawl awr o weithgaredd gorfodi. Mae'r arbedion posib i'r Cyngor yn sylweddol o ran ymdrin â chwynion.

Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allanol – landlordiaid cymdeithasol rhestredig, y gwasanaethau tân, yr heddlu, landlordiaid lleol a chynghorau eraill er mwyn sicrhau y caiff cyngor ei rannu ac y ceir dilyniant.

**AMCAN 3**

**Cyhoeddusrwydd - Codi ymwybyddiaeth o faterion tai gwag**

Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r mater ynghylch tai gwag yn y ffordd fwyaf effeithiol. Gallai proffil uwch i broblem tai gwag annog perchenogion a chymdogion pryderus ymgysylltu â'r Cyngor i sôn am eiddo gwag tymor hir a'u defnyddio eto.

Bydd y cyhoedd yn cael eu hannog i fynd ati i sôn am dai gwag y dônt yn ymwybodol ohonynt, yn hytrach na disgwyl i gŵyn gael ei gwneud.

Bydd rhan o'r gwaith codi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n gysylltiedig â thai gwag yn digwydd yn y Gymhorthfa Tai Gwag. Mae bod yn ymwybodol o'r effaith ar wasanaethau eraill, yn ogystal â'r un y mae swyddogion yn gweithio ynddo, eisoes wedi bod yn agoriad llygad.

Trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn helaeth, bydd y Cyngor yn tynnu sylw at y problemau sy'n gysylltiedig â thai gwag ac at y cymorth sydd ar gael i berchenogion i'w defnyddio eto.

**AMCAN 4**

**Gweithredu'n Arloesol – Cynyddu opsiynau yn y "Pecyn Cymorth" i annog perchenogion tai gwag i'w defnyddio eto.**

Mae gwneud perchenogion yn ymwybodol o'r manteision posib o rentu neu werthu eu tŷ gwag, yn ogystal ag o sut gallai'r cymorth y mae'r Cyngor yn ei gynnig gyflawni hyn, yn gam anferthol tuag at roi sylw i broblem eiddo gwag tymor hir.

Cydnabyddir bod angen ychydig o gymorth ar lawer o berchenogion er mwyn gweithredu. Efallai eu bod wedi dewis anwybyddu'r mater ers rhai blynyddoedd ac yn methu gweld ffordd ymlaen.

Rhaid i'r Cyngor barhau i fod yn rhagweithiol wrth ychwanegu at y Pecyn Cymorth yn ystod oes y Strategaeth, canfod ffyrdd newydd a datblygu cynlluniau newydd i ddarbwyllo perchenogion eiddo gwag tymor hir i weithredu a hyrwyddo'r ffaith ei bod yn annerbyniol gadael tai heb eu defnyddio.

**AMCAN 5**

**Gorfodi- Blaenoriaethu tai gwag ar gyfer camau gorfodi a hyrwyddo a chryfhau'r dull presennol o weithredu ar draws y Cyngor cyfan i ymdrin â thai gwag.**

Bydd y Cyngor yn asesu risg eiddo gwag tymor hir er mwyn blaenoriaethu'r eiddo hynny lle byddir yn cymryd camau gorfodi. Bydd y broses flaenoriaethu'n ystyried ffactorau megis:

- Cyflwr yr eiddo a ph'run a yw'n niweidio eiddo eraill;
- Y cyfnod y bu'n wag;
- Y nifer y cwynion a ddaeth i law'r Cyngor neu asiantaethau eraill;
- P'run a yw'r eiddo'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd;
- P'run a yw'r eiddo eisoes yn wynebu camau gorfodi gan y Cyngor;
- P'run a yw'r perchennog mewn dyled i'r Cyngor;
- P'run a yw'r perchennog yn berchen ar sawl eiddo gwag.

Cyflwynir cynllun gweithredu, yn seiliedig ar y pum amcan hyn, ar ddiwedd y Strategaeth hon.

## 9. ALLWCH CHI HELPU

**Perchenogion Eiddo Gwag**

Am ragor o wybodaeth am gynnwys y strategaeth hon a/neu i geisio cymorth i ddefnyddio'r eiddo eto, cynghorir perchenogion eiddo gwag i gysylltu â'r Swyddog Tai Gwag.

**Y Cyhoedd**

Os yw'r cyhoedd yn bryderus ynghylch eiddo gwag neu'n ystyried ei bod yn bosib na allai'r perchennog fod mewn sefyllfa i ddefnyddio'r eiddo eto heb ychydig o gymorth, fe'u cynghorir i gysylltu â'r Swyddog Tai Gwag.

A fyddech cystal â chysylltu â'r Swyddog Tai Gwag ar y rhif isod neu fynd i www.ynysmon.gov.uk a rhoi "tai gwag" yn y blwch chwilio.

**Manylion Cyswllt y Swyddog Tai Gwag:-**

Rhif Ffôn: 01248 752283

E-bost: swyddogtaigwag@ynysmon.gov.uk

Ysgrifennwch at: Swyddog Tai Gwag
Gwasanaethau Tai
Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**CYNLLUN GWEITHREDU**

Daw’r Cynllun gweithredu â phum amcan y Strategaeth ynghyd, gan neilltuo i bob un weithredoedd allweddol at ddibenion monitro yn y dyfodol. Ei nod yw sicrhau ein bod yn parhau i “wneud yr hyn a wnawn” ond ein bod hefyd, wrth symud ymlaen, yn datblygu ffyrdd newydd ac arloesol i gyflymu’r raddfa wrth yr hyn y caiff eiddo eu defnyddio eto.

**Amcan 1: Gwybodaeth a Thargedu – Cynnal a gwella cywirdeb data ar dai gwag**

| | GWEITHRED | YR HYN A WNAWN | GAN BWY | ERBYN PRYD | MONITRO/MESUR |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Annog perchenogion i roi gwybod i’r Cyngor pan fo newid yn statws eiddo h.y. pan ddaw’r eiddo’n wag neu pan fydd pobl yn symud i mewn iddo. Caiff hyn ei wneud trwy farchnata a chyhoeddusrwydd effeithiol | I. Gohebu gyda pherchenogion eiddo newydd a gofnodwyd ar y data-bas Tai Gwag ar y 1af o Ebrill bob blwyddyn.<br>II. Adolygu statws data-basau hanesyddol tai gwag<br>III. Rhoi gwybod i Adain Treth y Cyngor pan geir gwybod fod eiddo’n cael ei ddefnyddio eto | Swyddog Tai Gwag<br><br>Swyddog Tai Gwag | Yn flynyddol<br><br>Yn flynyddol | Gostyngiad yn nifer y tai Gwag a gofnodwyd |
| 1.2 | Cytuno ar y wybodaeth i’w chasglu am y data-bas tai gwag | Sefydlu protocol i gynnwys eiddo sydd wedi’u heithrio rhag talu Treth y Cyngor ac sy’n aros yn wag am gyfnod hir. | Swyddog Tai Gwag<br>Goruchwyliwr Treth y Cyngor | Rhagfyr 2017 | Protocol yn ei le |
| 1.3 | Edrych ar yr opsiwn i ddatblygu cynllun Targedu CAMPUS. | Arbrawf cychwynnol yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol | Swyddog Tai Gwag /Treth y Cyngor | Gorffennaf 18 ac yn barhaus | Adroddiad gwerthuso |
| 1.4 | Adolygu’r Data-bas Tai Gwag i sicrhau y targedir adnoddau ar dai fydd yn cael yr effaith fwyaf | Mewnbynnu data’n rheolaidd ynghylch eiddo y’u defnyddir eto ar y Data-bas Tai Gwag. | Swyddog Tai Gwag | Yn chwarterol | |
| 1.5 | Mesur effaith codi premiwm o 25% ar gyfradd safonol Treth y Cyngor ar dai gwag | Dadansoddi dangosyddion perfformiad ar eiddo gwag ac eiddo gwag y’u defnyddiwyd eto o Ebrill 2016 i Ebrill 2019. | Treth y Cyngor | Ebrill 2019/2020 | Adroddiad i’r Bartneriaeth Tai Strategol |

**Amcan 2: Cydweithio - Cryfhau partneriaethau mewnol ac allanols sydd eisoes yn bodoli a datblygu rhai newydd i ostwng nifer yr eiddo gwag tymor hir, gweithredu ar draws y Cyngor cyfan i fynd i'r afael â thai gwag.**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cynnal arweinyddiaeth strategol glir | Cefnogi'r holl randdeiliaid gyda rôl i ostwng nifer y tai gwag tymor hir | Rheolwr y Strategaeth Dai<br>Swyddog Tai Gwag | Parhaus | Rhoi gwybod yn flynyddol i Bartneriaeth Tai Môn |
| 2 | Gwella'r gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaeth tân/yr heddlu ar eiddo gwag tymor hir | Ceisio ateb tymor hir i ddefnyddio tai tymor hir problemus eto yn hytrach nag ymdrin â "digwyddiadau" yr adroddwyd arnynt gan asiantaethau allanol | Swyddog Tai Gwag /Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd | Parhaus | Nifer yr eiddo y'u defnyddiwyd eto lle mae asiantaethau eraill wedi cael mewnbwn |
| 3 | Cynnal a gwella cysylltiadau gyda landlordiaid, asiantaethau gosod a rheoli eiddo trwy wella gwybodaeth a mynd i gyfarfodydd Fforwm Landlordiaid | Archwilio ffyrdd newydd o wella cysylltiadau gyda'r sector rhentu preifat | Swyddog Tai Gwag /Swyddog Cyswllt Landlordiaid/ Fforwm Landlordiaid | Parhaus | Mynd i ddigwyddiadau landlordiaid |
| 4 | Cyfarfodydd rhwng swyddogion tai gwag rhanbarthol | Rhannu cyngor mewn achosion anodd, edrych ar atebion arfer gorau, sicrhau cysondeb wrth weithredu ac at ddibenion hyfforddiant | Swyddog Tai Gwag / Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd | Parhaus | Nifer y cyfarfodydd yr aethpwyd iddynt |

**Amcan 3: Cyhoeddusrwydd – Codi ymwybyddiaeth o faterion tai gwag**

| | GWEITHRED | YR HYN A WNAWN | GAN BWY | ERBYN PRYD | MONITRO/MESUR |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Adolygu a gwella deunydd cyhoeddusrwydd yn y Pecyn Gwybodaeth Tai Gwag er mwyn amlinellu'r mater ynghylch tai gwag ynghyd ag opsiynau sydd ar gael i berchenogion eiddo gwag i'w defnyddio eto | I. Adolygu a diweddaru'r llenyddiaeth sydd ar gael i sicrhau ei bod yn gywir a chyfredol<br>II. Adran bwrpasol ar gyfer tai gwag ar wefan y Cyngor – ei diweddaru'n rheolaidd<br>III. Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (Twitter, Facebook) yn rheolaidd i amlinellu'r cynllun tai gwag<br>IV. Datblygu ffurflen ar lein ar gyfer rhoi gwybod am dai gwag | Swyddog Tai Gwag | 1 Ionawr 2018 ac yn barhaus | Nifer yr eiddo a ddefnyddiwyd eto yn ôl math o ymyrraeth a gofnodwyd |
| 2. | Cyfathrebu gyda Chynghorau Tref a Chymuned a Chynghorwyr i amlinellu'r mater ynghylch tai gwag | I. Cylchredeg gwybodaeth at yr holl bartïon, yn eu hannog i roi gwybod am dai gwag sydd yn eu cymunedau | Swyddog Tai Gwag | 1af o Ionawr 2018 | |
| 3 | Cyfrannu at ymgynghoriadau rhanbarthol a chenedlaethol ar bolisi a gweithdrefnau tai gwag | I. Mynd i ddigwyddiadau a chyfarfodydd tai gwag yn rhanbarthol a chenedlaethol<br>II. Ymateb i ymgynghoriadau cenedlaethol ar Bolisïau sy'n cael effaith ar dai gwag | Swyddog Tai Gwag | Wrth iddynt ddigwydd | Nifer y cyfarfodydd yr aethpwyd iddynt a'r cyfraniad a wnaed. Canran yr ymatebion yn erbyn nifer y dogfennau ymgynghori a ddaeth i law |

**Amcan 4: Gweithredu'n Arloesol – Cynyddu opsiynau yn y "Pecyn Cymorth" i annog perchenogion tai gwag eu defnyddio eto**

| | GWEITHRED | YR HYN A WNAWN | GAN BWY | ERBYN PRYD | MONITRO/MESUR |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhoi gwybod i holl berchenogion tai gwag am yr opsiynau posib sydd ar gael i'w defnyddio eto a'u cynghori trwy gyfathrebu'n aml a rheolaidd â nhw | I. Dosbarthu'r Pecyn Gwybodaeth Tai Gwag<br>II. Cysylltu â pherchenogion i drafod eu heiddo gwag i ddatblygu ateb pwrpasol<br>III. Dadansoddi ymatebion i'r holiadur ac ymateb yn gadarnhaol ac yn gyflym i berchennog sydd wedi'u defnyddio eto | Swyddog Tai Gwag | I. Yn flynyddol<br>II. Parhaus fesul achos.<br>Parhaus | Nifer yr holiaduron a ddosbarthwyd, a ddychwelwyd ac y gweithredwyd arnynt<br>Nifer yr eiddo a ddefnyddiwyd eto yn ôl y math o ymyrraeth |
| 3 | Ymchwilio i gyfleoedd ariannu eraill gyda golwg ar ddatblygu rhagor o gynlluniau ariannol i gymell a chefnogi perchenogion | I. Sefydlu pa ffynonellau sydd ar gael o ran arian cyhoeddus, arian preifat neu elusennol<br>II. Ymchwilio i gyfleoedd ariannu er mwyn ymgymryd â Gorchymynion Rheoli Anheddau Gwag | Gwasanaethau Tai/ Swyddog Tai Gwag | 1 Mai 2018 | |
| 4 | Ceisio ffyrdd newydd arloesol i roi opsiynau ychwanegol i berchenogion | I. Edrych ar arfer da mewn cynghorau eraill ledled y Deyrnas Unedig.<br>II. Datblygu ein hatebion newydd creadigol ein hunain | Swyddog Tai Gwag | Parhaus | |
| 6. | Sicrhau fod cyfleoedd i ddod o hyd i atebion drwy gyd-weithio gyda landlordiaid cymdeithasol rhestredig yn cael eu macsimeiddio. | Archwilio cyfleoedd i weithio ar y cyd fydd yn dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd. | Swyddog Tai Gwag | Parhaus | Gwireddu cyfleodd |

Tudalen 99

| Amcan 5: Gorfodi - Blaenoriaethu tai gwag ar gyfer camau gweithredu a hyrwyddo a chryfhau'r dull o weithredu ar draws y Cyngor cyfan yng nghyswllt mynd i'r afael â thai gwag | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **GWEITHRED** | **YR HYN A WNAWN** | **GAN BWY** | **ERBYN PRYD** | **MONITRO/MESUR** |
| 1 | Defnyddio proses o asesu'n seiliedig ar risg ar gyfer blaenoriaethu tai gwag problemus i weithredu arnynt | Adolygu'r matrics blaenoriaethu sy'n seiliedig ar risg a gweithredu arno er mwyn canfod yr eiddo hynny y mae gofyn ymyrryd ynddynt | Swyddog Tai Gwag Ac Aelodau'r Gymhorthfa Tai Gwag | 1af o Ionawr 2018 | Cytunwyd ar y matrics adolygedig a'i weithredu |
| 2 | Sefydlu protocolau ar gyfer pennu a defnyddio'r math mwyaf priodol o gamau gweithredu sy'n debygol o ddatrys problem tŷ gwag ac arwain ato'n cael ei ddefnyddio eto | I. Adolygu cylch gorchwyl y Gymhorthfa Tai Gwag er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, atebolrwydd ac amcanion clir<br>II. Bod â chynllun gweithredu y cytunwyd arno ac a gofnodwyd ar gyfer pob eiddo a flaenoriaethwyd ar gyfer camau gorfodi gyda swyddogion dynodedig er mwyn gorfodi lle bo'n briodol<br>III. Datblygu peirianwaith o gyfeirio'n uwch lle mae angen lefel uwch o gymorth | Cymhorthfa Tai Gwag /Rheolwr y Strategaeth Dai<br><br>Aelodau'r Gymhorthfa Tai Gwag<br>Swyddog Tai Gwag | 1af o Ionawr 2018<br><br>Parhaus<br><br>1af o Ebrill 2018 | Adolygwyd y cylch gorchwyl<br><br>Cytunwyd ar y peirianwaith a'i fabwysiadu |
| 2. | Ymchwilio'n rhagweithiol i'r holl eiddo gwag tymor hir problemus y rhoddwyd gwybod amdanynt gan ddefnyddio'r matrics blaenoriaethu lle bo'n briodol ac ymchwilio i'r holl dai gwag | Ymchwilio'n brydlon i'r holl dai gwag y rhoddwyd gwybod amdanynt gan gynnal asesiad cychwynnol fel blaenoriaeth. Cynnal y dull gweithredu rhagweithiol ac adweithiol presennol wrth ymdrin ag eiddo gwag | Swyddog Tai Gwag / Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | Yn ôl y gofyn | Nifer yr eiddo gwag a ddefnyddiwyd eto |
| 3 | Blaenoriaethu tai gwag ar gyfer gweithredu arnynt a'u hadfer lle mae eisoes dyled i'r Cyngor er mwyn ystyried y broses gwerthu gorfodol | Datblygu proses i ganfod ac asesu eiddo gwag lle mae eisoes dyled i'r Cyngor. Cytuno ar gynllunio i adfer y ddyled a gweithredu arno | Swyddog Tai Gwag / Pennaeth Refeniw a Chyllid/Swyddog Adran 151 | 1af o Ragfyr 2019 | Datblygwyd y broses a gweithredwyd arno |

## GEIRFA

**Tai Fforddiadwy -** Tai rhent cymdeithasol, rhent fforddiadwy a chanolraddol a ddarperir i aelwydydd cymwys nad yw'r farchnad yn cwrdd â'u hanghenion.

**Tai rhent fforddiadwy** - tai sy'n cael eu gosod gan yr awdurdod lleol neu ddarparwr cofrestredig preifat sy'n darparu tai cymdeithasol i aelwydydd sy'n gymwys am dŷ rhent cymdeithasol.

**Safon Cartrefi Gweddus -** Y meini prawf llywodraethol sy'n angenrheidiol ar gyfer eiddo i bobl fyw ynddo. Rhaid i'r eiddo:-

- Fod mewn cyflwr rhesymol.
- Gwrdd â'r safon sylfaenol, statudol, gyfredol ar gyfer tai
- Fod â chyfleusterau a gwasanaethau rhesymol, fodern
- Ddarparu mesur rhesymol o wres

**Annedd** - er 2001 diffinnir annedd fel uned llety hunangynhwysol, lle mae'r holl ystafelloedd (yn cynnwys cegin, ystafell ymolchi a thoiled) y tu ôl i ddrws y gall yr aelwyd yn unig ei ddefnyddio.

**Gwasanaeth Tai Gwag** - Nod y gwasanaeth yw gostwng nifer y tai ac adeiladau sy'n sefyll yn wag neu sy'n dod yn wag a diogelu a gwella stoc tai'r Ynys. Rhoddir i berchenogion eiddo gwag, preswyl a, lle bo'n briodol, eiddo masnachol a ystyrir yn addas i'w haddasu'n anheddau, arweiniad a chymorth i ddatblygu cynllun i'w defnyddio eto.

**Aelwyd - Un person neu grŵp o bobl y mae'r llety'n unig neu'n brif breswylfa iddynt AC sy'n**

- Un ai rhannu un pryd y dydd neu'n
- Rhannu'r lle byw, hynny yw, ystafell fyw neu ystafell eistedd

**Cynllun Troi Tai'n Gartrefi** - cynllun benthyca a gynigir gan y Cyngor i berchenogion eiddo gwag y mae angen eu hadnewyddu neu eu haddasu i'w gosod neu i'w gwerthu.

**System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HSSRS)** - meini prawf y mae'r cyngor yn eu defnyddio i werthuso risgiau posib i iechyd a diogelwch yn sgil nam mewn eiddo a chymryd camau gorfodi priodol

**Eiddo gwag tymor hir** – Eiddo sy'n cael ei adael yn hir am chwe mis neu fwy

**Tai Teg -** Cofrestr annibynnol o bobl sydd â diddordeb mewn bod yn berchen ar dŷ ond na allant fforddio i'w brynu'n syth ar y farchnad agored ar hyn o bryd - cofrestr sydd â'r nod o adnabod pobl a'u paru â thai a fydd ar gael yn fuan nawr neu y gwyddys y byddant ar gael yn fuan nawr.

**Eiddo gwag rhyngweithredol** – Eiddo sydd wedi dod yn wag yn naturiol trwy weithredu cylch eiddo arferol. Gallai'r rhain aros yn wag am gyfnod o amser, yn nodweddiadol hyd at chwe mis.

## EITHRIADAU I DRETH Y CYNGOR

| | |
|---|---|
| Dosbarth A | Annedd wag y mae angen gwneud gwaith atgyweirio neu altro mawr arni neu mae'r gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd– hyd at 12 mis o eithriad |
| Dosbarth B | Annedd nad oes neb yn byw ynddi ac sy'n berchen i gorff elusennol |
| Dosbarth C | Annedd Wag – hyd at gyfnod o chwe mis |
| Dosbarth D | Annedd nad oes neb yn byw ynddi oherwydd bod y cyn-breswylydd yn y carchar |
| Dosbarth E | Annedd nad oes neb yn byw ynddi oherwydd fod y cyn-breswylydd yn yr ysbyty neu mewn cartref gofal |
| Dosbarth F | Annedd nad oes neb yn byw ynddi a lle bu rhywun farw |
| Dosbarth G | Annedd lle mae byw ynddi wedi'i wahardd dan gyfraith |
| Dosbarth H | Annedd nad oes neb yn byw ynddi oherwydd iddi gael ei chadw ar gyfer gweinidog yr efengyl |
| Dosbarth I | Annedd nad oes neb yn byw ynddi oherwydd bod y cyn-breswylydd yn cael gofal yn rhywle arall |
| Dosbarth J | Annedd nad oes neb yn byw ynddi oherwydd bod y cyn-breswylydd yn rhoi gofal yn rhywle arall |
| Dosbarth K | Annedd wedi'i gadael yn wag gan berchennog sy'n fyfyriwr |
| Dosbarth L | Annedd nad oes neb yn byw ynddi oherwydd bod y morgeisai mewn meddiant |
| Dosbarth M | Myfyriwr – neuadd breswyl |
| Dosbarth N | Myfyrwyr yn byw yn y cyfan o'r annedd |
| Dosbarth O | Llety'r lluoedd arfog |
| Dosbarth P | Llety'r lluoedd sy'n ymweld |
| Dosbarth Q | Annedd nad oes neb yn byw ynddi ac sy'n cael ei dal gan ymddiriedolwr mewn methdaliad |
| Dosbarth R | Llecyn neu Angorfa wag |
| Dosbarth S | Pobl dan 18 yn byw yn y cyfan o'r annedd |
| Dosbarth T | Rhandy gwag nad oes modd ei osod ar wahân |
| Dosbarth U | Person â nam meddyliol difrifol yn byw yn yr annedd |
| Dosbarth V | Pobl ag imiwnedd diplomyddol yn byw yn yr annedd |
| Dosbarth W | Perthynas dibynnol yn byw yn yr annedd (fflat nain) |

**EITHRIADAU – PREMIWM TRETH Y CYNGOR AR DAI GWAG**

| Dosbarthiadau o Anheddau | Diffiniad |
|---|---|
| Dosbarth 1 | Anheddau'n cael eu marchnata fel rhai ar werth – wedi'u cyfyngu i flwyddyn |
| Dosbarth 2 | Anheddau'n cael eu marchnata fel rhai i'w gosod - wedi'u cyfyngu i flwyddyn |
| Dosbarth 3 | Rhandai sy'n rhan o'r brif annedd neu'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd |
| Dosbarth 4 | Anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa i rywun pe na byddent yn byw mewn llety'r lluoedd arfog. |

## ATODIAD 2 – Deddfwriaeth i gynorthwyo'r Cyngor i ddatrys eiddo problemus

| Problem | Deddfwriaeth | Pŵer a Roddwyd |
|---|---|---|
| Adeiladau peryglus neu sydd wedi mynd â'u pennau iddynt | Deddf Adeiladu 1984, adrannau 77 a 78 | Adran 77 - gofyn i'r perchennog wneud yr eiddo'n ddiogel |
| Adeiladau peryglus neu sydd wedi mynd â'u pennau iddynt Eiddo heb ei ddiogelu (risg y gallai rhywun fynd i mewn iddo neu iddo gael ei fandaleiddio, ei roi ar dân ac ati) | Deddf Tai 2004, Rhan 1<br><br>Deddf Adeiladu 1984, a79 | Adran78 - Yn galluogi'r Cyngor i gymryd camau brys i wneud yr adeilad yn ddiogel<br><br>System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai yn galluogi'r cynghorau werthuso risgiau posib i iechyd a diogelwch yn sgil diffygion eiddo a chymryd camau gorfodi.<br><br>Gofyn i'r perchennog atgyweirio, adfer neu ddymchwel yr eiddo |
| Eiddo heb ei ddiogelu (risg y gallai rhywun fynd i mewn iddo neu iddo gael ei fandaleiddio, ei roi ar dân ac ati) | Deddf Adeiladu 1984, a78<br><br>Deddf Llywodraeth Leol (Amryfal Ddarpariaethau) 1982, a29 | Caniatáu i'r Cyngor roi ffens o amgylch yr eiddo<br>Caniatáu i'r Cyngor gymryd camau i ddiogelu'r eiddo |
| Traeniau neu garffosydd wedi'u blocio neu sy'n ddiffygiol | Deddf Llywodraeth Leol (Amryfal Ddarpariaethau) 1976 a35<br><br>Deddf Adeiladu 1984 s59<br><br>Deddf Iechyd Cyhoeddus, 1961, a17 | Ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog roi sylw i garthffosydd preifat sydd wedi'u rhwystro<br><br>Ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog roi sylw i draeniau sydd wedi'u blocio neu sy'n ddiffygiol<br><br>Ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog roi sylw i draeniau neu garthffosydd preifat sy'n ddiffygiol |
| Llygod mawr (un ai yno neu mae risg y cânt eu denu) | Deddf Iechyd Cyhoeddus 1961, a34<br><br>Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949, a4<br><br>Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936, a83<br><br>Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990, a80<br>Deddf Adeiladu 1984, s76 | Ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gael gwared â gwastraff fel nad yw llygod mawr yn cael eu denu i'r safle, dinistrio unrhyw bla a chael gwared ag unrhyw lwyth sy'n peryglu iechyd |
| Tir ac eiddo blêr yn cael effaith ar fwynder ardal | Deddf Iechyd Cyhoeddus 1961, a34<br><br>Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a215 | Ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gael gwared â gwastraff o'r eiddo<br>Ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gymryd camau i roi sylw i eiddo sy'n cael effaith |

| | | |
|---|---|---|
| | | andwyol ar fwynder ardal oherwydd ei gyflwr |

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 0.1 | 26.6.17 | |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| **1 - Beth sy'n cael ei asesu?** | Strategaeth Tai Gwag 2017-2022 |
| **2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Diweddariad ar strategaeth blaenorol |
| **3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | Ei bum amcan strategol yw:-<br>1. Gwybodaeth a Thargedu – cynnal a gwella cywirdeb data tai gwag<br>2. Cydweithio - cryfhau partneriaethau sydd eisoes yn bodoli a datblygu rhai newydd er mwyn gostwng nifer yr eiddo gwag tymor hir, gan weithredu ar draws y cyngor cyfan i fynd i'r afael â thai gwag.<br>3. Cyhoeddusrwydd - codi ymwybyddiaeth o faterion tai gwag<br>4. Dulliau Gweithredu Arloesol - Cynyddu opsiynau yn y 'Pecyn Cymorth' i annog perchenogion tai gwag i'w defnyddio eto.<br>5. Gorfodi - Blaenoriaethu tai gwag ar gyfer camau gorfodi a hyrwyddo a chryfhau'r dull sydd eisoes yn bodoli o weithredu ar draws y cyngor cyfan i fynd i'r afael â thai gwag. |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| | |
| **4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Rheolwr Strategol, Comisiynu a Pholisi Tai |
| **6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?** | Swyddog Tai Gwag<br>Rheolwr Busnes Tai<br>Partneriaeth Tai Ynys Môn<br>Swyddogion Iechyd yr amgylchedd<br>Swyddogion Cynllunio a Pholisi Cynllunio<br>Swyddogion Budd daliadau Tai a Threth Cyngor |
| **7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?**<br><br>Er enghraifft, oes una unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | Strategaeth Tai 2014-19<br>Cynllun Busnes HRA 2017<br>Cod ymarfer ar gyfer gorfodaeth |

Tudalen 108

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| **8 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Targedu adnoddau er mwyn cynyddu cyflenwad o dai fforddiadwy ar yr ynys.<br>Bydd preswylwyr ar yr Ynys yn cael budd o dai sydd yn cael eu gwella a gostyngiad mewn ymddygiad gwrth gymdeithasol a niwsans ddaw yn sgil eiddo yn bod yn wag am gyfnodau hir<br>Perchnogion yn derbyn cymorth i wella eu tai<br>Cyfle i gwmniau lleol ymgymryd a gwaith adnewyddu |

| **9 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydy'** | **Nac ydy'** |
|---|---|---|
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | **Ydy'** | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | **Ydy** | |
| **Meithrin perthynas dda** | **Ydy** | |
| **Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol** | **Ydy** | |
| Noder: Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | | |

| Cam 2: Casglu gwybodaeth | |
|---|---|
| **10 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | **Cynnigir gwasanaeth dwyieithog** |
| **11 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | **Bydd yn cynorthwyo pobl i fyw o fewn eu cymuendau gan ddodd ag eiddo gwag yn ol i ddefnydd** |
| **12 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?** | **Bydd** |
| **13 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | **Bydd** |
| Mae **Atodiad 1** i'r Canllawiau Asesu Effaith yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Y bwriad yw gwneud i chi feddwl am effaith neu gyfraniad ehangach posibl ac mae modd eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyried cwestiynau 10 - 13 uchod.<br><br>Fodd bynnag, wrth edrych ar sut fyddai **prif** bolisïau a strategaethau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg, argymhellir y dylid ystyried y cwestiynau hyn yn fwy manwl er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr – **mae templed ar wahân ar gael gyda'r papurau hyn ar MonITor, i chi gwblhau os fyddai hynny'n briodol.** | |
| **14 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma?**<br>(Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd?)<br><br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 1). | **Nag oes** |

| **Cam 2: Casglu gwybodaeth** | | |
|---|---|---|
| **15 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 2) | Cymru lewyrchus | **ydi** |
| | Cymru gydnerth | **Ydi** |
| | Cymru iachach | **Ydi** |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | **Ydi** |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | **Ydi** |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | **Ydi** |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | **ydi** |
| **16 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?** | **Gweithdy wedi ei gynnal hefo rhanddeiliwyr I drafod prif amcanion y Strategaeth ac i rhoi cyfle i dderbyn adborth ar yr fersiwn terfynol** | |
| **17 – Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma ogydda.** | **Mae'r Strategaeth yn cynnwys gwybodaeth am ddata ar camau sydd ar gael yn gyfreithiol ar gyfer gweithredu**<br>**Mae gwbodaeth o Gofrestr Tai Cyffredin yn profi yr angen sydd ar yr Ynys ar gyfer cynnyddu cyflenwad o dai fforddiadwy** | |
| **18 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?**<br>**Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?** | **Nag oes** | |

## Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

**19 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma.**
*Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| Oed | Positif | Nod oes cyfyngder ar hyn | |
| Anabledd | Positif | Gall eiddo gael ei addasu yn ystod cyfnod andewyddu | |
| Rhyw | Positif | Nid oed cyfynger ar hyn | |
| Newid Rhyw | Positif | Nid oes cyfyngder ar hyn | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Positif | Nid oes cyfyngder ar hyn | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | Positif | Ni does cyfyngder ar hyn | |
| Crefydd neu Gred | Positif | Nid oed cyfyngder ar hyn | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Positif | Nid oes cyfyngder ar hyn | |
| Yr iaith Gymraeg | Positif | Annog pobl i aros o fewn eu cymunedol cynhenind | |
| Hawliau Dynol | Positif | Ni does cyfyngder ar hyn | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | Positif | Ni does cyfyngder ar hyn | |
| Unrhyw fater arall perthnasol, ee tlodi, mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig | Positif | Cynnyddu cyfleoedd i bobl aros o fewn cymunedau gweldig | |

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **20 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Ddim wedi eu hadnabod |
| **21 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | |
| **22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br>**(**Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 2) | |
| **23 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Nag oes |
| **24 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Pwyllgor Scrwtini |
| **25 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Rhaglen waith yng nghlwm a'r Strategaeth fydd yn cael ei ddiweddaru yn rheolaidd |

## Cam 5 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Gorffennaf 2017** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2016/17** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Jones (Gwasanaethau Oedolion) a<br>Llyr Bryn Roberts (Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Weithredwr Cynorthwyol**<br><br>**Emma Edwards, Dirprwy Reolwr Busnes – Estyniad 1887**<br>**ejess@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Cyfle i'r Pwyllgor Gwaith gynnig sylwadau ar y ddogfen ddrafft derfynol fel y'i cyflwynwyd gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol yn ei swyddogaeth fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac i gyfrannu at y ddogfen derfynol. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith oherwydd ei fod yn adroddiad blynyddol a grëwyd er sylw'r cyhoedd a'n Rheoleiddwyr, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), ac ystyrir ei bod yn briodol i'r Pwyllgor Gwaith gyfrannu at yr adroddiad a'i gymeradwyo. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Bydd yr Adroddiad Terfynol a Gymeradwywyd yn cael ei rannu â'r Cyngor Llawn ar 26 Medi 2017. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|

| |
|---|
| Amherthnasol. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Yn cytuno – cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2017 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Yn cytuno – darparwyd gwybodaeth gan yr adran Gyllid |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Amherthnasol |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Wedi cyfrannu at gynnwys yr adroddiad (datblygu'r Gweithlu) |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Yn cytuno – cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2017 |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Amherthnasol. |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Amherthnasol. |

**Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2017**

DRAFT

**Tudalen Gynnwys**

**Trosolwg**

**Cyflwyniad**

**Crynodeb y Cyfarwyddwr ar Berfformiad**

**Sut mae Pobl yn Llywio'n Gwasanaethau?**

**Cymell a Gwella Llesiant y rhai hynny yr ydym yn eu cynorthwyo - Chwe Safon Ansawdd**

**Sut yr ydym yn gwneud yr hyn a wnawn**
- **Ein gweithlu a sut yr ydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol**
- **Ein hadnoddau ariannol a sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol**
- **Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd**

DRAFT

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'n hunanasesiad blynyddol. Credwn ei bod yn amlinellu rhai o'n cyflawniadau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf yn ogystal ag amlygu'r heriau y mae angen rhoi sylw iddynt yn y flwyddyn i ddod. Fe'i paratowyd fel dogfen anweithredol, y mae'n well ei darllen ar lein er mwyn cael y cyfle gorau i gysylltu'n electronig â dogfennau ategol a gwefannau allanol.

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ar ffurf a chynnwys yr adroddiad, er mwyn cynorthwyo ein taith o'i wella.

Gallwch ysgrifennu neu anfon e-bost at: Emma Edwards, Dirprwy Reolwr Busnes, Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TB.

E-bost: emmaedwards@ynysmon.gov.uk

**Trosolwg – Beth a wnaethom, ac ein blaenoriaethau ar gyfer y 2017/18**

| Safon Ansawdd | Be a wnaethom | Ein Blaenoriaethau |
|---|---|---|
| Ychwanegol | • Gwrando ar ddinasyddion Ynys Môn – digwyddiadau, ymgynghoriadau, holiaduron, cwynion,<br>• Wedi cwblhau'r Asesiad o Anghenion Gogledd Cymru'n llwyddiannus<br>• Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg yn weithgar trwy gynnig ein holl wasanaethau'n ddwyieithog. | • Sicrhau y caiff Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant ei reoli a'i fonitro er mwyn tystio y bodlonir Argymhellion Arolwg yr AGGCC.<br>• Bydd y gwelliannau'n cael eu goruchwylio gan y Panel Plant, sydd newydd ei ffurfio, rhan o drefniadau Sgriwtini'r Cyngor.<br>• Bod yn llwyddiannus wrth roi ein System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar waith, sef system recordio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan, fydd yn caniatáu i ddata gael ei rannu'n well ar draws sefydliadau.<br>Parhau i gynnig gwasanaeth dwyieithog llawn (Cymraeg a Saesneg) ar draws yr holl wasanaethau, yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Mwy na Geiriau' |
| 1 Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno'u cyflawni | • Parhau i gynnig Pwynt Mynediad Sengl (SPOA) ar gyfer cyfeiriadau iechyd a gofal cymdeithasol .<br>• Datblygu Hyb Cymunedol Môn – pwynt cyswllt trydydd sector a gynhelir gan Medrwn Môn, sy'n cynnig gwybodaeth yng nghylch cefnogaeth yn y gymuned.<br>• Cyflwyno Hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Gwasanaeth Plant, a adwaenir bellach fel 'Teulu Môn'<br>• Mae gan ein Gwasanaethau Arbenigol Plant dîm pwrpasol Cyngor a Chymorth, yn cynnwys aelodau'r tîm amlddisgyblaethol, er mwyn mireinio'r mynediad at wybodaeth a gwasanaethau.<br>Mae Gwasanaethau Eirioli ar gael ar draws y gwasanaethau, pan fo'u hangen. | • Parhau i weithio gyda'r gymuned, sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid eraill er mwyn cryfhau gwaith y bartneriaeth a gweithio arno, rhywbeth yr ydym yn ei wneud er mwyn gwella rhagor ar ein cymunedau i'n holl ddinasyddion.<br>• Ailfodelu ein gwasanaeth SPOA yn ein Gwasanaethau Oedolion fel ei fod yn addas i bwrpas i gefnogi'r newidiadau yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.<br>• Gwreiddio ein Gwasanaeth Teulu Môn yn ein Gwasanaethau Plant er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. |
| 2 Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddwl pobl a'u llesiant emosiynol. | • Sefydlu Uned Partneriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda phartneriaid allanol er mwyn defnyddio adnoddau allanol.<br>• Cynghrair Seiriol – gweithio gyda grwpiau cymunedol, a Chynghorau Tref a Chymuned i adnabod, ariannu a datblygu prosiectau lleol | • Ein bwriad yw aildendro'n darpariaeth gofal cartref ar draws yr ynys yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.<br>• Ychwanegu Parafeddyg Ymarfer Uwch at Dîm Gofal Lefel Uwch Môn er mwyn cryfhau ein rhaglen gofal integredig.<br>• Parhau i gyflawni yn erbyn ein Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | yn llwyddiannus.<br>• Parhau i ddatblygu'r gwasanaethau ataliol a gynigir gan Dîm Gofal Uwch<br>• Ein gwasanaeth Tylluanod y Nos sydd ar draws yr ynys ac sy'n cynnig gofal a chefnogaeth dros nos i bobl yn eu cartrefi.<br>• Mae prosiect arbrofol partneriaeth y Bont bellach wedi'i briflifio, gan gynnig arweiniad a chefnogaeth i bobl anabl a'u teuluoedd ym mhob agwedd o groesi'r bont.<br>• Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ein harfer Plant sy'n Derbyn Gofal ac rydym wedi dechrau ailstrwythuro'r Gwasanaeth er mwyn gwella ansawdd ymyrraeth a pherfformiad ein gofal cymdeithasol.<br>Mae dros 700 o blant a theuluoedd wedi cael cymorth ein Rhaglen Ataliol Dechrau'n Deg dros y flwyddyn. | ysbrydoledig.<br>• Byddwn yn parhau i ddatblygu perthynas weithio gadarn gyda'n cydweithwyr addysgol er mwyn sicrhau rhaglen ataliol gref, ar gynhyrchion megis Rhaglen Dechrau'n Deg. |
| 3 Gwarchod ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed | • Adolygu ac ail-lansio ein Polisi Diogelu corfforaethol.<br>• Chwarae rôl lawn yng ngwaith a blaenoriaethau Byrddau Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Plant ac Oedolion.<br>• Cryfhau ein rheolaeth o'n Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid.<br>• Sefydlu'r 'Panel Breuder Oedolion', gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i gefnogi pobl sydd ag anghenion cymhleth ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.<br>• Parhau i chwarae ein rhan yn y trefniadau amddiffyn cyhoeddus Amlasiantaethol (MAPPA) a'r Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC).<br>• Sefydlu'r broses arbrofol Rheoli Breuder a Risg (VARM) gyda'n cydweithwyr, Heddlu Gogledd Cymru. | • Llwyddo i wella'n trefniadau diogelu yn y Gwasanaethau Plant fel y nodir yng nghynllun cyn-arolygu'r AGGCC. Nodwyd Sicrwydd Ansawdd fel maes i'w wella. Byddwn yn cryfhau'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ac yn ei wreiddio yn y Gwasanaeth er mwyn gyrru gwelliant parhaus mewn ansawdd arfer.<br>• Bydd yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn cael ei gryfhau gydag ailsefydlu swydd Rheolwr Sicrwydd Ansawdd, penodi Swyddog Adolygu Annibynnol ychwanegol a chefnogaeth busnes ychwanegol.<br>• Bydd dangosyddion perfformiad yn cael eu hadolygu i sicrhau y ceir monitro effeithiol yn y gwasanaeth a bod y gwasanaeth ei hun yn cael ei fonitro'n effeithiol.<br>• Mae cynllun gweithredu archwilio ffeil achos wedi'i roi ar waith .<br>• Mae'r holl achosion lle mae enw'r plentyn wedi bod ar y gofrestr ers mwy na deuddeng mis yn cael eu hadolygu i sicrhau y byddir yn cymryd camau amserol a chyflym i roi sylw i bryderon diogelu. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | • Bydd Gwasanaethau Ataliol yn cael eu hadolygu a strategaeth ataliol gorfforaethol newydd yn cael ei datblygu ar y cyd gyda phartneriaid, |
| 4 Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas | • Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid yn y trydydd sector er mwyn sefydlu Cyd-drefniant Asedau Lleol – gyda thri swyddog ardal bellach yn eu lle.<br>• Parhau i ddatblygu'n rhaglenni Heneiddio'n Dda yng Nghymru – bellach mae canolfannau yn Amlwch, Llangefni a Brynsiencyn.<br>• Mae grŵp amlasiantaethol yn gweithio ar ddatblygu Strategaeth Dementia i Fôn. Mae hwn yn waith parhaus tuag at ddod yn 'Fôn sy'n ystyriol o Ddementia'.<br>• Gwnaed cynnydd o 50% mewn taliadau uniongyrchol dros y flwyddyn a'n dymuniad yw cynyddu hyn ymhellach yn y dyfodol.<br>• Mae ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi datblygu Model Cefnogaeth a Chynnydd Gweithredol. A ariennir gan y Gronfa Gofal Canolraddol er mwyn datblygu sgiliau ein plant a'n pobl ifanc anabl.<br>Mae 156 o'n pobl ifanc wedi cael cymorth ein prosiect TRAC, sy'n cynorthwyo pobl ifanc i lwyddo mewn gwaith, hyfforddiant neu addysg. | • Gorffen Strategaeth Dementia Môn gyda chymorth a chefnogaeth gan amlasiantaethau.<br>• Gwireddu Cynghrair Dementia, yn cynnwys ymdrechu i sicrhau fod Biwmares yn dod y Gymuned Gyntaf sy'n ystyriol o Ddementia.<br>• Hyrwyddo rhagor o waith datblygu Hybiau Cymunedol ar yr Ynys.<br>• Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae prosiectau OPUS yn eu cynnig i gynorthwyo pobl a busnesau.<br>• Gweithio tuag at gynnydd pellach parhaus yn nifer y bobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol.<br>• Gan weithio mewn partneriaeth, byddwn yn gwella'r broses croesi'r bont, trwy'r Model Cefnogaeth a Chynnydd Gweithredol. |
| 5 Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas deuluol a phersonol iach a domestig | • . Datblygu Strategaeth Gofalwyr gyda'n partneriaid, 'Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn'.<br>• Cefnogi cynllun strategol pum mlynedd Llywodraeth Cymru - 'Symud Cymru Ymlaen, trwy hyrwyddo rhaglenni megis Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, gan roi pwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal. | • Cynorthwyo i roi Cynllun Gweithredu Grŵp Gofalwyr Môn ar waith er mwyn gweithredu'r Strategaeth Gofalwyr leol.<br>• Cyfrannu at y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i gynorthwyo i wella canlyniadau i blant a'u teuluoedd.<br>• Blaenoriaethu'r gwasanaeth a'r gefnogaeth a gynigir i'n Plant sy'n Derbyn Gofal<br>• Cymryd rhan yn y prosiect cenedlaethol 'Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth, a mynd ati i roi'r Cynllun Gweithredu ar waith yn ystod y flwyddyn nesaf. |
| 6 Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael mwy o lesiant economaidd, bod â | • Parhau i adeiladu Hafan Cefni, y cyfleuster gofal ychwanegol newydd yn Llangefni (amcangyfrifir y byddir yn ei gwblhau haf 2018), mewn cydweithrediad â'r Bwrdd | • Parhau gyda datblygiad Gofal ychwanegol Hafan Cefni yn Llangefni (dyddiad cwblhau haf 2018)<br>• Ailfodelu'r gofal yng Nghartref Preswyl |

| | | |
|---|---|---|
| bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion | Iechyd<br>• Mae'r Grant Cefnogi Pobl wedi rhoi grant ychwanegol o £2.6m i gomisiynu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai.<br>• Gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y Gwasanaethau er mwyn darparu ystod o Opsiynau Tai.<br>Rheoli ein lleoliadau allsirol trwy'r Panel Adolygu Mewnol. | Garreglwyd i gefnogi unigolion ag anghenion Dementia cymhleth.<br>• Parhau i adolygu a gwerthuso'n lleoliadau allsirol ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal.<br>• Gweithio gyda'n cydweithwyr yn yr Adran Dai i sicrhau fod gan ein pobl ifanc sy'n gadael gofal y llety gorau posib, ac y caiff ei ddodrefnu'n addas. |

DRAFT

**Cyflwyniad**

Yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, sef yr ail i mi fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, rwyf yn falch o gyflwyno crynodeb o effeithiolrwydd gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn i'r rhai yr oedd angen cefnogaeth y Gwasanaethau Oedolion a Phlant arnynt yn ystod y deuddeng mis diwethaf. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlinellu ein nodau ar gyfer cyflwyno gwelliannau yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18.

Roedd 2016/17 yn flwyddyn heriol, wrth i ni drawsnewid gwaith cynllunio a chyflawni ein gwasanaethau i gwrdd ag anghenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Rwyf yn falch o ddweud y gwnaed cynnydd da ar draws ein gwasanaethau i gyd, a byddir yn egluro hyn trwy'r adroddiad. Cynorthwywyd hyn yn fawr trwy gael yr Aelodau Etholedig a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn deall y canolbwyntio corfforaethol ar ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn ogystal â thrwy'r hyfforddiant a gafodd staff yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Mae pwysau parhaol ar gyllidebau, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o dueddiadau tebygol yn y dyfodol yn bendant wedi'i gwneud yn ofynnol ailfeddwl unwaith eto am sut i ddarparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Er bod y Cyngor yn darparu nifer o wasanaethau'n uniongyrchol i bobl Môn, mae yna sawl sefydliad arall hefyd sy'n darparu gwasanaethau hanfodol yn lleol, boed yn y sector cyhoeddus, preifat neu yn y trydydd sector. Fodd bynnag, oherwydd ein lleoliad daearyddol, nid yw ystod y gwasanaethau ar gael gennym o hyd mewn ardaloedd mwy poblog. Mae nifer o gyfleoedd datblygu economaidd sydd wrthi'n cael eu cynllunio ar yr Ynys a allai newid natur ein cymunedau'n llwyr a chynyddu'r galwadau ar ein gwasanaethau dros y pump i ddeng mlynedd nesaf: mae angen i ni fod wedi paratoi'n dda i gwrdd â'r heriau hyn a rhagweld a lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol.

Yn ogystal â'm rôl fel Cyfarwyddwr yn yr awdurdod lleol, rwyf yn cadeirio Bwrdd Prosiect System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymreig Gogledd Cymru (WCCIS) ac yn cynrychioli Gogledd Cymru ar Fwrdd Gweithredu Cenedlaethol Cymru. Mae gan y WCCIS system gofnodi Gofal Cymdeithasol genedlaethol, uchelgeisiol, fydd yn gweld y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd ar draws Cymru'n gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosib i ni symud i system a rennir, a fydd yn hwyluso gwaith rhannu gwybodaeth yn briodol, gan wneud cydweithio a thimau integredig yn llawer mwy effeithiol. Edrychwn ymlaen at gyflwyno'r system newydd hon ym Môn yn ystod 2017/18.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Llŷr Bryn Roberts, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Plant er Hydref 2016, yn ogystal ag i Leighton Rees, a ymunodd â ni i arwain Cyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Plant yr un pryd. Rhoddwyd y trefniadau hyn yn eu lle i ymestyn dros gyfnod cynlluniedig o absenoldeb Pennaeth y Gwasanaeth, a ddychwelodd i'r awdurdod lleol yn ddiweddar fel Rheolwr Gwasanaeth i'r Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd. Hoffwn gydnabod gwasanaeth Gareth Llwyd, a ymddeolodd yn ddiweddar ar ôl 26 o flynyddoedd o wasanaeth yng ngogledd-orllewin Cymru; bydd colled fawr ar ôl gwybodaeth ac arbenigedd Gareth. Hoffwn groesawu Dafydd Bulman, a ymunodd â ni fel Rheolwr Cefnogi Trawsnewid a Busnes Strategol yn Awst 2016. Daw Dafydd â thoreth o brofiad a bydd yn ganolog wrth gefnogi ein gwasanaethau wrth i ni symud yn ein blaenau. Rydym wedi cael mwy o sefydlogrwydd wrth reoli Gwasanaethau Oedolion, gydag Alwyn Rhys Jones wedi bod gyda'r awdurdod lleol ers tair blynedd.

Gan symud ymlaen, bydd y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith sydd newydd eu hethol yn ymgynghori gyda hyn ynghylch y Cynllun Corfforaethol am y pum mlynedd nesaf, ac ynghylch gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn ogystal ag ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd wrth galon ein gwaith cynllunio. Bydd mwy o ganolbwyntio ar wasanaethau ataliol, annog gwytnwch ymhlith ein cymunedau, ac ymrwymiad i gwrdd ag anghenion defnyddwyr ein gwasanaeth, yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, yn hytrach nac ystod ddiffiniedig o wasanaethau ar gael gan yr awdurdod lleol.

**Dr Caroline Turner**

**Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol**



Uwch-dîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol,
(O'r chwith i'r dde) Alwyn Rhys Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion; Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol; a Llŷr Bryn Roberts, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Plant.

DRAFT

**Crynodeb y Cyfarwyddwr ar Berfformiad**

Rydym yn falch o edrych yn ôl ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn ac ar y cyfle i ddysgu a gwella. Er enghraifft, yn ein Gwasanaethau Oedolion, rydym wedi cwblhau cyfanswm o 1,949 o asesiadau, ac mae 27% ohonynt wedi mynd ymlaen i gael Cynllun Gofal a Chefnogi. O'r Cyswllt Cyngor a Chymorth yr ydym wedi'i gael gyda'r cyhoedd, nid yw 75% wedi bod mewn cysylltiad gyda'r Gwasanaeth o fewn y chwe mis dilynol, gan brofi ein bod yn rhoi'r gefnogaeth a'r ymateb cywir yn y cyfarfod cyntaf. Mae nifer yr oedolion yr ydym yn eu cefnogi yn y gymuned wedi cynyddu i 81% (o 78% yn 15/16), tra bo 63% o bobl sydd wedi cael ein pecyn ailalluogi yn cael <u>dim</u> pecyn gofal <u>pellach</u> chwe mis yn hwyrach ymlaen. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod angen i ni wella ein perfformiad o ran Oedi wrth Drosglwyddo Gofal, ac rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Iechyd er mwyn gwella ein cyd-brosesau. Bydd hwn yn faes y byddwn yn canolbwyntio arno yn ystod 2017/18. O ran diogelu, mae 90% o'n hymholiadau amddiffyn oedolion yn cael eu cwblhau o fewn saith niwrnod gwaith, gan sicrhau ein bod yn ymateb yn amserol i'n grŵp cleient mwyaf bregus.

Yn ein Gwasanaeth Plant, dros y flwyddyn rydym wedi cynnal 803 o asesiadau o angen am ofal a chefnogaeth, cwblhawyd 89% o asesiadau ein plant o fewn amser statudol (42 diwrnod) ac mae 16% ohonynt wedi mynd ymlaen i gael Cynllun Gofal a Chefnogi.  Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweld cynnydd yn nifer ein Plant sy'n Derbyn Gofal i 141 (o 112 yn 2015/16), gan greu pwysau ychwanegol a galw ar ein hadnoddau. Cynhaliwyd 89% o adolygiadau o fewn amser statudol. Rydym yn llwyr ymwybodol bod angen gwella ein perfformiad yn ein Gwasanaethau Plant a byddir yn cyfeirio at ein cynllun Gwella ar gyfer monitor cynnydd trwy'r adroddiad hwn.

Rydym wedi gweld cynnydd pellach (o 25% eleni, yn ogystal â'r 44% o gynnydd a gafwyd yn y 24 mis diwethaf) yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n Derbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol yn ystod 2016/17.  Er y bu i nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sefydlogi a gostwng yn ystod y flwyddyn, erys hyn 65% yn uwch nag yn 2015. Rhagwelir y bydd y galw am Wasanaethau Oedolion yn cynyddu wrth i'r darogan y bydd poblogaeth Môn sydd dros 75 mlwydd oed a throsodd yn cynyddu o 7,499 yn 2013 i 13,774 erbyn 2033. Wrth ddefnyddio'r un ganran o bobl dros 75 sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn 2013 gyda'r rhagamcan hwn i'r dyfodol, awgrymir y bydd cynnydd o 85.85% yn nifer y bobl oed 75 a throsodd yn byw ar eu pennau eu hunain ym Môn, o 3,224 yn 2013 i 5,992 erbyn 2033.* O'r herwydd, croesewir y canolbwyntio ar wasanaethau ataliol, gwytnwch personol a chymunedol mewn deddfwriaeth ddiweddar ac mae'n rhoi nod priodol ar gyfer darpariaeth i'r dyfodol.

Heb os, mae'r cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc y mae angen cefnogaeth arnynt gan y Gwasanaethau Plant wedi rhoi pwysau ar yr adnoddau yn y blynyddoedd diweddar ac wedi cael effaith ar nifer o dimau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd croeso i arolwg Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o Wasanaethau Plant yn Nhachwedd 2016 gan iddo roi cyfle i ni bwyso a mesur ein perfformiad ac edrych yn ôl ar flaenoriaethau ar gyfer gwella. Fe gyhoeddom ein Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer 2017/18 yn fuan iawn ar ôl i AGGCC gyhoeddi ei Hadroddiad Arolygu ym Mawrth 2017. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio'n arw ar gryfhau gwasanaethau ataliol, gwella'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i deuluoedd, yn ogystal â gwella goruchwyliaeth, cadw cofnodion a Sicrhau Ansawdd. Rydym eisoes yn gweld gwell cydweithio gyda'n partneriaid, gyda chysylltiadau cryfach yn cael eu sefydlu gyda Heddlu Gogledd Cymru, y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â chyda'n Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes.

Dywedodd AGGCC, "Roedd yn amlwg bod y staff yn ymroddedig i wella bywydau'r plant a'r teuluoedd yr oeddent yn gweithio gyda hwy..". Byddwn yn adeiladu ar y cryfder hwn trwy ddatblygu Strategaeth Gweithlu Newydd. Rydym yng nghanol ailstrwythuro rhannau o'n Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd a byddwn yn sefydlu Grwpiau Ymarfer llai gan ganolbwyntio mwy ar wella arfer proffesiynol a chanolbwyntio ar ganlyniadau i blant a theuluoedd. Rydym wedi ymrwymo i wneud gwelliannau sylweddol erbyn y bydd AGGCC yn dychwelyd i'n harolygu eto yn ystod 2018. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi ymroi i welliannau tymor hir a sicrhau bod y newidiadau a wnawn yn cael eu cynnal dros amser. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal y gyllideb i'r Gwasanaethau Plant, er mwyn rhoi sefydlogrwydd wrth i ni wella. Mae gan ein Haelodau Etholedig rôl allweddol yn ein dal i gyfrif a sicrhau ein bod yn cyflwyno'r gwelliannau yn ein cynllun gwella gwasanaeth ac mae Panel Plant newydd yn cael ei sefydlu fel is-grŵp o'n Pwyllgorau Sgriwtini.



DRAFT

Mae Gwasanaethau Oedolion wedi gweld cyfnod o sefydlogrwydd, gan gyflawni lefelau da o wasanaeth i'w holl grwpiau cleient. Mae hyn wedi ei gwneud yn bosib i'r Gwasanaeth ganolbwyntio ar gynllunio i'r dyfodol. Wrth ganolbwyntio ar ddatblygu Hybiau Cymunedol lleol ar draws yr ynys i gefnogi pobl hŷn, codir 'Hafan Cefni', cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn Llangefni, ac rydym yn bwriadu ehangu ar y capasiti i ofalu am y rhai hynny â Dementia ar yr ynys, mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd. Bydd hyn, ynghyd â'n cynlluniau i aildendro'r contractau am Ofal Cartref, yn lleihau'r pwysau ar ysbytai lleol a gostwng achosion o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal. Wrth symud ymlaen, rydym ar fin dechrau proses o gydgynhyrchu i foderneiddio'r gwasanaethau i'r rhai ag Anableddau Dysgu.

* *Ffynhonnell: A Strategy for Older People Delivery Plan, "Making Anglesey a great place to grow old"*

DRAFT

**Sut mae pobl yn Llywio'n Gwasanaethau?**

Rydym wedi cael adborth gan unigolion a sefydliadau sy'n bartneriaid mewn nifer o wahanol ffyrdd yn cynnwys digwyddiadau, ymgynghoriadau, holiaduron (copïau caled ac ar lein wedi'u postio) adroddiadau monitro rheolaidd, barnwriaethau, asesiadau o anghenion y boblogaeth a chynrychiolaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth ar grwpiau/fforymau. Eisoes defnyddiwyd grwpiau ffocws, grwpiau prosiect, technegau a dulliau gweithredu gwahanol mewn gwasanaethau penodol megis y Tîm o Amgylch y Teulu a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae Cyngor y Bobl Hŷn a Fforwm y Bobl Hŷn yn fwy penodol yn rhoi i bobl hŷn lais yn y broses gwneud penderfyniadau.

Mae'r adborth a gasglwyd wedi llywio a dylanwadu ar wasanaethau trwy newid/greu: protocolau, siarteri cyfreithiol, cynlluniau gwella gwasanaethau, cynlluniau comisiynu, dogfennau tendro megis manyleb gwasanaeth, strategaethau, tudalennau gwe, deunydd hyrwyddo megis taflenni, adroddiadau llys a chynlluniau gofal, hyb gwybodaeth 'Teulu Môn' ar gyfer y Gwasanaethau Plant. Gwnaed gwelliannau i waith cyn-geni a chynlluniau gofalu diogel i blant sy'n derbyn gofal, cynllunio gwell ar gyfer plant a phobl ifanc a rhieni'n bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer cofrestru plant ag anableddau ar gyfer gofal dydd.

Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau y rhoddir clust i ddymuniadau a diddordebau unigolion a bod yr hyn sy'n bwysig iddynt yn dylanwadu ar y gefnogaeth y maent yn ei chael.

Ar y cyd gyda Llais Lleol, Uned Partneriaeth y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a sefydliadau lleol yn y trydydd sector, edrychodd y Cyngor ar amryfal ddulliau o ddatblygu capasiti cymunedol a chynyddu cyfalaf cymdeithasol. Yr hoff ddull yw creu cymunedau'n seiliedig ar asedau. Mae'r Prosiect Creu Cymunedau'n troi o amgylch ymarferion creu gweledigaeth gymunedol yn ward Seiriol. Mae'r prosiect yn bwriadu mynd ati i ymgysylltu â chymunedau i gymryd mwy o ran yn y gwaith o lywio sut caiff gwasanaethau eu llunio a'u cyflawni'n lleol ac edrych ar ddulliau gwahanol o gyflawni gwasanaethau. Cydgynhyrchu yw'r enw a roddir ar weithredu fel hyn.

Cynhaliwyd asesiad o anghenion poblogaeth Gogledd Cymru yn 2016 i sefydlu anghenion gofal a chefnogaeth pobl, heddiw ac i'r dyfodol. Ym Môn, roedd gennym holiaduron ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth (yn cynnwys plant a phobl ifanc), darparwyr gwasanaeth a phobl nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth, Daeth dros 230 o ymatebion i law. Yn dilyn ymlaen o hyn, byddwn yn gweithio ar Gynllun Ardal Rhanbarthol yn 2017/18.

At hyn, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i roi gwasanaeth dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Rydym yn hyrwyddo agwedd ragweithiol i sicrhau y caiff gwasanaethau eu cynnig yn Gymraeg, yn unol â Fframwaith Strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Mwy Na Geiriau'. Rydym eisoes yn sicrhau y cydymffurfir â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor trwy fonitro gwasanaethau'n chwarterol. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein gweithlu wrth ddefnyddio'r Gymraeg, a gallwn gadarnhau fod 89% o'n gweithlu'n siarad Cymraeg.

DRAFT

**Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Rhai Hynny yr ydym yn eu Cynorthwyo**

**(Tudalen las wag)**

DRAFT

## Safon Ansawdd 1

**Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno'u cyflawni**

### Sut mae unigolion yn cael at ein cefnogaeth?

***Oedolion***

Mae sefydliadau cymunedol a thrydydd sector yn chwarae rôl allweddol wrth gynorthwyo pobl i aros yn llawn egni, yn annibynnol ac yn iach. Maent yn cynnig cefnogaeth a gweithgareddau yng nghalon y gymuned yn agos i gartrefi pobl ac maent yn aml yn cefnogi'r unigolion sydd fwyaf bregus yn ein cymunedau.

**Linc Gymunedol Môn** yw pwynt mynediad y Trydydd Sector a gynhelir gan Medrwn Môn. Mae ganddi wybodaeth gyfredol am weithgareddau/grwpiau/dosbarthiadau cymunedol o'r grŵp cerdded agosaf i ddosbarthiadau sgiliau TG. Mae Linc Gymunedol Môn yn gweithio'n agos gyda'r Pwynt Mynediad Sengl (SPOA) mewn Gwasanaethau Oedolion. Mae'r gwasanaeth hwn yn hanfodol i gynnig cysylltiadau ynghylch cefnogaeth yn y gymuned leol.

Mae'r Cyngor a Medrwn Môn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda gwahanol adrannau'r Cyngor a sefydliadau lleol er mwyn cynnwys yng ngwefan **DEWIS Cymru** wybodaeth leol am ddarpariaeth ar gyfer cefnogi llesiant unigolion.

**Y Pwynt Mynediad Sengl i'r Gwasanaethau Oedolion (SPOA)** – ei brif bwrpas yw rheoli cyfeiriadau iechyd a gofal cymdeithasol a ddaw o wasanaethau cymunedol statudol (iechyd a gofal cymdeithasol – yn cynnwys gofal sylfaenol) a'r Trydydd Sector. SPOA yw'r pwynt cyswllt cyntaf ac mae'n rhoi mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth clir a dealladwy i unigolion a, lle bo rhaid, mae'n ystyried a oes angen asesu'r unigolyn ymhellach. Mae'n cefnogi oedolion 18 oed a throsodd, yn cynnwys gofalwyr.

***Plant a Theuluoedd***

**Teulu Môn** yw'r hyb **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** i'r Gwasanaethau Plant sydd wedi'i sefydlu mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'n cynnwys dyletswyddau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd dan Ddeddf Gofal Plant 2016. Rydym yn angerddol am sicrhau bod plant a theuluoedd yn medru cael at wybodaeth, cyngor a chymorth yn hawdd a byddwn yn gweithio'n galed i gadw ar ben datblygiadau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a deddfwriaethol fel ein bod wastad yn medru rhoi i unigolion a swyddogion proffesiynol y wybodaeth a'r cyngor mwyaf diweddar.

Mae gan ein **Gwasanaethau Arbenigol Plant** Weithiwr Cymdeithasol pwrpasol ar gyfer Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth sydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyfeiriadau newydd i'r Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn wedi mireinio'r broses gyfeirio a bydd yn osgoi dyblygu. Mae'r gweithiwr yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol i drafod achosion lle mae angen am ymateb amlddisgyblaethol i gefnogi teulu.

> *Ni chafodd 16.2% o unigolion a gyfeiriwyd at SPOA eu cyfeirio ymlaen at Ofal Iechyd a Chymdeithasol ffurfiol*

Bydd swyddogion yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn cael y sgwrs 'Beth sy'n bwysig' gydag unigolion i ystyried sut mae modd eu cefnogi i ddefnyddio'u cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i gael canlyniadau llesiant a phersonol. Mae llesiant yn ymwneud â pherson yn bod yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn y mae'n ei wneud. Er mwyn cael gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain (Cymraeg neu Saesneg) trwy gydol y broses o adnabod anghenion a chefnogi a chwrdd â nhw, byddir yn gofyn i unigolion am eu dewis iaith yn ystod y sgwrs 'Beth sy'n bwysig'. Mae cael y sgwrs gychwynnol hon ar draws y gwasanaethau Oedolion a Phlant yn golygu bod y broses yn dechrau gyda'r person ei hun. Mae'n ddull gweithredu asesiadau a chynllunio gofal sy'n cydnabod bod modd cwrdd ag anghenion gefnogaeth a chymorth gweithgar er mwyn ei gwneud yn bosib i bobl gwrdd â'u hanghenion eu hunain ac nid yn unig drwy ddarparu gwasanaethau.

Rhaid cadw dynamig y teulu mewn cof ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant ac ymateb iddo yn y modd hwnnw er mwyn sicrhau ymateb priodol i'r anghenion.

**Pan fo anghenion cymwys yn cael eu hadnabod a chynlluniau gofal a chefnogi'n ofynnol**

Pan fyddir yn asesu anghenion cymwys, mae gweithwyr, bellach, yn canolbwyntio ar gryfderau pobl a'r gefnogaeth a gânt gan y gymuned, ac maent yn gweithio gydag unigolion (yn cynnwys gofalwyr) ar sut orau i ddefnyddio'r hyn sydd ar gael iddynt trwy weithredu'n seiliedig ar asedau. Mae'n allweddol hyrwyddo ac annog annibyniaeth a chael at yr hyn sydd ar gael yn y gymuned. Pan fo hyn wedi'i wneud ac ystyrir ei bod yn ofynnol cael gofal ffurfiol i gynorthwyo unigolyn, datblygir cynllun gofal a chefnogi.

***Oedolion***

Yn y Gwasanaethau Oedolion, defnyddiwn gynllun gofal a chefnogi syml y cytunwyd arno'n rhanbarthol ac sy'n amlygu sut y byddir yn darparu gofal a/neu gefnogaeth fel bod modd i unigolion gwrdd â'i ganlyniadau personol.

Mewn gwasanaeth Iechyd Meddwl, defnyddiwn y Cynllun gofal a thriniaeth yn unol â'r gofynion Mesur Iechyd Meddwl. Mae'r rhain yn nodi canlyniadau a strategaethau llesiant, personol er mwyn rhoi sylw i ofal a/neu anghenion cefnogi. Rydym wedi nodi angen am gefnogaeth gymunedol i ostwng dibyniaeth at wasanaethau statudol ac rydym wedi cyflwyno ystod o grwpiau llesiant ar draws yr ynys.

***Plant a Theuluoedd***

O'r 10fed o Ebrill 2017 ymlaen, bydd tair ffynhonnell Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Môn, sef ein Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Tîm o Amgylch y Teulu a'n Tîm Dyletswydd Plant yn dod ynghyd i greu gwasanaeth wedi'i fireinio ac y mae'n hawdd cael ato a adwaenir fel "**Teulu Môn".**

Mae argymhellion gan arolwg AGGCC o'r Gwasanaethau Plant wedi amlygu anghysonderau mewn arfer, cofnodi cyfnodau amser, sicrwydd ansawdd, gwneud penderfyniadau o amgylch asesiadau a chyfeiriadau. Rydym yn gweithio gyda'n staff a sefydliadau sy'n bartneriaid i ni i roi sylw i'r materion hyn.

**Pan allai bo angen cymorth ar unigolion i ddweud yr hyn y mae arnynt ei eisiau**

> ***"Eiriolaeth yw** cymryd camau i gynorthwyo pobl i ddweud yr hyn y mae arnynt ei eisiau, diogelu eu hawliau, cynrychioli eu diddordebau a chael gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Mae eiriolwyr a chynlluniau eirioli'n gweithio mewn partneriaeth gyda phobl y maent yn eu cefnogi ac yn cymryd eu hochr. Mae eiriolaeth yn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol*
> *(Gweithredu dros Eiriolaeth, 2002)*

Mae gennym gontractau yn eu lle ar gyfer **Gwasanaethau Eirioli** i unigolion ag Anableddau Dysgu ac i blant a phobl ifanc. Caiff gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc eu comisiynu'n rhanbarthol ac o Fehefin 2017 byddir yn cynnal y sgwrs cynnig gweithredol pan fo plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a/neu pan ddônt i dderbyn gofal. Byddwn yn prynu gwasanaethau eirioli ar gyfer pobl hŷn yn ôl y galw. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd ar y posibilrwydd o gydgomisiynu gwasanaethau eirioli gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer pob oedolyn cymwys a chryfhau ein cynnig.

**Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a phaham?**

- Parhau i weithio gyda'r gymuned, sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid eraill er mwyn cryfhau gwaith y bartneriaeth a gweithio arno, rhywbeth yr ydym yn ei wneud er mwyn gwella rhagor ar ein cymunedau i'n holl ddinasyddion.
- Ailfodelu ein gwasanaeth SPOA yn ein Gwasanaethau Oedolion fel ei fod yn addas i bwrpas i gefnogi'r newidiadau yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Gwreiddio ein Gwasanaeth Teulu Môn yn ein Gwasanaethau Plant er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

**Mesur Safonau Ansawdd 1:**

| Mesur | Data 2016/17 | Data 2015/16 |
|---|---|---|
| % o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Rwyf wedi cael y wybodaeth/cyngor cywir pan oedd ei angen arnaf". | 89.90% | Amherthnasol |
| Pobl yn dweud eu bod wedi'u trin â pharch ac urddas | 95.64% | Amherthnasol |
| % o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Rwyf wedi bod yn cymryd rhan weithgar yn y penderfyniad ynghylch sut y rhoddwyd gofal a chefnogaeth i mi / i fy mhlentyn" | 86.42% | Amherthnasol |
| % o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Rwy'n gwybod pwy i gysylltu ag o ynghylch fy ngofal a'm cefnogaeth" | 90.10% | Amherthnasol |
| % o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych/oeddech chi gyda'r gwasanaethau gofal a chefnogi a gawsoch?" | 92.67% | Amherthnasol |
| % yr oedolion sy'n cael pecyn cefnogi oddi wrth y gwasanaethau cymdeithasol sy'n dweud eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth y maent yn ei gael | 93.25% | Amherthnasol |
| % yr oedolion sy'n cael pecyn cefnogi oddi wrth y gwasanaethau cymdeithasol sy'n dweud eu bod yn fodlon gyda sut yr oedd y gwasanaethau yr oeddynt yn eu cael yn cwrdd â'u hanghenion | 93.25% | Amherthnasol |
| % y bobl nad oedd yn cael eu cyfeirio at Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ffurfiol gan y Pwynt Mynediad Sengl (ein gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth) | 19.33% | Amherthnasol |
| % cyfanswm y cysylltiadau â'r gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl na arweiniodd at gyfeiriad at Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ffurfiol | 16.20% | Amherthnasol |
| % yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amser statudol (42 diwrnod gwaith) | 89% | Amherthnasol |

**Safon Ansawdd 2**

**Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddwl pobl a'u llesiant emosiynol.**

## Cefnogaeth a allai fod ar gael i unigolion

***Oedolion***

### Cefnogaeth o'r gymuned

Ar y cyd gyda Llais Lleol, Uned Partneriaeth y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a sefydliadau lleol yn y trydydd sector, edrychodd y Cyngor ar amryfal ddulliau o ddatblygu capasiti cymunedol a chynyddu cyfalaf cymdeithasol. Yr hoff ddull yw **creu cymunedau'n seiliedig ar asedau**. Caiff y dull gweithredu cydgysylltiedig neu'r dull cydgynhyrchu i gyflawni gwasanaeth ei amlygu fel blaenoriaeth allweddol i'r partneriaid sy'n rhan o'r prosiect hwn ac mae'n nod cyffredin i'r sefydliadau statudol, preifat, a'r trydydd sector sy'n hwyluso'r broses o greu gweledigaeth. Y syniad y tu ôl i'r broses creu gweledigaeth fel dull ymgysylltu yw ei gwneud yn bosib i'r Cyngor Sir a'r trydydd sector ddechrau trafodaethau agored a gonest gyda chymunedau ynghylch sut mae gwasanaethau am gael eu cyflawni yn y prosiect i'r dyfodol.

Mae **Cynghrair Seiriol** ym Miwmares wedi datblygu'n beirianwaith lle mae pobl leol yn nodi blaenoriaethau lleol ac yn rhoi sylw i'r rhain trwy weithio gyda grwpiau cymunedol, grwpiau o ddiddordeb a Chynghorau Tref a Chymuned i ariannu prosiectau lleol yn yr ardal. Ymhlith y meysydd a nodwyd mae: ei gwneud yn haws cael at wybodaeth a chyngor, cael at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, cludiant. Ymhlith y prosiectau mae prynu bws mini cymunedol, datblygu gwefan leol, grŵp cinio dydd Sul i bobl sydd wedi'u hadnabod del rhai sy'n unig neu wedi'u hynysu, gweithgareddau cymdeithasol yn y gymuned, ei gwneud yn haws cael at asedau cymunedol ac ati. Er Ionawr 2017, mae dau Gyd-drefnydd Asedau Lleol ychwanegol wedi'u penodi er mwyn ail-greu'r model hwn yng Nghaergybi a Llangefni.

### Atal ac Adfer

Ar gyfer unigolion 18 oed a throsodd y mae'r **Gwasanaeth Ailalluogi** er mwyn eu cael 'yn ôl ar eu traed' trwy ailennill eu hannibyniaeth yn dilyn cyfnod o salwch, anabledd neu golli hunanhyder a'u hymrymuso i reoli eu hiechyd a'u llesiant. Gwelir y gwasanaeth fel ymyrraeth tymor byr ar ffurf ailsefydlu a bydd yn nodi unrhyw ofal parhaus a/neu anghenion cefnogi. Mae darparu offer a thechnoleg gynorthwyol yn annatod i'r gwasanaeth hwn. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy a Gwynedd i roi offer ar fenthyg i unigolion i hyrwyddo annibyniaeth e.e. symudedd, gofal personol a'i gwneud yn bosib codi a thrin pobl yn ddiogel.

Mae atal pobl hŷn, bregus sydd â nifer o gyflyrau iechyd rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn parhau i fod yn brif nod **Tîm Gofal Lefel Uwch Môn.** Mae'r tîm hwn yn chwarae rhan mewn hyrwyddo annibyniaeth ac ailalluogi, sy'n annatod i egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Yn 2016/17 mae dau feddyg teulu â diddordebau arbennig wedi ymuno â'r tîm yn rhan-amser ac mae 245 o unigolion wedi derbyn y gwasanaeth (mymryn o gynnydd er 2015/16).

> "Ni allen nhw fod wedi rhoi mwy o gefnogaeth. Nhw oedd fy nghraig. Gyda fy ngŵr yn cael ei drin gartref roedd yn arbed yr holl deithio ar gludiant cyhoeddus i Fangor.
> Alla i ychwanegu dim i wella'r gwasanaeth. Cefais y gorau."
>
> "Mi stopiodd Dad yn bendant rhag gorfod mynd i'r ysbyty. Mae'n debygol y byddai'r canlyniad wedi bod yn wahanol pe byddai wedi mynd i'r ysbyty. Mae hwn yn wasanaeth arbennig – diolch yn fawr iawn i holl aelodau'r tîm. Roedd y Therapi Galwedigaethol yn wych."

Y cynnig ar gyfer 2017/18 trwy'r Gronfa Gofal Integredig yw ychwanegu Parafeddyg Ymarfer Uwch i'r Tîm Gofal Lefel Uwch, er mwyn cynyddu capasiti'r gwasanaeth a datblygu rôl y parafeddyg yn y tîm. At hyn, mae'r cynnig yn cefnogi'r rhaglen gofal integredig, bydd yn cynorthwyo'r rhaglen gofal iechyd darbodus,

gofal yn nes at adref ac mae'n gwneud y defnydd gorau o asedau cymunedol. Amcangyfrifodd gwaith arfarnu economegwyr iechyd o Brifysgol Bangor yn 2014 yng nghyswllt gofal Lefel Uwch ym Môn y byddai aros am gyfnod o bythefnos ym Môn yn £762 o gymharu â £2854 am aros yn yr ysbyty am bythefnos - noder na wnaeth y ffigyrau hyn ystyried costau adnoddau'r Gwasanaeth Ambiwlans o gludo pobl i'r ysbyty ac oddi yno.

Mae gennym dri **gwely gofal canolraddol** ar gael yng nghartref gofal Plas Mona yn Llanfairpwll. Cânt eu defnyddio i hwyluso gwaith rhyddhau pobl o'r ysbyty lle mae'n ofynnol cael cyfnod pellach o ailalluogi. Cânt eu defnyddio hefyd fel gwelyau **gofal mwy dwys** i atal unigolion sy'n feddygol ansefydlog ond y mae'n ofynnol iddynt gael cyfnod o asesiad pellach rhag gorfod mynd i'r ysbyty.

Mae gennym **Dîm Amlddisgyblaethol** (Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd, Gweithiwr Cymdeithasol a Nyrs Ardal) yn gweithio'n agos gydag unigolion a'u teuluoedd gyda'r nod o'u cynorthwyo i ddychwelyd adref. Mae gennym dimau amlddisgyblaethol yn Ysbyty Penrhos Stanley yng Nghaergybi, Meddygfa Amlwch ac ym Mhlas Mona. At hyn, mae adnoddau gofal canolog ar gyfer lleoliadau tymor byr mewn cartrefi gofal ar yr ynys i reoli sefyllfaoedd argyfyngus a hefyd i gael pobl allan o'r ysbyty'n gynt.

*Bu gostyngiad o 16% dros y tair blynedd diwethaf yn nifer y bobl sydd wedi torri eu gwddf neu eu clun ym Môn ac yn ystod yr un cyfnod, bu gostyngiad o 15% ym Môn yn nifer y galwadau 999 i'r gwasanaeth Ambiwlans oherwydd codwm.*

Mae **Gwasanaeth Atal Codymau Môn** (partneriaeth rhwng Adran Hamdden y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd) yn cynnig ystod eang o ymyraethau i'r rhai dros 65 ym Môn i gynorthwyo i ostwng y risg o gael codwm a'r ofn o gael codwm. Un elfen allweddol o Gynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yw 'Atal codymau', mae gennym grŵp amlasiantaethol atal codymau sydd wedi hen ennill ei blwyf ar yr Ynys. O ddechrau'r gwasanaeth, mae dros 1600 o asesiadau risg aml ffactorol wedi'u cwblhau, gyda thros 1000 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth codymau a'r rhaglen ymarfer. Mae 120 o bobl wedi mynd i ddosbarthiadau atal codymau. Yn ystod oes y gwasanaeth mae oddeutu 50 o ddosbarthiadau sefydlogi'r ystum wedi'u cynnal yn y gymuned ac ar hyn o bryd mae 15 dosbarth yn cael eu cynnal ar draws yr ynys.

Rhaglen ailsefydlu ymarfer a ariennir gan Iechyd Cyhoeddus yw'r **Cynllun Cyfeirio Ymarfer Cenedlaethol** sy'n targedu unigolion 16 oed neu drosodd sydd wedi datblygu clefyd cronig neu sydd mewn perygl o wneud hynny. Cyfeirir unigolion gan weithiwr iechyd proffesiynol at y rhaglen 16 wythnos sy'n cael ei chynnal ym mhob un o'r canolfannau hamdden lleol ac yn y gwahanol ganolfannau cymunedol ar draws yr ynys. Mae unigolion sydd ag anableddau corfforol neu ddysgu hefyd yn medru defnyddio'r cynllun i wella eu hiechyd a'u llesiant. At hyn, mae grwpiau'n medru defnyddio'r rhaglen a chânt gynnig cwrs Addysg Ffordd o Fyw grŵp 'foodwise' wyth wythnos ac yna gael sesiynau ymarfer yn yr ystafell ffitrwydd. Grwpiau diweddar sydd wedi bod yn defnyddio'r cynllun yw grwpiau anabledd dysgu a grwpiau cefnogi iechyd meddwl.

Ariennir **Rhaglen Anabledd Chwaraeon Cymru** ym Môn trwy'r Loteri Genedlaethol a'i nod yw cael pob person anabl yn gaeth i chwaraeon am oes. Mae'r rhaglen yn cynnwys dau faes allweddol Insport - Datblygiad ac insport - Clwb. Ar hyn o bryd mae Môn ar safon Arian yr Insport - Datblygiad yn sgil y gwaith cyflawni cynhwysol ar draws yr holl gyfleusterau, gwaith partneriaeth gyda Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol a'r gallu i gael at gyfleusterau Hamdden Môn Actif yn haws. Ar hyn o bryd mae 28 o glybiau Insport, sy'n ei gwneud yn bosib i ni gynnig ystod eang o gyfleoedd i'r bobl anabl sy'n cymryd rhan, gyda chyfanswm o 88,843 wedi'u rhoi dros y 12 mis diwethaf.

## Cefnogaeth barhaus

Rydym yn darparu ac yn comisiynu ystod o **Gyfleoedd Dydd a Gwaith i Unigolion ag Anableddau Dysgu**. Mae nifer o'r sefydliadau yr ydym yn eu comisiynu'n fentrau cymdeithasol ac ar hyn o bryd rydym yn chwilio i ddatblygu ein cyfleoedd gwaith mewnol ein hunain fel menter gymdeithasol neu sefydliad masnachu hyd braich. Mae ein gwasanaethau mewnol yn cefnogi unigolion ag amryfal anableddau i gael at waith ystyrlon a chynnal y gwaith hwnnw trwy Weithdy Canolfan Byron (Mona),



DRAFT

Gerddi Haulfre (Llangoed), a'n canolfannau dydd yn Llangefni a Chaergybi ac ati, sydd i gyd yn rhedeg mentrau masnachol/lled-fasnachol fel Gwaith Coed, Garddio a chrefftau.

Mae ein **Gwasanaeth Teleofal** wedi'i lunio i'w gwneud yn bosib i unigolion barhau i fyw'n annibynnol, yn saff a diogel a chydag urddas yn eu cartrefi eu hunain ac, i rai, mae hyn fel pe bai rhywun yn taflu rhaff atynt. Mae teleofal yn rhoi'r modd i fonitro argyfyngau amser real a ffordd o fyw trwy ddarparu offer megis synwyryddion personol e.e. offer canfod bod rhywun wedi cael codwm a synwyryddion amgylcheddol e.e. synhwyrydd agor drysau. Daeth 369 o gyfeiriadau i law'r gwasanaeth yn 2016/17 o gymharu â 383 yn 2015/16.




Gwasanaeth sy'n rhoi gofal a chefnogaeth barhaus i bobl dros nos yn eu cartrefi eu hunain yw ein gwasanaeth **Tylluanod y Nos** sydd ar draws yr ynys Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo i atal gorfod anfon pobl i'r ysbyty heb fod rhaid, anfon pobl i ofal preswyl neu ofal nyrsio'n amhriodol, yn ogystal â chynorthwyo pobl i fedru gadael yr ysbyty'n gynnar. 217 oedd cyfanswm nifer defnyddwyr y gwasanaeth a dderbyniodd wasanaeth dros y cyfnod 12 mis

**deb Osgoi Cost i Wasanaethau Golau Glas Lleol, y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol:**

**Ymddiriedolaethau GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru – Cafodd 27 o alwadau eu hosgoi**

**Yr Heddlu – Cafodd 41 o alwadau eu hosgoi**
**Lleoliad Cartref Gofal Preswyl – 1920 o ddyddiau @ £68.87 y/d = £132,230.40**
**Osgoi Mynd i'r Ysbyty / Hwyluso Gadael yr Ysbyty: 66 diwrnod @ £343 y diwrnod = £22,638.00**

gyda 283 o alwadau'n cael eu cymryd.

Ar yr ynys mae gennym 276 o unigolion mewn gofal preswyl preifat a 120 yng nghartrefi gofal y Cyngor.

Mae unigolion ym Môn sy'n derbyn **<u>Gofal Cartref</u>** wedi dweud wrthym eu bod yn dymuno digon o amser i dderbyn y gofal y mae eu hangen arnynt, cael y gofal gorau posib a chael gofalwyr cartref sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyfforddiant cywir. Maent hefyd yn dymuno cael gofal gan yr un tîm o ofalwyr yn rheolaidd. Mae cael clust i wrando ar bethau pwysig a'u cyfeirio at ffynonellau perthnasol o wybodaeth hefyd yn bwysig iddynt. Ar hyn o bryd, gwyddom ein bod yn cael trafferth sicrhau gofal mewn rhai ardaloedd ym Môn ac i rai unigolion gydag anghenion gofal cymhleth. Er mwyn cryfhau darpariaeth a sicrhau bod mwy o ofal ar gael, rydym yn bwriadu prynu gofal mewn tair bro ar draws yr ynys ac, erbyn yn hwyr yn 2017, bydd un asiantaeth gofal yn gyfrifol am gyflawni gofal ym mhob bro. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn sicrhau y bydd yr asiantaeth yn canolbwyntio mwy yn y gymuned, yn ei gwneud yn haws cael at ofal, yn cael ymatebion amserol a mwy o gysondeb a dilyniant o ran gofalwyr cartref. Bydd y model newydd yn canolbwyntio ar weithredu'n ôl canlyniadau i bobl.

Ym Mai 2016, llwyddodd y **tîm Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol (darparwr iechyd meddwl mewnol)** i ennill contract newydd dan y cynllun grant Cefnogi Pobl i roi cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi adolygu ac ailfodelu'r gwaith darparu cefnogaeth gymunedol a thai â chymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r tîm yn rhoi cymorth a gyfyngir gan amser ac sy'n gysylltiedig â thai i bobl ag ystod o broblemau iechyd meddwl yn y gymuned, yn cynnwys y rhai hynny a gyfeiriwyd trwy wasanaethau gofal sylfaenol. Mae'r tîm, hefyd, yn rhoi cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i bobl sy'n byw mewn dau brosiect byw â chymorth, yn cynorthwyo unigolion i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol i symud ymlaen i fyw'n annibynnol yn y gymuned. At hyn, mae'r tîm yn cefnogi ystod o unigolion â phroblemau iechyd meddwl parhaol i fyw yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cefnogaeth ymarferol mewn modd sy'n rhoi'r unigolyn wrth galon y gwaith gan roi pwyslais cryf ar 'adfer' a'i gwneud yn bosib i bobl ddatblygu ac aros yn y gymuned a pharhau yno. Mae'r tîm Gwasanaeth Cefnogi Cymunedol yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ac yn cydweithio gyda sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill i sicrhau bod iechyd a llesiant phobl â phroblemau iechyd meddwl o'r pwys mwyaf.

DRAFT

Ymgynghorwyd â staff gwasanaethau Oedolion ym Medi 2016 a dechreuwyd gweithio penwythnosau yn Ionawr 2017 gyda gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol y Cyngor yn gweithio fel rhan o dîm ar benwythnosau i roi **gwasanaeth saith niwrnod**. Fel hyn, mae modd sicrhau y caiff asesiadau a threfniadau cynllunio gofal, yn cynnwys ymyraethau therapiwtig a nyrsio eu cyd-drefnu'n effeithiol; gan ganolbwyntio ar ofal ataliol ac osgoi gorfod mynd i'r ysbyty heb fod rhaid neu oedi cyn i bobl hŷn gael gadael yr ysbyty, yn enwedig felly'r bobl hŷn, fregus. Wrth ymateb yn amserol, mae modd gwneud defnydd gwell o adnoddau ar adeg pan fo pwysau cynyddol ar wasanaethau yn y gymuned. Rhwng Ionawr a Mawrth 2017 rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer yr unigolion sy'n disgwyl yn yr ysbyty am ofal ailalluogi a/neu ofal cartref prif lif. Nododd adborth gan y gwasanaeth Ffisiotherapi bod un o'r manteision mwyaf o gefnogaeth amserol dros y penwythnos yn golygu bod modd i gleifion gael gadael yr ysbyty ar ddydd Gwener a'u gofal yn cael ei ddilyn i fyny ar y penwythnos. O'r herwydd, mae'r amser rhwng cyfeirio ac asesu wedi gostwng.

Mae prosiect **Coed Lleol** yn dal yn ei le ar gyfer unigolion ag Anableddau Dysgu ac mae'n defnyddio coetiroedd lleol i hyrwyddo gweithgareddau, ymarfer a ffordd o fyw iach.

### *Plant a theuluoedd*

Mae prosiect arbrofol partneriaeth **Y Bont** bellach yn y prif lif ac mae Gweithiwr Trawsnewid a Gweithiwr Cymdeithasol yn parhau i weithio yn yr ysgol gyda staff eraill i roi arweiniad ar bob agwedd o drawsnewid i bobl ifanc anabl a'u teuluoedd (mae'r gefnogaeth hon ar gael i bobl ifanc a'u teuluoedd sydd ddim yn agored i'r Gwasanaethau Arbenigol Plant).

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn cyfrannu at iechyd a llesiant person, yn ogystal ag at eu hunan-barch a'u hyder. Gall gweithgareddau ddwyn i mewn unwaith eto bobl ifanc sydd wedi ymbellau oddi wrth chwaraeon, gwella rhyngweithredu/cynhwysiad cymdeithasol, gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol, rhoi 'sgiliau am oes' trwy gymryd rhan mewn chwaraeon neu hyfforddi chwaraeon, yn ogystal â chefnogi annibyniaeth pobl hŷn. Er mwyn cynorthwyo pobl i gyrraedd eu nod a hyrwyddo hunanhyder, rydym yn cefnogi clybiau, trefnu cystadlaethau, cefnogi digwyddiadau cymunedol, rhedeg rhaglen o wersi nofio i bob oedran ac yn annog plant ysgol i gymryd rhan mewn amryfal weithgareddau allgwricwlaidd. Mae hyn oll yn rhoi sgiliau bywyd ac yn annog gallu i weithredu dan bwysau, datrys problemau a chyrraedd nodau. Er mwyn meithrin cynhwysiad cymdeithasol ac ymdeimlad o hunaniaeth - rydym yn darparu cyfleusterau o fore gwyn tan nos, saith niwrnod yr wythnos- daw canolfannau hamdden yn hybiau cymunedol, maent yn dod â phartneriaethau i mewn yn rhan o Gyrff Cyhoeddus (e.e. Cymunedau'n Gyntaf, y Cyngor Tref, yr Urdd, ac ati) ac mae'r clybiau niferus sy'n defnyddio'n cyfleusterau'n rhoi ymdeimlad o gymuned i ardaloedd.

Mae'r trefniant yn dal i barhau i unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n pryderu am lesiant emosiynol plentyn/person ifanc trwy ddarparu sesiwn ymgynghori gyda gwasanaeth ataliol Haen 1 **Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)** i sefydlu a oes modd cefnogi'r plentyn/person ifanc sy'n dod dan gynllun gofal a chefnogi er mwyn osgoi'r angen i gyfeirio ymlaen at CAMHS Haen 2 ffurfiol.

Mae **panel comisiynu ar y cyd y Gwasanaethau Plant** yn cyfarfod pob mis i adnabod comisiynu ar y cyd er mwyn dod i gytundeb rhwng Addysg, y Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Plant ar gyfer plant/pobl ifanc y mae angen gofal arbenigol, adnoddau priodol a threfniant ariannu arnynt.

Rydym yn parhau i wella'n harfer mewn perthynas â **Phlant sy'n Derbyn Gofal** gyda'r Nyrs Arbenigol sy'n rhan o'r Tîm Derbyn Gofal yn gweithio gyda phlant/pobl ifanc i sicrhau eu bod yn cyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae llwyddiant hyn yn arwain atom yn sicrhau bod 100% o'n Plant sy'n Derbyn Gofal wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau lleoliad.

Mae 710 o blant a theuluoedd sydd yn y **Rhaglen Dechrau'n Deg** ym Môn yn cael cefnogaeth ystod o ddarpariaeth rhiantu, o grwpiau i gefnogaeth un-i-un yn y cartref gyda phopeth o drin arian, bwyta'n iach, rheoli ymddygiad plant, cymryd rhan yn y gymuned a chymryd mantais o fentrau cymunedol ehangach. Mae'r pwyslais i'w weld ar y gefnogaeth i deuluoedd gyda phlant 0-4 blwydd oed a darparu gwasanaethau ataliol i ostwng neu wneud i ffwrdd â'r angen am ymyrraeth statudol. Mae'r rhaglen yn gweithio'n agos gyda'r Tîm o amgylch y Teulu ar gyfer plant hŷn mewn teuluoedd i sicrhau y caiff teuluoedd gefnogaeth i gael at

DRAFT

wasanaethau statudol priodol. Mae'r rhaglen wedi wynebu heriau mewn recriwtio staff â'r cymwysterau priodol yn enwedig felly Ymwelwyr Iechyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae hyn yn parhau i fod yn broblem y mae angen rhoi ystyriaeth genedlaethol iddi.

**Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a phaham?**

- Ein bwriad yw aildendro'n darpariaeth gofal cartref ar draws yr ynys yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.
- Ychwanegu Parafeddyg Ymarfer Uwch at Dîm Gofal Lefel Uwch Môn er mwyn cryfhau ein rhaglen gofal integredig.
- Parhau i gyflawni yn erbyn ein Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda ysbrydoledig.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu perthynas weithio gadarn gyda'n cydweithwyr addysgol er mwyn sicrhau rhaglen ataliol gref, ar gynhyrchion megis Rhaglen Dechrau'n Deg.

**Mesur Safonau Ansawdd 2:**

| Mesur | Data 2016/17 | Data 2015/16 |
|---|---|---|
| Cyfradd yr oedi mewn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 y boblogaeth 75 oed neu drosodd | 6.05 | 6.63 |
| % yr oedolion yr oedd yn ofynnol iddynt gael gofal preswyl ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn | 1.13% | 1.21% |
| Nifer yr oedolion yr oedd yn ofynnol iddynt gael gofal preswyl ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn | 637 | 686 |
| Nifer yr oedolion mewn gofal preswyl hyd at yr 31ain o Fawrth | 396 | 401 |
| Canran y plant a welwyd gan ddeintydd cofrestredig o fewn pedwar mis i dderbyn gofal | 91% | Amherthnasol |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu o fewn deg diwrnod gwaith i ddechrau'r lleoliad | 100% | 98% |
| % yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal - asesiadau yr oedd eu disgwyl yn ystod y flwyddyn - a gafodd eu cynnal | 97% | 96% |

DRAFT

***Gwarchod ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed***

Mae diogelu'n parhau wrth union galon popeth a wnawn, i sicrhau fod plant, pobl ifanc ac oedolion ag anghenion gofal a chefnogi'n byw eu bywydau'n rhydd o gamdriniaeth ac esgeulustod. Er mwyn i ni ymgymryd â'r ddyletswydd hon, rydym yn gweithio gydag unigolion, teuluoedd a phartneriaid i geisio atal camdriniaeth, gan leihau risg i'r eithaf ac ymateb yn gymesur i le cafwyd camdriniaeth neu esgeulustod. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi sicrhau y bu'r Cyngor yn barod i weithredu'r gofynion diogelu diwygiedig dan Ran 7 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwelliant. Mae gan yr Awdurdod Lleol Fwrdd Diogelu yn ei le sy'n gyfrifol am sgriwtineiddio'r Trefniadau Diogelu Corfforaethol, a gyrru gwaith rhoi'r Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol ar waith.

**Er bod hwn yn waith sy'n dal yn mynd rhagddo, rydym wedi cymryd camau cadarnhaol:-**

- Wedi adolygu'r Polisi Diogelu Corfforaethol a sicrhau ei fod ar gael i'r holl staff
- Mae pob gwasanaeth wedi nodi sut mae'n anelu at wella ei drefniadau diogelu
- Wedi nodi'r hyfforddiant a'r sesiynau creu ymwybyddiaeth y mae eu hangen ar bob aelod o staff i sicrhau ei fod yn deall ei ddyletswyddau diogelu,
- Gwneud yn siŵr bod y Cyngor yn recriwtio staff y mae'r gwaith gwirio cyflogaeth angenrheidiol a wnaed yn eu cylch yn ei le
- Wedi cefnogi gwaith cyflawni a datblygu nifer o raglenni Diogelu Corfforaethol, megis Rhaglen Atal, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Caethwasanaeth Fodern a Chamdriniaeth Ddomestig a Thrais yn erbyn Merched.
- Mae rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol yn sicrhau fod y cynllun i hwyluso anghenion y plentyn yn cael ei fodloni a bod y cynllun ar gyfer ei ofal tymor hir yn cael ei roi ar waith.

Mae'r Cyngor, hefyd, yn chwarae rhan lawn yng ngwaith a blaenoriaethau **Byrddau Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru** i blant a phobl ifanc: yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae hyn wedi cynnwys cefnogaeth ariannol ac amser swyddogion, sy'n cyfrannu at flaenoriaethau'r Bwrdd ac yn eu cefnogi.

***Oedolion***

Yn y Gwasanaethau Oedolion, rydym wedi canolbwyntio ar:-

- Adolygu'r trefniadau ar gyfer sicrhau yr ymatebwyd i geisiadau yng nghyswllt Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn effeithiol a chynnydd mewn capasiti Budd Pennaf. Credwn fod gennym bellach system reoledig wedi'i chryfhau yn ei lle.
- Roi hyfforddiant i ymarferwyr ar y gofynion diogelu newydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y Gorchmynion Cefnogi Amddiffyn Oedolion newydd, sicrhau bod ein staff wedi'u hyfforddi a bod ganddynt yr offer i ymdrin â'r newidiadau.
- Sefydlu'r 'Panel Breuder Oedolion' ar y cyd gyda'n cydweithwyr o Heddlu Gogledd Cymru, i gyd-drefnu ein gwaith o gefnogi unigolion ar draws gwasanaethau cyhoeddus sydd ag anghenion cymhleth.

***Plant a theuluoedd***

At hyn, rydym wedi parhau i chwarae'n rhan yn y trefniadau gwarchod cyhoeddus amlasiantaethol (MAPPA) a threfniadau'r gynhadledd asesu risg amlasiantaethol (MARAC). Mae trefniadau amlasiantaethol gwarchod y cyhoedd yn parhau i fonitro a rheoli risg yn amlasiantaethol yng nghyswllt unigolion sydd wedi'u hasesu fel eu bod yn risg uchel i'r cyhoedd. Trafodwyd canfyddiadau Adroddiad Arolygu'r Gwasanaethau Plant yr AGGCC ym Mwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ym Mawrth 2017, gan sicrhau dealltwriaeth dorfol o'r materion (yn cynnwys materion amlasiantaethol a rhanbarthol), ac ymrwymiad gan bartneriaid i weithio gyda'r Cyngor i wella gwasanaethau i blant. Mae'r adroddiad hefyd wedi'i drafod yng Nghrŵp Cyflawni Lleol Gwynedd a Môn. Bydd rôl is-grŵp Sicrwydd Ansawdd y grŵp yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf i gryfhau'r system sicrhau ansawdd a'r trefniadau hyfforddi er mwyn sicrhau fod yr holl bartneriaid yn deall trothwyon ar gyfer asesiadau ac y cânt eu defnyddio'n gyson.

Sefydlwyd y broses VARM (Rheoli Breuder a Risg) yn sgil gwaith a gynhaliwyd gan grŵp tasg a gorffen dan gyfarwyddyd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, fel prosiect arbrofol lleol er mwyn rhoi ymateb mwy cydgysylltiedig i'r unigolion hynny oedd ag anghenion cymhleth sy'n dod i sylw asiantaethau statudol yn aml ond sy'n syrthio y tu allan i'r meini prawf ar gyfer fframweithiau sefydledig megis MARRAC, MAPPA neu POVA. Cynrychiolir

ystod o bartneriaid statudol (Heddlu Gogledd Cymru, y Bwrdd Iechyd, Prawf, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru, y Gwasanaeth Tân, Tai, Gwasanaethau Oedolion) yn ogystal â phartneriaid o'r trydydd sector, megis Cymorth i Ddioddefwyr, cymdeithasau tai a darparwyr cefnogaeth. Y nod sylfaenol yw rhannu gwybodaeth a datblygu strategaethau rheoli risg ar gyfer pob person dan ystyriaeth. Mae'r grŵp yn cyfarfod pob mis ac yn adrodd i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol rydym wedi sicrhau y cafodd gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant eu troi'n drefniadau clir i ymarferwyr - mae Lansiad Canllawiau'r Gwasanaethau Plant newydd wedi'i gynnal, gan sicrhau fod pob ymarferwr yn ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohono, ac yn rhoi cysondeb o ran arfer a phroses. Ar ben hynny, rydym wedi parhau i wreiddio argymhellion arolygu'r AGGCC. Mae rhagor o waith yn ofynnol i gryfhau trefniadau i rai sy'n gadael gofal gyda llety, addysg a chyfleoedd gwaith ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella cyrhaeddiad addysgol ein plant sy'n derbyn gofal i sicrhau eu bod yn cyflawni eu llawn botensial.

**Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a phaham?**

- Llwyddo i wella'n trefniadau diogelu yn y Gwasanaethau Plant fel y nodir yng nghynllun cyn-arolygu'r AGGCC. Nodwyd Sicrwydd Ansawdd fel maes i'w wella. Byddwn yn cryfhau'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ac yn ei wreiddio yn y Gwasanaeth er mwyn gyrru gwelliant parhaus mewn ansawdd arfer.
- Bydd yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn cael ei gryfhau gydag ailsefydlu swydd Rheolwr Sicrwydd Ansawdd, penodi Swyddog Adolygu Annibynnol ychwanegol a chefnogaeth busnes ychwanegol.
- Sefydlir trefniadau gweithio gwell rhwng yr Uned Diogelu a'r Tîm Gweithredoedd. Bydd dangosyddion perfformiad yn cael eu hadolygu i sicrhau y ceir monitro effeithiol yn y gwasanaeth a bod y gwasanaeth ei hun yn cael ei fonitro'n effeithiol.
- Mae cynllun gweithredu archwilio ffeil achos wedi'i roi ar waith gyda'r disgwyliad y bydd yr holl reolwyr yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau cysondeb ac ansawdd yr arfer. Bydd ymyraethau wedi'u targedu'n cael eu cynnal os na fydd yr arfer yn gwella.
- Gwreiddio'r trefniadau ar gyfer darparu trefniadau diogelu rhag collid rhyddid, gan sicrhau bod y gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf yn cael ei wreiddio mewn arfer dyddiol.
- Cefnogi gwaith cyflawni Fframwaith Hyfforddi Diogelu Corfforaethol, unwaith eto'n adeiladu ar y sylfeini sydd wedi'u gosod dros y deuddeng mis diwethaf.
- Unwaith y byddant wedi'u penodi a'u neilltuo i Grwpiau Arfer Arweiniol, bydd cyfleoedd datblygiadol yn cael eu rhoi i gefnogi'r gweithlu i ymgymryd â'u dyletswyddau.
- Mae'r holl achosion lle mae enw'r plentyn wedi bod ar y gofrestr ers mwy na deuddeng mis yn cael eu hadolygu i sicrhau y byddir yn cymryd camau amserol a chyflym i roi sylw i bryderon diogelu.
- Bydd Gwasanaethau Ataliol yn cael eu hadolygu a strategaeth ataliol gorfforaethol newydd yn cael ei datblygu ar y cyd gyda phartneriaid, i sicrhau mwy o wasanaethau a chomisiynu effeithiol, i ostwng nifer y plant a phobl ifanc y mae angen eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac y mae angen iddynt Dderbyn Gofal.

**Mesur Safonau Ansawdd 3:**

| Mesur | Data 2016/17 | Data 2015/16 |
|---|---|---|
| % yr oedolion sy'n ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Ydi'r gefnogaeth sydd wedi'i sefydlu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'ch cynorthwyo i deimlo'n saff a diogel yn eich cartref?" | 90.50% | Amherthnasol |
| % y cyfeiriadau Gwarchod Oedolion Bregus (POVA) a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle mae'r risg wedi'i rheoli | 95.70% | 93.02% |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| % y cynlluniau gofal a chefnogi (neu gynlluniau cefnogi ar gyfer pobl ifanc) a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, o fewn amser y cytunwyd arno | 88.00% | 93.00% |
| Canran yr achosion o ailgofrestru plant ar gofrestri Gwarchod Plant yr awdurdod lleol o fewn deuddeng mis i ddiwedd y cofrestriad blaenorol | 7.00% | Amherthnasol |
| Y cyfnod amser cyfartalog ar gyfer yr holl blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ac a gafodd eu datgofrestru yn ystod y flwyddyn | 266 o ddiwrnodau | Amherthnasol |

DRAFT

Safon Ansawdd 4

***Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas***

***Oedolion***

**Yn y gymuned**

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector i sefydlu gwaith **Cyd-drefnu Asedau Lleol** ar draws yr ynys. Ar hyn o bryd mae gennym dair swydd yn gyfrifol am ardaloedd Biwmares, Caergybi a Llangefni.

Ystyr Cyd-drefnu Asedau Lleol yw:

- Gwreiddio Cyd-drefnwyr Ardal Lleol mewn cymuned ddaearyddol fechan i gefnogi 50-65 o unigolion a'u teuluoedd.
- Darparu un pwynt cyswllt sy'n lleol a hygyrch i bobl o bob oed a allai fod yn fregus oherwydd oed, anabledd neu salwch meddyliol. Y nhw yw "pen blaen" system y gwasanaeth.
- Cynorthwyo unigolion i ddatrys eu problemau eu hunain a chreu bywyd da fel aelodau o'u cymunedau eu hunain
- Rhoi pob unigolyn wrth galon y gwaith gwneud penderfyniadau a gweithio gyda'r unigolyn a'r teulu i ddilyn eu gweledigaeth am fywyd da fel rhan o'u cymuned.

Mae'r **Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru** ar gyfer unigolion 50 oed a throsodd a'i nod yw datblygu Strategaeth Ataliol yr Awdurdodau Lleol trwy sefydlu tair Canolfan Heneiddio'n Dda sy'n gweithio ar yr egwyddor o gynhwysiad trwy gyfeirio a gwella mynediad at gefnogaeth gyffredinol a phrif lif.  Mae'r canolfannau hyn yn Amlwch, Llangefni a Brynsiencyn.

Mae **Hybiau Cymunedol** yn cynnig ystod o wasanaethau fel pwynt cyswllt cyntaf a mynediad at gefnogaeth h.y. trin traed, dosbarthiadau codymau, grwpiau cerdded a sesiynau Cyngor ar Bopeth ar fudd-daliadau a hawliau. Maent yn rhoi canolbwynt i feithrin mwy o weithgarwch cymunedol yn lleol a dod â phreswylwyr ynghyd i wella ansawdd eu bywyd yn eu hardaloedd a chyfrannu at leihau i'r eithaf ar unigrwydd a theimlad o fod wedi'u hynysu. Mae hybiau wedi'u datblygu'n ddiweddar yn yr ardaloedd a ganlyn: Neuadd bentref Llanfairpwll, y ganolfan gymunedol yn Llanfaelog a thafarn ym Mryngwran. Bydd y rhain yn cymryd amser i ennill eu plwyf gyda'r Cyngor yn darparu rôl hyrwyddo.

Mae grŵp amlasiantaethol wedi'i sefydlu i ddatblygu **Strategaeth Dementia** i Fôn, bydd yn ystyried: cymorth a chyngor gwybodaeth, technoleg, Teleofal, Dementia sy'n gysylltiedig ag alcohol a gwasanaeth cefnogi Plas Crigyll y tu allan i oriau. Mae fersiwn ddrafft y strategaeth Dementia yn unol â themâu Strategaeth Pobl Hŷn:

- Unigolion annibynnol/cymunedau cryf
- Eich cynorthwyo i fyw gartref a
- Pan nad yw byw gartref yn opsiwn mwyach

Mae pum caffi Dementia ar yr ynys, mae'r rhain yn rhoi lle i bobl fynd os ydynt yn gofalu am berson â Dementia, os ydynt yn poeni am gof rhywun, neu i gyfarfod pobl eraill y mae Dementia wedi cael effaith arnynt. Mae pedwar cynllun Homeshare lle gall person gael cefnogaeth yng nghartref gofalwr proffesiynol er mwyn ychwanegu at sgiliau bywyd sydd ganddynt eisoes a sefydlu mwy o gysylltiadau yn y gymuned. Mae hyn hefyd yn rhoi egwyl i'r unigolion sy'n edrych ar ôl y person â Dementia.

Rydym wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Alzheimer ac ymgynghorydd ar raglen o gyfarfodydd cyhoeddus ym Miwmares i sefydlu Cynghrair Dementia i weithio'n agos gyda busnesau lleol, cynyddu nifer y bobl sy'n cael yr hyfforddiant ymwybyddiaeth bod yn ffrind i rywun sydd â Dementia a recriwtio a hyfforddi pencampwr Dementia.

DRAFT

Y nod yw bod Biwmares yn dod y Gymyned gyntaf ar yr ynys sy'n ystyriol o Ddementia, ac yna Gaergybi a Llangefni. Hon fyddai rhan gyntaf y daith tuag at Fôn sy'n ystyriol o Ddementia.

Bu cynnydd o 50% yn nifer y bobl a ddefnyddiodd **Taliadau Uniongyrchol** eleni, oedd yn ei gwneud yn bosib i fwy o unigolion gael dewis a bod mewn rheolaeth ynghylch sut y caiff eu gofal eu cyflawni. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghorol mewn partneriaeth â 'Llais Lleol' gydag unigolion yn cael Taliadau Uniongyrchol, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill. Arweiniodd yr adborth a gafwyd yn ôl atom at wneud nifer o welliannau yn cynnwys y gwaith hyrwyddo, cyfathrebu a'r gwasanaeth gwybodaeth a chefnogi sydd ar gael i'r rhai sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol. Un enghraifft yw gwella tudalennau'n gwefan, y mae ganddi bellach lawer mwy o wybodaeth yn cynnwys astudiaethau achos a fideos a gynhyrchwyd gydag unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth a'u teuluoedd.

**Mewn cyflogaeth**

Mae arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi'i sicrhau i ariannu rhaglen o'r enw **OPUS**. Nod y rhaglen yw mynd i'r afael â thlodi trwy gyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli cynaliadwy a chyfleoedd dysgu gydol oes. Er mwyn bod yn gymwys am y gwasanaeth, rhaid i unigolion fod yn 25 oed a throsodd ac wedi bod yn ddi-waith ers dros 12 mis a ddim yn mynd ati i chwilio am waith ar hyn o bryd nac mewn addysg na hyfforddiant.

***Plant a Theuluoedd***

Rydym yn edrych ar ddefnyddio **Modelau Cefnogaeth a Chynnydd Gweithredol** i ddatblygu sgiliau plant a phobl anabl i ostwng ymddygiad pryderus, gwneir hyn mewn partneriaeth â theuluoedd a Chanolfan Addysg y Bont. Rydym wedi sicrhau arian Cronfa Gofal Integredig i adeiladu ar y gwaith hwn yn 2017/18 fel y canolbwyntir ar bobl ifanc 14 oed i fyny at y bobl ifanc sy'n croesi'r bont i wasanaethau oedolion. Rydym wedi hwyluso ystod o gyfleoedd hyfforddi i ddarparwyr Gofal Cymdeithasol i hyrwyddo'r model cefnogaeth a chynnydd gweithredol yn y gwasanaethau Anableddau Dysgu. Hyrwyddo annibyniaeth trwy sicrhau bod gan unigolion mwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau.

Prosiect sydd wedi'i sefydlu yng Ngogledd Cymru ac sy'n ymestyn dros y chwe awdurdod lleol, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria a Gyrfaoedd Cymru yw'r **prosiect TRAC** a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'n cefnogi disgyblion bregus rhwng 11-16 mlwydd oed i barhau a llwyddo mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Hyd yn hyn, mae 156 o bobl ifanc wedi cael cefnogaeth, cafwyd 48 o gymwysterau ac mae 20 o bobl ifanc wedi llwyddo i sicrhau lleoliadau gwaith rheolaidd. Symudodd 98% o ddisgyblion Blwyddyn 11 a gymerodd ran yn 2016 ymlaen yn llwyddiannus i Addysg Bellach. Rhoddir cefnogaeth i'r teulu a rhoddir cefnogaeth llesiant meddwl i bobl ifanc y mae eu hamgylchiadau yn eu rhwystro rhag parhau gyda'u Haddysg. Targedir cefnogaeth benodol tuag at blant mewn gofal ac mae enghreifftiau gwych o becynnau gofal sydd wedi'u teilwrio ar gyfer y bobl ifanc hyn.

Mae cyrhaeddiad addysgol ein Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i gael ei fonitro gan ein Swyddog Cyswllt Addysgol, trwy weithio'n agos gyda'n partner addysgol, ysgolion a phlant a phobl ifanc.

O Ebrill 2016, mae pobl ifanc yng Nghymru wedi bod â'r hawl i aros gyda'u teuluoedd maeth wedi iddynt droi'n 18, adwaenir hyn fel y cynllun **Pan fydda i'n Barod.** Daeth y newid hwn i'r gyfraith i rym gyda'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a daw yn sgil ymgyrch ar y cyd rhwng y Rhwydwaith Maethu a Gweithredu Dros Blant. Rydym wedi ymrwymo i atal eithrio cymdeithasol ymhlith y rhai sy'n gadael gofal ac yng Ngogledd Cymru mae'r chwe awdurdod lleol wedi datblygu Polisi Pan Fydda i'n

Daeth Andrea* (merch ifanc yn ei harddegau) i mewn i ofal yn sgil y berthynas fabwysiadu'n torri i lawr ac roedd mewn lleoliad maethu gan aros gyda'r gofalwyr maeth dan y cynllun, 'Pan fydda i'n Barod'. Ers hynny, mae wedi symud i mewn i fflat rhent, gan fyw'n annibynnol. Yn ystod yr amser yma, mae hi wedi parhau gyda'i haddysg yn llwyddiannus ac wedi ceisio am gyrsiau yn y brifysgol y flwyddyn nesaf. Rhoes y Cynghorydd personol o'r tîm Plant sy'n Derbyn Gofal gefnogaeth i Andrea i gyflawni ei nodau a'i chynorthwyo i gael at y gwasanaethau perthnasol (yn fewnol yn y Cyngor ac yn allanol), yn unol ag anghenion Andrea oedd yn newid, a hynny'n llyfn ac yn hyblyg.

**Mae enw'r person ifanc wedi'i newid am resymau cyfrinachedd.*



DRAFT

Barod er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc 'fregus' sy'n gadael gofal a'r rhai hynny sydd mewn addysg yn cael cefnogaeth barhaus.

**Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a phaham?**

- Gorffen Strategaeth Dementia Môn gyda chymorth a chefnogaeth gan amlasiantaethau.
- Gwireddu Cynghrair Dementia, yn cynnwys ymdrechu i sicrhau fod Biwmares yn dod y Gymuned Gyntaf sy'n ystyriol o Ddementia.
- Hyrwyddo rhagor o waith datblygu Hybiau Cymunedol ar yr Ynys.
- Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae prosiectau OPUS yn eu cynnig i gynorthwyo pobl a busnesau.
- Gweithio tuag at gynnydd pellach parhaus yn nifer y bobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol.
- Gan weithio mewn partneriaeth, byddwn yn gwella'r broses croesi'r bont, trwy'r Model Cefnogaeth a Chynnydd Gweithredol.

DRAFT

**Mesur Safonau Ansawdd 4:**

| Mesur | Data 2016/17 | Data 2015/16 |
|---|---|---|
| % y bobl sy'n ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Ydych yn teimlo fod y gefnogaeth yr ydych yn ei chael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich cynorthwyo i wneud y pethau sy'n bwysig i chi?" | 83.76% | Amherthnasol |
| Canran y plant, sydd â chynllun gofal a chefnogi, sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 | 46% | Amherthnasol |
| Canran y plant, sydd â chynllun gofal a chefnogi, sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 4 | 12.50% | Amherthnasol |
| % y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid un neu fwy o ysgolion yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gwasanaeth ac nad oedd hyn yn sgil trefniadau croesi'r bont, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | 17% | 17% |
| Nifer y plant sy'n newid un neu fwy o ysgolion yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | 17 | 12 |

<u>Safon Ansawdd 5</u>

***Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas deuluol a phersonol iach a domestig***

***Oedolion***

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda grŵp **'Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn'** i ddatblygu **Strategaeth Gofalwyr** i ardaloedd Gwynedd a Môn. Mae aelodau o'r ddau Awdurdod Lleol ar y bartneriaeth: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid y Trydydd Sector yn gweithio gyda Gofalwyr. Mae Grŵp Gofalwyr Môn lleol wedi'i sefydlu i ddatblygu Cynllun Gweithredu lleol i sicrhau y gweithredir y Strategaeth yn lleol.

Mae'r holl staff yn y Gwasanaethau Oedolion yn ymwybodol bod angen iddynt gynnig asesiad i Ofalwyr pan fyddant mewn cyswllt ag unigolion a'u rhwydwaith cefnogi. Mae hyn wedi'i wreiddio yn eu harfer dyddiol. Mae hyn yn dechrau cael ei arfer yn y Gwasanaethau Plant a bydd hyfforddiant yn dechrau ar y broses asesu, gydag asesiadau gofalwyr yn rhan o'r hyfforddiant hwn. Mae dau Swyddog Gofalwyr pwrpasol yn gweithio yn y Gwasanaethau Oedolion a all gefnogi'r holl ofalwyr (gofalwyr ifanc a'r rhai sy'n oedolion) yn eu rôl o ddydd i ddydd ac a all hefyd roi Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i Ofalwyr. Maent yn asesu anghenion gofalwyr ac yn eu gwneud yn ymwybodol o'u hawliau dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd a rhoi'r cysylltiadau â sefydliadau statudol a gwirfoddol iddynt. h.y. Cynnal Gofalwyr.

Mae seibiant yn parhau i gael ei roi yn y cartref, ac mewn lleoliadau gofal yn unol â dewis Gofalwyr unigol. Mae hyn yn eu cynorthwyo i gael cyfleoedd cymdeithasol yn ogystal â chyfleoedd addysgol. Mae seibiant yn cynnig parhad gofal ac egwylion ystyrlon i sicrhau bod anghenion Gofalwyr yn y cynllun gofal a chefnogi'n cael eu bodloni ac er mwyn eu cynorthwyo i barhau i weithredu fel Gofalwr. Mae gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a grwpiau lleol hefyd yn rhan allweddol o allu cyflawni'r hyn sydd wedi'i nodi yn y cynllun gofal a chefnogi.




Crëwyd <u>Taflen i Ofalwyr</u> ar y cyd trwy 'Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn'. Mae'r daflen hon wedi'i llunio fel bod pobl yn gallu adnabod eu hunain fel Gofalwyr a hefyd er mwyn rhoi manylion cyswllt hanfodol i Ofalwyr fel eu bod yn medru cael Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yng nghyswllt gwahanol bynciau a allai gael effaith arnynt.

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid lleol megis y Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - y Gwasanaeth Gofal Croesffyrdd a Hafal sy'n rhoi gwybodaeth yn ogystal ag adnoddau a chefnogaeth yn y gymuned i Ofalwyr. Cynhelir gweithgareddau megis y 'Caffis Dementia' a gwahanol grwpiau cefnogi'n rheolaidd. Byddwn yn parhau i ddatblygu a bwrw ymlaen gyda'r gwaith hwn gyda phartneriaid a sicrhau fod yr holl Ofalwyr yn ymwybodol bod hawl ganddynt i asesiad o'u hanghenion a bod y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o amgylch Gofalwyr yn parhau i gael ei ddatblygu a'i gyhoeddi ymhellach.

***Plant a Theuluoedd***

Gosodir yng nghynllun strategol pum mlynedd Llywodraeth Cymru, '*Symud Cymru Ymlaen'*, nodau clir ar gyfer rhoi'r dechrau gorau posib i bob plentyn yng Nghymru ac ar gyfer cefnogi teuluoedd i greu amgylchedd sefydlog sy'n meithrin, lle gall plant ffynnu. Mae'r **Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf** yn un o nifer o gynlluniau a rhaglenni sydd, gyda'i gilydd, yn cynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Mae gan Teuluoedd yn Gyntaf rôl allweddol mewn rhoi cefnogaeth i deuluoedd pan fo'i angen fwyaf arnynt er mwyn creu cymunedau sy'n hyderus a mwy gwydn. Mae wedi'i lunio i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Rhoi pwyslais ar ymyrraeth gynnar, atal a rhoi cefnogaeth i deuluoedd cyfan, yn hytrach nag i unigolion. ***"Mae ymyrraeth Gynnar yn ymwneud â chymryd camau cyn gynted â bo modd i fynd i'r afael â phroblemau i blant a theuluoedd cyn iddynt fyndd yn anoddach i'w troi'n ôl" (Sefydliad Ymyrraeth Gynnar)***

DRAFT

Nid yw **Ymyrraeth Gynnar** yn ymwneud yn unig â chanolbwyntio ar gefnogaeth blynyddoedd cynnar i blant a theuluoedd ond â chynorthwyo i atal pobl ifanc a theuluoedd â phlant o bob oed rhag datblygu problemau y mae'n anodd eu goresgyn. Trwy roi i'r teuluoedd y sgiliau a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt cyn gynted â bo modd, rydym yn llawer mwy tebygol o'u hatal rhag mynd i drafferthion yn hwyrach ymlaen ac yn fwy tebygol o gynorthwyo teuluoedd i ddatblygu cylchoedd rhyng-genedlaethol rhiantu, perthynas ac ymddygiad cadarnhaol. Trwy adeiladu ar gryfder rhieni, gallwn eu cynorthwyo i greu amgylchedd cefnogol a chyfoethog i'w plant i roi pob cyfle iddynt gyrraedd eu potensial ac ymddwyn yn gadarnhaol fel hyn gyda'u plant eu hunain. Mae'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan o gontinwwm o gefnogaeth sy'n cynnwys ystod eang o anghenion. Mae'r gefnogaeth a roddir yn ymestyn dros ystod eang o anghenion, o gefnogaeth ymyrraeth gynnar trwodd i ymyraethau amlasiantaethol dwys ond ni ddylai fynd cyn belled â chefnogi teuluoedd mewn argyfwng, y mae angen gwasanaethau statudol neu arbenigol arnynt.

Mae **Tîm o Amgylch y Teulu** (a sefydlwyd yn 2012 trwy'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf) yn parhau i roi ymyrraeth gynnar, gynhwysfawr i Blant a Phobl Ifanc oed 0-25, i'w gwarchodwyr/rhieni ac i aelodau eraill y teulu er mwyn adnabod eu problemau'n gynnar, yn y gobaith ein bod yn llwyddo i wella eu sefyllfa/bywydau er gwell trwy weithio gyda'n gilydd i atal problemau rhag datblygu'n rhywbeth mwy difrifol. Rydym wedi cefnogi dros 987 o deuluoedd hyd yn hyn. Mae'r Tîm o amgylch y Teulu wedi symud drosodd i'r Gwasanaethau Plant yn ddiweddar ac maent bellach yn rhan o'r hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth: Teulu Môn. Mae'r tîm yn parhau i weithio'n agos gyda gwahanol asiantaethau er mwyn cyfoethogi a gwella gwaith hyrwyddo ethos y gwasanaeth ymyrraeth gynnar trwy waith amlasiantaethol. Yn adroddiad arolygu'r Gwasanaethau Plant nodwyd bod tystiolaeth sylweddol bod y Tîm o Amgylch y Teulu yn gwneud gwaith rhagweithiol gyda phlant a theuluoedd oedd yn cefnogi eu hannibyniaeth a'u llesiant gwell.

> Roedd 'Lewis' yn berson ifanc ag anghenion iechyd dwys. Roedd ei fam yn cael trafferth ymdopi gyda chwrdd ag anghenion Lewis oherwydd profedigaeth ac, o'r herwydd, nid oedd Lewis yn medru gwneud y gorau o'i addysg nac o'i amser hamdden. Roedd Maggie'n gyndyn o dderbyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol. Roedd gweithiwr cymdeithasol yn gallu rhoi cyngor i Maggie ar wasanaethau'r Tim o Amgylch y Teulu a gofynnodd hithau a Lewis am asesiad. Gwnaeth gweithiwr y tîm ymdrech lew i ymgysylltu ag aelodau unigol o'r teulu a chanfod gyda phob un ohonynt yr hyn yr oeddynt eisiau ei gyflawni o ddwyn y Tîm i mewn. Gweithiodd wrth eu pwysau nhw i roi sylw i ystod o faterion yn cynnwys: cefnogaeth i hawlio budd-daliadau penodol: cefnogaeth eiriolaeth gyda'r bwrdd iechyd lleol; cefnogaeth i Lewis i fynd i apwyntiadau'n annibynnol; cysylltu gyda'r ysgol i roi sylw i anawsterau, a chysylltu â'r gwsanaethau cymdeithasol oedolion ar gyfer gwasanaethau croesi'r bont. Yn sgil yr ymyrraethau, roedd y teulu'n gallu rheoli eu harian yn fwy effeithlon. Roedd ei fam wedi cael cwnsela yng nghyswllt y brofedigaeth ac roedd, yn gyffredinol, yn ymdopi'n well. Gyda chefnogaeth, roedd Lewis yn mynd i'r ysgol ac i apwyntiadau iechyd yn rheolaidd, ac yn medru ymgymryd â gweithgareddau hamdden nad oedd wedi bod ar gael ynghynt. Roedd y teulu hwn, yn amlwg, wedi'i ymrymuso ac roedd Lewis, yn amlwg, yn ymdrechu tuag at fod yn gryfach ac annibynnol.

Mae **Rhaglenni Rhiantu** yn parhau i gefnogi teuluoedd sy'n agored i Wasanaethau Plant i atal angen rhag codi ac i roi tystiolaeth ac asesiad o sgiliau rhiantu. Dysga rhieni sgiliau a thechnegau newydd trwy ddilyn rhaglen 12 wythnos (mae hyn yn cynnwys disgwyliad cyflawn rhiantu e.e. perthynas, deall datblygiad plant, paratoi plant i fod yn barod am yr ysgol). Yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil, mae model y Rhaglen Blynyddoedd Rhyfeddol, rhaglen bwrpasol, wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer gweithio gyda thadau, yn eu cynorthwyo i godi eu hyder a deall eu rôl fel tad. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal dau grŵp Blynyddoedd Rhyfeddol ar yr ynys gyda'r nod o gael dau arall a pharhau fel rhaglen dreigl. Yn y dyfodol, byddwn yn datblygu rhagor o raglenni ar gyfer bod yn Rhieni i Bobl Ifanc yn eu Harddegau, bod yn Rhieni i Blant sy'n Troseddu a bod yn Rhieni i Blant sydd mewn perygl o rywun yn cam-fanteisio'n rhywiol arnynt neu sydd wedi cael rhywun yn cam-fanteisio'n rhywiol arnynt, a hynny trwy waith y Tîm Teuluoedd Cryf.

Mae prosiect wedi'i gomisiynu ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor a'r Gwasanaethau Plant i arbrofi a monitro'r rhaglen rhiantu gyda gofalwyr maeth. Bydd canfyddiadau hwn yn gymorth i gynhyrchu dogfen am broblemau ymddygiad plant mewn lleoliad y rhoddir gofal maeth a nodi sut i ddatrys y problemau hyn.

Mae **Gwasanaethau Integredig Gwynedd a Môn Cymorth i Deuluoedd (IFSS)** yn darparu tîm amlddisgyblaethol â sgiliau lu i ymyrryd gyda theuluoedd y mae angen mawr arnynt ac sydd mewn perygl mawr oherwydd bod y rhieni/gofalwyr yn camddefnyddio sylweddau, er mwyn gostwng lefel y risg a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant mwyaf bregus. Gwneir hyn trwy ganolbwyntio mewn modd cynaledig ac ar draws y system ar gyflawni gwasanaethau o ansawdd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o effeithiolrwydd ac arfer gorau. Yn y tîm mae tri gweithiwr cymdeithasol, nyrs ysgol, nyrs iechyd meddwl a gweithiwr oedd yn gweithio'n flaenorol yn y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau.

Nod y gwasanaeth yw creu newid cynaledig o fewn teuluoedd sy'n golygu y gall plant aros gartref os ydyw'n ddiogel iddynt wneud hynny. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi gweithio gyda theuluoedd sydd wedi gallu dangos newidiadau cynaledig yn eu bywydau, sydd wedi cadw'r plant yn ddiogel. Ceir teuluoedd, hefyd, sydd wedi methu newid eu hymddygiad a gwnaed cynllun arall ar gyfer y plant. Ein nod oedd gweithio gyda 35 o deuluoedd yn ystod y flwyddyn ac yn ystod 2016/17 bu i ni gyrraedd y nod hwnnw a gweithio gyda 35 o deuluoedd er bod y gwasanaeth yn fyr o un gweithiwr am dri chwarter y flwyddyn. Mae 19 o deuluoedd wedi'u cyfeirio o Fôn ac 16 o Wynedd. Roedd 67 o blant yn y teuluoedd hynny.

**Astudiaeth Achos:** Adeg y cyfeirio roedd teulu o fam a phlentyn newydd-anedig yn achos agored i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y fam wedi bod yn gaeth i heroin er 20 mlynedd. Roedd wedi gallu cadw draw oddi wrth heroin er wyth mis. Dywedodd y llys bod y gwelliant yn sefyllfa'r teulu cystal y byddent yn fodlon i'r baban aros yng ngofal y fam dan orchymyn goruchwylio.

**Dyfyniad oddi wrth ddefnyddiwr y gwasanaeth:** "Rwyf wedi bod yn wirioneddol hapus gyda lefel y gefnogaeth a roddwyd i mi gan weithiwr y gwasanaeth integredig. Mae hi wedi fy nghefnogi i wneud newidiadau fel fy mod yn cael fy merch yn ôl yn fy ngofal. Mae angen mwy o weithwyr fel hyn arnom."

Yn dilyn newidiadau mewn rheoliadau Gofal Plant, bu i ni ofyn i deuluoedd plant anabl oedd yn cael cefnogaeth ar y pryd pa fath o gefnogaeth y byddent yn ei ddymuno yn y dyfodol. Arweiniodd hyn at **wasanaethau cefnogi Bryn Hwfa** yn cael eu cefnogi i roi gwasanaethau dydd i blant dan 8 oed. Yn sgil trafodaethau gyda'r gwasanaeth y Tu allan i Oriau yn Ysbyty Gwynedd, cafwyd nad oedd cyfleusterau ar yr ynys i gefnogi pobl ifanc mewn argyfwng h.y. dim lle i fynd iddo ar ôl cyfweliad gan yr heddlu am 2 o'r gloch y bore hyd oni byddai cefnogaeth a gwasanaethau priodol ar gael. Mae Bryn Hwfa wedi'i nodi fel adnodd y tu allan i oriau gweithio i ddarparu lle diogel dros dro.

I **Blant sy'n Derbyn Gofal**; rydym yn gwneud yr hyn a allwn i leihau i'r eithaf ar nifer y newidiadau a nifer y lleoliadau y maent yn dod ar eu traws ac rydym yn ymdrechu i gynnal lleoliadau sefydlog (yn cynnwys lleoliadau gofal maeth) i'r holl blant a phobl ifanc. Nid yw hyn yn bosib mewn ychydig o achosion, er enghraifft pan fo plentyn yn dychwelyd i'r teulu neu'n cael ei fabwysiadu. Mae Protocol Sefydlogi Lleoliad wedi'i ddatblygu i sicrhau yr adnabyddir anghenion cefnogi ychwanegol fel nad yw lleoliadau'n torri i lawr. Pan fo lleoliad yn torri i lawr cynhelir Cyfarfod Tarfu i edrych ar unrhyw wersi y gallwn eu dysgu o hyn a sicrhau arfer da i'r dyfodol wrth leoli plant. Rydym wedi cael ein dewis i gymryd rhan mewn prosiect arbrofol cenedlaethol ynghylch Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth ac wedi datblygu cynllun gweithredu i fwrw ymlaen ag o yn 2017/18.

DRAFT

**Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a phaham?**

- Cynorthwyo i roi Cynllun Gweithredu Grŵp Gofalwyr Môn ar waith er mwyn gweithredu'r Strategaeth Gofalwyr leol.
- Cyfrannu at y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i gynorthwyo i wella canlyniadau i blant a'u teuluoedd.
- Blaenoriaethu'r gwasanaeth a'r gefnogaeth a gynigir i'n Plant sy'n Derbyn Gofal
- Cymryd rhan yn y prosiect cenedlaethol 'Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth, a mynd ati i roi'r Cynllun Gweithredu ar waith yn ystod y flwyddyn nesaf.

DRAFT

**Mesur Safonau Ansawdd 5:**

| Mesur | Data 2016/17 | Data 2015/16 |
|---|---|---|
| % y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn. | 5% | 9% |
| % y gofalwyr sy'n oedolion a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r gefnogaeth yr ydych chi a'r person yr ydych yn gofalu amdano wedi'i chael gan y gwasanaethau cymdeithasol yn y 12 mis diwethaf?" | 93.10% | Amherthnasol |
| % y gofalwyr sy'n oedolion a gafodd eu hasesu neu eu hailasesu yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd wasanaeth yn sgil hynny. | 99.00% | 96.30% |
| % y gofalwyr sy'n oedolion y cynigiwyd iddynt asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn eu hawl eu hunain | 96.70% | 95.30% |
| % y gofalwyr sy'n oedolion a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Yn y chwe mis diwethaf, ydych chi'n teimlo eich bod wedi bod yn gymaint o ran ag y byddech wedi dymuno'i fod mewn trafodaethau am y gefnogaeth a roddwyd i'r person y gofalwch amdano?" | 95.80% | Amherthnasol |

Safon Ansawdd 6

**Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael mwy o lesiant economaidd, bod â bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion**

***Oedolion***



Mae **cynllun gofal ychwanegol Hafan Cefni** wrthi'n cael ei adeiladu ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn haf 2018. Bydd 63 o fflatiau ar gyfer oedolion cymwys dros 60 mlwydd oed. Bydd 15 fflat yn cael eu dylunio a'u haddasu'n benodol ar gyfer pobl hŷn sy'n colli'u cof neu sy'n byw gyda dementia. Hwn fydd yr ail gynllun tai gofal ychwanegol ar yr ynys gyda chynllun Penucheldre yng Nghaergybi. Byddwn yn dechrau ar y broses ddatgomisiynu gynlluniedig ar gyfer cartref preswyl Plas Penlan yn Llangefni er mwyn paratoi ar gyfer agor Hafan Cefni yn y dref.

Rydym yn addasu **Cartref gofal preswyl Garreglwyd** yng Nghaergybi ac yn ailfodelu'r gofal mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu cartref all gymryd hyd at 28 o unigolion gydag anghenion Dementia cymhleth. Bydd y model hwn o ofal a fwriedir yn darparu gwasanaeth y mae angen mawr amdano ac yn ei gwneud yn bosib i unigolion aros ar yr ynys yn agos at ffrindiau a theuluoedd a bydd y cyntaf o'i fath yng Nghymru (yn amodol ar gytundeb Arolygiaeth Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Cymru). Mae Plas Crigyll yn gartref gofal Dementia arbenigol y byddwn yn parhau i'w ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf. Mae staff o Garreglwyd wedi ennill profiad gwaith gyda staff Plas Crigyll yn barod ar gyfer y model newydd o ofal yng Ngharreglwyd.

Yn ystod 2017-18, byddwn yn gweithio gydag Adran Dai'r Cyngor i ddatblygu gwasanaeth llety newydd yn Llangefni. Bydd y cyfleuster newydd yn darparu tair uned fyw hunangynhwysol, modern ac wedi'u haddasu'n llwyr, lle mae modd asesu pobl ag anableddau dysgu a'u cefnogi i ddatblygu sgiliau byw annibynnol. 'Galluogi' fydd canolbwynt y ddarpariaeth a byddir yn darparu'r gefnogaeth trwy'r model 'cefnogaeth weithredol'. Byddir yn defnyddio technoleg gynorthwyol a chaiff unigolion eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Gallai'r adnodd gynorthwyo gydag ystod o anghenion, yn cynnwys 'gofal llai dwys' na gofal preswyl neu gynorthwyo pobl sydd ar hyn o bryd yn y cartref teuluol i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Bydd y cymorth a roddir yn cael ei dargedu ac yn hyblyg er mwyn cwrdd ag anghenion unigolion.

Mae **Grant** y **Rhaglen Cefnogi Pobl** yn rhoi incwm ychwanegol o £2.6m bob blwyddyn i'r Cyngor i gomisiynu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai a roddir i lu o unigolion bregus i gynnal eu tenantiaethau/haelwydydd a/neu fyw yn annibynnol mewn cartrefi a chymunedau o'u dewis nhw am gyn hired ag sydd modd. Bwriad y rhaglen yw cael ethos o 'gwneud gyda' yn hytrach na 'gwneud i'.

DRAFT

Cafwyd trefniadau gweithio agosach a chysondeb ar draws y Rhaglen Mynd i'r Afael â Thlodi sydd wedi gweld cyfeiriadau'n cael eu gwneud gan Ddarparwyr Cefnogi Pobl i Raglen Cymunedau Cyntaf Môn. Mae hyn wedi arwain at unigolion yn mynd am addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

> *Mewn ymateb i, "Lle, yn eich barn chi, fyddech chi, pe na bai am y gefnogaeth hon?" atebodd unigolion oedd yn derbyn y gwasanaeth:*
> *"Mewn sefyllfa llawer gwaeth, ac, o bosib, yn isel fy ysbryd oherwydd fy salwch meddyliol. Ond maent wedi cadw llygad barcud arnaf ac wedi rhoi'r holl gefnogaeth ag y gallant i mi."*
> *"Byddem yn yr un sefyllfa ddramatig y dihangais oddi wrthi gan fethu troi i'r unman gyda fy merch. Mae'r staff yn y lloches hon wedi bod y gorau y gallant fod."*
> *"Mi fyddwn, fwy na thebyg, wedi colli fy nghartref ac mewn dyled".*
> *"Yn ôl yn y carchar"*
>
> *Arolwg ar lein 2016*

Comisiynwyd gwasanaethau oedd yn gysylltiedig â thai i gwrdd ag anghenion 776 o bobl yr wythnos ar yr ynys yn ystod 2016/17. Roedd hyn yn eu galluogi a'u hymrymuso i gael y sgiliau a'r gefnogaeth angenrheidiol i fyw'n annibynnol, i gynnal eu tenantiaethau ac atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty, cartrefi gofal a charchardai heb fod rhaid.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo fel Awdurdod i ddarparu ystod o **Opsiynau Tai** a chefnogaeth ar draws yr ynys. Mae pobl yn byw'n hwy yn ôl yr arfer ac, o'r herwydd, rydym yn rhagweld cynnydd o oddeutu 70% yn nifer y bobl dros 85 yn byw ar yr ynys dros y deng mlynedd nesaf. Bydd hyn yn cael effaith ar fathau'r cartrefi sy'n ofynnol, yn enwedig felly wrth i ni gynllunio llety a chefnogaeth i'r dyfodol ar gyfer pobl hŷn 50 oed a throsodd, sydd â chyflwr iechyd tymor hir. Cydnabyddir bod pobl hŷn eu hunain a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi, er enghraifft gweithwyr gofal ac iechyd a'r trydydd sector yn canfod yr atebion cywir i anghenion sy'n newid.

Rydym wedi cefnogi unigolion i gymryd rhan fel dinasyddion gweithgar yn economaidd ac yn gymdeithasol trwy hyrwyddo achosion o **Wneud y mwyaf o fudd-daliadau a chyfleoedd cymdeithasol**. Adnabyddir unigolion trwy rwydwaith o Weithwyr Cymdeithasol, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol meddygol, cymdogion, aelodau'r cyhoedd a pherthnasau. Rydym wedi cefnogi pobl i gael **cyngor a chymorth ariannol gyda budd-daliadau** a grantiau trwy Uned Hawliau Lles (pwrpasol) y Cyngor yng Nghanolfan JE O'Toole yng Nghaergybi. Maent yn ymdrin ag achosion o wneud y gorau o fudd-daliadau (ar draws y bwrdd), cynorthwyo gyda cheisiadau, apeliadau a thribiwnlysoedd yng nghyswllt gwrthod budd-daliadau yn ogystal â chynorthwyo gyda grantiau a phroblemau ariannol. Gall unigolion fynd i'r ganolfan neu mae gwasanaeth ymweld ar draws Môn i'r rhai sy'n methu teithio. Rydym, yn cefnogi gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Ynys Môn sydd yn ymdrin â Budd-daliadau ac apeliadau - ond mai 'rheoli dyled' a thrafod gyda chredydwyr ar ran unigolion yw eu prif arbenigedd.

Mae yno staff arbenigol yn yr Adrannau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a all fynd i mewn i System Gwybodaeth am Gleientiaid **yr Adran Gwaith a Phensiynau** ac sy'n gallu gwirio a chynghori unigolion ar eu hawliau a gwneud cyfeiriadau at Wasanaeth Swyddog Ymweld yr Adran waith a Phensiynau am geisiadau am Fudd-dal, gwaith gwirio ac ymweliadau gan y rhai sydd wedi'u penodi i fod yn ymwneud â'r budd-daliadau. Ar gyfer preswylwyr mewn gofal preswyl a'u gwŷr/gwragedd (gartref) y mae'r rhain yn bennaf. Oherwydd nifer y cyfeiriadau sy'n gysylltiedig â budd-daliadau (yn enwedig felly gyda newidiadau sylweddol yn y system fudd-daliadau) caiff mwyafrif llethol eu ceisiadau am fudd-dal eu cyfeirio'n syth at yr Uned Hawliau Lles neu at Gyngor ar Bopeth Môn i'w datrys. Mae gennym swyddogion pwrpasol sy'n ddosbarthwyr ar gyfer y gwasanaeth Banc Bwyd a gaiff ei gynnal gan Eglwys Elim (Caergybi) a Chymunedau'n Gyntaf (Caergybi a Llangefni).

Rydym yn gweithio gyda **gwasanaeth canfod tai/digartref**, prosiect cartrefi gwag, prosiectau byw yn annibynnol (ac wedi'u haddasu) **yr Adran Dai** o amgylch yr ynys ar gyfer unigolion ag anableddau yn y



DRAFT

gymuned sydd, yn hanesyddol, wedi wynebu heriau ychwanegol wrth gael eu lleoli yn y gymuned. Enghraifft arall yw bod y Cyngor wedi hwyluso nifer o geiswyr lloches o Syria i gyrraedd ardal Porthaethwy a chael tai yno.

Cynhelir panel bob pythefnos gyda chynrychiolwyr yno o'r tîm Opsiynau Tai a'r tîm Therapyddion Galwedigaethol. Pwrpas y panel yw asesu pa mor addas yw unigolion a'u "bandio" yn unol â'r Polisi Tai. Golyga hyn ein bod yn cadw mewn cof anghenion unigolion ac yn eu rhoi mewn tai sydd wedi'u haddasu ac sydd ar gael.

Mae gwasanaethau **Addasiadau** yn cyfrannu at wella annibyniaeth unigolion a hyrwyddo diogelwch o gwmpas y cartref. Maent hefyd yn cefnogi gofalwyr yn eu rôl ofalgar. Ymhlith yr ystod o addasiadau mae addasiadau nad ydynt yn gymhleth, megis rheiliau cynnal, canllawiau ar gyfer addasiadau mwy cymhleth megis newidiadau i'r ystafell ymolchi, gwaith mynediad allanol, lifftiau grisiau ac ati.

***Plant a Theuluoedd***

Mae Gwasanaethau Plant yn gweithio gyda'r Adran Dai i sicrhau fod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal lety addas a'u bod yn cael grant i'w cynorthwyo i brynu dodrefn ac ati ar gyfer eu cartref newydd. Rhoddir cefnogaeth hefyd gyda chynnal tenantiaeth a datblygu eu sgiliau byw'n annibynnol. Rydym yn cefnogi nifer o unigolion gydag anabledd dysgu i fyw'n annibynnol yn y gymuned mewn lleoliadau byw â chefnogaeth a rennir ar draws yr ynys.

Mae gennym 43 o blant/pobl ifanc mewn lleoliadau allsirol (hyd at 31/03/17), sy'n 43% o'n Plant sy'n Derbyn Gofal. Lle bynnag y bo modd, rydym yn ceisio cadw plant sy'n derbyn gofal ar yr ynys ond, mewn rhai achosion, mae darpariaeth arbenigol yn ofynnol a dim ond y tu allan i Fôn y mae ar gael. Rydym wedi adolygu proffil Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn adnabod plant lle mae gwaith yn ofynnol i 'leihau' y trefniadau. Cynhelir nifer o Baneli Adolygu Mewnol yn fisol, gyda'r nod o ostwng y nifer a gaiff eu lleoli'n allsirol ac i sicrhau fod cynlluniau gofal a chefnogaeth yn hyrwyddo canlyniadau llesiant ein Plant sy'n Derbyn Gofal. Byddir yn adolygu'r broses ar gyfer cytuno ar leoliadau er mwyn sicrhau y byddir yn rhoi ystyriaeth i gostau, er y bydd anghenion plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Adolygwyd yr opsiwn o ailagor lleoliad preswyl yng Nghaergybi a phenderfynwyd nad oedd yn opsiwn ymarferol.

**Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a phaham?**

- Parhau gyda datblygiad Gofal ychwanegol Hafan Cefni yn Llangefni (dyddiad cwblhau haf 2018)
- Ailfodelu'r gofal yng Nghartref Preswyl Garreglwyd i gefnogi unigolion ag anghenion Dementia cymhleth.
- Parhau i adolygu a gwerthuso'n lleoliadau allsirol ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal.
- Gweithio gyda'n cydweithwyr yn yr Adran Dai i sicrhau fod gan ein pobl ifanc sy'n gadael gofal y llety gorau posib, ac y caiff ei ddodrefnu'n addas.

**Mesur Safonau Ansawdd 6:**

| Mesur | Data 2016/17 | Data 2015/16 |
|---|---|---|
| "Yn ystod eich asesiad, ailasesiad neu adolygiad, oeddech chi'n gallu trafod eich problemau yn eich dewis iaith?" | 95.64% | Amherthnasol |
| % y cleientiaid sy'n oedolion ac yn siarad Cymraeg iaith gyntaf y cynigiwyd gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg iddynt | 97.50% | 97.24% |
| % y cleientiaid sy'n oedolion ac yn gofyn am wasanaeth Cymraeg ac sy'n mynd ymlaen i gael eu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg | 93.57% | 90.38% |

| | | |
|---|---|---|
| % y cleientiaid a ddywedodd eu bod yn byw mewn cartref  (cartref eu hunain/cartref gofal/llety â chymorth, ac ati) sy'n cefnogi eu llesiant orau | 89.12% | Amherthnasol |
| Canran yr holl bobl ifanc a adawodd gofal yn ystod y flwyddyn flaenorol (2015-16 ar gyfer 2016-17) sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal | 67% | Amherthnasol |
| Canran yr holl bobl ifanc a adawodd gofal yn ystod y flwyddyn flaenorol + 1 (2015-16 ar gyfer 2016-17) sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal | 50% | Amherthnasol |
| Canran y bobl ifanc sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn, i gynnwys yr holl bobl ifanc berthnasol 16-24 mlwydd oed | 31% | Amherthnasol |

DRAFT

**Sut yr ydym yn gwneud yr hyn a wnawn**
**(tudalen las wag yn yr adroddiad)**

DRAFT

## Ein Gweithlu a Sut yr ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Rydym yn cydnabod mai ein staff yw ein hased mwyaf a chredwn yn eu cefnogi trwy gynnig iddynt gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus a chryf, hyfforddiant a datblygiad gyrfa.

Er ein bod yn parhau i reoli'r her o recriwtio a chadw staff yn ein Gwasanaethau Plant, yn sgil yr arolwg o'r gwasanaeth, rydym wedi dechrau ar waith uchelgeisiol o ailfodelu'r Gwasanaeth, fydd yn arwain at strwythur fydd yn fwy addas i bwrpas ac a fydd yn caniatáu i ni gwrdd ag anghenion y busnes yn llwyr yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd newydd. Bu i ni ymgynghori â staff ar strwythur newydd yn ystod Chwefror a Mawrth 2017. Rydym bellach wedi dechrau'r broses benodi gydag un swydd Rheolwr Gwasanaeth wedi'i llenwi a'r ail wedi'i hysbysebu'n ddiweddar. Rydym hefyd wedi dechrau'r broses o lenwi'r wyth swydd Arweinydd Practis yn fewnol a byddwn yn hysbysebu'n allanol i lenwi gweddill swyddi ym Mehefin 2017. Nid ydym yn bychanu'r her a ddaw yn sgil hyn - mae trosiant ein staff yn uchel ac yn hanesyddol rydym wedi dibynnu ar staff dros dro ac asiantaeth. Fodd bynnag, rydym yn cynnig pecyn cyflog cystadleuol ac, ynghyd â'r strwythur diwygiedig yn seiliedig ar gyflawni gwell cefnogaeth i'r rheng flaen, rydym yn hyderus y gallwn ailfodelu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus dros y deuddeng mis nesaf.

Cynhaliwyd arolwg staff ddiwedd 2016. Rhannwyd negeseuon allweddol gyda staff mewn Cynhadledd Staff a thrwy Fwletinau Staff y Gwasanaeth yn Ebrill 2017.

Mae Strategaeth Gweithlu newydd yn cael ei ddatblygu, gyda chefnogaeth Adnoddau Dynol ac mae'r cynnwys wedi'i drafod gyda staff. Bydd hon yn ddogfen ymarferol y bydd modd ei chyflawni ac a fydd yn canolbwyntio ar feysydd allweddol lle mae angen i ni wella. Bydd y strategaeth wedi'i chwblhau erbyn diwedd Mai 2017. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i ddatblygu'n staff, yn unol â'n Strategaeth Gweithlu. Mae'r Uned wedi parhau i gefnogi'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant er mwyn sicrhau bod y gweithlu'n cadw lefel y cymwysterau a'r datblygiad gofynnol a argymhellir ar gyfer eu rolau, tra ei bod hefyd yn hyrwyddo ac yn integreiddio ethos y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ein rhaglenni hyfforddi. Mae Strategaeth Gweithlu Gwasanaethau Plant a'u Teuluoedd wedi'i datblygu er mwyn canolbwyntio'n hymdrechion a mesur ein llwyddiannau wrth symud ymlaen.

Dros y deuddeng mis diwethaf, rydym wedi hyfforddi'n llwyddiannus 200 o aelodau o staff yng nghyswllt y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn cynnwys Cyflwyniad a Swyddogaethau Cyffredinol, Asesu a Chwrdd â'r Anghenion, Plant sy'n Derbyn Gofal ac sydd â Llety, a Diogelu. At hyn, mae rheolwyr ac Uwch Ymarferwyr wedi bod mewn gweithdai ar 'Newid Diwylliannau' a 'Rheoli Perfformiad' yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Rydym hefyd wedi cefnogi ymarferwyr sydd heb gymhwyso ac sy'n cynnal asesiadau i gynnal y 'Gwobr Ymarferwr y Gwasanaeth Cymdeithasol' yn unol â'r gofyn a nodir yn rheoliad 3 gofynion yr asesiad yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Ar ben hynny, rydym wedi parhau i gefnogi ymarferwyr sydd newydd gymhwyso trwy eu tair blynedd gyntaf yn ymarfer yn unol â gofynion Cyngor Gofal Cymru, a fydd unwaith eto'n flaenoriaeth ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae rhaglen hyfforddi gynhwysfawr wedi'i rhoi yn ei lle ar gyfer Mai a Mehefin sy'n canolbwyntio ar feysydd a amlygwyd gan yr arolwg ar gyfer eu gwella, yn cynnwys Goruchwyliaeth, model yr IFSS o weithio, Cyfathrebu Cydweithredol, Model Risg, Trothwyon a Gwneud Penderfyniadau a Chyfweld Ysgogiadol. Bydd effaith yr hyfforddiant ar yr ymarfer yn cael ei hadolygu.

Mae pedwar gweithiwr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso wedi'u recriwtio a byddant yn ymuno â ni dros yr haf. Mae gennym bellach drefn o recriwtio agored ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol profiadol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosib i ni ostwng nifer y Gweithwyr Cymdeithasol asiantaeth ar sail reoledig yn ystod 2017. Rydym wedi dadansoddi gwaith y Gweithwyr Cefnogi ac yn y broses o symud y rhan fwyaf ohonynt i'r Tîm Teuluoedd Cryf newydd, gyda nifer fach yn trosglwyddo i'r tîm Lleoli i oruchwylio Cyswllt rhwng Plant sy'n Derbyn Gofal a'u teuluoedd.

Dros y deuddeng mis diwethaf rydym wedi cwblhau'r gwaith o ailstrwythuro'r Tîm Cefnogi Busnes, gan esgor ar ad-drefnu ein timau Gweinyddol yn un uned ganolog, yn cynnig cefnogaeth i'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Mae hyn wedi caniatáu i ni ddarparu cyfleoedd cynnydd i'n staff yn ogystal â darparu gwasanaeth cefnogi ymatebol i'n holl dimau. Wrth adeiladu ar y gwelliant hwn, rydym yn bwriadu adolygu ein tîm contractau a chomisiynu, dan arweinyddiaeth penodiad diweddar y Rheolwr Trawsnewid Strategol a Chefnogi Busnes, yn ystod y flwyddyn nesaf.



DRAFT

Y nod yma fydd gwella rhagor ar fonitro, rheoli a chefnogi'n system gaffael a chontractau.

Yn y deuddeng mis nesaf byddwn yn canolbwyntio ar drawsnewid ein gwasanaethau rheng flaen yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant, Bydd Teulu Môn, fydd newydd ei ffurfio, wedi'i wreiddio fel rhan o waith ailfodelu'r Gwasanaethau Plant, tra bydd Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl y Gwasanaethau Oedolion yn cael ei drosglwyddo i gwrdd ag anghenion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a gofynion cyflawni gwasanaeth. Gan symud ymlaen mewn ymateb i'r arolwg o'r Gwasanaethau Plant, byddwn yn cryfhau ein Huned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd.

## Ein Hadnoddau Ariannol a Sut yr ydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae cynllunio ariannol yn parhau'n her ddifrifol i'r Cyngor dan y pwysau ariannol parhaus ac estynedig ac mae'r arian a gaiff y Cyngor gan Lywodraeth Cymru wedi syrthio o £101m yn 2013/14 i £92.7m yn 2017/18. Er mwyn cael cyllideb gytbwys, mae'r Cyngor wedi gweithredu dros £16m o doriadau i'r gyllideb dros yr un cyfnod, gan ddod â'r gyllideb net ar gyfer 2017/18 i lawr o £129.3m yn 2013/14 i £126.1m (mae hyn ar ôl caniatáu ar gyfer dyfarniadau cyflog, chwyddiant a chodiadau eraill mewn prisiau).

Fel adran, dangosodd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn orwariant o £505k ar gyfer 2016/17. Mae pwysau gwasanaeth yn y Gwasanaethau Plant wedi'u cydnabod a nodwyd £600k o arian ychwanegol i gefnogi'r gwasanaeth yn 2016/17. Yn yr un modd, mae pwysau ffioedd  a newidiadau deddfwriaethol wedi'u cefnogi gyda  £625k o arian ychwanegol wedi'u nodi ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion yn 2016/17. Mae'r ddau wasanaeth yn cydnabod y llymder sydd ohoni ac yn parhau i drawsnewid gwasanaethau a rheoli galw, gan gyfrannu at arbedion o £478k yn 2016/17. Mae cynlluniau tebyg yn eu lle ar gyfer 2017/18.

Fodd bynnag, mae gan y Cyngor yn eu lle brosesau cynllunio ariannol a gosod cyllidebau effeithiol ac a reolir yn dda, ac mae aelodau etholedig yn cymryd rhan lawn yn rhaglen gylchol cynllunio a sgriwtineiddio gwaith gosod a monitro'r gyllideb. Mae amcangyfrif newidiadau i'r dyfodol yn heriol oherwydd nad oes gwybodaeth gywir ar setliadau i lywodraethau lleol yn y dyfodol ond mae'n cynllun ariannol tymor canolig yn darogan y gallai bod gofyn gwneud hyd at £8m o doriadau ychwanegol dros y tair blynedd nesaf o 2018/19 i 2020/21.

Yn y tabl isod amlinellir cyfrifon terfynol ein Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17

### Cyfrifon Terfynol – Gwasanaethau Cymdeithasol

| | Cyllideb | Gwirioneddol | Amrywiant |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU PLANT** | 7,536,100 | 8,556,096 | 1,019,996 |
| | | | |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | |
| POBL HŶN | 6,624,250 | 6,623,267 | -983 |
| ANABLEDDAU CORFFOROL | 1,425,770 | 1,623,320 | 197,550 |
| ANABLEDDAU DYSGU | 5,095,240 | 5,524,868 | 429,628 |
| IECHYD MEDDWL | 1,770,300 | 1,841,746 | 71,446 |
| | | | |
| GWASANAETHAU CEFNOGI | 742,920 | 647,910 | -95,010 |
| | | | |
| **UNED DDARPARU** | 7,037,740 | 5,928,107 | -1,109,633 |
| (GOFAL MÔN / GWASANAETHAU ERAILL) | | | |
| | | | |
| GWASANAETHAU ERAILL | 64,830 | 56,294 | -8,536 |
| | | | |
| CYFANSWM | 30,297,150 | 30,801,608 | 504,458 |

DRAFT

## Gweithio mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethiant ac Atebolrwydd

Mae llywodraethiant gwleidyddol o fewn y Cyngor wedi bod yn gryf dros y tair i bedair blynedd diwethaf. Gwnaed newidiadau penodol i'r cyfansoddiad, megis cyflwyno tymor o bum mlynedd i Arweinydd y Cyngor, ac mae hyn wedi gwneud sefydlogrwydd gwleidyddol yn bosib. Gan adeiladu ar y sylfeini hyn, rydym bellach wedi creu strwythur sy'n caniatáu ar gyfer llywodraethiant gwleidyddol effeithiol. Dengys tystiolaeth y ddwy flynedd ddiwethaf y ceir proses weithredu a gwneud penderfyniadau effeithiol, gyda pheirianwaith priodol ar gyfer sicrwydd.

Mae hyn wedi caniatáu ar gyfer cefnogaeth glir a chyson i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a gwaith sgriwtineiddio cynnydd wedi'i fesur.

Y **Pwyllgor Gwaith** yw'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol ac mae'n cynnwys yr Arweinydd a chwe Deilydd Portffolio, sy'n gyfrifol am bortffolios. Mae aelodaeth y Pwyllgor Gwaith wedi bod yn sefydlog ers iddo gael ei benodi ac mae modd gweld ei effeithiolrwydd cynyddol yn y gwasanaethau cymdeithasol trwy lwyddiannau megis -

- *Rhaglen Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn (Prosiect Llety Lefel Uwch)* - mae gwaith wedi dechrau ar y Tai Gofal Ychwanegol yn Llangefni - o'r enw Hafan Cefni. Gwerthuswyd safleoedd yn rhan ddeheuol yr ynys. Mae'r Strategaeth Pobl Hŷn wedi'i mabwysiadu gyda hybiau cymunedol yn rhan annatod o'r ddarpariaeth newydd.
- Rhaglen Gweithio'n Gallach - Mae'r rhaglen wedi'i chyflawni o fewn cyfyngiadau ariannol ac amser. Cyflwynwyd datblygiadau TG sy'n ei gwneud yn bosib i staff weithio'n fwy hyblyg. Mae staff o swyddfeydd ategol megis Parc Mount a'r Rovacabins wedi symud i'r pencadlys, mae asedau wedi'u gwerthu ac agorwyd Cyswllt Môn ym Medi 2016.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gan weithio'n lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn wedi'i gydnabod fel cryfder mewn adroddiadau arolygu allanol i ni adeiladu arno. Mae'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn parhau i gymryd rhan weithgar yn rhaglenni Cymru Gyfan a Gogledd Cymru i wella gwaith cyflawni'r gwasanaethau cymdeithasol trwy gydweithio.

Mae trefniadau llywodraethu yn eu lle trwy Raglen Welliant Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru (NWSWIC) a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae gan NWSWIC raglen gynhwysfawr o welliant trwy gydweithredu yn ei le sy'n canolbwyntio ar y gofynion dan Ran 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae modd tystio ymhellach i ethos hwn y bartneriaeth trwy gydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr trwy'r Bwrdd Cyflawni Integredig (yr IDB). Mae'r IDB yn cyfarfod bob dau fis gyda swyddogion strategol allweddol yno o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r 3ydd Sector. Pwrpas yr IDB yw sicrhau y caiff anghenion iechyd a gofal pobl Môn eu gwasanaethu'n well trwy integreiddio gwasanaethau iechyd a'r awdurdod lleol yn well. Model Môn yw braich weithredol yr IDB gyda chyfrifoldeb am gyflawni'r Rhaglen Waith fanwl.

Fel yr amlygwyd yn flaenorol, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd i gyflawni'r Gronfa Gofal Integredig ym Môn. Ymhlith y meysydd sydd wedi'u targedu'n benodol mae gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn a phobl ifanc a phlant ag anghenion cymhleth.

Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer bob ardal awdurdod lleol i wneud yn siŵr fod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i greu dyfodol gwell i bobl Cymru. Ar gyfer Gwynedd a Môn, mae'r ddau fwrdd wedi penderfynu gweithio gyda'i gilydd ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys prif sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y rhanbarth. Mae Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai (chwe ardal i Fôn). Cynhaliwyd gwaith ymchwil ar ran y Bwrdd ar bob un o'r ardaloedd er mwyn dysgu a deall mwy am eu llesiant. Cynhaliwyd nifer o sesiynau galw heibio ac roedd holiadur ar lein fel bod modd i breswylwyr gael dweud eu dweud am eu cymunedau. Nod y gwaith ymchwil a'r sesiynau galw heibio



DRAFT

oedd ei gwneud yn bosib i'r Bwrdd lunio asesiad a fydd, yn y tymor hir, yn arwain at gynllun a fyddai'n canolbwyntio ar wella llesiant Gwynedd a Môn. Ar hyn o bryd ymgynghorir ar fersiwn ddrafft yr asesiad i Fôn ac yn 2017/2018 bydd y Bwrdd Partneriaethau Cyhoeddus yn llunio Cynllun Llesiant sy'n amlinellu amcanion y Bwrdd er mwyn gwella llesiant preswylwyr a chymunedau Môn.

At hyn, rydym wedi parhau i weithio'n agos gan ymgynghori a gweithio mewn partneriaeth gyda'r **Trydydd Sector** trwy Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol sy'n cyfarfod yn chwarterol. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn ystod o ddarparwyr trydydd sector a chynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn cadarnhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau i gyflawni yn erbyn perfformiad disgwyliedig a'u bod yn unol â'n bwriadau comisiynu a gwasanaeth sy'n esblygu ar gyfer y dyfodol agos. Rydym hefyd wedi datblygu compact lleol a 'chodau ymarfer' cysylltiedig ar gyllid a gwirfoddoli a chawsant eu cymeradwyo gan y Cyngor yn ystod 2016/17. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn 2017/18 i ddosbarthu telerau'r compact a'r codau ymarfer fel bod yr holl wasanaethau'n cydymffurfio.

Rydym yn cydnabod rôl y trydydd sector yn lleol fel partner strategol ac wedi datblygu trefniadau llywodraethu priodol i gefnogi hyn e.e. rôl Medrwn Môn ar grŵp gweithredol Model Môn, Bwrdd OPUS (prosiect a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd) a'r Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion.

**Pwyllgorau Sgriwtini**

Yn ystod 2016/17 bu i ni gomisiynu adolygiad allanol o'n trefniadau sgriwtini er mwyn gwneud argymhellion i'n Cyngor newydd eu hystyried. Amlyga'r adolygiad yr angen am fabwysiadu gweledigaeth newydd ar gyfer sgriwtini a chanolbwyntir mwy ar sut gall y swyddogaeth sgriwtini ychwanegu gwerth at lywodraethiant y Cyngor gyda mwy o bwyslais ar flaengynllunio gwaith a blaenoriaethu. At hyn, mae'r Cyngor yn paratoi i sefydlu tri phanel sgriwtini sefydlog fydd yn canolbwyntio ar:

1. Gwelliannau mewn Safonau Addysg
2. Sgriwtini Ariannol
3. Sgriwtineiddio Gofal Cymdeithasol Plant (Panel Plant)

**Mae'r Panel Plant newydd yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod ein Haelodau Etholedig yn chwarae rôl allweddol yn ein dal i gyfrif a thystio ein bod yn cyflawni'r gwelliannau a osodir yn ein cynllun gwella gwasanaeth. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau fod gan ein haelodau ddigon o wybodaeth, hysbysrwydd ac arbenigedd i gynorthwyo i'n cefnogi i wneud y newidiadau a'r datblygiadau angenrheidiol, fel rhan o'r ymrwymiad Corfforaethol cyffredinol i wella.**

**Dengys rheoleiddwyr bod Môn yn barod i gyflawni**

Dros y blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor wedi llwyddo i reoli a gwerthuso'i hun yn rheolaidd ac, o'r herwydd, mae barn rheoleiddwyr wedi bod yn gadarnhaol o ran parodrwydd i gyflawni.

Yn eu tystysgrif cydymffurfio flynyddol (Tachwedd 2016) datgan Swyddfa Archwilio Cymru:

*"Rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan adran 15(6) i (9) y Mesur a'i fod wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau."*

Hefyd, nododd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn ei hadroddiad diweddar (Adroddiad Arolwg y Gwasanaethau Plant – Mawrth 2017) bod y Gwasanaethau Plant wedi bod yn gweithio mewn cyfnod o newid sylweddol yn wyneb y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd a bod:

"*uwch reolwyr yn derbyn canfyddiadau'r arolygwyr a'u bod yn ymrwymedig i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol".*

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor yn llwyr ymwybodol o'r angen i ymateb yn adeiladol i argymhellion yr AGGCC ac mae wedi llunio cynllun gwaith cynhwysfawr.

**Ymgysylltu â Dinasyddion**

Mae arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor wedi dangos hygyrchedd ac ymrwymiad i ddiogelu barn dinasyddion dros y blynyddoedd trwy gynnal sesiynau galw heibio i ddinasyddion gael rhoi sylw a barn ar faterion yn ymwneud â'r gyllideb/ y cynllun corfforaethol / a'r strategaethau moderneiddio.

Mae nifer o enghreifftiau o sut mae barn a sylwadau'r cyhoedd wedi cael effaith ar bolisi a phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor, er enghraifft cynllunio cyllideb ar gyfer 16/17 ac 17/18, penderfyniadau moderneiddio ysgolion, rheoli casgliadau gwastraff. O bryd i'w gilydd estynnir gwahoddiad i ddinasyddion, hefyd, i chwarae rhan yn y broses gwneud penderfyniadau trwy grwpiau a gweithdai dan arweiniad swyddogion. Cydnabyddir bod hwn yn faes y dylid, o bosib, ei ddatblygu ymhellach dros y tymor sydd i ddod yn y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen gyda natur gynhwysol ein gwaith lle ystyrir gwahanol farn ac y gweithredir arnynt.

Mae rheoleiddwyr wedi dweud bod gwaith y Cyngor yn adlewyrchu'n glir ac mewn ychydig eiriau flaenoriaethau'r dinasyddion a'r partneriaid. Bydd yr ymgyrch hon i adlewyrchu'n glir farn a blaenoriaethau'r dinasyddion yn parhau dros y misoedd nesaf gyda gwireddu cynllun ymgynghori ac ymgysylltu corfforaethol fydd yn ystyried barn staff, partneriaid a dinasyddion.

Er mwyn cynorthwyo gwaith llunio'r cynllun corfforaethol newydd ar gyfer y Cyngor newydd, dan y ddeddfwriaeth llesiant newydd, amlygir pwysigrwydd cynnwys pobl mewn penderfyniadau a gwaith y Cyngor. Caiff hwn ei adlewyrchu yn y cynllun gyda chyfrifoldebau penodol yn cael eu nodi gan ddinasyddion ar gyfer dinasyddion. Rhagwelir y bydd y cynllun newydd hwn yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor newydd yn hydref 2017.

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Gorffennaf 2017** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn –Adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol yn ardal Llangefni** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Emrys Bebb** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Dylan Rees**<br>**Cynghorydd Nicola Roberts**<br>**Cynghorydd Robert G Parry**<br>**Cynghorydd Eric Wyn Jones**<br>**Cynghorydd Dafydd Roberts** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Rhesymau:**

Yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr 2016, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn:

- awdurdodi swyddogion i fynd ymlaen gyda'r broses ymgynghori ffurfiol neu statudol, ac ymgynghori ar opsiynau A a B fel yr amlinellir isod mewn ymgais i foderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni.

**Opsiwn A**

Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar:
**Opsiwn 3**, sef adeiladu ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.
**Opsiwn 6a,** sef adeiladu ysgol gynradd newydd yng Ngaerwen ar safle amgen, darpariaeth ar gyfer 150 o ddisgyblion, i gymryd lle Ysgol Esceifiog bresennol
**Opsiwn 7** ymestyn Ysgol y Graig i ddarparu ar gyfer disgyblion Ysgol Talwrn. Cau Ysgol Talwrn. **Bydd angen ymgynghoriad pellach ar yr opsiwn o ymestyn Ysgol y Graig i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Talwrn, a chau'r Ysgol Talwrn**
**Opsiwn 9**, addasiadau i Ysgol Henblas

**Opsiwn B**

Byddai hyn yn seiliedig ar:
**Opsiwn 3**, adeiladu ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.
**Opsiwn 8**, addasiadau i Ysgol Esceifiog
**Opsiwn 7** - ymestyn Ysgol y Graig i ddarparu ar gyfer disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn. **Bydd angen ymgynghoriad pellach ar yr opsiwn o ymestyn Ysgol y Graig i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Talwrn, a chau'r Ysgol Talwrn.**
**Opsiwn 9**, addasiadau i Ysgol Henblas

Gallai'r ddau opsiwn uchod gynnwys ffedereiddio Ysgol Henblas ag ysgol arall.

Mae'r prif wahaniaeth rhwng opsiwn A a B yn ymwneud ag Ysgol Esceifiog. Os bydd opsiwn A yn cael ei gymeradwyo, byddai'n arwain at adeiladu ysgol gynradd newydd yn y Gaerwen i 150 o ddisgyblion. Os cymeradwyir Opsiwn B, byddai'n golygu addasu Ysgol Esceifiog

CYFRINACHOL

presennol.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rhieni, llywodraethwyr a staff o chwe ysgol yn yr ardal, aelodau etholedig lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Parhaodd y cyfnod ymgynghori o 31 Ionawr - 13eg Mawrth 2017.

**Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith:**

Argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y cynigion a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn a dylid argymell i weithredu ar gymeradwyo opsiwn B.

Mae Opsiwn B yn cynnwys yr is-opsiynau canlynol:

- Opsiwn 3, sef adeiladu ysgol i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.
- Opsiwn 7, ymestyn Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn. Mae'r adroddiad yn cadarnhau nad oes digon o le i ymestyn Ysgol y Graig a sicrhau digon o ardal chwarae ar gyfer y disgyblion ar y safle Ysgol y Graig ysgol bresennol. **Cynigir y dylai swyddogion ail-ymgynghori â'r rhanddeiliad perthnasol ar yr holl opsiynau sydd ar gael i ymestyn Ysgol y Graig yn unol â chynnwys y ddogfen.**
- Opsiwn 8, addasiadau i Ysgol Esceifiog
- Opsiwn 9, adnewyddu Ysgol Henblas.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Roedd 9 opsiwn penodol er ystyriaeth yn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol yn ardal Llangefni. Defnyddiwyd y gwerthusiad o'r opsiynau fel sail i'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydyw |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydyw – Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 13, 2014. |



CYFRINACHOL

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Asesiad Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| 1. Dogfen Ymgynghori Statudol<br>2. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 19 Rhagfyr 2016<br>3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 20 Mehefin, 2016.<br>4. Dogfen Ymgynghori Anstatudol<br>5. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.<br>6. Llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig Ionawr 31 2014. |

CYFRINACHOL

**SWYDDOGOL – *OFFICIAL***

# ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL - ARDAL LLANGEFNI
# *REPORT ON THE STATUTORY CONSULTATION – LLANGEFNI AREA*

## 31 Ionawr – 13 Mawrth 2017 / *31 January – 13 March 2017*




**CYNGOR SIR YNYS MÔN / *ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL***
**ADRAN DYSGU GYDOL OES / *LIFELONG LEARNING DEPARTMENT***

**[www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk) / [www.anglesey.gov.uk](http://www.anglesey.gov.uk)**

| Rhif | CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|---|
| 1. | CYFLWYNIAD A CHEFNDIR | 3 |
| 2. | GYRWYR NEWID | 3 |
| 3. | Y BROSES YMGYNGHORI | 5 |
| 4. | SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI | 6 |
| 5. | YMATEBION O YSGOL BODFFORDD | 8 |
| 6. | YMATEBION O YSGOL CORN HIR | 9 |
| 7. | YMATEB O YSGOL ESCEIFIOG | 10 |
| 8. | YMATEB O YSGOL HENBLAS | 12 |
| 9. | YMATEBION O YSGOL TALWRN | 12 |
| 10. | YMATEBION O YSGOL Y GRAIG | 14 |
| 11. | YMATEBION ERAILL | 14 |
| 12. | DADANSODDIAD OPSIYNAU | 15 |
| 13. | DATBLYGIADAU TAI YN LLANGEFNI | 17 |
| 14. | YSTYRIAETHAU ARIANNOL | 22 |
| 15. | ARGYMHELLIAD | 23 |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymroddedig i ddarparu'r ddarpariaeth addysgol orau un ar gyfer holl blant a phobl ifanc yr ynys.

Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn adnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu deniadol sy'n symbylu plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol a chyflawni sgiliau bywyd yn brif flaenoriaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae ar y Cyngor eisiau moderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc a thorri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel,
- gwella ymhellach safonau arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu,
- cyflwyno ysgolion sector-arweiniol a safonau sector-arweiniol ar gyfer pob cymuned.

Bydd cyflwyno'r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon yn gofyn am uno ysgolion sydd ohoni drwy gyfuniad o ffederasiynau ysgol, ad-drefnu dalgylchoedd yn helaeth yn seiliedig ar ailfodelu adeiladau ysgol sydd ohoni neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt yn

## 2. GYRWYR NEWID MODERNEIDDIO FYDD YN DYLANWADU AR BENDERFYNIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH ORAU I'R ARDAL

Nodir isod rhai o'r gyrwyr moderneiddio fydd yn dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth orau i'r ardal:

*Codi safonau addysgol*

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i godi safonau'n sylweddol os am gyrraedd ei nod o fod yn un o'r 5 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil presennol, awgrymir ei bod yn anodd cysylltu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan ysgolion cynradd mwy [dros 100 (neu 105) o ddisgyblion neu fwy] dimau arweinyddiaeth sydd a mwy o gapasiti i sicrhau gwelliannau; athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill a thrwy hynny yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o gwmpas 50 neu lai] mae dosbarthiadau oedrannau cymysg yn cynnwys hyd at bedwar grŵp oedran, ac sydd weithiau yn rhychwantu cyfnodau allweddol. Mae hyn yn gosod her sylweddol i athrawon os am sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ymestyn hyd eithaf i'w allu. Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn anelu i ddileu esiamplau o ddosbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oed.

*Lleihau nifer llefydd gweigion*

Yn Ionawr 2017, roedd nifer y llefydd gweigion mewn ysgolion cynradd ym Môn yn 13.0%.ac mae 2.4% o lefydd gweigion yn y 6 ysgol dan sylw, sydd dipyn llai na tharged Llywodraeth Cymru [15% ar lefel Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol]. Er hynny, mae angen i'r Cyngor, barhau i leihau nifer y llefydd gweigion er mwyn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o feirniadaethau Estyn yn adroddiad 2012. Golyga hyn bod angen anelu at sefyllfa lle bo ysgolion yn fwy na 85% llawn gan anelu bod 90% o'r llefydd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

*Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl*
Mae'r gost fesul disgybl yn amrywio'n sylweddol, o £2,900 i £13,429 ar draws ysgolion cynradd y sir. Roedd gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2016-17 [£4,721 y disgybl ar gyfartaledd] yr uchaf ond un yng Nghymru. Bydd angen i'r rhaglen moderneiddio roi sylw i normaleiddio'r gost y disgybl ar draws yr awdurdod a'i chysoni â'r cyfartaledd Cymru gyfan.

*Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib*
Mae gwella ansawdd yr adeiladau ysgol a sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posibl [sy'n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeilad ysgol ddiweddaraf - Ysgol y Graig - a ddefnyddir fel meincnod] ar gyfer ein plant yn hanfodol bwysig i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r math hyn o amgylchedd yn cynnwys cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau, cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf, mannau chwarae addas, ardaloedd staffio a gweinyddu priodol, ynghyd a diogelwch ar gyfer adeiladau'r ysgol a safle'r ysgol. Noda Estyn bod "gwella ansawdd yr adeiladau'n cael effaith lesol iawn ar ansawdd yr addysgu a morâl y staff sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad plant." Bydd gan bob plentyn fynediad at gyfleusterau addas fel y gellir darparu ystod lawn o brofiadau addysgol.

Nid yw yn bosib i'r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio ac yn gostus i'w cynnal. Rhaid sefydlu patrwm newydd o ysgolion sydd yn dileu'r diffygion yn yr adeiladau presennol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sylweddol sy'n gysylltiedig â'r adeilad neu'r safle. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae trefniadau cynnal a chadw ar eu cyfer sy'n gynaliadwy.

*Creu'r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol*
Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys y Llywodraethwyr. Mae'r sialensiau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau'n parhau i gynyddu. Mae angen amser digyswllt digonol ar Bennaeth, gyda chefnogaeth dirprwy bennaeth neu uwch dim rheoli, i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu o'r radd flaenaf, i werthuso a chodi safonau, i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu trylwyr ac i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid o leiaf 50% o amser digyswllt. Golyga hyn bod angen i ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] gael o leiaf 100 o ddisgyblion os am ddarparu'r amser angenrheidiol i'r Pennaeth i gyflawni'r rôl arwain yn llwyddiannus.

*Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol*
Dros y pum mlynedd nesaf mae'n debyg y bydd bron i 50% o'n penaethiaid cynradd yn ymddeol. Oherwydd bod llawer ohonynt yn arwain ysgolion bach, bydd angen i'r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi pennaeth wedi lleihau ac mae hyn yn destun pryder. Mae angen i'r rhaglen moderneiddio ysgolion geisio ateb y broblem drwy sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ein hysgolion. Bydd y rhaglen foderneiddio'n rhoi sylw i faterion cynllunio olyniaeth ac yn diogelu a datblygu'r talentau arweinyddiaeth sydd gennym yn ein hysgolion.

*Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol*
Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda gwasanaethau ychwanegol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, gwarchod plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn cyflawni safonau uwch a chyswllt gwell â rhieni a'r gymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod yn adnodd i'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a

grwpiau lleol. Mae'r math yma o weithgaredd yn bwysig i ddatblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgol ardal h.y. yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i gwrdd ag anghenion y plant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

*Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*
Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Mae cyfarfodydd wedi eu trefnu gyda rhanddeiliaid dros y cyfnod hwn:

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y chwe ysgol yn yr ardal, cynghorwyr lleol a gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o 31 Ionawr 2017 hyd at 13 Mawrth 2017.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid ysgolion dros y cyfnod hwn:-

| | | | Cyfarfod gyda | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Dyddiad (yn 2017)** | | **Staff** | **Llywodraethwyr** | **Rhieni** |
| **Henblas** | **Dydd Llun** | **6 Chwefror** | **3.30** | **5.00** | **6.15** |
| **Esceifiog** | **Dydd Mawrth** | **7 Chwefror** | **4.00** | **5.00** | **6.00** |
| **Bodffordd** | **Dydd Iau** | **9 Chwefror** | **3.45** | **5.00** | **6.00** |
| **Corn Hir** | **Dydd Llun** | **13 Chwefror** | **4.00** | **5.00** | **6.00** |
| **Talwrn** | **Dydd Mawrth** | **14 Chwefror** | **3.45** | **5.15** | **6.15** |
| **Graig** | **Dydd Mercher** | **15 Chwefror** | **3.30** | **5.00** | **6.30** |

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ariannu ysgol newydd, mae angen i'w buddsoddiad gwrdd ag amcanion buddsoddi sef:-

1. lleihau llefydd gweigion
2. cynyddu amser di gyswllt i athrawon
3. i'r ysgol fod o safon ysgol yr unfed ganrif ar hugain
4. gwella deilliannau addysgol
5. lleihau ôl groniad cynnal a chadw
6. gwella effeithlonrwydd ynni

Cynigwyd y syniad gan rieni y dylid adeiladu ysgol gynradd newydd yn Llangefni. Os yw hyn yn golygu adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol, ni fyddai Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi hyn

oherwydd er byddai'r ysgol gynradd newydd yn ysgol yr unfed ganrif ar hugain, yn unol â'r meini prawf uchod, ni fyddai'n :

- lleihau llefydd gweigion. Yn wir gall arwain at gynnydd mewn llefydd gweigion
- newid y sefyllfa o ran amser di gyswllt i athrawon ohono'i hun.
  gwella deilliannau addysgol ohono'i hun
- lleihau ôl groniad cynnal a chadw na
- gwella effeithlonrwydd ynni. Yn wir, byddai ysgol ac adeilad ychwanego yn arwain at ddefnyddio mwy o danwydd.

Yn ogystal, mae'n annhebygol iawn byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ysgol gynradd newydd oni bai fod cyfuno ysgolion yn rhan o'r broses.

Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni dewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei mynychu. Petai ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu yn Llangefni, byddai angen adolygu'r dalgylchoedd presennol a ffurfio dalgylch i'r ysgol gynradd newydd. Yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu gorfodi rhieni i symud eu plant i'r ysgol gynradd newydd. Byddai hyn yn cynyddu'r risg o lefel uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol gynradd newydd.

## 4. SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Rhestrir rhai sylwadau a phryderon o bob un o'r cyfarfodydd isod (nid yw'r rhain yn gofnodion o'r cyfarfodydd). Ceir fwy o sylwadau yn rhan 5 o'r ddogfen hon.

**Ysgol Henblas**

Beth fyddai'n digwydd petai'r ysgol yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol arall?
Beth fyddai amserlen hyn?
Pryderon am swyddi.

**Ysgol Esceifiog**

Staff yn teimlo fod angen ystafelloedd penodol ar gyfer AAA
Pryderon am ddiogelwch disgyblion yn ystod unrhyw waith adeiladu ar y safle Pryderon am swyddi a holi am yr amserlen.

**Ysgol Bodffordd**

Rhai'n teimlo fod y penderfyniad wedi ei wneud ac mai "problem trefol" yw hon. Pryderon am swyddi staff yr ysgol a'r Cylch Meithrin.
Pryderon am gludiant i unrhyw ysgol gynradd arall petai'r ysgol yn cau.
Teimlad fod sylwadau ymgynghoreion wedi cael eu hanwybyddu

**Ysgol Corn Hir**

Pryderon am swyddi staff yr ysgol a dyfodol y Cylch Meithrin.
Holwyd am y posibilrwydd o ostwng oed mynediad Holwyd am amserlen y broses a'r broses ei hun.

**Ysgol Talwrn**

Pryderon am swyddi
Rhai'n teimlo fod y penderfyniad wedi ei wneud
Holodd rai am ddatganiad yr Ysgrifennydd Cabinet ar Addysg
Pryderon am gludiant i unrhyw ysgol gynradd arall petai Ysgol Talwrn yn cau.
Holodd rhai am gostau Caban newydd
Roedd rhai'n teimlo byddai Neuadd y Pentref yn "dioddef ar ôl cau yr ysgol" a roedd eraill yn poeni am ddyfodol yr eisteddfod leol

**Ysgol Y Graig**

Pryder a fyddai estyniad yn ddigon mawr
Pryder am draffig a pharcio ger yr ysgol
Ystafell gerdd ac ystafell adnoddau yn ddosbarthiadau bellach. Staff yn enwedig yn dweud fod angen addasu nifer o rannau'r ysgol.

## 5. YMATEBION O YSGOL BODFFORDD

5.1 Derbyniwyd 289 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol ac roedd y mwyafrif helaeth (99.7%) yn anghytuno gyda'r posibilrwydd o gau'r ysgol ac nid oedd unrhyw un yn gefnogol o opsiwn A na B.

5.2 Yn ogystal, derbyniwyd ymatebion gan 27 o ddisgyblion Ysgol Bodffordd.

5.3 Dywedodd y llywodraethwyr "byddai gweithredu opsiwn i gau Ysgol Gymuned Bodffordd yn gwbl anaddas ac yn anghyfiawn ac yn cael effaith andwyol ar ardal Gymreig a diwylliadol tu hwnt". Dywedasant fod "yna argraff fod y broses ymgynghori yn annheg". Gweler sylwadau'r llywodraethwyr yn Atodiad 1.

5.4 Dymuniad staff yr ysgol oedd i leisio "eu gwrthwynebiad i'r ddau opsiwn sydd wedi'u gosod yn y ddogfen ymgynghori statudol ar ddyfodol ysgolion dalgylch Llangefni". Gweler sylwadau'r staff yn Atodiad 2.

5.5 Roedd 150 (52%) o'r ymatebwyr yn teimlo fod y gymuned, y neuadd gymunedol a'r digwyddiadau yno e.e. eisteddfodau yn holl bwysig a byddai cau Ysgol Bodffordd yn cael "effaith andwyol ar ddyfodol yr eisteddfod leol". Crybwyllodd 29 neu 10% o'r ymatebwyr fod Ysgol Bodffordd yn holl bwysig i'r gymuned ac i'r ffordd Gymreig a'r iaith Gymraeg a "thraddodiadau lleol".

5.6 Barn 109 o'r ymatebwyr (38%) oedd fod y broses yn annheg a bod eu hymatebion i'r ymgynghori anstatudol wedi cael eu hanwybyddu.

5.7 Barn 106 o'r ymatebwyr (37%) oedd bod angen ymestyn yr ysgol gan fod digon o le i wneud hynny heb "amharu mewn unrhyw ffordd ar fan chwarae digonol i'r plant". Yn ogystal, roedd 85 o ymatebwyr (29%) yn meddwl dylid moderneiddio'r ysgol. Gan fod yr ysgol yn lawn, nid oedd 48 o ymatebwyr (17%) yn meddwl y dylid cau'r ysgol.

5.8 Roedd rhai (83 ymatebwr, 29%) yn teimlo fod ysgol fechan yn well i blant, a bod Ysgol Bodffordd yn gartrefol, hapus ac yn galon i'r gymuned.

5.9 Roedd y Cylch Meithrin yn cael canmoliaeth gan 46 neu 16% o'r ymatebwyr o ystyried deilliannau da ddaeth o arolygiad Estyn o'r Cylch yn ddiweddar. Canmolwyd staff y Cylch a dywedwyd fod staff yn pryderu am eu swyddi.

5.10 Petai ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu roedd 42 ymatebydd (15%) yn bryderus am y teithio posib i'r disgyblion iddi. Dywedodd y rhanddeiliaid nad oedd gan nifer o deuluoedd gar i gludo plant i ysgol newydd posib ac nad oedd palmant ar y lôn o Fodffordd i Langefni. Dywedwyd yn ogystal fod y rhan fwyaf o blant yn gallu cerdded i Ysgol Bodffordd.

5.11 Roedd 34 o ymatebwyr (12%) am weld ysgol newydd yn dod i bentref Bodffordd tra roedd 18 neu 6% yn meddwl bod ffedereiddio Ysgol Bodffordd efo ysgol gynradd arall yn opsiwn. Barn 5 o ymatebwyr (2%) oedd fod angen cau ysgol gynradd arall yn hytrach nag Ysgol Bodffordd.

5.12 Nid oedd 39 o ymatebwyr (13%) yn meddwl fod adeiladu ysgol gynradd newydd yn “gost effeithiol”

## 6. YMATEBION O YSGOL CORN HIR

6.1 Derbyniwyd cyfanswm o 45 o ymatebion gan rhanddeiliaid yr ysgol.

6.2 Daeth 40 o’r ymatebion gan staff (3), rhieni (36) a Cadeirydd Cylch Meithrin yr ysgol. Roeddent oll ar ffurf ffurflen ymateb gyda thestun safonol a roeddent oll yn cytuno gyda’r rhesymau dros newid. Dywedodd yr ymatebwyr fod y Cylch Meithrin “yn rhy fach i gymryd yr holl blant sydd ynddi a nid yw maint yr adeilad yn addas i’r nifer plant”.

6.3 Gan fod opsiwn A ac opsiwn B yn cynnwys ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir”, nid oedd well gan y rhanddeiliaid un opsiwn dros y llall.

6.4 Roedd y 39 rhanddeiliad hefyd o’r farn fod y “galw yn lleol am ofal plant fforddiadwy yn uchel gan nad oes lawer o ddarparwyr. Mae angen sicrhau fod yr ysgol newydd yn gallu cynnig y ddarpariaeth yma (wrap around) i’r plant meithrin fydd yn dod i’r ysgol a fod digon o le yn yr adeilad newydd i ganiatáu hyn yn hwylus”.

6.5 Pwyntiau eraill crybwyllwyd ganddynt oedd:

“Ystyried y ddarpariaeth i blant 2½-3 oed mewn unrhyw ysgol newydd”

“Bydd rhaid cynllunio unrhyw ysgol gyda’r sgôp o ehangu pellach”

“Sicrhau cynllun adeilad fydd yn caniatáu defnydd llawn gan y gymuned”

“Bod angen sicrwydd bydd lleoliad y Cylch Meithrin yn cael ei ystyried yn y broses cynllunio / adeiladu”

O ran safle’r ysgol gynradd newydd, fod “angen ystyried sut fydd hyn yn effeithio ar ddalgylch mynediad y Cylch Meithrin”

Fod angen sicrhau bod cynrychiolaeth deg ar unrhyw grŵp rhanddeiliaid fydd yn cael ei sefydlu.

Gweler ymateb Cadeirydd Pwyllgor Cylch Meithrin Corn Hir yn Atodiad 3.

6.6 O’r holl adborth, un rhiant oedd yn bryderus am y cynllun o ran niferoedd plant. Nid oedd yn meddwl fod “yr hyn sydd raid ei wneud i gael 50% o’r cyllid yn werth chweil.

6.7 Roedd y 4 ymatebydd yn cytuno gyda’r rhesymau dros newid tra nad oedd un opsiwn yn well na’r llall gan 2 ymatebydd. Roedd un benodol o blaid opsiwn B “er mwyn i blant Gaerwen gael ysgol â chyfleusterau newydd” tra roedd ymatebydd arall yn gefnogol i opsiwn A.

6.8 Pwyntiau eraill crybwyllwyd gan y 4 ymatebydd oedd:

Bod yr ysgol “yn llawer rhy fach i gymryd yr holl blant sydd ynddi”

“Nid yw arwynebedd y dosbarthiadau yn ddigon i’r nifer plant”

“Nid yw’r ysgol yn cyrraedd gofynion agenda a disgwyliadau Ysgolion G21”

Bod y trefniadau “ar gyfer parcio i staff yn annigonol ond hefyd ar gyfer rhieni a mae’r amseroedd casglu a gollwng plant yn beryglus”

Bod y “Neuadd yn llawer rhy fach i’r niferoedd disgyblion sy’n creu trafferthion parthed threfniadau cinio ac yn annigonol ar gyfer gwersi addysg gorfforol i gynifer

o blant a pherfformiadau cyhoeddus.

Bod tref Llangefni "yn tyfu a'r boblogaeth yn yr ysgolion yn cynyddu sy'n golygu fod angen mwy o ofod"

Bod angen "edrych ar ffiniau'r dalgylchoedd yr ysgolion i weld os oes modd edrych ar leihau pwysedd ar ysgolion cyfagos – mae potensial o arbed arian wrth wneud hyn"

Bod "galw yn lleol am ofal plant fforddiadwy yn uchel gan nad oes llawer o ddarparwyr. Mae angen sicrhau fod yr ysgol newydd yn gallu cynnig y ddarpariaeth yma (wrap around) i'r plant meithrin fydd yn dod i'r ysgol a fod digon o le yn yr adeilad newydd i ganiatáu hyn yn hwylus"

Bod "angen sicrhau caniatâd cynllunio ar safle Ysgol Corn Hir cyn ei werthu er mwyn cael y gwerth mwyaf posib o'r safle fydd yn cyfrannu'n helaeth at gôst yr ysgol newydd a llai o ddefnydd o adnoddau ariannol y Cyngor"

Bod "rhaid cynllunio unrhyw ysgol gyda'r sgôp o ehangu pellach a gyda thiroedd eang"

Byddai angen edrych i sicrhau cynllun adeilad fydd yn caniatáu defnydd llawn gan y gymuned ar gyfer pob math o ddigwyddiadau.

Byddai angen sicrhau cynllun adeilad fydd yn caniatáu ardaloedd / ystafelloedd targedu grwpiau o ddisgyblion, ystafell cymorth cyntaf addas, ystafell ar gyfer cynnal cyfarfodydd, storfeydd addas, ac ardaloedd ar gyfer cynnal sesiynau TGCh a DTh

Holwyd cwestiwn rhethregol gan y rhanddeiliaid hyn sef: "Gan fod gemau'r ynysoedd yn dod i Fôn yn 2025, oes modd plethu hyn i'r cynllun i greu adnodd fyddai'n addas ar gyfer yr amser honno – mae'n debyg mai'r plant sydd yn yr ysgol gynradd rwan fyddai'n rhan o'r gemau"

6.9 Gweler sylwadau'r staff a'r llywodraethwyr yn Atodiadau 4 a 5.

## 7. YMATEBION O YSGOL ESCEIFIOG

7.1 Derbyniwyd cyfanswm o 35 o ymatebion gan randdeiliaid sef gan 11 o rieni, 11 o staff a 3 llywodraethwr - roedd y gweddill yn ddienw. Roedd 34 (97%) o'r ymatebwyr yn datgan eu cefnogaeth i opsiwn B, sef yr opsiwn fyddai'n golygu "*adeiladu ysgol gynradd newydd yn Gaerwen i 150 o blant yn lle Ysgol Esceifiog ar safle amgen"* os bydd y Pwyllgor Gwaith yn pleidleisio o blaid yr opsiwn hwn.

7.2 Roedd y rhanddeiliaid yn gefnogol o opsiwn B oherwydd:

Byddai gan yr ysgol newydd digon o ofod ar gyfer y disgyblion

Ni fyddai'n effeithio ar addysg a lles y disgyblion pe byddai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle arall yn y pentref. Hefyd gellid ystyried gwerthu'r safle yr ysgol presennol i gynorthwyo gyda chostau adeiladu'r ysgol newydd.

Tu allan. Digonedd o le i ardaloedd tu allan, gardd, llefydd i'r disgyblion chwarae amser chwarae.

Addysg. Gyda'r ysgol newydd buasai yn ychwanegu at safon yr addysg a chyfleoedd y disgyblion.

Manteisio. Rhaid manteisio fod arian ar gael ar hyn o bryd i adeiladu ysgol newydd, oherwydd mae'n debygol na fydd cyfle arall yn y dyfodol agos i adeiladu ysgol newydd.

Dadl y rhanddeiliaid oedd, er byddai "cost ysgol newydd yn ymddangos yn ddrytach o £1.5 miliwn, y gall y Cyngor ei gael yn ôl drwy werthu safle presennol yr ysgol gyda chaniatâd cynllunio.

7.3 Nid oedd y rhanddeiliaid hyn yn gefnogol o opsiwn A oherwydd:

"Goblygiadau iechyd a diogelwch" o ran y sefyllfa barcio o flaen yr ysgol

Effaith posib gwaith adeiladu "ar addysg" y disgyblion a "ffitrwydd y disgyblion" os fyddai'r offer adeiladu, peiriannau ac ati yn cymryd yr iard a chaeau'r ysgol".

Wrth adnewyddu'r adeilad, "byddai rhannau o'r ysgol yn parhau i fod o 1981. Felly, mi fydd costau cynnal a chadw yn parhau". Petai'r ysgol yn cael ei hymestyn, "ni fyddai unrhyw le i ychwanegu ati".

7.4 Roedd 26 (74%) o'r ymatebwyr fod yr ysgol fel ag y mae hi yn rhy fach gan grybwyll sylwadau oedd yn gysylltiedig â hyn e.e.

ystafelloedd sy'n anaddas (12 ymatebydd neu 34%)

niferoedd y disgyblion yno sy'n cynyddu (15 ymatebydd neu 43%) ac i'r ysgol newydd fod yn barod ar gyfer y dyfodol (3 ymatebydd neu 9%) ac o fewn pellter cerdded (2 ymatebydd neu 6%)

yr angen am faes parcio newydd (3 ymatebydd neu 9%)

yr angen am adeilad modern (10 ymatebydd neu 29%)

roedd 3 rhanddeiliad (9%) ym meddwl byddai ysgol gynradd newydd yn y pentref yn cael ei hadeiladu ar gae pêl-droed y pentref a petai hyn yn digwydd, roeddent yn pryderu am ddyfodol y clwb pêl-droed.

7.5 Roedd yr 11 aelod staff yr ysgol a anfonodd ffurflen adborth yn nad oedd:

"ystafelloedd addas i'r dosbarthiadau"

"ystafelloedd addas ar gyfer cyfarfodydd"

"lle tu allan i'r plant chwarae pan mae hi'n bwrw"

"digon o le i blant y Cyfnod Sylfaen chwarae ar hyn o bryd"

"digon o le parcio"

angen "lleoedd arbennig ar gyfer ADY". Byddai "opsiwn B yn galluogi hyn i ddigwydd"

y "gwaith adeiladu am effeithio ar rai disgyblion efo ADY"

"angen ystafelloedd pwrpasol ar gyfer gwersi targedu"

"angen gwell mynediad i'r ysgol i blant anabl"

"angen fwy o ystafelloedd i blant ADY"

"angen fwy o le tu allan"

7.6 Gweler sylwadau'r staff a'r llywodraethwyr yn Atodiad 6.

## 8. YMATEBION O YSGOL HENBLAS

8.1 Derbyniwyd 2 ymateb gan riant disgybl. Roedd y cyntaf yn cefnogi unrhyw gynnig i wella safon y stad adeiladau addysg ar yr ynys tra'n poeni am y "camgymhariad ymddangosiadol rhwng y bwriad i wario ar ail ddatblygu a 'r ffaith nad oes cyllideb mewn lle i gynnal a chadw'r safonau hyn".

8.2 Roedd y rhiant arall yn "hapus iawn efo'r cynlluniau [ar gyfer Ysgol Henblas] ac nid oedd "yn meindio opsiwn A neu B". Ychwanegodd fod trigolion Llangristiolus "y teimlo'n lwcus iawn am y cynlluniau i Ysgol Henblas".

8.3 Barn y Llywodraethwyr oedd eu bod "yn falch y bydd addysg yn yr ysgol yn parhau o dan y ddau opsiwn a gynigir (opsiwn A ac opsiwn B), ac yn falch hefyd fod yr opsiwn o addasu yr ysgol yn cael ei ystyried". Mae'r llywodraethwyr yn "agored i drafod ymhellach y posibilrwydd o gynnwys yr ysgol mewn ffederasiwn gyda ysgol arall" ond dywedasant fod angen iddynt "ddeall yr union oblygiadau i Ysgol Henblas, ac hefyd manylion unrhyw ffedereiddio sy'n cael ei awgrymu".

8.4 Gweler sylwadau Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Henblas yn Atodiad 7.

## 9. YMATEBION O YSGOL TALWRN

9.1 Derbyniwyd 19 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol. Roedd pob un ohonynt yn anghytuno gyda'r cynnig i gau Ysgol Talwrn ond yn canmol staff yr ysgol.

9.2 Yn ei lythyr ar ran y Corff, dywedodd Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Talwrn fod y Corff yn "gwrthwynebu unrhyw argymhelliad i gau'r Ysgol yng nghyd-destun ymgynghoriad Dalgylch Llangefni". Roedd y Corff yn teimlo dylai'r Awdurdod fod wedi "cynnig opsiwn oedd yn galluogi" cadw ysgol Talwrn ar agor. Gweler sylwadau'r llywodraethwyr yn Atodiad 8.

9.3 Mewn llythyr personol, dywedodd Corff Llywodraethol Ysgol Talwrn ei fod yn "siomedig iawn mai'r unig opsiwn ar gyfer yr ysgol oedd "i gau yr ysgol yn gyfan gwbl". Roedd wedi gobeithio byddai'r Awdurdod "o leiaf wedi rhoi cynnig ar ffedereiddio hefo rhai o ysgolion eraill o gymharol faint yn yr ardal." Gweler sylwadau'r Cadeirydd yn Atodiad 9.

9.4 Roedd y staff o'r farn fod Ysgol Talwrn yn "ysgol fechan deuluol a byddai'r ymdeimlad o agosatrwydd yn diflannu mewn sefyllfa fwy amhersonol sy'n gysylltiedig ag ysgol fwy". Roeddent hefyd yn teimlo mai'r "ysgol yw'r cyfrwng mwyaf effeithiol er mwyn diogelu'r ymdeimlad o gymuned sydd yn bodoli yma yn Y Talwrn. Mae'r ysgol hefyd yn parhau i hyrwyddo a chefnogi diwylliant eisteddfodol. Byddai cau'r ysgol yn arwain at dranc yr eisteddfod, sydd bellach yn enghraifft amheuthun o eisteddfod leol ar yr ynys". Gweler sylwadau'r staff yn Atodiad 10.

9.5 Ymateb Cyngor Cymuned Llanddyfnan oedd eu bod "o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Cynulliad Cymru ar gadw ysgolion bychain ar agor. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, ac ysgolion cynradd

yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol". Roedd aelodau'r Corff "yn teimlo bod y costau yn amheus".

9.6 Teimlai 74% o'r ymatebwyr fod Ysgol Talwrn yn holl bwysig i'r gymuned ac i'r ffordd Gymreig a'r iaith Gymraeg ac y byddai cau Ysgol Talwrn yn "lladd y gymuned" ac y byddai'r pentref "gymaint tlotach hebddi". Roedd yr ymatebwyr yn teimlo byddai cau Ysgol Talwrn yn cael effaith andwyol ar ddyfodol yr Eisteddfod leol, Ysgol Sul a Neuadd y Pentref.

9.7 Teimlai 58% o'r ymatebwyr fod y broses ymgynghori yn annheg.

9.8 Roedd 53% o'r ymatebwyr am i'r Awdurdod ystyried ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag ysgol gynradd arall.

9.9 Roedd 42% o'r ymatebwyr o'r farn fod addysg plant yn Ysgol Talwrn "yn arbennig" a bod y disgyblion yn llwyddo pan fyddent yn mynd i'r ysgol uwchradd". Nid oeddent yn meddwl byddai'r disgyblion yn cael yr "un sylw ... mewn ysgol fawr". Yn ogystal, roedd 42% o ymatebwyr yn dweud fod safonau addysg yn dda yn Ysgol Talwrn.

9.10 Sefyllfa traffig yn Ysgol y Graig oedd yn poeni 18% o ymatebwyr.

9.11 Barn 6 (32%) o'r ymatebwyr oedd bod angen ymestyn Ysgol Talwrn er mwyn iddi gymryd mwy o ddisgyblion ac oherwydd eu bod yn meddwl fod niferoedd yn yr ysgol yn cynyddu.

9.12 Roedd teithio posib i Ysgol Y Graig yn bryder a nodwyd gan 3 neu 16% o randdeiliaid ac roedd yr un faint o ymatebwyr yn teimlo dylid gwneud y gwaith sy'n ran o'r £82,500 o ôl-groniad cynnal a chadw ar Ysgol Talwrn.

9.13 Cynigwyd syniadau amgen gan 1 randdeiliad (5% o'r ymatebwyr) sef:

a) Hyfforddi penaethiaid yn Ysgol Talwrn
b) Adeiladu ysgol gynradd newydd yn y Talwrn i gymryd "y gorlif o Langefni" neu ei moderneiddio
c) Uno Talwrn efo Corn Hir a Bodffordd
d) Adeiladu 4 "super school" 3-18 oed

9.14 Derbyniwyd un llythyr gan Aelod Seneddol rhanbarthol oedd yn mynegi pryderon un o'i etholwyr o gau Ysgol Talwrn. Awgrymodd y dylai'r Awdurdod roi sylw i'r pwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

9.15 Pryderon eraill a fynegwyd gan 1 randdeiliad (5%) oedd am ofal plant, parcio ac awgrym y dylid cau ysgol gynradd arall.

9.16 Cyn cyfarfod o'r Cyngor Llawn y mis Rhagfyr 2016, cyflwynwyd deiseb i Arweinydd y Cyngor oedd yn:

1) Teimlo byddai "unrhyw fygythiad o gau Ysgol Talwrn yn mynd i gael canlyniadau difrifol" ar y pentref a'r gymuned.
2) Gofyn bod "pryderon y llofnodwyr yn cael eu rhoi gerbron y Pwyllgor Gwaith yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
3) Annog y Cyngor i beidio a chau Ysgol Talwrn ond i fuddsoddi ynddi

4) Arwyddwyd y ddeiseb gan 184 o lofnodwyr.

## 10. YMATEBION O YSGOL Y GRAIG

10.1 Derbyniwyd ymateb gan 3 randdeiliad sef gan aelod o staff a dwy riant yn ogystal ag ymateb gan y Pennaeth.

10.2 Roedd un o'r rhanddeiliaid yn gwrthwynebu'r "syniad o uno'r Graig a Thalwrn". Roedd ganddi amryw o bryderon oedd yn sail i'w gwrthwynebiad sef:

1. Bod neuadd yr ysgol a iard yr ysgol yn "llawer rhy fychan"
2. Nad oes gan y Cyfnod Sylfaen ardal tu allan addas.
3. Nad oes ystafelloedd gwag i gynnal cyfarfodydd neu wersi cerdd.
4. Nad oes digon o doiledau i blant na staff.
5. Bod "mwy na'r capasiti (330 o ddisgyblion) yma yn barod" a nad oes lle i fwy
6. Pam "amharu ar Ysgol Y Graig sy'n un o'r rhai rhataf i'w rhedeg ar ddyraniad y disgybl (£3597 pan mae'r mwyafrif dros £4000).
7. "problemau parcio erchyll yma'n barod a damwain yn aros i ddigwydd, a beth ddigwyddith pan fydd y ffordd newydd yn agor?"
8. Roedd y rhanddeiliad yn meddwl fod canlyniadau Ysgol y Graig yn well ac na ddylid uno'r ddwy ysgol oherwydd hyn.
9. Bod 75% o ddisgyblion y Graig yn dod o gartrefi Cymraeg, ond dim ond 55% o ddisgyblion Talwrn yn dod o gartrefi Cymraeg.

Am y rhesymau uchod, roedd y rhanddeiliad am i ddisgyblion Ysgol Talwrn "fynd i'r ysgol newydd".

10.3 Pryderon rhanddeiliad arall oedd:

1. Effaith posib y gwaith adeiladu ar addysg y plant a'r
2. angen i gael ateb i'r sefyllfa barcio wrth Ysgol Y Graig.

10.4 Yn ogystal, roedd gan y trydydd randdeiliad faterion i dynnu sylw'r Awdurdod atynt wrth feddwl am ymestyn Ysgol Y Graig sef:

1. Effaith posib y gwaith adeiladu ar addysg y plant
2. Maint y Neuadd, a'i bod yn "fach o safbwynt nifer o ddisgyblion yn barod".
3. Ei bod yn awyddus i'r Clwb brecwast/clwb ar ôl ysgol barhau yn ystod cyfnod adeiladu unrhyw estyniad.
4. Bod "iard yr ysgol yn fach i gynifer o ddisgyblion". Roedd y rhanddeiliad am i'r Awdurdod "sicrhau llefydd addas i'r disgyblion chwarae yn ystod y cyfnod adeiladu".
5. Parcio a'r angen i gael ateb i'r sefyllfa barcio wrth Ysgol Y Graig.

10.5 Gweler sylwadau'r Pennaeth yn Atodiad 11.

## 11. YMATEBION ERAILL

11.1 Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Cymuned Llanddyfnan sef cyngor cymuned ar gyfer ardal Talwrn a'r cyffiniau. Ymateb y Cyngor oedd fod "Cyngor Cymuned o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor". Gweler sylwadau'r Cyngor Cymuned yn Atodiad 12.

11.2 Er nad oes rheidrwydd statudol ar yr Awdurdod i ymgynghori'n anstatudol, yn ogystal â chwrdd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni, anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyngor Gwynedd;
- Swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol;
- Estyn;
- Undebau'r athrawon ac undebau staff ategol;
- Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GWe;
- Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol sef Taith;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;
- Mudiad Meithrin;
- Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod;
- Ysgol Gyfun Llangefni.

11.3 Yn ei ymateb, dywedodd Estyn: "Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol yr addysg yn yr ardal o leiaf."

## 12. DADANSODDIAD OPSIYNAU

12.1 Yn y ddogfen ymgynghori anstatudol, cynhwyswyd dadansoddiad opsiynau oedd yn canolbwyntio ar y 9 opsiwn gwreiddiol. Gwerthuswyd pob un o'r opsiynau a'u sgorio allan o 10 yn erbyn y gyrwyr newid a amlinellir isod.

1. Codi safonau addysgol
2. Lleihau nifer llefydd gweigion
3. Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl
4. Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib
5. Sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da a bod dim materion iechyd a diogelwch
6. Cynyddu capasiti arweinyddol
7. Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol
8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
9. Ffactorau daearyddol a theithio

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dadansoddiad wnaethpwyd:

| Gyrwyr | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6a | 6b | 7 | 8 | 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Codi safonau addysgol | 10 | 10 | 10 | 10 | 8 | 8 | 8 | 10 | 9 | 6 |
| 2. Lleihau nifer y llefydd gweigion | 8 | 8 | 8 | 6 | 4 | 8 | 8 | 8 | 6 | 4 |
| 3. Lleihau'r amrywiaeth mewn cost y disgybl | 10 | 10 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 2 | 2 |
| 4. Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| 5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes materion iechyd a diogelwch | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 8 | 10 | 8 | 8 | 8 |
| 6. Cynyddu capasiti arweinyddiaeth | 10 | 10 | 10 | 10 | 4 | 4 | 4 | 10 | 10 | 2 |
| 7. Defnydd cymunedol o'r adeilad | 8 | 7 | 10 | 9 | 10 | 10 | 10 | 9 | 10 | 10 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| 9. Ffactorau daearyddol a theithio | 3 | 3 | 6 | 3 | 6 | 7 | 7 | 4 | 7 | 7 |
| **Cyfanswm** | **79** | **78** | **80** | **74** | **68** | **71** | **73** | **75** | **72** | **59** |

12.2 Arweiniodd hyn at argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith. Ar 19 Rhagfyr 2016, penderfyniad y Pwyllgor Gwaith oedd:

"Penderfynwyd awdurdodi'r swyddogion i symud ymlaen i'r broses ymgynghori ffurfiol neu statudol pan fyddant yn ymgynghori ar Opsiynau A a B fel y'u disgrifir yn yr adroddiad"

Dyma oedd opsiynau A a B:

**Opsiwn A**

Byddai hwn yn seiliedig ar:

Opsiwn 3, sef *adeiladu un ysgol yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd; a*

Opsiwn 6a, sef *adeiladu ysgol gynradd newydd yn Gaerwen i 150 o blant yn lle Ysgol Esceifiog ar safle amgen; a*

Opsiwn 7, sef *ymestyn Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn; a*

Opsiwn 9, sef *addasu Ysgol Henblas*

Byddai angen i unrhyw ailfodelu mynd i'r afael â'r materion traffig a nodwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r opsiynau'n amodol ar fforddiadwyedd.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys y ffederasiwn o Ysgol Henblas gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar safle'r presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

**Opsiwn B**

Byddai hwn yn seiliedig ar:

Opsiwn 3, sef *adeiladu un ysgol yn lle Ysgol Corn Hir ac YsgolBodffordd; a*

Opsiwn 8, sef *addasu Ysgol Esceifiog; a*

Opsiwn 7, sef *ymestyn Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn; a*

Opsiwn 9, sef *addasu Ysgol Henblas*

Byddai angen i unrhyw ailfodelu mynd i'r afael â'r materion traffig a nodwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r opsiynau'n amodol ar fforddiadwyedd.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys y ffederasiwn o Ysgol Henblas gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar safle'r presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

Mae'r gwahaniaeth rhwng Opsiwn A a B yn ymwneud ag Ysgol Esceifiog. Os cymeradwyir Opsiwn A, byddai'n golygu adeiladu ysgol gynradd newydd yn Gaerwen i 150 o ddisgyblion. Os cymeradwyir Opsiwn B, byddai'n golygu addasu Ysgol Esceifiog. Byddai gwireddu opsiwn 6a yn golygu ysgol gynradd newydd ar safle'r ysgol bresennol a byddai gwireddu opsiwn 6b yn golygu adeiladu ysgol gynradd newydd ar safle amgen.

Os cyfunir y sgoriau ar gyfer yr opsiynau, byddai'r sgoriau fel a ganlyn:

| Gyrwyr | 6a | 6b | 8 |
|---|---|---|---|
| 1. Codi safonau addysgol | 8 | 8 | 9 |
| 2. Lleihau nifer y llefydd gweigion | 8 | 8 | 6 |
| 3. Lleihau'r amrywiaeth mewn cost y disgybl | 6 | 6 | 2 |
| 4. Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib | 10 | 10 | 10 |
| 5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes materion iechyd a diogelwch | 8 | 10 | 8 |
| 6. Cynyddu capasiti arweinyddiaeth | 4 | 4 | 10 |
| 7. Defnydd cymunedol o'r adeilad | 10 | 10 | 10 |
| 8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | 10 | 10 | 10 |
| 9. Ffactorau daearyddol a theithio | 7 | 7 | 7 |
| **Cyfanswm** | **71** | **73** | **72** |

**Opsiwn A**

| | | |
|---|---|---|
| 3 | 80 | 80 |
| 6a | 71 | 72 |
| 7 | 75 | 75 |
| 9 | 59 | 59 |
| **Cyfanswm** | **285** | **286** |

| **Opsiwn B** | |
|---|---|
| 3 | 80 |
| 8 | 72 |
| 7 | 75 |
| 9 | 59 |
| **Cyfanswm** | **286** |

Gwelir felly nad oes llawer o wahaniaeth o ran y sgorio rhwng yr opsiynau.

## 13. DATBLYGIADAU TAI YN ARDAL LLANGEFNI

13.1 Ers y cyfnod ymgynghori anstatudol, mae tebygolrwydd cryf bydd hyd yn oed fwy o dai yn cael eu hadeiladu yn nalgylch Ysgol Y Graig fyddai'n mynd a nifer y datblygiadau tai yn y dalgylch fyny at 397 fyddai'n cyfateb i tua 67 o blant oed cynradd. Trafodir hyn yn rhan 14.7 isod.

Ar gyfer ysgolion cynradd ardal Llangefni, ystyriwyd effaith posib tai newydd yn ystod y cyfnod 2018-2026 yn nalgylch pob ysgol ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol. Byddai hyn yn helpu deall beth fyddai'r twf ychwanegol tebygol yn y dalgylch.

Mae ffigyrau'n dangos fod gan bob tŷ ym Môn, ar gyfartaledd, 0.17 o blant oedran ysgol gynradd. O luosi nifer y datblygiadau tai gyda 0.17, cer amcangyfrif o nifer y disgyblion ychwanegol fydd eisiau cael eu haddysg yn yr ysgol honno.

| Ysgol | Nifer datblygiadau tai yn y dalgylch | Nifer plant cyfatebol |
|---|---|---|
| Bodffordd | 18 | 3 |
| Corn Hir | 219 | 37 |

| | | |
|---|---|---|
| Esceifiog | 36 | 6 |
| Henblas | 0 | 0 |
| Talwrn | 6 | 1 |
| Y Graig | 397 | 67 |

13.2 **Bodffordd**

Cynhwysedd yr ysgol yw 63 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn y tabl isod:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| Bodfordd | 64 | 69 | 75 | 78 | 79 | 78 | 74 |

Gwelir y bydd Ysgol Bodffordd dros ei chapasiti o Fedi 2016 ymlaen. O ystyried effaith posib tai newydd yn nalgylch yr ysgol ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol, mae'r niferoedd posib fel a ganlyn:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Bodfordd | 64 | 69 | 75 | 79 | 79 | 79 | 75 | 74 | 74 | 75 | 75 |

**13.3 Ysgol Corn Hir**

Cynhwysedd yr ysgol yw 204 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn y tabl isod:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Corn Hir | 221 | 226 | 232 | 233 | 240 | 245 | 245 | 242 | 239 | 235 | 231 |

Ers dechrau'r flwyddyn ysgol 2015/16, mae mwy o blant yno na'r cynhwysedd a chynyddu bydd y niferoedd fel mae pethau hyd at Medi 2021.

Rhagwelir bydd mwyafswm o 219 o ddatblygiadau tai yn y dalgylch o 2018 - 2026 - mae hyn un unol â'r Cynllun Adnau y bu i'r Awdurdod ymgynghori arno yn 2015. Y tebygolrwydd yw y byddai'r tai yn cael eu hadeiladu ar gyfradd o 27 tŷ'r flwyddyn yn nalgylch Ysgol Corn Hir. Mae ffigyrau'n dangos fod gan bob tŷ ym Môn, ar gyfartaledd, 0.17 o blant oedran ysgol gynradd. O luosi 27 tŷ'r flwyddyn yn y dalgylch gyda 0.17, golyga hyn y byddai'r datblygiadau tai yn arwain at 4.6 disgybl ychwanegol y flwyddyn eisiau cael eu haddysg yn yr ysgol. Byddai hyn yn cael effaith ar ragolygon Ysgol Corn Hir fel a ganlyn:

| Ysgol | 2016 | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2017 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
| Corn Hir | 221 | 226 | 232 | 238 | 244 | 250 | 249 | 247 | 243 | 240 | 236 |

Petai opsiwn 3 yn cael ei wireddu sef adleoli Ysgol Corn Hir ar i safle arall ynghyd ag adleoli disgyblion o Ysgol Bodffordd, byddai'r rhagolygon fel a ganlyn:-

| Ysgol | 2016 | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 |
| Corn Hir | *285* | *294* | *307* | 317 | 323 | 329 | 324 | 321 | 317 | 315 | 311 |

Petai cytundeb i gael adeilad newydd i Ysgol Corn Hir a'i chyfuno efo Ysgol Bodffordd, byddai angen i gapasiti'r ysgol fod tua 360 ac i'r rhif mynediad fod oddeutu 51.

### 13.4 Ysgol Esceifiog

Cynhwysedd yr ysgol yw 124 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn tabl isod:

| Ysgol | 2016 | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 |
| Esceifiog | 120 | 131 | 138 | 137 | 138 | 142 | 142 | 138 | 134 | 131 | 133 |

Erbyn Medi 2017, rhagwelir bydd yr ysgol dros ei chapasiti.

Rhagwelir bydd 36 o ddatblygiadau tai yn y dalgylch o 2018 – 2026 – mae hyn un unol â'r Cynllun Adnau y bu i'r Awdurdod ymgynghori arno yn gynharach yn 2015. Y tebygolrwydd yw y byddai 'r tai yn cael eu hadeiladu ar gyfradd o 4.5 tŷ'r flwyddyn yn nalgylch Ysgol Esceifiog. Mae ffigyrau'n dangos fod gan bob tŷ ym Môn, ar gyfartaledd, 0.17 o blant oedran ysgol gynradd. O luosi 4.5 tŷ'r flwyddyn yn y dalgylch gyda 0.17, golyga hyn y byddai'r datblygiadau tai yn arwain at 0.77 disgybl ychwanegol y flwyddyn eisiau cael eu haddysg yn yr ysgol neu tua 6 disgybl ychwanegol eisiau mynd i'r ysgol. Byddai hyn yn cael effaith ar ragolygon Ysgol Esceifiog fel a ganlyn:

| Ysgol | 2016 | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 |
| Esceifiog | 120 | 131 | 138 | 138 | 139 | 143 | 143 | 139 | 135 | 131 | 133 | 133 |

O ystyried y niferoedd, byddai angen i naill ai Ysgol Esceifiog wedi'i haddasu neu ysgol newydd gymryd tua 150 o ddisgyblion.

### 13.5 Ysgol Henblas

Cynhwysedd yr ysgol yw 96 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn y tabl isod:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| Henblas | 81 | 91 | 90 | 92 | 86 | 81 | 85 |

Gwelir fod Ysgol Henblas yn parhau i fod yn llai na 100 o ddisgyblion tan Medi 2022.

Ni ragwelir fod unrhyw ddatblygiadau tai yn y dalgylch o 2018 - 2026 ac felly ni ragwelir fod unrhyw dwf ychwanegol am fod yn nalgylch Ysgol Henblas yn y blynyddoedd 2018-2026.

**13.6 Ysgol Talwrn**

Cynhwysedd yr ysgol yw 49 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn tabl isod:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| Talwrn | 47 | 43 | 43 | 43 | 40 | 43 | 42 |

Ers dechrau'r flwyddyn ysgol 2015/16, mae'r niferoedd yn yr ysgol yn llai na'i chynhwysedd ac yn parhau yn weddol gyson mae'r niferoedd hyd at Ionawr 2021.

Rhagwelir bydd 6 tŷ'n cael ei adeiladu yn nalgylch Ysgol Talwrn yn y blynyddoedd 2018-2026. Byddai hyn yn arwain at 6 x 0.17 = 1 disgybl ychwanegol yn yr ysgol. Fel y gwelir o'r tabl uchod, mae lle yn yr ysgol i ddisgybl ychwanegol:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| Talwrn | 47 | 43 | 43 | 44 | 41 | 44 | 43 |

**13.7 Ysgol y Graig**

Ers y cyfnod ymgynghori anstatudol, mae tebygolrwydd cryf bydd hyd yn oed fwy o dai yn cael eu hadeiladu yn nalgylch Ysgol Y Graig fyddai'n mynd a nifer y datblygiadau tai yn y dalgylch fyny at 397 fyddai'n cyfateb i tua 67 o blant oed cynradd.

Cynhwysedd yr ysgol yw 330 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn y tabl isod:

| | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| Y Graig | 339 | 336 | 338 | 334 | 330 | 331 | 329 |

Ers dechrau'r flwyddyn ysgol 2016/17, mae mwy o blant yno na'r cynhwysedd bydd hyn yn parhau hyd at ddechrau'r degawd nesaf.

Rhagwelir bydd 397 o ddatblygiadau tai yn y dalgylch o 2018 – 2026 – mae hyn un unol â'r Cynllun Adnau y bu i'r Awdurdod ymgynghori arno yn 2015. Y tebygolrwydd

yw y byddai‘r tai yn cael eu hadeiladu ar gyfradd o 50 tŷ'r flwyddyn yn nalgylch Ysgol y Graig yn y blynyddoedd 2018/19 at 2025/26.

Mae ffigyrau'n dangos fod gan bob tŷ ym Môn, ar gyfartaledd, 0.17 o blant oedran ysgol gynradd. O luosi 50 tŷ'r flwyddyn yn y dalgylch gyda 0.17, golyga hyn y byddai'r datblygiadau tai yn arwain at 8.5 disgybl ychwanegol y flwyddyn eisiau cael eu haddysg yn yr ysgol. Byddai hyn yn cael effaith ar ragolygon Ysgol y Graig fel a ganlyn:


| | | **Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Y Graig | 339 | 336 | 338 | 342 | 339 | 339 | 338 | 332 | 347 | 350 | 355 |

Os gweithredir opsiwn 7 (sef ymestyn Ysgol y Graig a throsglwyddo disgyblion Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig ac yna cau Ysgol Talwrn) ac o ystyried twf oherwydd tai newydd yn y dalgylch, byddai'r rhagolygon fel a ganlyn:-

| | | **Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Y Graig | 339 | 336 | 338 | 390 | 397 | 418 | 431 | 432 | 435 | 424 | 413 |

| | **Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2027** | **2028** | **2029** | **2030** | **2031** |
| Y Graig | 400 | 389 | 381 | 375 | 371 |

Mae'r graff yn rhoi syniad o'r cynnydd yn nifer y disgyblion (sydd fel ton) o ganlyniad i'r datblygiadau:




Byddai angen i'r ysgol estynedig gael capasiti o tua 450. Byddai hyn yn ddigon i gymryd y cynnydd mewn disgyblion fydd yn dod o ganlyniad i'r datblygiadau tai newydd ac o ganlyniad i adleoli disgyblion Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig.

Ni fyddai digon o le i ymestyn Ysgol y Graig o 120 o lefydd (neu 4 dosbarth) a sicrhau digon o le chwarae i'r disgyblion. Bydd angen ystyried ffyrdd eraill i fedru cael y nifer yma o blant ar y safle sydd yn ei dro yn golygu bydd rhaid ymgynghori ar ddatrysiad i'r sefyllfa.

## 14. YSTYRIAETHAU ARIANNOL

14.1 Gwerthuswyd yr opsiynau yn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol o safbwynt ariannol. Cafodd y canlynol wedi eu hystyried ar gyfer pob opsiwn - costau cyfalaf, arbedion refeniw, costau cludiant, derbyniadau cyfalaf a chostau benthyca.

Y rhagdybiaethau ar gyfer y cyfrifiadau hyn oedd byddai benthyca:

- ar gyfradd sefydlog.
- yn digwydd dros gyfnod o 50 mlynedd gan ddefnyddio cyfraddau llog mis Tachwedd 2016.
- yn cael ei gymryd yn ei gyfanrwydd h.y. ar un tro gan nad yw'r gwariant / dyddiad
- proffilio ar gael. Yn syml, cost ariannu'r swm hwnnw am 50 mlynedd yw'r cyfrifiad hwn.

Dim ond yr elfen benthyca di-gefnogaeth y rhaglen ysgolion 21ain ganrif mae'r cyfrifiadau hyn yn eu hystyried.

Dylid nodi mai *amcangyfrifon gorau* yw'r costau a'r arbedion sydd ar gael ar hyn o bryd. Efallai bydd rhai o'r opsiynau, os y'u gwireddir, yn creu costau byr dymor megis, apwyntio pennaeth cyn i'r ysgol agor, costau diswyddo, costau amddiffyn tâl, a chostau cynnal adeiladau tan fyddent yn cael ei gwerthu. Mi fydd y costau yma yn rhan o achos busnes, pe gwireddir yr opsiwn, pan fydd nifer yr opsiynau wedi eu cwtogi.

**Opsiwn 6: Adeiladu ysgol gynradd newydd yn Gaerwen i 150 o blant yn lle Ysgol Esceifiog**

Opsiwn 6a – ar y safle presennol
Opsiwn 6b – ar safle amgen (cae pêl droed cyfagos)

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Costau ychwanegol | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 6a | £5,600,000 | £541,759 | £0 | £0 |
| Costau ychwanegol | £541,759 | Cost net y prosiect | £5,600,000 | |
| | | Cost i'w gyllido | £2,800,000 | |

Mae'r costau ychwanegol net amcangyfrifedig yr opsiwn hwn yn £541,759 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £5,600,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £2,800,000 o fenthyca di-gefnogaeth yn £129,080 y flwyddyn.

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Costau ychwanegol | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 6a | £5,950,000 | £541,759 | £0 | £240,000 |
| Costau ychwanegol | £541,759 | Cost net y prosiect | £5,710,000 | |
| | | Cost i'w gyllido | £2,735,000 | |

Mae'r costau ychwanegol net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £541,759 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £5,710,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £2,735,000 o fenthyca di-gefnogaeth yn £126,084 y flwyddyn.

**Opsiwn 8: Addasu Ysgol Esceifiog**

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Costau ychwanegol | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 8 | £2,380,000 | £11,626 | £0 | £0 |
| Costau ychwanegol | £11,626 | Cost net y prosiect | £2,380,000 | |
| | | Cost i'w gyllido | £1,190,000 | |

Mae'r costau ychwanegol net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £11,626 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £2,380,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £1,190,000 o fenthyca di-gefnogaeth yn £54,859 y flwyddyn.

Crynhoir y ffigyrau am opsiynau 6 ac 8 yn y isod:

| Opsiwn | Cost i'w gyllido | Cost neu (Arbediad) net | Cost benthyca'r flwyddyn |
|---|---|---|---|
| 6a | 2,800,000 | 541,759 | 129,080 |
| 6b | 2,735,000 | 541,759 | 126,084 |
| 8 | 1,190,000 | 11,626 | 54,859 |

Gweler mai opsiwn 8 sef Addasu Ysgol Esceifiog yw'r opsiwn mwyaf fforddiadwy er nad yw'n arwain at arbedion. Er hynny, ni fyddai opsiwn 8 yn arwain at lefydd gweigion o angenrheidrwydd.

## 15. ARGYMHELLIAD

O ystyried y pwyntiau uchod, argymhellir y dylid cymeradwyo Opsiwn B sy'n cynnwys:

Opsiwn 3, sef adeiladu un ysgol yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd; a
Opsiwn 8, sef addasu Ysgol Esceifiog; a
*Opsiwn 7 – bydd angen ail ymgynghori ar yr opsiwn yma sef ymestyn Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn; a*
Opsiwn 9, sef addasu Ysgol Henblas.

Byddai angen i unrhyw ailfodelu mynd i'r afael â'r materion traffig a nodwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys y ffederasiwn o Ysgol Henblas gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar safle'r presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

**Atodiad 1**

**Ysgol Gymuned Bodffordd**

**Llythyr ymateb Staff (Athrawon a Staff Ategol) Ysgol Gymuned Bodffordd i'r**

**Ddogfen Ymgynghori Statudol ar Ysgolion Dalgylch Llangefni**

**12.3.2017**

Annwyl Syr / Madam,

Dymuna staff – Athtawon a Staff Ategol Ysgol Gymuned Bodffordd leisio'u gwrthwynebiad i'r ddau opsiwn sydd wedi'i osod yn y ddogfen Ymgynghoriad Statudol ar ddyfodol ysgolion Dalgylch Llangefni, yn wyneb nad oes yr un opsiwn yn ystyried cynnal Ysgol Gymuned Bodffordd i'r ddyfodol.

Rydym yn derbyn bod angen ysgol newydd yn ardal tref Llangefni ond rydym oll fel aelodau staff yn anfodlon iawn gyda'r ddau opsiwn gaiff eu cynnig yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol. Teimlwn fod yr hyn sydd yn cael ei gynnig fel opsiwn yn anaddas ac yn anghyfiawn.

Mae yna argraff fod y broses ymgynghori yn cynnig annhegwch - 2 opsiwn sydd ar gyfer yr ymgynghoriad ac mae'r ddau opsiwn yn cynnwys cau Ysgol Gymuned Bodffordd. Mae'r ddwy opswin yn ffafrio Ysgol Esceifiog. Yn wahanol i'r ardaloedd eraill lle mae ymgynghori wedi digwydd, yn achos ardal Llangefni nid yw lleoliad yr ysgol 'newydd' yn gyhoeddus. Daeth y nifer fwyaf o ymatebion i'r ymgynhoriad anstatudol o Ysgol Gymuned Bodffordd. Er hynny pederfyniad i'w chau sydd yn yr opsiynnau ymgynghoriad statudol. Cawn argraff o'r ddogfen bod y penderfyniad ynghylch dyfodol yr ysgol wedi ei wneud yn barod gan y Cyngor. Dyma yw teimlad rhieni hefyd. Mae'n siomedig nad oes lle ar y ffurflen ymateb swyddogol sydd yn cynnig dewis gwrthod yr opsiynnau.

Fel staff, rydym yn teimlo'r un fath a'r Llywodraethwyr ac am dynnu eich sylw i'r materion a'r ffactorau canlynol eto:

- Dewis rhieni dros pa ysgol sydd i'w plant yn cael ei danseilio. Ar gyfer rhieni ardal Bodffordd caiff y dewis ei ddiddymu ar benderfyniad i gau Ysgol Gymuned Bodffordd. Byddai, i bob pwrpas, orfodaeth arnynt i symud i leoliad ysgol newydd. Mae mwyafrif llethol o rieni disgyblion all-ddalgylch yr ysgol wedi dod i Ysgol Gymuned Bodffordd drwy ddewis personol. 2 ddisgybl sydd yn gost Awdurdod sydd yn teithio o ardal Trefor. Daw'r disgyblion all-ddalgylch yma drwy ddewis rhieni ac ar gost personol.
- Ansicrwydd llwyr ynghylch a swyddi a chyflogaeth i'r dyfodol.
- Mae cefnogaeth rhieni i barhad bodolaeth Ysgol Gymuned Bodffordd yn parhau i fod yn llwyr er fod yr opsiynnau yn yr Ymgynghoriad Statudol yn gwbl ddi-ystyriol i gynnal yr ysgol. Hyderwn y bydd nifer o ymatebion rhieni, teuluoedd a chymdogion lleol unwaith eto. Mae'r rhieni mewn sgyrsiau gyda ni fel staff yn anfodlon iawn o'r drefn ymgynghori.
- Mae cryfder naws ac ethos ofalgar, teuluol, cynhaliol, cymunedol a Chymreig yr ysgol yn gwbl amlwg. Yn ein barn ni mae'r ysgol yn hyrwyddo'r ethos a ddisgwyliwn mewn ysgol o'r fath. Mae enw da i'r ysgol yn lleol ac mae'r parch tuag at yr ysgol a'i staff yn fawr yn lleol a thu hwnt. Mae hyn yn ei hun yn hywryddo penderfyniad rhieni presennol dros ddewis yr ysgol hon i'w plant.

- Fel staff rydym wedi gweithio'n ddygn i ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Arolwg ESTYN ym Mehefin 2015. Mae cynnydd cryf a da iawn wedi ei nodi ar gyfer yr argymhellion gweithredu ac mae'r Pennaeth yn parhau i geisio cynyddu a sicrhau gwydnwch yr ysgol. Mae ffocws pawb yma ar barhau i symud yr ysgol yn ei blaen, yn effeithiol. Y tristwch yw bod y drefn ymghynghori yn effeithio ein moral ac yn tynnu sylw.
- Fel staff rydym yn sicrhau ein bod yn rhoi mynediad i amrywiaeth o dechnoleg fodern ac yn hybu llythrennedd digidol ac yn gwneud yn sicr bod y dechnoleg yn newydd. Mae cyflwr cyffredinol dda tu mewn ac yn allanol i'r adeilad. Mae'r Pennaeth a'r staff wedi ymateb i her canfyddiadau a gwendidau amlygwyd yn dilyn arlog Estyn ac wedi sicrhau symudiad o gategori monitro Estyn ac wedi parhau i weithio i gryfhau gwydnwch a capasiti i weithredu mor effeithiol a phosibl. Nid safonau cyrhaeddiad yn unig yw unig ffocws ysgol na'r unig linnyn mesur llwyddiant ysgol. Mae yna lawer mwy yn rhan o ddatblygiad y disgybl fel person cyfan. Mae ymdrechion i sicrhau gofal lles, arweiniad, cynhaliaeth a rhoi ystyriaeth i les emosiynol, profiadau amrywiol a sicrhau cyfleoedd i'w digyblion yn gryfder Ysgol Gymuned Bodffordd a'i staff.
- Mae Mudiad Meithrin Bodffordd wedi'i lleoli yn Neuadd yr ysgol (Y Ganolfan) yn arwain y sector yn ôl Estyn. Mae'n rhan annatod o gychwyn taith plant yr ardal drwy eu taith addysgol. Mae'r cyswllt yn gryf ac yn effeithiol rhwng y Mudiad a'r ysgol. Mae'r cydweithio yma yn cyfrannu at safonau.
- Mae'r ysgol yn rhan annatod o gymuned ddiwylliadol a Chymreig fyw. Mae'r ysgol yn hwb cymunedol, yn union yn ôl disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Mae natur diwylliant yr ardal yma yn unigryw, ac mae natur diwylliadol yr ardal yn treiddio i'r ysgol. Mae'r cyswllt yn gryf rhwng yr ysgol ag Eisteddfod Gadeiriol Bodffordd, Bodffordd Cyf, a Chylch Meithrin Bodffordd i enwi dim ond tri. Mae'r cyswllt cymunedol yn gryf yma. Mae ofn byddai hyn yn pylu dros amser pe na fyddai ysgol ym Modffordd.
- Gallasai penderfyniad i gau'r ysgol chwalu cymuned fyw – a drwy hynny yn mynd yn groes i D**deddf Llesiant** Llywodraeth Cymru (Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn bodoli ers 1 Ebrill 2016). Mae'r gyfraith yma'n bodoli i sicrhau bod Cymru'n lle gwell i ni fyw ynddo nawr ac yn lle gwell i bobl fyw ynddo yn y dyfodol. 2 o fwriadau'r ddeddf, ymhlith sawl un, yw sicrhau:
  - ❖ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
  - ❖ Cymru o gymunedau cydlynus.

  Mae 7 bwriad i'r ddeddf. Byddai dewis cau Ysgol Gymuned Bodffordd yn mynd yn groes i'r hyn mae'r Ddeddf yn ceisio'i sicrhau a'i gynnal. Pa effaith fyddai cau ysgol y gymuned yn ei gael ar ffactorau lleol. Byddai yna effaith ar brisiau tai lleol. Byddai colli ysgol yn andwyo dewis pobl i fyw ym Modffordd. Byddai perygl na fyddai teuluoedd ifanc yn sefydlu eu hunain yn y pentref. Byddai pryder o golli gweithgareddau diwylliadol Cymreig a byddai yna ddirywiad mewn ymglymiad plant lleol i weithgareddau lleol. Byddai cau Ysgol Gymuned Bodffordd yn dylanwadu ar natur a strwythur poblogaeth y pentref.

- Mae safle Ysgol Gymuned Bodffordd yn cynnig darpariaeth Mudiad Meithrin a dosbarth Meithrin. Nid yw sawl ysgol yn gallu cynnig hyn. Mae hyn yn nodwedd atyniadol i'r ysgol.
- Mae Cylch Meithrin Bodffordd yn arwain y sector mewn sawl agwedd ac yn rhannu'r safle gyda'r ysgol. Maent ewydd dderbyn hawl i gynyddu rhif derbyn i 20 o blant. Mae synergedd naturiol rhwng y Cylch Meithrin a'r Ysgol i ddatblygu Cymry bach lleol y dyfodol. Mae'r cyd-

weithio rhwng y Cylch a’r ysgol yn agwedd gref iawn. Byddai cau’r ysgol yn peryglu bodolaeth y Mudiad ym marn ei harweinwyr.

- Mae’r cyd-weithio rhwng y Gymuned, y Pennaeth a’r ysgol yn esmwyth ac yn effeithiol. Mae’r Ganolfan sydd dan reolaeth yr ysgol, yn fwrlwm cyson gyda’r nos yn ystod yr wythnos. Os oes gofyn, caiff yr ysgol ei defnyddio hefyd.
- Mae busnesau lleol yn dibynnu ar leoliad yr ysgol. Mae’r ysgol yn elwa o leoliad Blodyn Tatws fel Meithrinfa lleol sydd yn cynnig swyddi lleol i bobl yr ardal. Pobl ardal Bodffordd sydd yn yn cael eu cyflogi yn y Cylch Meithrin. Mae yna synergaeth i’r cyd-weithio yma.
- Caiff yr ysgol a’i lleoliad ei ddefnyddio gan nifer o sefydliadau lleol ac ehangach. Caiff plant y pentref ddefnyddio cae’r ysgol i chwarae’n ddiogel. Caiff Gŵyl Bel-droed Blynyddol Osian Roberts ac Eisteddfod Gadeiriol Bodffordd ei chynnal yma. Mae’r safle yn cael ei defnyddio fel gorsaf bleidleisio i’r ardal a caiff Gwyliau Drama a llenyddol eu cynnal yma. Ar adegau, caiff yr holl adeilad ei ddenyddio gan y Gymuned. Mae’r Pennaeth a’r ysgol yn cydweithio’n ddi-lol gyda’r gymuned ac mentrau lleol a thu hwnt.
- Rhwng y dosbarth Meithrin a gweddill yr ysgol mae 78 o ddisgyblion yn yr ysgol. Nid oes llefydd gweigion yn Ysgol Gymuned Bodffordd. Mae’r ysgol yn llawn o ran nifer disgyblion. Mae hynny yn amlygu poblogrwydd cynyddol yr ysgol a hawl rhieni i ddewis lleoliad ysgol eu plant.

**Opsiwn ychwanegol / amgenach i'w hystyried**

Fel y Llywodraethwyr, rydym o'r farn y dylai'r broses ystyried opsiwn amgenach ar gyfer lleddfu y gofyn am leoedd yn ardal Llangefni. Ystyriwn mai problem drefol i Langefni yn unig yw'r diffyg lleoedd yn y bôn ac mae wedi bod felly ers sawl blwyddyn. Mae angen ysgol newydd i ysgafnhau ar y gofyn am leoedd yn nhref Llangefni, mae hynny'n sicr. Rydym yn gweld yr angen am adeilad newydd i gwrdd a'r gofyn am lleoedd ar gyfer Ysgol Corn Hir. Ystyriwn y dylid rhoi ystyriaeth i opsiwn adeiladu safle newydd i gwrdd a gofynion lleoedd ar gyfer anghenion Corn Hir ac Ysgol Talwrn. Byddai gwneud hyn yn lleddfu'r pwysau ar ofyn am leoedd yn drefol a gallasai'r adeilad newydd fod ar gael i gwrdd a'r gofyn ar gyfer disgyblion y ddwy ysgol drefol. Efallai byddai dal angen estyniad i Ysgol Y Graig, ond er mwyn lleddfu'r angen am leoedd yn ardal dalgylch Y Graig fyddai hynny. Byddai disgyblion yr ardaloedd gyda opsiwn dwy ysgol drefol fawr i fynychu. Ystyriwn na fyddai angen ystyried cau Ysgol Gymuned Bodffordd o fewn opsiwn o'r fath. Byddai angen ysgolion lloeren ar gyfer yr ardal – rheiny fyddai Ysgol Henblas ac Ysgol Gymuned Bodffordd. Byddai hyn yn cynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn cefnogi tebygolrwydd pendant o gynnydd mewn niferoedd plant ysgol yn drefol a thu hwnt.

Yn wyneb datblygiadau Coleg Menai, mae angen i'r Awdurdod a'r Cyngor gynllunio ar gyfer y dyfodol a'r cynnydd sicr a pharhaol sydd am fod yn drefol am leoedd yn ei hysgolion.

Nid oes gwadu bod problem diffyg lleoedd i blant ysgolion yn Llangefni. Adeiladwch ysgol newydd i leddfu'r diffyg lle yn Llangefni a chroeso, ond dylid cadw Ysgol Gymuned Bodffordd ar agor er mwyn sicrhau parhad cymuned ddiwyddiadol, Cymreig a hyfyw ac er mwyn lleddfu ar alw am leoedd a fydd siwr o godi eto gyda thwf Llangefni. Ystyriwn nad yw'r broses ymgynghori yn edrych ddigon i'r dyfodol a chymryd i ystyriaeth cynlluniau trefol y dyfodol yn llawn.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

**Atodiad 2**

**Ysgol Gymuned Bodffordd**

**Llythyr ymateb Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Bodffordd i'r**

**Ddogfen Ymgynghori Statudol ar Ysgolion Dalgylch Llangefni**

**8.3.2017**

Annwyl Syr / Madam,

Dymuna Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Bodffordd leisio'u gwrthwynebiad unfrydol i'r ddau opsiwn sydd wedi'i osod yn y ddogfen Ymgynghoriad Statudol ar ddyfodol ysgolion Dalgylch Llangefni, yn wyneb nad oes yr un opsiwn yn ystyried cynnal Ysgol Gymuned Bodffordd i'r ddyfodol.

Rydym yn cydnabod bod yna broblem eisiau ei ddatrys yn y dalgylch o ran ysgolion y llawn, ond rydym oll fel llywodraethwyr yn unfrydol, byddai gweithredu opsiwn i gau Ysgol Gymuned Bodffordd yn gwbl anaddas ac yn anghyfiawn ac yn cael effaith andwyol ar ardal Gymreig a diwylliadol tu hwnt.

Mae yna argraff fod y broses ymgynghori yn annheg. Felly mae rhieni a'r cyhoedd yn teimlo. 2 opsiwn sydd ar gyfer yr ymgynghoriad ac mae'r ddau opsiwn yn cynnwys cau Ysgol Gymuned Bodffordd. Mae'r ddau opswin yn ffafrio Ysgol Esceifiog ac Ysgol Henblas yn benodol. Yn wahanol i'r ardaloedd eraill lle mae ymgynghori eisioes wedi digwydd, yn achos ardal Llangefni nid yw lleoliad yr ysgol 'newydd' yn gyhoeddus er mae negeseuon gwahanol yn dod o gyfeiriad rhieni Corn Hir. Daeth y nifer fwyaf o ymatebion i'r ymgynhoriad anstatudol o Ysgol Gymuned Bodffordd. Er hynny dymuniad i'w chau sydd yn yr opsiynnau ymgynghoriad statudol. Caiff rhieni yr argraff o'r ddogfen bod y penderfyniad ynghylch dyfodol yr ysgol wedi ei wneud yn barod gan y Cyngor. Nid yw'r ffurflen ymateb swyddogol yn cynnig dewis gwrthod yr opsiynnau.

Unwaith eto dymunem dynnu eich sylw i'r materion a'r ffactorau canlynol:

- Dewis rhieni dros pa ysgol sydd i'w plant yn cael ei danseilio. Ar gyfer rhieni ardal Bodffordd caiff y dewis ei ddiddymu ar benderfyniad i gau Ysgol Gymuned Bodffordd. Byddai, i bob pwrpas, orfodaeth arnynt i symud i leoliad ysgol newydd. Mae mwyafrif llethol o rieni disgyblion all-ddalgylch yr ysgol wedi dod i Ysgol Gymuned Bodffordd drwy ddewis personol. 2 ddisgybl sydd yn gost Awdurdod sydd yn teithio o ardal Trefor. Daw'r disgyblion all-ddalgylch yma drwy ddewis rhieni ac ar gost personol.
- Mae cefnogaeth rhieni i barhad bodolaeth Ysgol Gymuned Bodffordd yn parhau i fod yn llwyr er fod yr opsiynnau yn yr Ymgynghoriad Statudol yn gwbl ddi-ystyriol i gynnal yr ysgol. Hyderwn y bydd nifer o ymatebion rhieni, teuluoedd a chymdogion lleol unwaith eto yn datgan gwrthwynebiad i gau'r ysgol.
- Mae cryfder naws ac ethos ofalgar, teuluol, cynhaliol, cymunedol a Chymreig yr ysgol yn gwbl amlwg. Yn ein barn ni mae'r ysgol yn hyrwyddo'r ethos a ddisgwyliwn mewn ysgol o'r fath. Mae enw da i'r ysgol a'i staff ac mae'r parch tuag at yr ysgol a'i staff yn fawr yn lleol a thu hwnt. Mae hyn yn ei hun yn hywryddo penderfyniad rhieni dros ddewis yr ysgol i'w plant.

- Mae'r staff wedi gweithio'n ddygn i ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Arolwg ESTYN ym Mehefin 2015 gyda GwE. Mae cynnydd cryf a da iawn wedi ei nodi ar gyfer yr argymhellion gweithredu ac mae'r Pennaeth yn parhau i sicrhau gwydnwch yr ysgol. Mae ffocws pawb yma ar symud yr ysgol yn ei blaen ac yn effeithiol.
- Mae Ysgol Gymuned Bodffordd yn sicrhau ei bod yn rhoi mynediad i amrywiaeth o dechnoleg fodern ac yn hybu llythrennedd digidol ac yn gwneud yn sicr bod y dechnoleg yn newydd. Mae cyflwr cyffredinol dda tu mewn ac yn allanol i'r adeilad. Mae'r Pennaeth a'r staff wedi ymateb i her canfyddiadau a gwendidau amlygwyd yn dilyn arlog Estyn ac wedi sicrhau symudiad o gategori monitro Estyn ac wedi parhau i weithio i gryfhau gwydnwch a capasiti i weithredu mor effeithiol a phosibl. Nid safonau cyrhaeddiad yn unig yw unig ffocws ysgol na'r unig linnyn mesur llwyddiant ysgol. Mae yna lawer mwy yn rhan o ddatblygiad y disgybl fel person cyfan. Mae ymdrechion i sicrhau gofal lles, arweiniad, cynhaliaeth a rhoi ystyriaeth i les emosiynol, profiadau amrywiol a sicrhau cyfleoedd i'w digyblion yn gryfder Ysgol Gymuned Bodffordd a'i staff.
- Mae Mudiad Meithrin Bodffordd wedi'i lleoli yn Neuadd yr ysgol (Y Ganolfan) yn arwain y sector yn ôl Estyn. Mae'n rhan annatod o gychwyn taith plant yr ardal drwy eu taith addysgol. Mae'r cyswllt yn gryf ac yn effeithiol rhwng y Mudiad a'r ysgol. Mae'r cydweithio yma yn cyfrannu at safonau.
- Mae'r ysgol yn rhan annatod o gymuned ddiwylliadol a Chymreig fyw. Mae'r ysgol yn hwb cymunedol, yn union yn ol disgwyliadau'r Cynulliad. Mae natur diwylliant yr ardal yma yn unigryw ac mae natur diwylliadol yr ardal yn treiddio i'r ysgol. Mae'r cyswllt yn gryf rhwng yr ysgol ag Eisteddfod Gadeiriol Bodffordd, Bodffordd Cyf, a Chylch Meithrin Bodffordd i enwi dim ond 3. Mae'r cyswllt cymunedol yn gryf yma.
- Ystyiwn y gallasai penderfyniad i gau'r ysgol chwalu cymuned fyw – a drwy hynny yn mynd yn groes i D**deddf Llesiant** Llywodraeth Cymru (Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn bodoli ers 1 Ebrill 2016). Mae'r gyfraith newydd eisiau sicrhau bod Cymru'n lle gwell i ni fyw ynddo nawr ac yn lle gwell i bobl fyw ynddo yn y dyfodol. 2 o fwriadau'r ddeddf, ymhlith sawl un, yw sicrhau:
  - ❖ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
  - ❖ Cymru o gymunedau cydlynus.

  Byddai dewis cau Ysgol Gymuned Bodffordd yn mynd yn groes i'r hyn mae'r Ddeddf yn ceisio'i sicrhau a'i gynnal. Pa effaith fyddai cau ysgol y gymuned yn ei gael ar ffactorau lleol. Byddai yna effaith ar brisiau tai lleol. Byddai colli ysgol yn andwyo dew pobl i fyw ym Modffordd. Byddai perygl na fyddai teuluoedd ifanc yn sefydlu eu hunain yn y pentref. Byddai pryder o golli gweithgareddau diwylliadol Cymreig a byddai yna ddirywiad yn ymglymiad plant lleol i weithgareddau lleol. Byddai cau Ysgol Gymuned Bodffordd yn dylanwadu ar natur a strwythur poblogaeth y pentref.
- Mae safle Ysgol Gymuned Bodffordd yn cynnig darpariaeth Mudiad Meithrin a dosbarth Meithrin. Nid yw sawl ysgol yn gallu cynnig hyn. Mae'r safle yn cynnig y cyfle i wneud hyn ac ymestyn arno yn ein barn ni.
- Mae Cylch Meithrin Bodffordd yn arwain y sector mewn sawl agwedd ac yn rhannu'r safle gyda'r ysgol . Maent newydd dderbyn hawl i gynyddu rhif derbyn i 20 o blant. Mae synergedd naturiol rhwng y Cylch Meithrin a'r Ysgol i ddatblygu Cymry bach lleol y dyfodol. Mae'r cyd-weithio rhwng y Cylch a'r ysgol yn agwedd gref iawn. Byddai cau'r ysgol yn peryglu bodolaeth y Mudiad ym marn ei harweinwyr.

- Mae'r cyd-weithio rhwng y Gymuned, y Pennaeth a'r ysgol yn esmwyth ac yn effeithiol. Mae'r Ganolfan sydd dan reolaeth yr ysgol, yn fwrlwm cyson gyda'r nos yn ystod yr wythnos. Os oes gofyn, caiff yr ysgol ei defnyddio hefyd.
- Mae busnesau lleol yn dibynnu ar leoliad yr ysgol. Mae'r ysgol yn elwa o leoliad Blodyn Tatws fel Meithrinfa lleol sydd yn cynnig swyddi lleol i bobl yr ardal. Pobl ardal Bodffordd sydd yn yn cael eu cyflogi yn y Cylch Meithrin. Mae yna synergaeth i'r cyd-weithio yma.
- Caiff yr ysgol a'i lleoliad ei ddefnyddio gan nifer o sefydliadau lleol ac ehangach. Caiff plant y pentref ddefnyddio cae'r ysgol i chwarae'n ddiogel. Caiff Gŵyl Bel-droed Blynyddol Osian Roberts ac Eisteddfod Gadeiriol Bodffordd ei chynnal yma. Mae'r safle yn cael ei defnyddio fel gorsaf bleidleisio i'r ardal a caiff Gwyliau Drama a llenyddol eu cynnal yma. Ar adegau, caiff yr holl adeilad ei ddenyddio gan y Gymuned. Mae'r Pennaeth a'r ysgol yn cydweithio'n ddi-lol gyda'r gymuned.
- Rydym yn deall bod ysgolion nad ydynt yn llawn yn llyncu adnoddau ac arian, ond mae Ysgol Gymuned Bodffordd bellach yn llenwi os nad yn llawn. Nid oes lle yn y Cyfnod Sylfaen. Rhwng y dosbarth Meithrin a gweddill yr ysgol mae 78 o ddisgyblion yn yr ysgol. Nid oes llefydd gweigion yn Ysgol Gymuned Bodffordd. Mae'r ysgol yn llawn o ran nifer disgyblion. Mae hynny yn amlygu poblogrwydd cynyddol yr ysgol a hawl rhieni i ddewis lleoliad ysgol eu plant.
- Bydd angen ysgolion lloeren i'r ardal nawr ac i'r dyfodol yn sicr.
- **Costau -** Teimlwn nad yw'r ffigyrau costau yn gwneud synnwyr o fynd i fewn i'r ffigyrau yn y ddogfen o edrych arnynt yn fanwl.

**Opsiwn ychwanegol / amgenach i'w hystyried**

Ystyriwn fel Corff Llywodraethol y dylai'r broses ystyried opsiwn amgenach ar gyfer lleddfu y gofyn am leoedd yn ardal Llangefni. Ystyriwn mai problem drefol yw'r diffyg lleoedd yn y bôn ac mae wedi bod felly ers sawl blwyddyn bellach. Mae wir angen ysgol newydd i ysgafnhau ar y gofyn am leoedd yn Llangefni, mae hynny'n sicr. Rydym yn gweld yr angen am adeilad newydd i gwrdd a'r gofyn am lleoedd ar gyfer Ysgol Corn Hir. Ystyriwn y dylid rhoi ystyriaeth i opsiwn adeiladu safle newydd i gwrdd a gofynion lleoedd ar gyfer anghenion Corn Hir ac Ysgol Talwrn. Byddai gwneud hyn yn lleddfu'r pwysau ar ofyn am leoedd yn drefol a gallasai'r adeilad newydd fod ar gael i gwrdd a'r gofyn ar gyfer disgyblion y ddwy ysgol drefol. Efallai byddai dal angen estyniad i Ysgol Y Graig, ond er mwyn lleddfu'r angen am leoedd yn ardal dalgylch Y Graig fyddai hynny. Byddai disgyblion yr ardaloedd gyda opsiwn dwy ysgol drefol fawr i fynychu. Ystyriwn na fyddai angen ystyried cau Ysgol Gymuned Bodffordd o fewn opsiwn o'r fath. Byddai angen ysgolion lloeren ar gyfer yr ardal – rheiny fyddai Ysgol Henblas ac Ysgol Gymuned Bodffordd. Byddai hyn yn cynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn cefnogi tebygolrwydd pendant o gynnydd mewn niferoedd plant ysgol yn drefol a thu hwnt.


Yn wyneb datblygiadau Coleg Menai, mae angen i'r Awdurdod a'r Cyngor gynllunio ar gyfer y dyfodol a'r cynnydd sicr a pharhaol sydd am fod yn drefol am leoedd yn ei hysgolion.


Nid oes gwadu bod problem diffyg lleoedd i blant ysgolion yn Llangefni. Adeiladwch ysgol newydd i leddfu'r diffyg lle yn Llangefni ond dylid cadw Ysgol Gymuned Bodffordd ar agor er mwyn sicrhau parhad cymuned ddiwyddiadol, Cymreig a hyfyw.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

Ar ran Corff Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Bodffordd

| GWESTIWN | YMATEB | SYLWADAU |
|---|---|---|
| Ydych chi'n cytuno gyda'r rhesymau dros newid? |   Answer Choices / Responses: Ydw 100.00% 11; Nac ydw 0.00% 0 <br>! | Mae Ysgol Corn Hir erbyn hyn yn amlwg yn orlawn o ran maint yr ystafelloedd dosbarth, y neuadd a'r ardal barcio tu allan.<br><br>Does dim digon o le ar gyfer y disgyblion.<br><br>Nid oes digon o le yn adeilad Corn Hir ar gyfer nifer y disgyblion sydd yma ar hyn o bryd.<br><br>Nid yw adeilad ysgol Corn Hir bellach yn addas oherwydd niferoedd plant.<br><br>Mae'r rhagolygon ar gyfer niferoedd mynediad Ysgol Corn Hir yn golygu bod adeilad yr ysgol yn rhy fach i gwrdd a'r gofynion. Mae angen sefydlu cynllun i ddatblygu ag ehangu adeiladau'r ysgol.<br><br>Diffyg gofod yn gyffredinol yn ddrwg iawn ym mhob dosbarth. Hefyd angen buddsoddi arian i greu ardaloedd addas thu allan ar gyfer plant y cyfnod sylfaen. |

| CWESTIWN | YMATEB | SYLWADAU |
|---|---|---|
| Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Bodffordd? |  | Fel cyn ddisgybl yn Ysgol Bodffordd, gresyn i mi yw meddwl cau yr ysgol. Pwysleiswyd mewn cyngerdd yno ychydig dros wythnos yn ôl, Ysgol Gymuned yw Bodffordd felly mae oblygiadau cau'r ysgol yn bell gyrhaeddol. Wedi dweud hynny, mae cau ac ymuno yn amlwg yn ymddangos yn ateb ymarferol i'r sefyllfa sydd ohoni. Oherwydd hyn teimlaf y dylem adael i Bodffordd gynnal eu ymgynhoriad eu hunain yn gyntaf a gweld beth ddaw o hwnnw ond os mai ymuno fydd canlyniad hyn oll mi fydd hi'n bwysig i'r ysgol newydd fod yn sensitif i hyn. |

!

Mae Bodffrodd yn agos iawn i Corn Hir

Anodd ymateb yn deg ar hyn o bryd mi fydd trafodaethau i'r dyfodol fydd yn gallu creu y patrwm ac yn sicr bydd llawer o gwestiynau ond o ran agosrwydd dwy ysgol mae'n syniad sy'n gallu rhoi atebion.


Hyn yn galluogi I ddisgyblion Bodffordd a Corn Hir fanteisio ar adeilad ac adnoddau newydd

Arolwg Bodffordd wedi amlygu’r pwysau sydd ar benaethiaid sy’n dysgu

Newid yn rhan o weledigaeth yr AALl o gael penaethiaid di-gyswllt


Os oes ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Ysgol Corn Hir oes ystyriaeth i’r gymuned fanteisio ar logi’r ysgol fel adeilad cymunedol os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Corn Hir?




!

- Yn dilyn y cyfarfod gyda swyddogion yr Adran Addysg, roedd yn amlwg i mi nad oedd dim un opsiwn arall heblaw 6.2.9 yn bosib. Os yw fy nealltwriaeth yn gywir, er mwyn derbyn cyllid gan y Llywodraeth i gyd ariannu mae'n rhaid i unrhyw gynllun fod yn cwrdd ag amcanion y cynllun datblygu ysgolion. Byddai hyn yn golygu bod yn rhaid i ysgol newydd gael ei sefydlu i uno Corn Hir a Bodffordd. Heb arian gan y Llywodraeth i gyd ariannu, fyddai dim digon o arian gan y Cyngor Sir i arainnu ysgol newydd/ datblygu Ysgol Corn Hir.
- Cynnwys Ysgol Henblas yn yr ysgol newydd. Newid ffiniau'r dalgylchoedd fel bod yr ysgol newydd yn lleihau'r gwasgedd ar Ysgol Y Graig.
- Hoffwn weld enw Ysgol Corn Hir yn parhau yn hytrach na rhoi enw newydd i'r ysgol. Mae gan yr ysgol enw da wedi bod ar hyd y blynyddoedd ac mae'n ysgol yn y band Gwyrdd
- Mae angen pictiwr cliriach lle mae plant yn gallu rhoi cais am fynediad i'r ysgol ee lle yn y dref mae llinell derfyn? Mae ysgol newydd yn mynd i dalu ar ei chanfed ac yn mynd i roi lle nid yn unig i'r plant ond i'r staff gael lle i weithio heb law stafell athrawon!! Pa ysgol bynnag ddaw at yr ysgol cofio mai Ysgol Corn Hir fydd hi!
- Nid oes lle i dderbyn mwy o blant. Yn ychwanegol i hyn, nid yw'r dosbarthiadau presennol yn cyd- ymffurfio a'r mesuriadau sy'n cael eu cysidro'n dderbyniol. O ganlyniad, mae'r plant ar ben ei gilydd. Nid oes lle digonol ar gyfer staff i gyd-weithio, swyddfa ddigonol i'r Pennaeth, ystafelloedd gotiau addas i'r disgyblion, ystafell dargedu/cynnal cyfarfodydd.
- Hyn yn gwneud synwyr yn ariannol - cyllid gan Llywodraeth Cymru yn bosibl gyda'r opsiwn yma
- Byddai buddiannau amgylcheddol sylweddol yn dod gyda ysgol newydd e.e. gwell trefniadau parcio a diogelwch maes parcio, mannau addas i ollwng plant, arbed arian yn y tymor hir gyda adeilad gwell parthed defnydd o egni, gwresogi ayyb, gwell ystyriaeth i les staff drwy sicrhau ystafell addas ar gyfer CPA, cyfarfodydd, cawod i'r rhai sy'n dymuno beicio i'r ysgol ayyb.
- Byddai safle newydd yn galluogi cynllunio ar gyfer creu canolfan gymunedol i gynnwys neuadd, cae aml ddefnydd aml dywydd, ystafelloedd cyfarfod fyddai ar gael i gynnal gwahanol weithgareddau min nos, yn caniatau cyfleoedd clwb brecwast a chlwb gofal mewn man addas - nid adeilad ysgol yn unig - rhywbeth sydd ar goll yn Llangefni ar hyn o bryd a fyddai'n ymateb i ofynion
- Byddai ysgol newydd yn caniatau i'r Ysgol Corn Hir ostwng oed mynediad i dderbyn plant meithrin yn ogystal sydd wedi bod yn fwriad yma. Byddai hefyd yn bosib cyfuno'r cylchoedd meithrin ar y safle er mwyn arbed costau ar y cylchoedd yn ogystal. Dylid ystyried sicrhau ystafell benodoal ar eu cyfer a sicrhau gwasanaeth 'wrap around' ar gyfer gyfer plant oed meithrin ysgol ar cylch.
- Wrth ddewis safle newydd i'r ysgol dylid sicrhau bod digon o le i'r ysgol ehangu pe tasa'r angen yn codi y dyfodol a bod y lleoliad yn galluogi'r ysgol wneud mwy o ddefnydd o'r adnoddau sydd eisioes ar gael yn Llangefni e.e. Plas Arthur, Llyfrgell ayyb

| CWESTIWN | YMATEB | SYLWADAU |
|---|---|---|
| Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Esceifiog? | <br>! | Adeiladu Ysgol newydd ar safle'r Parc Wyddonol, cyfleoedd arbennig i'r disgyblion. Uno Ysgol Esceifiog gyda Ysgol Parc Y Bont, Llanddaniel. Adleoli ffiniau'r dalgylch i leihau gwasgedd yn Ysgol Llanfair Pwll drwy gynnwys Star ac ardaloedd o Benmynydd / dalgylch Talwrn (yn ddibynnol ar beth fydd yn digwydd yno)<br><br>Ffedereiddio gyda ysgol Parc y Bont ac adeiladu estyniad yn Esceifiog.<br><br>Gellir ffedereleiddio gyda Parc y Bont lawr y lon a chodi ysgol newydd os oes angen<br><br>Anodd mynegi barn am ysgolion eraill y dalgylch heb fwy o wybodaeth.<br><br>Opsiwn yma'n golygu arbediad ariannol a modd rhannu arbenigeddau staff rhwng ysgolion, a sicrhau bod y pennaeth yn ddigyswllt sy'n rhan o weledigaeth yr AALl.<br><br>Dylid ystyried niferoedd disgyblion ADY, ystyried y strategaeth ADY newydd cenedlaethol ac edrych i greu canolfannau mewn ysgolion sy'n arbennigo mewn maesydd ADY / meddygol penodol. Byddai'r ysgolion yma yn arwain y sector yn y maesydd ac yn gallu helpu ysgolion eraill y sir. Byddant hefyd yn gallu cynnig darpariaeth i'r plant sydd ddim digon dwys i Ganolfan Addysg y Bont ond nad yw llawn amser yn y prif lif yn addas chwaith. |

Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Henblas?




!


Ymuno gyda Ysgol Corn Hir a Bodffordd mewn Ysgol newydd ar safle newydd.

Cau yr ysgol a'i ymuno ag ysgol Corn Hir newydd

Cau yr ysgol a'i hymuno a Ysgol Corn Hir newydd.


Ymuno gyda Bodfordd a Corn Hir

Ysgol Corn Hir a Bodffordd a Henblas i uno i greu un ysgol newydd gan sicrhau’r cyfleoedd gorau i ddisgyblion yr holl ysgolion. Mae data rhifau Ysgol Henblas hefyd yn ymddangos fel eu bod yn gostwng fyddai’n gallu creu sefyllfa negyddol parthed llefydd gweigion yno.

| CWESTIWN | YMATEB | SYLWADAU |
|---|---|---|
| Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Talwrn? |  ! | Mae nifer o blant ardal Talwrn yn mynychu ysgol y Graig yn barod.<br><br>Mae llawer o blant Y Graig yn gorfod mynd i Dalwrn yn barod<br><br>Safon adeilad Talwrn ddim yn dda iawn - hyn yn golygu bod disgyblion Talwrn yn cael yr un tegwch a phlant Graig<br><br>Gan fod cynifer yn dod i'r ysgol o thu allan i ddalgylch yr ysgol ac o ystyried cyflwyr yr adeilad ar hyn nad yw'n bosib ei gynnig ar y safle e.e. cae, neuadd ddigonol annoeth fyddai buddsoddi mor sylweddol i cyn lleied o blant. |

| CWESTIWN | YMATEB | SYLWADAU |
|---|---|---|

Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Y Graig?




| Answer Choices | Responses | |
|---|---|---|
| 6.6.1 - Gadael pethau fel y maent | 0.00% | 0 |
| 6.6.2 - Ffedereiddio gyda ysgol/ion eraill | 0.00% | 0 |
| 6.6.3 - Ymestyn at i fyny ymhob pen i'r ysgol | 0.00% | 0 |
| 6.6.4 - Ymestyn allan ymhob pen o'r ysgol | 11.11% | 1 |
| 6.6.5 - Ymestyn ymhob pen i gymryd disgyblion Talwrn | 88.89% | 8 |
| Dim un o'r uchod | 0.00% | 0 |

Sefyll i reswm i roi estyniad ar y Graig i dderbyn plant Talwrn ond yn ychwanegol dylid edrych yn fanwl ar ffiniau dalgylchol yr ysgol - yn draddodiadol mae'n debyg fod dalgylchoedd ysgolion sydd wedi cau wedi'i ychwanegu i un ysgol yn benodol sydd wedi ychwanegu at broblemau niferoedd e.e. dalgylch Capel Coch yn rhan o dalgylch Y Graig.

!

Tudalen 201

Oes gennych chi gynigion eraill ar gyfer Ysgol Corn Hir? Beth yw'r manteision ar anfanteision?

Credaf mai adeilad newydd yw'r unig modd i ateb yr holl ofynion a sicrhau bod safonau'n aros yn uchel.

Dim cynigion eraill ond hoffwn weld yr enw Ysgol Corn Hir yn parahau i'r adeilad newydd.

A oes angen edrych ar ddalgylch yr ysgol? A oes lle i dynnu ychydig o bwysau oddi ar Ysgol y Graig trwy ehangu dalgylch Ysgol Corn Hir?

Oes gennych chi gynigion eraill ar gyfer ysgolion eraill yr ymgynghoriad? Beth yw'r manteision ac anfanteision?

Efallai un ysgol newydd ar gyfer Bodffordd, YCH, Henblas ac Esceifiog - cynllun tebyg I Ysgol Cybi. Modd cael UDRh cryf a datblygu staff yn arweinwyr

Cau Ysgol Heblas ac ymuno gyda Corn Hir newydd

Oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw atynt neu unrhyw beth ychwanegol dylid ei ystyried?

Dylid ystyried bod angen adeilad gyda digon o le ynddi ar gyfer mwy o blant yn y dyfodol ac ar gyfer yr athrawon sydd angen lle i wneud eu gwaith cynllunio a paratoi. Rhaid cofio hefyd bod nifer o athrawon offerynau cerdd yn dod i'r ysgol a bod angen ystafell arbennig ar eu cyfer ac ar gyfer gwersi cerdd yr ysgol.

Os fydd y Cyngor yn penderfynu adeiladu Ysgol Corn Hir newydd, dylid sicrhau bod digon o le ynddi ar gyfer y dyfodol. Dylid ystyried hefyd yr angen a'r manteision o adeiladu uned Anghenion Arbennig (plant ol ddysgu) ar yr un safle.

Gan fod poblogaeth ardal Llangefni yn tyfu, credaf y byddai unrhyw gynllun i gau un a'i Ysgol Esceifiog neu Henblas yn gam yn rhy bell. Mae angen cadw capasiti i ddelio gyda phoblogaeth sy'n tyfu.

Hoffwn weld staff ysgol Corn Hir yn parhau fel aelodau o staff yn yr ysgol newydd. Mae angen ystyriad a fyddai y band gwyrdd sydd yn dangos gwaith caled staff ysgol Corn Hir dros gyfnod o amser yn parhau i'r ysgol newydd.

Hoffwn gadw yr enw Ysgol Corn Hir. Hoffwn i'r llywodraethwyr ystyried staff presennol yr ysgol i staffio'r ysgol newydd cyn hysbysebu y tu allan

| | |
|---|---|
| 1 | • Mae pawb yn cytuno ni all y sefyllfa bresennol barhau |
| 2 | • Mae pawb yn gweld nad yw cynnal Ysgol Bodffordd yn bosib a dylai'r plant drosglwyddo i ysgol newydd Corn Hir i fanteisio ar adnoddau newydd, cyflusterau modern ayyb<br>• Nodir er fod hyn yn gallu bod yn ergyd i'r pentref - mae maneision amlwg i'r plant wrth drosglwyddo.<br>• Nodwyd gan un fod Ysgol Bodffordd yn Ysgol Gymuned ond bellach mae pob ysgol yn ysgol gymuned a mae posib y bydd yr ysgol yn gallu parhau yn safle cymunedol os mai hyn yw dyheyad y gymuned yno. |
| 3 | • Mae pawb yn gytun gyda'r gwir angen o ysgol newydd ar gyfer Corn Hir i gynnwys Bodffordd ond hefyd i ystyried Ysgol Henblas yn ogystal<br>• Nodir hefyd fod cyfle hefyd i ailedrych ar ffiniau dalgylchoedd ysgolion yr ardal gan fod dalgylch rhai ysgolion wedi tyfu'n enfawr wrth i ysgolion gau a cynnyddu'r broblem mewn rhai sefydliadau unigol. Byddai gwneud hyn, ynghyd ac adeiladu ysgol newydd, yn rhyddhau rhywfaint o'r pwysau ar Ysgol y Graig ac yn rhesymoli maint y dalgylch gan ystyried hefyd fod potensial i ddalgylch Talwrn gael ei gynnwys yn ei dalgylch hefyd.<br>• Mae angen ystyried beth fydd yn digwydd i'r adeiladau fydd yn cau - fyddent yn cael eu hystyried ar gyfer defnydd cymunedol. |
| 4 | • Nodwyd fod angen edrych tu hwnt i'r opsiynnau ac edrych ar uno Ysgol Parc y Bont gyda Esceifiog cyn buddsoddi mewn estyniad ym Mharc y Bont gan adeiladu ysgol newydd yn agos i'r parc gwyddoniaeth fyddai'n agor y drws i bartneriaethau arloesol rhwng y diwydiannau fydd yno, y brifysgol ac ysgol newydd. Y Cyngor sydd eisioes yn berchen y tir sydd yno a byddai posib gwenud elw o werthu safle'r ysgol bresennol i adeiladwyr tai.<br>• Nodwyd fod ffederaleiddio yn arbed costau ac yn caniatau i'r pennaeth fod yn ddigyswllt |
| 5 | • Consenswys yw ychwanegu Ysgol Henblas i'r cynllun Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd gan greu un ysgol newydd rhwng y tair ysgol. |
| 6 | • Barn gytun y dylid cau Talwrn a symud y plant i'r Graig ond edrych ar ffiniau y dalgylch wedi'r ysgol gau gan edrych at ei rhannu rhwng Graig, Llanbedrgoch, Pentraeth ac Esceifiog |
| 7 | • Esyniad i'r ysgol i blant Talwrn ond edrych ar addasu ffiniau'r ysgol gan edrych i leihau'r dalgylch i rhyddhau pwysau tymor hir gan fanteisio ar ysgol newydd ym mhen uchaf y dref. |
| 8 | • Adeilad newydd yw'r ateb callaf mewn safle gwahanol fydd â chysylltiadau gwell parthed diogelwch plant, mannau parcio addas i staff / rhieni ayyb. |
| 9 | • Edrych ar greu un ysgol fawr |

- Mae angen ystyried sefyllfa ADY y dalgylch gan edrych i greu canolfannau mewn ysgolion sy'n arbennigo mewn cyflyrau arbennig fydd yn ganolfannau i blant âg ADY penodol ac yn ysgolion arweiniol yn ogystal.
- Mae angen adolygu ffiniau dalgylch ysgolion sy'n gallu rhyddhau pwysau mewn ysgolion eraill e.e. cynnwys Star yn ysgol Esceifiog i dynnu'r pwysau ar Llanfairpwll
- Gyda unrhyw newidiadau mewn strwythr dylid ailedrych ar delarau ac amodau gwaith y staff e.e. band cyflog y pennaeth i gynnwys ystyriaeth o redeg dwy / dair ysgol ar wahanol safleoedd nid cyfyngu i ddefnyddio cyfanswm niferoedd plant yn unig. Dylid hefyd edrych ar amodau gwaith y dirprwyon / rheolwyr safle a chydnabod eu cyfrifoldebau ychwanegol ac hefyd y 'third in command' i fod yn barod i gymryd cyfrifoldebau mewn achosion o absenoldeb - trwy salwch neu gyfarfodydd ayyb.

Atodiad 4

## Adolygiad Ysgolion Cynradd ardal Llangefni

## *Primary Schools Review in the Llangefni area*

## Ffurflen Sylwadau / *Feedback Form*

Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i glywed eich barn chi. Rhowch eich sylwadau i ni ar yr opsiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth addysg gynradd i'r dyfodol i ddisgyblion ardal Llangefni os gwelwch yn dda.
*The County Council is keen to hear your opinion. Please send us your comments on the options for the future primary education provision for pupils living in the Llangefni area.*

| | | |
|---|---|---|
| 1.Ydych chi'n cytuno gyda'r rhesymau dros newid?<br><br>*1. Do you agree with the reasons for change?* | **Ydw**<br><br>**Yes** | Nac ydw<br><br>No |
| Pam? *Why?* | Mae'r ysgol yn amlwg yn llawer rhy fach i gymryd yr holl blant sydd ynddi.<br><br>Nid yw arwynebedd y dosbarthiadau yn ddigon i'r nifer plant.<br>Nid yw'r ysgol yn cyrraedd gofynion agenda a disgwyliadau Ysgolion G21.<br><br>Mae'r threfniadau ar gyfer parcio i staff yn annigonnol ond hefyd ar gyfer rhieni a mae'r amseroedd casglu a gollwng plant yn beryglus.<br><br>Mae'r Neuadd yn llawer rhy fach i'r niferoedd disgyblion sy'n creu trafferthion parthed threfniadau cinio ac yn annigonnol ar gyfer gwersi addysg gorfforol i gynifer o blant a pherfformaiadau cyhoeddus.<br><br>Mae tref Llangefni yn tyfu a'r boblogaeth yn yr ysgolion yn cynyddu sy'n golygu fod angen mwy o ofod. | |

| | | |
|---|---|---|
| 2.Pa opsiwn ydych chi yn ei gefnogi?<br><br>*2. Which option do you favour?* | **A** | **B** |
| Pam? *Why?* | Nid oes unrhyw farn yma gan fod y ddau opsiwn ar gyfer Ysgol Corn Hir yr un fath yn opsiwn A ac opsiwn B. | |

| |
|---|
| 3. Aoes gennych gynnigion eraill?<br><br>*3. Do you have other proposals?* |
| Dim sylwadau ychwanegol i'r hyn oedd wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad cyntaf anffurfiol |

| |
|---|
| 4. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu ein sylw atynt?<br><br>*4. Are there any other matters to which you wish to draw our attention?* |
| Mae angen edrych ar ffiniau'r dalgylch yr ysgolion i weld os oes modd edrych ar leihau pwysedd ar ysgolion cyfagos – mae potensial o arbed arian wrth wneud hyn.<br><br>Mae'r galw yn lleol am ofal plant fforddiadwy yn uchel gan nad oes llawer o ddarparwyr. Mae angen sicrhau fod yr ysgol newydd yn gallu cynnig y ddarpariaeth yma (wrap around) i'r plant meithrin fydd yn dod i'r ysgol a fod digon o le yn yr adeilad newydd i ganiatau hyn yn hwylus.<br><br>Mae angen sicrhau caniatad cynllunio ar safle Ysgol Corn Hir cyn ei werthu er mwyn cael y gwerth mwyaf posib o'r safle fydd yn cyfrannu'n helaeth at gôst yr ysgol newydd a llai o ddefnydd o adnoddau ariannol y Cyngor.<br><br>Bydd rhaid cynllunio unrhyw ysgol gyda'r sgôp o ehangu pellach a gyda thiroedd eang.<br><br>Byddai angen edrych i sicrhau cynllun adeilad fydd yn caniatau defnydd llawn gan y gymuned ar gyfer pob math o ddigwyddiadau.<br><br>Gan fod gemau'r ynysoedd yn dod i Fôn yn 2025 oes modd plethu hyn i'r cynllun i greu adnodd fyddai'n addas ar gyfer yr amser honno – mae'n debyg mai'r plant sydd yn yr ysgol gynradd rwan fyddai'n rhan o'r gemau.<br><br>Byddai angel sicrhau cynllun adeilad fydd yn caniatau ardaloedd / ystafelloedd targedu grwpiau o ddisgyblion, ystafell cymorth cyntaf addas, ystafell ar gyfer cynnal cyfarfodydd, storfeydd addas, ac ardaloedd ar gyfer cynnal sesiynnau TGCh a DTh. |

| | |
|---|---|
| 5. Mae'n ddewisiol os ydych chi eisiau rhoi eich manylion yn y blwch isod<br><br>*5. It is optional if you want to enter your details in the box below* | |
| Llofnod / *Signature* | Printiwch eich enw / *Print your name*<br><br>[redacted] |
| Cyfeiriad / *Address* | Swydd / Categori'r Ymatebydd (e.e. staff ysgol, rhiant, llywodraethwr, arall)<br><br>*Post / Respondent's category (e.g. staff member, parent, governor, other)*<br><br>Staff |
| Dyddiad / Date 27.02.17 | |

Oni bai eich bod yn nodi'n wahanol, bydd eich sylwadau yn agored i'r cyhoedd fel rhan o gofnodion ffurfiol yr ymgynghoriad. Unless otherwise noted, your comments will be open to the public as part of the official records of this consultation. Dychwelwch unrhyw sylwadau at / Return any comments to:

| | |
|---|---|
| Rheolwr Rhaglen, Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, Cyngor Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW. Neu anfonwch drwy e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk | *Programme Manager, The Lifelong Learning Directorate, Anglesey Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW. Or send them by e-mail to angleseyschools@anglesey.gov.uk* |

Mae croeso i chi ddanfon unrhyw sylwadau neu gwestiynau at y Rheolwr Rhaglen tan 13 Mawrth 2017.

*You are welcome to send any comments or questions to the Programme Manager by 13 March 2017*

Cylch Meithrin
Corn Hir

**Atodiad 5**

**Adolygiad Ysgolion Cynradd ardal Llangefni**
***Primary Schools Review in the Llangefni area***
**Ffurflen Sylwadau/*Feedback Form***

Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i glywed eich barn chi. Rhowch eich sylwadau i ni ar yr opsiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth addysg gynradd i'r dyfodol i ddisgyblion ardal Llangefni os gwelwch yn dda.

*The County Council is keen to hear your opinion. Please send us your comments on the options for the future primary education provision for pupils living in the Llangefni area.*

| | | |
|---|---|---|
| **1.Ydych chi'n cytuno gyda'r rhesymau dros newid?**<br>***1. Do you agree with the reasons for change?*** | Ydw √<br><br>Yes √ | Nac ydw<br><br>No |
| **Pam? *Why?*** | Mae'r Cylch yn rhy fach i gymryd yr holl blant sydd ynddi a nid yw maint yr adeilad yn addas i'r nifer plant – yn enwedig gyda'r rhagolygon o fwy o alw yn y dyfodol.<br><br>Mae Llangefni yn tyfu a'r boblogaeth yn yr ysgolion yn cynyddu sy'n golygu fod angen mwy o ofod, a bydd mwy o alw am ddarpariaeth Cylch meithrin. | |

| | | |
|---|---|---|
| **2.Pa opsiwn ydych chi yn ei gefnogi?**<br>***2. Which option do you favour?*** | A | B |
| **Pam? *Why?*** | Nid oes unrhyw farn yma gan fod y ddau opsiwn ar gyfer Ysgol Corn Hir yr un fath yn opsiwn A ac opsiwn B. Ni does effaith ar y Cylch. | |

| |
|---|
| **3. Aoes gennych gynnigion eraill?**<br>***3. Do you have other proposals?*** |
| Dim sylwadau ychwanegol i'r hyn oedd wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad cyntaf anffurfiol. |

| |
|---|
| **4. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu ein sylw atynt?**<br>***4. Are there any other matters to which you wish to draw our attention?*** |
| Gyda galw cynyddol am ddarpariaeth feithrin, gall y Cyngor sicrhau bod sgôp i gynyddu y rhif mynediad yr ysgol newydd o 47 fel bo angen yn y dyfodol.<br><br>Mae'r galw yn lleol am ofal plant fforddiadwy yn uchel gan nad oes llawer o ddarparwyr. Mae angen sicrhau fod yr ysgol newydd yn gallu cynnig y ddarpariaeth yma (wrap around) i'r plant meithrin fydd yn dod i'r ysgol a fod digon o le yn yr adeilad newydd i ganiatau hyn yn hwylus.<br>Mae angen ysyried y ddarpariaeth i blant 2½ oed – 3 oed mewn unrhyw ysgol newydd. Mae'r plant yma, ar hyn o bryd, yn cael mynediad i'r Cylch.<br><br>Bydd rhaid cynllunio unrhyw ysgol gyda'r sgôp o ehangu pellach a gyda thiroedd eang. |

| |
|---|
| Byddai angen edrych i sicrhau cynllun adeilad fydd yn caniatau defnydd llawn gan y gymuned ar gyfer pob math o ddigwyddiadau.<br><br>Mae angen sicrwydd bydd lleoliad y Cylch Meithrin yn cael ei ystyried yn y broses cynllunio/adeiladu.<br><br>Safle yr ysgol newydd – angen ystyried sut bydd hyn y effeithio ar ddalgylch mynediad y Cylch Meithrin.<br><br>Pa ystyriaethau/cynlluniau fyd dyn bodoli i uno'r ddau Gylch, o Bodffordd a Chorn Hir, ar un safle newydd – angen sicrhau bod cynrychiolaeth ar unrhyw grwp rhanddeiliaid. |

| 5. Mae'n ddewisiol os ydych chi eisiau rhoi eich manylion yn y blwch isod<br>*5. It is optional if you want to enter your details in the box below* | |
|---|---|
| Llofnod / *Signature* | Printiwch eich enw / *Print your name*<br><br>[redacted] |
| Cyfeiriad / *Address*<br><br>**c/o Cylch Meithrin Corn Hir**<br>**Bryn Meurig**<br>**Llangefni**<br>**LL 77 7JB** | Swydd / Categori'r Ymatebydd (e.e. staff ysgol, rhiant, llywodraethwr, arall)<br><br>*Post / Respondent's category (e.g. staff member, parent, governor, other)*<br><br>**Cadeirydd Pwyllgor Cylch Meithrin Corn Hir** |
| Dyddiad / Date 10/3/17 | |

**Oni bai eich bod yn nodi'n wahanol, bydd eich sylwadau yn agored i'r cyhoedd fel rhan o gofnodion ffurfiol yr ymgynghoriad.**

***Unless otherwise noted, your comments will be open to the public as part of the official records of this consultation.***

Dychwelwch unrhyw sylwadau at / *Return any comments to:*

| | |
|---|---|
| Rheolwr Rhaglen, Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, Cyngor Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW. Neu anfonwch drwy e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk | *Programme Manager, The Lifelong Learning Directorate, Anglesey Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW. Or send them by e-mail to angleseyschools@anglesey.gov.uk* |

Mae croeso i chi ddanfon unrhyw sylwadau neu gwestiynau at y Rheolwr Rhaglen tan 13 Mawrth 2017.

*You are welcome to send any comments or questions to the Programme Manager by 13 March 2017*

Atodiad 6

# Adolygiad Ysgolion Cynradd ardal Llangefni

## *Primary Schools Review in the Llangefni area*

## Ffurflen Sylwadau / *Feedback Form*

Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i glywed eich barn chi. Rhowch eich sylwadau i ni ar yr opsiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth addysg gynradd i'r dyfodol i ddisgyblion ardal Llangefni os gwelwch yn dda.

*The County Council is keen to hear your opinion. Please send us your comments on the options for the future primary education provision for pupils living in the Llangefni area.*

| | | |
|---|---|---|
| 1.Ydych chi'n cytuno gyda'r rhesymau dros newid?<br>*1. Do you agree with the reasons for change?* | **Ydw**<br><br>**Yes** | Nac ydw<br><br>No |
| Pam? *Why?* | Mae angen datblygu yr ysgol fel adeilad sydd yn ateb gofynion plant ac addysg heddiw, Nid oes digon o le yn yr adeiladau presenol. | |

| | | |
|---|---|---|
| 2.Pa opsiwn ydych chi yn ei gefnogi?<br>*2. Which option do you favour?* | A | **B** |
| Pam? *Why?* | Pryder opsiwn A yw diogelwch ac addysg plant –<br>Ble fyddai'r dysgwyr yn cael eu lleoli tra bod gwaith adeiladu ac addasu'r adeilad presennol? Byddai ail-leoli dysgwyr mewn cabanau dros dro yn anaddas, a ni fyddai posib sicrhau cwricwlwm ac addysg o'r radd flaenaf e.e. ardal tu allan CS?<br>Un fynedfa sydd i'r ysgol – mae traffig staff a dysgwyr yn drwm ar hyn o bryd heb sôn am draffig adeiladu.<br>Byddai adegau pan na fyddai'r Neuadd a chegin yr ysgol ar gael – sut fydd y plant yn cael eu bwydo? Beth am wersi Addysg Gorfforol?<br><br>Byddai opsiwn B yn sicrhau fod plant yn gallu parhau i dderbyn addysg dda yn yr adeilad presennol nes bydd yr adeilad newydd yn barod – mae pwysau gwaith sy'n wynebu staff ar hyn o bryd yn anhygoel o drwm, a gallwn sicrhau y byddai ceisio cyrraedd safonau heriol mewn amgylchedd 'adeiladu' yn amhosib. Heb sôn am orfod storio a chadw adnoddau dros gyfnod yr addasu yn opsiwn A.<br>Wrth edrych ar Atodiad 5, mae angen lleoedd arbennig ar gyfer ADY. Byddai opsiwn B yn sicrhau fod pob plentyn yn cael yr hyn mae angen, ond gyda chyn lleiaf â phosib o newidiadau I'r disgyblion – mae gan rhai yn yr ysgol gyflyrau meddygol a chyflyrau ble mae 'routine' yn allweddol i sicrhau llwyddiant – byddai ceisio mynychu ysgol sydd yn cael estyniadau / addasiadau yn effeithio yn fawr arnynt – sŵn / newid amgylchedd / budreddi a llwch ayyb.<br>Byddai Opsiwn B hefyd yn caniatau datblygu i'r dyfodol – sicrhau fod posibilrwydd o ymestyn petai niferoedd y pentref yn codi yn nyfodiad datblygiadau yn yr ardal. | |

| 3. Aoes gennych gynnigion eraill?<br>*3. Do you have other proposals?* |
|---|
| DIM |

| 4. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu ein sylw atynt?<br>*4. Are there any other matters to which you wish to draw our attention?* |
|---|
| |

| 5. Mae'n ddewisiol os ydych chi eisiau rhoi eich manylion yn y blwch isod<br>*5. It is optional if you want to enter your details in the box below* | |
|---|---|
| Llofnod / *Signature* | Printiwch eich enw / *Print your name* |
| Cyfeiriad / *Address*<br><br>Ysgol Esceifiog<br>Gaerwen<br>Ynys Mon<br>LL60 6DD | Swydd / Categori'r Ymatebydd (e.e. staff ysgol, rhiant, llywodraethwr, arall)<br><br>*Post / Respondent's category (e.g. staff member, parent, governor, other)*<br><br>Staff |
| Dyddiad / Date 27.02.17 | |

Oni bai eich bod yn nodi'n wahanol, bydd eich sylwadau yn agored i'r cyhoedd fel rhan o gofnodion ffurfiol yr ymgynghoriad. Unless otherwise noted, your comments will be open to the public as part of the official records of this consultation. Dychwelwch unrhyw sylwadau at / Return any comments to:

| | |
|---|---|
| Rheolwr Rhaglen, Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, Cyngor Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW. Neu anfonwch drwy e-bost at ysgolionmon@ynysmon.gov.uk | *Programme Manager, The Lifelong Learning Directorate, Anglesey Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW. Or send them by e-mail to angleseyschools@anglesey.gov.uk* |

Mae croeso i chi ddanfon unrhyw sylwadau neu gwestiynau at y Rheolwr Rhaglen tan 13 Mawrth 2017.

*You are welcome to send any comments or questions to the Programme Manager by 13 March 2017*

**Ymateb gan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Henblas**

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar y ddogfen ymgynghori statudol ar ddarpariaeth cynradd yn ardal Llangefni.

Mae llywodraethwyr Ysgol Henblas yn falch y bydd addysg yn yr ysgol yn parhau o dan y ddau opsiwn a gynigir (opsiwn A ac opsiwn B), ac yn falch hefyd fod yr opsiwn o addasu yr ysgol yn cael ei ystyried.

Rydym yn agored i drafod ymhellach y posibilrwydd o gynnwys yr ysgol mewn ffederasiwn gyda ysgol arall, ond cyn rhoi barn penodol ar y mater, byddai angen i ni ddeall yr union oblygiadau i Ysgol Henblas, ac hefyd manylion unrhyw ffedereiddio sy'n cael ei awgrymu.

Yn gywir,

Cadeirydd Ysgol Henblas.
13/03/17

Annwyl Reolwr Rhaglen,

Rwyf yn siomedig iawn ar ôl cyfnod hir o ymgynghori, mai'r unig opsiwn mae'r Cyngor Sir yn ei gynnig i Talwrn, yw i gau yr ysgol yn gyfangwbl. Roeddwn wedi mawr obeithio y buasech o leiaf wedi rhoi cynnig i ffedereiddio hefo rhai o ysgolion eraill o gymharol faint yn yr ardal.

Mae'n ymddangos fod y Cynulliad, Estyn a'r Cyngor Sir yn ystyried ysgol o 150 o ddisgyblion yn ysgol fechan erbyn hyn. Efallai bod hyn yn wir yng Nghaerdydd ond nid yn Sir Fôn. Tybiaf fod 50 o ddisgyblion yn nes i'r marc a bod angen cadw rhai o'r ysgolion yma ar agor i alluogi rhieni i gael dewis eang o ysgolion ar gyfer ei plentyn. Does dim problem llenwi yr ysgolion yn y dalgylch sydd o dan fygythiad ac mae'r rhieni yn unfrydol am gadw yr ysgolion ar agor. Gofynaf y cwestiwn, a yw eu llais yn cael eu hanwybyddu?

Buasai ymestyn Ysgol Y Graig yn golygu lle i oddeutu 390 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd mae 335 o ddisgyblion yn yr ysgol. Ar ôl cynnwys 48 o ddisgyblion Y Talwrn, buasai cyfanswm o 383, gan adael lle gwag i 7 disgybl. Beth am y disgyblion fydd yn byw yn y tai maent yn fwriadu eu hadeiladu dros y ffordd i'r ysgol yn ogystal a'r 150 o dai sydd o bosib yn yn mynd i gael eu hadeiladu ar dir Coleg Pencraig? Os yw Ysgol y Graig am ehangu fel mae tref Llangefni yn ehangu mi fydd y safle yn fuan iawn yn rhu fychan unwaith eto, fel sydd wedi digwydd yn Ysgol Corn Hir a sydd yn barod ar ôl 8 mlynedd yn digwydd yn Ysgol y Graig.

Mae Ysgol Esceifiog yn 36 oed ac ysgol Henblas yn 28 oed ac eto mae opsiwn i ail fodelu Ysgol Henblas ac unai ail fodelu neu adeiladu ysgol newydd yn Gaerwen. Gofynwn y cwestiwn pam fod hyn yn opsiwn? Mae'r ddwy ysgol bresennol yn ddigon ifanc ac yn llai na llawn. Oni fyddai'n well defnyddio'r arian ar gyfer ail fodelu Ysgol Y Talwrn neu i sicrhau opsiwn megis ffedereiddio.

Mae pob un rhiant yma yn Ysgol Y Talwrn wedi dewis anfon eu plant i'r ysgol am ei body n ysgol fechan ddawnus ble mae'r plant yn cael sylw personol, ac y cant pob chwarae teg. Mi fuasai yn bechod ofnadwy eu hamddifadu o'u dewis.

I grynhoi, siom yw'r opsiynau sydd wedi eu cynnig a gobeithaf y byddwch drwy edrych ar yr holl ymatebion yn ystyried ail lunio opsiynau sydd yn rhoi'r cyfle i ni gadw ein hysgol ar agor.

Yr Eiddoch yn Gywir

[redacted]

Cadeirydd Y Llywodraethwyr

**Ysgol Gynradd Y Talwrn**
Y Talwrn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TG
Ffôn: 01248 723363
Ebost: pennaeth.talwrn@ynysmon.gov.uk

Annwyl Reolwr Rhaglen,

Hoffem fel Corff Llywodraethol Ysgol Y Talwrn, wrthwynebu unrhyw argymhelliad i gau'r Ysgol yng nghyd-destun ymgynghoriad Dalgylch Llangefni. Rydym yn siomedig iawn nad oes opsiwn o gwbwl i gadw'r Ysgol yn agored hyd yn oed o dan system megis ffedereiddio. O ganlyniad yr unig ymateb sydd gennym yw y dylech fod wedi cynnig opsiwn oedd yn galluogi i ni gadw ein hysgol yn agored. Mae'r Ysgol wedi bod yn gwasanaethu pentref Y Talwrn am 137 o flynyddoedd ac hoffem feddwl y byddwch yn ystyried newid yr opsiynau i roi cyfle i'r ysgol barhau i wasanaethu'r pentref am amser maith eto.

Siom fawr i ni yw fod y bygythiad wedi dychwelyd gwta bedair blynedd ar ôl ymgynghoriad manwl iawn yn 2012. Yn 2012 roedd yr y ysgol o dan fygythiad am nad oedd digon o blant yn ei mynychu. Erbyn hyn ymddengys fod gormod o blant yn mynychu ysgolion y dalgylch a hyn ond 30 mlynedd ar ôl adeiladu ysgol newydd Corn Hir ac 8 mlynedd ar ôl adeiladu Ysgol Y Graig. Mae'r ddwy ysgol yma yn llawn yn barod ac angen ehangu. Mae ardal Llangefni yn parhau i dyfu a'r peryg ydi y bydd yr ysgolion, ar ôl ehangu, yn llawn unwaith yn rhagor mewn byr amser. Gweler hyn yn yr unig opsiwn sydd ar gael yma i ni yn Nhalwrn, sef i gau ac ymuno ac Ysgol Y Graig. O fewn yr opsiwn yma byddwch yn rhoi estyniad fydd yn galluogi capasiti yr Ysgol i dyfu i 390. Gyda ein disgyblion ni mae hyn yn gadael 7 lle ychwanegol gwag a fydd yn sicr ddim yn ddigon o ystyried yr holl ddatblygiadau tai sydd ar y gweill yn yr ardal. Rydym ninnau yma yn Nhalwrn gyda 48 allan o'r 49 lle wedi eu llenwi a dim golwg fod y niferoedd am leihau. Credwn y dyliech ail ystyried eich opsiynau i gymryd hyn i ystyriaeth.

Yr Ysgol yw calon ein cymuned yma yn Nhalwrn, a hebddi byddai'n peryglu dyfodol yr Eisteddfod leol, Ysgol Sul a Neuadd y Pentref sydd ar hyn o bryd yn cryfhau ein cymuned. Rydym fel Corff yn ymwybodol o'r gwrthwynebiad sydd yn bodoli yn y Gymuned gyda dros 150 o enwau yn barod ar ddeiseb heb gynnwys y llythyr ac ymatebion sydd wedi dod i law ffrindiau'r Ysgol. Credwn fod hyn yn dangos effaith yr Ysgol fel rhan hanfodol o fywyd y pentref. Yn ychwanegol, pleidleisiodd Cyngor Cymuned Llanddyfnan, mewn cyfarfod ar Hydref 25 yn unfrydol i wrthwynebu unrhyw fwriad i gau Ysgol Y Talwrn. Roedd y tri cynghorydd Sir dros ward canolbarth Môn yn bresennol i wrando ar y drafodaeth.

Hyderwn y byddwch yn parchu'r undod cryf sydd yn bodoli yma yn Nhalwrn rhwng y disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned a byddwch yn penderfynu o leiaf i ail ystyried a chynnig opsiynau newydd ble byddwn yn gallu cadw'r ysgol hapus hon yn agored i wasanaethu y Pentref a'r ardaloedd cyfagos. Boed hyn yn ei sefyllfa bresennol neu o dan system megis Ffedereiddio.

Yr Eiddoch yn Gywir

[redacted]

Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Y Talwrn

Atodiad 10

**Ysgol Gynradd Y Talwrn**
Y Talwrn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TG
Ffôn: 01248 723363
Ebost: pennaeth.talwrn@ynysmon.gov.uk

Annwyl Reolwr Rhaglen,

Fel aelodau staff yma yn Ysgol Y Talwrn, hoffem fynegi ein pryder fod y ddau opsiwn yn yr ymgynghoriad yn golygu y bydd Ysgol Y Talwrn yn cau o dan eich system moderneiddio ysgolion. Er ein bod yn deall yr angen i edrych yn ofalus ar sefyllfa ysgolion Ynys Môn, credwn fod y pwyntiau isod yn atgyfnerthu ein barn y dylai Ysgol Y Talwrn gael yr hawl i barhau i ffynnu unai yn ei sefyllfa bresennol neu o dan system ffedereleiddio.

Mae Ysgol y Talwrn yn ysgol fechan deuluol a byddai'r ymdeimlad o agosatrwydd yn diflannu mewn sefyllfa fwy amhersonol, sy'n gysylltiedig ag ysgol fwy. Mae'r ysgol yn gweithredu yn effeithiol er mwyn tynnu'r gymuned ynghyd mewn ardal wasgaredig ac mae hyn yn cael ei ddefnyddio i atgyfnerthu profiadau dysgu cyfoethog yr ydym yn eu darparu i ddisgyblion Y Talwrn.

Mae'r ysgol hefyd yn ymwybodol o dreftadaeth ac hyrwyddiad yr iaith Gymraeg ac yn addysgu hynny i'r disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'n codi ymwybyddiaeth parthed hanes a diwylliant, ynghyd â diogelu traddodiadau ar gyfer y dyfodol. Yr ysgol yw'r cyfrwng mwyaf effeithiol er mwyn diogelu yr ymdeimlad o gymuned sydd yn bodoli yma yn Y Talwrn. Mae'r ysgol hefyd yn parhau i hyrwyddo a chefnogi diwylliant eisteddfodol. Byddai cau'r ysgol yn arwain at dranc yr eisteddfod, sydd bellach yn enghraifft amheuthun o eisteddfod leol ar yr ynys.

Fel yr ydym yn sicr y cewch wybod mewn amryw ddatganiad arall ynghylch moderneiddio ysgolion dalgylch Llangefni, mae'n cymuned yn llwyr gefnogol o barhad Ysgol Y Talwrn a gobeithiwn y gwnewch wrando arnynt a dewis ail ystyried yr hyn yr ydych yn ei gynnig fel rhan o'r opsiynau yn y ddogfen ffurfiol ar gyfer sicrhau dyfodol yr ysgol unai yn ei ffurf bresennol neu gan ddefnyddio ffedereleiddio.

Yr Eiddoch yn Gywir,

Staff Ysgol Y Talwrn.

**Ymateb i'r Ddogfen Ymgynghori Statudol – Ardal Llangefni**

Hoffwn gynnig yr ychydig sylwadau isod wrth ymateb i'r argymhelliad – *"ymestyn Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a a chau Ysgol Talwrn."*

Pan agorodd Ysgol y Graig yn 2008 roedd yn ateb y meini prawf ar gyfer Ysgolion Cynradd yr Unfed Ganrif ar Ugain. Fodd bynnag mae'r ysgol bellach dros ei chapasiti ac nid yw llawer iawn o'r cyfleusterau yn bodoli erbyn hyn.

Wrth ymestyn yr ysgol hon dylid sicrhau:

**Cyfleusterau Addysgu a Dysgu**

1. Fod POB ystafell ddosbarth *"o faint addas gydag ymdeimlad o ofod a golau (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru)."* Nid yw hyn yn bodoli ymhob dosbarth ar hyn o bryd gan fod disgyblion ym mlwyddyn 2 yn cael eu haddysgu mewn ystafell a oedd yn wreiddiol wedi ei glustnodi ar gyfer cadw adnoddau. Mae hyn yn peri cryn sialens wrth geisio cyflwyno gweithgareddau sy'n ateb gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Byddai angen felly i'r estyniad ganiatáu ystafell ddosbarth pwrpasol ar gyfer y plant hyn yn ogystal a bod dosbarthiadau ychwanegol yn bodoli i dderbyn plant Ysgol Talwrn. Rydym fel ysgol hefyd angen yr ystafell adnoddau gan nad oes lle erbyn hyn i gadw adnoddau, ac o ganlyniad mae adroddiad Iechyd a Diogelwch diweddar wedi adnabod bod y mannau a ddefnyddir yn beryglus e.e. pethau yn cael eu storio ar ben cypyrddau, yn y coridorau ac ati. Mae'r diffyg cyfleusterau adnoddau digonol hyn eto yn mynd yn groes i arweiniad Llywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu.

2. *"Cyfleusterau addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys ardaloedd tu allan (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru)."* Nid oes gan disgyblion derbyn i flwyddyn 2 fynediad i ardal tu allan penodedig, caeedig, ac felly mae'n anodd cynllunio tasgau lle gellid defnyddio'r ardal tu allan fel estyniad i'r ystafell ddosbarth. Wrth ailfodelu Ysgol y Graig mae'n hanfodol fod hyn yn derbyn ystyriaeth llwyr fel ein bod yn gallu llwyr wireddu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

3. *"Mannau ymarferol arbenigol".* Mae disgyblion Blwyddyn 3 yn cael eu haddysgu mewn ystafell oedd wedi ei chynllunio ar gyfer ei defnyddio fel ystafell gerdd. Golyga hyn fod y gwersi offerynnol yn cymryd lle yn y cyntedd, tu allan i ddosbarthiadau. Mae gwersi offerynnol yn digwydd yn ddyddiol yma yn y Graig. Mae rhain yn cynnwys gwersi pres, telyn, piano, cerddorfa, llinynnol. Mae'r gwersi hyn yn amharu ar wersi dosbarthiadau eraill ac yn peri anhawster i blant sy'n cael trafferth canolbwyntio. Mae'r ystafell gerdd (sy'n cael ei ddefnyddio fel ystafell ddosbarth erbyn hyn) wedi ei ddiogelu rhag sŵn. Mae hyn yn wastraff llwyr ar arian. Dylid felly ystyried ychwanegu ystafell arall ar gyfer plant blwyddyn 3 fel bod yr ystafell gerdd yn cael ei ddefnyddio unwaith eto ar gyfer y diben gwreiddiol.

4. *"Ystafelloedd llai ar gyfer grwpiau llai e.e. targedu ac A.A.A".* Nid oes lle yn bodoli ar gyfer gweithio gyda grwpiau o blant ADY / grwpiau targed. Ar hyn o bryd mae ambell i grŵp yn cael eu targedu mewn coridorau. Nid yw hyn yn ddelfrydol a mae lle i gwestiynu effeithiolrwydd hyn gan fod gymaint o brysurdeb yn tynnu sylw'r plant. Nid yw Ysgol y Graig ar hyn o bryd yn ateb y gofyn hwn. Dylid cymryd hynny i ystyriaeth wrth ailfodelu'r ysgol yn enwedig gan fod oddeutu 31.8% o blant yr ysgol ar gofrestr ADY.

5. *“Neuadd ysgol a chyfleusterau ciniawa ac o faint priodol (yn unol â’r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a Bwletinau Adeiladu).”* Ers i Ysgol y Graig dyfu mae bellach angen 3 eisteddiad ar gyfer amser cinio. Nid oes modd trefnu fod pawb yn cael cinio gyda’i gilydd. Mae hyn yn achosi trafferthion staffio gan fod angen digon o oruchwylwyr ar yr iard yn ogystal ag yn y Neuadd ginio. Bydd rhaid cael eisteddiad ychwanegol os yw capasiti’r ysgol yn cynyddu. Gall hyn olygu fod rhai plant yn bwyta am 11.30yb a rhai yn bwyta am 1.00yh. Byddai hyn hefyd yn golygu fod y Neuadd ar gael am lai o amser bob dydd ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol.

Yn ychwanegol at hyn rhaid cymryd i ystyriaeth mai un wers Addysg Gorfforol yr wythnos sy’n bosib i bob dosbarth ei gael yn y Neuadd ar hyn o bryd. Petai capastiti’r ysgol yn cynyddu ni all pob dosbarth cael gwers Addysg Gorfforol yn y Neuadd.

Yn ystod y Nadolig cynhelir 12 sioe Nadolig er mwyn i bob adran berfformio ddwywaith i’r cyhoedd a perfformiad arall ar gyfer gweddill yr ysgol. Eleni daeth yn amlwg y bydd rhaid cynnal rhagor o sioeau y flwyddyn nesaf, gan nad yw’r Neuadd yn ddigon mawr ar gyfer sicrhau lle ar gyfer yr holl rieni. Wrth gynyddu capasiti’r Ysgol fe fydd y broblem yn gwaethygu.

Wrth ailfodelu Ysgol y Graig rhaid sicrhau fod estyniad yn cael ei roi ar y Neuadd neu bod ail Neuadd yn cael ei chodi. Mae croeso i aelodau’r Cyngor ddod i’r ysgol i weld trefniadau amser cinio er mwyn gweld yr her sy’n ein wynebu bob dydd.

**Cyfleusterau Chwarae**

1. *“Man chwarae caled (iard ysgol) o faint digonol ar gyfer capasiti’r ysgol (yn unol â’r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a’r Bwletin Adeiladu).”* Mae’r iard ysgol yn rhy fychan ar gyfer y nifer o blant sydd yn yr ysgol, yn enwedig o gofio fod yr ysgol bellach dros ei chapasiti. Mae rhan o’r iard hefyd wedi ei glustnodi’n benodol ar gyfer cael ei ddefnyddio fel ardal tua allan ar gyfer y plant Meithrin. Mae ffens o’i amgylch ac felly nid yw gweddill y plant yn gallu defnyddio’r rhan yma o’r iard. Mae llawer o ddamweiniau yn ddyddiol, yn enwedig rhwng 12.50 a 1.00yh, gan fod y rhan fwyaf o blant allan ar yr iard ar yr un pryd a’r gofod yn brin. Wrth ailfodelu’r ysgol ni ddylid cynnwys ardal tu allan y plant meithrin yn yr arwynebedd sydd ar gael ar gyfer iard ysgol plant derbyn – Blwyddyn 6. Mae angen ymestyn yr ardal tu allan er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Gan fod 3 amser chwarae gwahanol yn y bore a’r prynhawn ni ellir ychwaith defnyddio’r iard ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol sy’n ei gwneud yn amhosib sicrhau fod plant yn cael mwy nag un gwers Addysg Gorfforol yr wythnos. Mae hyn yn groes i egwyddorion Llywodraeth Cymru wrth geisio sicrhau fod plant ysgolion cynradd yn cael digon o ymarfer corfforol.

**Ardaloedd Staff a Gweinyddu**

Mae Ysgol y Graig yn gweinyddu ardal Cymunedau’n Gyntaf. Mae tua chwarter o’n plant ar gofrestr lles. Cynhelir cyfarfodydd Lles aml asiantaethau’n aml yn yr Ysgol. Daw Gweithwyr Cymdeithasol i’r ysgol i siarad gyda plant. Rhaid neilltuo diwrnod cyfan ar gyfer adolygiadau ADY plant. Golyga hyn fod rhaid defnyddio Ystafell y Pennaeth ar gyfer yr adolygiadau a’r cyfarfodydd hyn gan nad oes ystafell arall ar gael. Golyga hyn fod y Pennaeth yn aml yn gorfod defnyddio’r Ystafell Athrawon ar gyfer gwneud ei gwaith. Cafwyd nifer o achlysuron yn ystod y flwyddyn pan nad oedd lle ar gael e.e. y nyrs ysgol eisiau profi clyw plant ac felly’n gorfod defnyddio coridor, gweithiwr cymdeithasol yn gorfod siarad gyda plentyn yn eu gofal yn y coridor. Wrth ailfodelu’r ysgol mae’n rhaid sicrhau un ystafell cyfarfod ychwanegol er mwyn sicrhau fod materion sensitif yn cael eu hymdrin â hwy yn gyfrinachol.

**Cyffredinol**

1. *“Gyda llecyn wedi ei ffensio/amgáu ar gyfer gweithgareddau’r Cyfnod Sylfaen”*. Y dosbarth meithrin yw’r unig ddosbarth yn y Cyfnod Sylfaen sydd gyda llecyn wedi ei ffensio. Nid oes gan unrhyw ddosbarth arall yn y CS fynediad i unrhyw arall wedi ei amgáu. Mae angen cymryd hyn i ystyriaeth wrth ailfodelu Ysgol y Graig.

*2. “Llefydd parcio diogel”.* Mae sefyllfa parcio Ysgol y Graig yn peri pryder aruthrol i ni fel ysgol. Mae 34 lle wedi ei glustnodi ar gyfer staff yr ysgol er bod 47 aelod yn gweithio’n yr ysgol ar hyn o bryd. Mae’n debygol y bydd hyn yn cynyddu petai capasiti’r Ysgol yn cynyddu. Mae llefydd parcio’n brin iawn yma gan fod hon yn Ysgol Eco a’r gobaith oedd y byddai hyn yn denu teuluoedd i gerdded i’r ysgol. Yn anffodus gan nad yw’r ysgol yn agos iawn i rhan fwyaf o dai ein teuluoedd mae llawer iawn o rieni yn danfon eu plant i’r ysgol mewn car. Rydym wedi cael 2 achos o ‘near miss’ ers cychwyn Tymor y Gwanwyn. Rydym wedi llythyru rhieni, wedi darparu gwersi Diogelwch y Ffordd i’r plant, wedi rhannu negeseuon ar Facebook a chydweithio gyda Iechyd a Diogelwch. Fe fydd y sefyllfa yn gwaethygu yn ystod y misoedd nesaf wrth i’r lôn newydd heibio Coleg Menai agor. Bydd cynyddu capasiti’r ysgol yn ychwanegu at y broblem enfawr hon. Mae tua 200 o ymwelwyr yn dod i’r ysgol bob mis gan gynnwys ymweliadau wythnosol gan 6 athrawes peripatetig a’r Swyddog Lles Addysg, 2 ddisgybl chweched dosbarth o Ysgol Gyfun Llangefni a cheir ymweliadau yn aml gan weithwyr cymdeithasol, nyrs ysgol, swyddogion Cwmni Cynnal, gweithwyr o’r lloches, myfyrwyr o Coleg Menai ar brofiad gwaith ac ati. Mae hyn yn ychwanegol at y nifer o rieni sydd eisiau parcio yma. Rydym yn wirioneddol bryderus fod plentyn am gael ei daro gan gar ar dir yr ysgol. Mae’n rhaid felly sicrhau fod maes parcio diogel yn cael ei gynllunio wrth ailfodelu’r Ysgol.

3. *“Dylid cynnwys y dechnoleg adnewyddadwy e.e tyrbinau gwynt..”* Mae gan yr ysgol tyrbin gwynt ond yn anffodus nid yw’n gweithio. Ni all yr ysgol ysgwyddo’r gost o’i drwsio. Tra’n ailfodelu Ysgol y Graig gellid ystyried modd o ddatrys y broblem hon.

Hyderaf y byddwch yn ystyried y pwyntiau hyn wrth i chi drafod dyfodol Ysgol y Graig.

Yn gywir,

[redacted]

Pennaeth

**Atodiad 12**

Sylwadau Cyngor Cymuned Llanddyfnan:

Mae'r Cyngor Cymuned o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Cynulliad Cymru ar gadw ysgolion bychain ar agor. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, ac ysgolion gynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol.

Rydym hefyd yn teimlo bod y costau yn amheus. Er enghraifft, mae côst o £ 250,000 wedi cael ei roi ar gyfer ystafell ddosbarth symudol. Mewn rhai ysgolion gallai'r gôst fod yn llai ac mewn eraill mwy. Os yw data hwn yn anghywir, faint o ddata arall sydd yn anghywir?

**Yn ychwanegol to Atodiadau 5-12 CYMRAEG 1**

**Cylch Meithrin Corn Hir**

1. **Mae'r lleoliad yn rhy fach i gymryd yr holl ddisgyblion ac nid yw maint yr adeilad yn addas ar gyfer y nifer o blant - o ystyried rhagolygon mwy o alw i'r dyfodol.**

   **Yn Llangefni yn tyfu ac mae'r boblogaeth yn yr ysgolion yn cynyddu sy'n golygu bod angen mwy o le, a bydd mwy o alw am ddarpariaeth y feithrinfa.**

2. **Ni does barn yma gan fod y 2 opsiwn ar gyfer Corn Hir yr un fath yn opsiwn A ac Opsiwn B.**

3. **Dim sylwadau pellach i'r rhai a nodwyd yn yr ymgynghoriad anffurfiol cyntaf.**

4. **O ystyried y cynnydd yn y galw am ddarpariaeth meithrin, gall y Cyngor sicrhau bod sgôp i gynyddu rhif mynediad yr ysgol I 47 yn y dyfodol.**

   **Mae'r galw yn uchel yn lleol am ofal plant fforddiadwy, gan nad oes llawer o ddarparwyr. Mae angen sicrhau bod yr ysgol newydd yn gallu darparu (wraparound) ar gyfer y plant meithrin sydd am fynychu'r ysgol, a bod digon o ofod o fewn yr adeilad i ganiatáu hyn.**

   **Mae angen ystyried y ddarpariaeth ar gyfer plant o'r oedran 2 ½ - 3 oed mewn unrhyw ysgol newydd. Mae gan y plant fynediad at oar yn o bryd sef y Cylch.**

   **Bydd rhaid i unrhyw ysgol Cynllunio efo sgôp ar gyfer estyniad pellach, gyda safle digonol.**

   **Angen sicrhau cynllun adeiladu sy'n cael ei ddefnyddio gan y gymuned ar gyfer digwyddiadau amryw.**

   **Angen sicrwydd bod lleoliad y Meithrin (Cylch Meithrin) wedi ei ystyried yn y broses Cynllunio / adeiladu.**

   **Safle'r ysgol newydd - ystyried sut bydd yn effeithio mynediad y dalgylch at y ddarpariaeth meithrin**

**Pa ystyriaethau / cynlluniau fydd yn bodoli i ymuno'r ddau leoliad (Cylch) Bodffordd a Chorn Hir, ar safle newydd - a'r angen i sicrhau bod cynrychiolaeth ar unrhyw grŵp rhanddeiliaid.**

**d/o Cylch Meithrin Corn Hir**

**10/3/17**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Gorffennaf 2017** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn –Rhaglen Amlinellol Strategol. Diweddariad Band B.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Delyth Molyneux** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Cyflwynodd yr Awdurdod ei Raglen Amlinellol Strategol (RhAS neu SOP) i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013. Roedd y ddogfen strategol wedi ei rannu mewn i 4 Band sef Band A (2013-2019), Band B (2019-2022), Band C (2022-2025) a Band D (2025-2028).

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Awdurdodau Lleol Cymru ddiweddaru eu cynlluniau Band B a chyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol diwygiedig i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Gorffennaf 2017. Ers cyflwyno'r RhAS neu SOP i Lywodraeth Cymru, mae ffactorau fel poblogaeth ysgolion a nifer penaethiaid cynradd wedi newid. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bydd Band B yn gyfnod o 5 mlynedd ac yn rhedeg o 2019-2024.

Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn parhau yn flaenoriaeth gorfforaethol, ac wedi gwneud cynnydd sylweddol ers cyflwyno'r RhAS diwethaf.

Mae ffactorau eraill yn gyrru'r angen i adolygu'r rhaglen:

1. Er bod y Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diweddar, mae angen i'r Cyngor arbed tua £3.5 miliwn y flwyddyn o 2017/18 am dair blynedd. Golyga hyn fod angen i'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes wneud arbedion fyddai'n cyfrannu at arbedion corfforaethol.
2. Oherwydd y gofyn uchod, bydd angen i'r broses moderneiddio ysgolion gyflymu

Mae'r adroddiad hwn yn ymgais i gyfleu ffeithiau sy'n dangos yr angen i adolygu darpariaeth addysg gynradd ac uwchradd yn Ynys Môn mewn trefn amser sy'n wahanol i'r hyn a amlinellir yn y ddogfen rhaglen amlinellol strategol blaenorol a gyflwynwyd gan yr awdurdod i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013.

| **Argymhelliad** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:<br><br>1. Ystyried moderneiddio ysgolion cynradd ac uwchradd, a hefyd ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhannu'r un campws neu ysgolion 3-16/3-18 oed.<br>2. Ystyried cyfraniad awdurdod lleol o thua £18miliwn tuag at Fand B y rhaglen<br>3. Ystyried yr opsiynau fel yr amlinellir yn yr achos economaidd o'r RhAS/SOP a disgwyl dadansoddiad manwl pellach yn yr achosion busnes manwl sydd i ddilyn.<br>4. Parhau i gefnogi achos dros newid a gyflwynwyd drwy'r rhaglen moderneiddio ysgolion, a'r gyrwyr newid. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Opsiynau wedi eu hystyried yn y SOP ddiwygiedig ar gyfer newid cyfeiriad y rhaglen er mwyn cwrdd ag anghenion am lefydd mewn ysgolion ble mae eu hangen nhw fwyaf, ac er mwyn symud ymlaen efo'r rhaglen moderneiddio ysgolion. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol  am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw – Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol  a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith  ar Ionawr 13, 2014. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Asesiad Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| |

**G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 20fed Mehefin 2016
2. Papur Adolygu'r SOP
3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 23ain Mai 2016
4. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.
5. Llythyr gan Lywodraeth Cymru Ionawr 31, 2014

# Y Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) - Band B - y wybodaeth ddiweddaraf

## Arweiniad

Pwrpas y ffurflen hon yw cofnodi'r newidiadau arfaethedig i'ch Rhaglen Band B ers y cytunwyd ar y fersiwn fwyaf diweddaf o'ch Rhaglen Amlinellol Strategol/Strategaeth Ystadau.

Byddwch cystal â llenwi pob un o adrannau perthnasol y ffurflen hon gan gynnwys datganiad cymeradwyaeth y wybodaeth hon yn **Adran 12.**

Sylwch fod y gyllideb ar gyfer Band B y Rhaglen yn gyllideb sefydlog a bydd prosiectau'n cael eu blaenoriaethu os bydd y ceisiadau am arian yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael. Yn y lle cyntaf bydd prosiectau'n cael eu blaenoriaethu ar sail digonolrwydd a chyflwr adeiladau, ond efallai y bydd ffactorau eraill yn cael eu hystyried fel hyblygrwydd asedau, effeithlonrwydd yr ystâd addysg ac amddifadedd.

**Byddwch cystal â dychwelyd copi electronig wedi'i llofnodi o'r ffurflen at Jo Larner, Cyfarwyddwr Rhaglen y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif erbyn dydd Llun 31 Gorffennaf at:**

**21stcenturyschools@wales.gsi.gov.uk**

## Cynnwys yr Adrannau:

TOC

## 1. Amlen Rhaglen Band B sy'n cael ei geisio

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr amlen Band B sy'n cael ei geisio**<br>*e.e. £15,000,000* | **£36,136,501** |
| **Y Cyfraniad sy'n cael ei geisio gan Llywodraeth Cymru**<br>*e.e. £7,500,000* | £18,068,250 |
| **Cyfraniad yr ALl/ Sefydliad AB**<br>*e.e. £7,500,000* | £18,068,250 |

## 2. Crynodeb o'r newidiadau

| |
|---|
| **Beth sydd wedi newid ers fersiwn ddiweddaraf eich RhAS/Strategaeth Ystadau?**<br>*Dim mwy na 1000 o eiriau* |

- Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol a gwnaed cynnydd sylweddol ers y RhAS blaenorol.
- Mae Byrddau'r rhaglen gorfforaethol wedi cael eu diwygio
- Adeiladwyd dwy ysgol ardal newydd, a byddant yn agor yn 2017. Cymeradwywyd achos busnes llawn ar gyfer ysgol newydd ym Mro Rhosyr ac Aberffraw, yn ogystal ag addasu dwy ysgol arall.
- Mae trefn a blaenoriaethu'r prosiectau wedi newid, fel yr amlinellir yn yr Achos Economaidd a'r ddogfen Cais am Newid (Ionawr 2017)
- Bydd Fframwaith Contractwyr Gwaith Mawr Gogledd Cymru 2 yn cael ei ddefnyddio i gaffael y prosiectau Band B
- Noda Tîm Adolygu Porth Llywodraeth Cymru bod Ynys Môn yn enghraifft o arfer da o ran Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif
- Gwersi wedi eu dysgu - yr allwedd i brosiectau llwyddiannus yw dysgu o heriau a llwyddiannau'r prosiect yn y gorffennol.

## 3. Yr Achos Strategol

**Sut mae'ch Rhaglen yn cysylltu â strategaethau lleol a chenedlaethol e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, strategaethau gofal plant a chyfrwng Cymraeg?**
*Dim mwy na 1000 o eiriau*

Hyd yma, mae moderneiddio ysgolion a'r prosiectau cysylltiedig wedi eu halinio â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r rhaglen wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a'r holl bartneriaid perthnasol i sicrhau bod y prosiectau yn cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)**
Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn anelu at gyfrannu tuag at y 7 nod llesiant, fel y dangosir yn y tabl a ganlyn:

| 7 nod llesiant | Sut bydd y Strategaeth moderneiddio ysgolion yn cyfrannu at y 7 nod llesiant |
|---|---|
| Ffyniannus<br>Cydradd | Gweledigaeth yr Awdurdod - eisiau i bob unigolyn ifanc, beth bynnag yw eu cefndir a'u hamgylchiadau, lwyddo. |
| Cydnerth | Mae'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a chyflawni prosiectau newid i foderneiddio ysgolion. Mae'r prosiectau wedi eu cynllunio'n effeithiol ac ymgynghorwyd arnynt, er mwyn lleihau ymwrthedd a chyflawni amcanion y prosiect. |
| Iachach | Bydd ysgolion Môn yr 21ain ganrif yn 'ysgolion cymunedol' a gellir eu defnyddio i hyrwyddo Gwasanaethau iechyd, corfforol a chymunedol, yn ogystal â hyrwyddo dewisiadau ffordd o fyw iach ymhlith disgyblion, rhieni a darparwyr gofal plant. |
| Cymunedau cydlynus | Bydd rhanddeiliaid yn cyfrannu at gynllunio a chyfeiriad prosiect drwy'r prosesau ymgynghori ac ymgysylltu.<br><br>Bydd Band B Ynys Môn yn parhau i ymgynghori, ymgysylltu a gweithio gyda phartneriaid, yn arbennig mewn perthynas â datblygu lleoedd mewn ysgolion ochr yn ochr â digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg gyda Mudiad Meithrin, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru a phartneriaid yn y sector gofal plant preifat i rai rhwng 0 a 3 oed. Bydd Gofal Plant a chyfleusterau cofleidiol, ynghyd â defnydd cymunedol o'r adeiladau y tu hwnt i'r flwyddyn ysgol (ac fel pwyntiau cyswllt ar gyfer Gwasanaethau corfforaethol, fel mannau codi i lyfrgelloedd, er enghraifft) yn cynyddu cydlyniant cymunedol yn ystod Band B. Bydd datblygu dewisiadau o ran sicrhau ansawdd ac |

| | |
|---|---|
| | effeithlonrwydd yn y ddarpariaeth ôl-16 hefyd yn cael ei ystyried mewn ymgynghoriad â'r sector Addysg Bellach a'r cyngor sir cyfagos. |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn agwedd allweddol ar y Strategaeth Iaith Gymraeg gorfforaethol a Strategaeth Iaith statudol y Gymraeg mewn Addysg. Bydd cynlluniau ar gyfer Band B i ystyried ymgorffori cyfleusterau 0-3 cyn-ysgol a gofal plant cofleidiol drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn cynyddu darpariaeth y darparwyr Cymraeg ar yr Ynys, a bydd yn sylfaen ieithyddol gadarn i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn unol â thargedau CSYM a Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang | Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion bresennol yn cyfrannu at wella amgylchedd cymdeithasol, economaidd, a diwylliannol yr ynys, a bydd Band B yn barhad o'r rhaglen hon. |

Yn ddiweddar, cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn asesiad llesiant, a gadarnhaodd bod diffyg cyrhaeddiad yn cydberthyn â diffyg llesiant unigolion drwy gydol eu bywydau, ac felly mae angen sicrhau bod capasiti a photensial pob disgybl i lwyddo yn cael ei gyflawni. Ar ben hynny, mae tystiolaeth ddiweddar yn cyfeirio at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cael effaith negyddol hirdymor ar blant ifanc. Mae angen sicrhau bod pob plentyn yn cael profiadau cadarnhaol yn ystod eu plentyndod er mwyn eu galluogi i ffynnu a thyfu i fod yn aelodau gweithgar a chyfranogol o'u cymunedau. Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn sicrhau bod adeiladau ein hysgolion yn addas i'r pwrpas i hybu llesiant corfforol a darparu amgylcheddau ffisegol ac offer, yn ogystal â staff cymorth, nad oes modd eu darparu mewn ysgolion 19^eg^ ganrif.

**Recriwtio a chadw staff**
Gan fod recriwtio arweinwyr a rheolwyr canol â chymwysterau addas yn parhau i fod yn broblem, mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion hefyd yn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ysgolion bach lle mae problemau staffio a recriwtio yn arwain at heriau o ran darparu addysg a phrofiadau dysgu o ansawdd rhagorol sy'n gyson yn dda ar gyfer ein disgyblion. Mae'r rhaglen 21^ain^ ganrif yn cyfrannu at wella ansawdd addysgu a dysgu, gan leihau'r amrywiaeth o ran perfformiad a chyfleoedd rhwng ysgolion, ac yn cyfrannu at sicrhau cyfleoedd dysgu sy'n ymateb i anghenion y dysgwyr ac, yn wir, y gymuned ehangach.

**Cyfleusterau Gofal Plant a Chymunedol i rieni a thrigolion hŷn**
Uned Cefnogi Teuluoedd Ynys Môn sy'n gyfrifol am sicrhau lleoedd gofal plant digonol yn Ynys Môn, ac mae'n cymryd rhan yn y cynllun peilot cenedlaethol o gynnig 30 awr o ofal plant am ddim. Mae'r Uned yn gweithio'n agos gyda'r rhaglen moderneiddio ysgolion ac yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu achosion busnes cysylltiedig, yn enwedig wrth bennu rhagamcanion am ddisgyblion ar gyfer y dyfodol. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod cyfle i hyrwyddo gweledigaeth o ddatblygu darpariaeth gofal cofleidiol ar un safle i bob disgybl dan 11 oed, gan gynnwys brodyr a chwiorydd sy'n fabanod ar rai safleoedd. Rhagwelir y bydd sicrhau darpariaeth feithrin ar gyfer plant 0-3 oed ar safle ysgolion newydd neu rai sy'n cael

eu haddasu, (i gael eu rheoli gyda phartner yn y sector gofal plant lleol) er mwyn darparu gofal rhwng 8.00am a 6.00pm ar gyfer teuluoedd, ynghyd ag addysg feithrin, gofal 'cofleidiol' a chlybiau gofal ar ôl ysgol/gwyliau, yn agwedd allweddol ar raglen ysgolion Band B. Yn ogystal, bydd buddion cymunedol eraill fel ystafelloedd at ddefnydd y gymuned, llyfrgell sefydlog neu bwyntiau gollwng / codi i lyfrgelloedd teithiol a gwasanaethau awtomataidd hunan-gymorth ar gyfer busnes y cyngor, yn fanteisiol ac yn gwella cydlyniant cymunedol. Bydd gwaith i werthuso a datblygu'r modelau hyn ymhellach yn cael sylw yn yr achosion busnes ar gyfer prosiectau penodol.

**Y Gymraeg**
Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir feddu ar y sgiliau priodol i fod yn hyderus yn eu dwyieithrwydd. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw gynllun newydd a gyflwynir - fel prosiectau sy'n deillio o'r rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

Er mwyn cynyddu cyfran disgyblion y cyfnod sylfaen sy'n cyflawni targedau Iaith Gymraeg fel yr amlinellir mewn dogfennau strategol gan Lywodraeth Cymru a chynlluniau lleol, bwriedir hefyd defnyddio'r modelau gofal plant uchod i gynyddu capasiti gofal plant Cymru ar Ynys Môn. Mae gan y model partneriaeth gofal plant y potensial i fod yn gyfrannwr allweddol tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd y rhaglen foderneiddio yn cydymffurfio â'r polisïau a strategaethau iaith a ganlyn:
- Strategaeth Iaith Cyngor Sir Ynys Môn 2016 - 2021
- Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn
- Strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

**Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) 2013**
Cyflwynwyd y RhAS ar gyfer y rhaglen moderneiddio ysgolion yn 2013. Mae'r ddogfen yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer moderneiddio'r system ysgolion, i sicrhau addasrwydd cyfleusterau ar gyfer anghenion y presennol a'r dyfodol. Mae newidiadau demograffig a chynnydd mewn problemau recriwtio oherwydd proffil oedran y penaethiaid presennol (ar hyn o bryd mae 50% dros 50 oed) a ffactorau eraill wedi arwain at yr angen i adolygu'r drefn blaenoriaethu prosiectau a gyflwynir yn y RhAS. Cyflwynwyd dogfen cais am newid i Lywodraeth Cymru a Phwyllgor Gwaith y Cyngor, ac fe'i cymeradwywyd ym mis Awst 2016. Mae'r RhAS Band B yn adlewyrchu'r newidiadau hynny.

**Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn**
Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn amlinellu blaenoriaethau strategol yr Awdurdod. Roedd y cynllun corfforaethol blaenorol (2013-2017) yn cynnwys y flaenoriaeth a ganlyn - 'addysg, gwella sgiliau a moderneiddio ein hysgolion'. Mae'r cynllun corfforaethol ar gyfer 2017-2022 wedi cael ei ddrafftio, a dyma'r allbynnau sy'n gysylltiedig â moderneiddio ysgolion:

parhau i wella safonau addysgol a chyrhaeddiad ein plant
datblygu'r rhaglen moderneiddio ysgolion ymhellach drwy gwblhau ysgol newydd ym Mro Aberffraw, gweithredu prosiect Llangefni a chadarnhau prosiectau Band B, i gynnwys ystyriaeth o ysgolion 3-16 oed ac addysg ôl-16.
adolygu'r trefniadau arweinyddiaeth ar gyfer ysgolion llai o faint, gan gynnwys Ffederaleiddio, penodi penaethiaid strategol aml-safle ac ysgolion cynaliadwy a chost-

effeithiol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a newidiadau a awgrymwyd i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

**Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2015-2020**
Diben y Cynllun yw darparu fframwaith strategol ar gyfer rheoli asedau'r Cyngor.
Mae'r cynllun yn cyfeirio at y rhaglen moderneiddio ysgolion a'r defnydd o ysgolion ar ôl iddynt ddod yn wag. Cyfeirir hefyd at sut y mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn cyfrannu tuag at y strategaeth effeithlonrwydd ynni corfforaethol. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod, a lleihau defnydd ystâd yr ysgolion o ynni yn unol â strategaeth effeithlonrwydd ynni'r Awdurdod, ac mae'n un o'r ffactorau llwyddiant allweddol a amlinellir yn RhAS Band B.
Mae cynllun corfforaethol diwygiedig y Cyngor hefyd yn cyfeirio at asedau'r cyngor yn y dyfodol ac yn rhagweld rôl allweddol i'n cymunedau weithio gyda'i gilydd, mewn ffordd gydlynol a phwrpasol, i ddiogelu ein hasedau, ac i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Amgylchiadau Cyfredol**
- Ni adeiladwyd y stoc presennol o ysgolion i ystyried Dysgu yn yr 21ain ganrif, na'r defnydd cymunedol gwell o gyfleusterau fel gofal plant 0-3 oed, clybiau ar ôl ysgol, defnydd cymunedol o gyfleusterau y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau, llyfrgell a chyfleusterau pwynt gwasanaeth y cyngor.
- Mae capasiti dros ben lleoedd ysgol yn y sector uwchradd yn arwain at ddewisiadau pwnc anymarferol a phenderfyniadau staffio anodd mewn rhai ysgolion. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn y dewisiadau cwricwlwm i ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 4 ac ôl-16, er gwaethaf trefniadau Consortiwm effeithlon rhwng ysgolion a darparwyr hyfforddiant galwedigaethol, a'r defnydd o ystafelloedd capasiti dros ben gan wasanaethau eraill y cyngor ac addysg. Mae rhai ysgolion yn wynebu diffygion ariannol sylweddol a bydd hyn yn cynyddu os nad yw dulliau amgen o ddarparu yn cael eu mabwysiadu yn y sector uwchradd o fewn Band B.
- Mae cyflwr stoc presennol ein hysgolion yn is na'r cyfartaledd, ac mae costau cynnal a chadw cysylltiedig yn parhau i fod yn uchel gan fod y catalog ôl-groniad o waith cynnal a chadw ac addasiadau sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â gofynion DDA a Chyfnod Sylfaen yn rhy ddrud i'w hystyried o fewn y cyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw sy'n gyfyngedig ac sydd hefyd yn crebachu, o ran y rhai datganoledig a'r rhai a gedwir yn ganolog.
- Mae'r Awdurdod yn ei chael yn fwyfwy anodd recriwtio uwch arweinwyr addas a chymwys sy'n siarad Cymraeg yn y sector ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r rhaglen foderneiddio arfaethedig yn un ffactor strategol sy'n cyfrannu at leddfu'r broblem o ran cynllunio olyniaeth arweinyddiaeth ysgolion a sicrhau modelau arweinyddiaeth gwasgaredig sy'n gynaliadwy ac sy'n hyrwyddo safonau uchel ac arweinyddiaeth ragorol yn gyson.
- Mae symudiadau demograffig dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at newidiadau o ran lle mae rhieni yn dymuno anfon eu plant i'r ysgol, a gostyngiad nodedig mewn teuluoedd ifanc mewn rhai ardaloedd.
- Mae rhai ysgolion cynradd yn orlawn tra bod lleoedd gwag gormodol mewn rhai ysgolion o hyd.
- Ar hyn o bryd mae 19 o ysgolion cynradd bach sydd â llai na 75 o ddisgyblion, sydd wedi arwain at anghysondeb annerbyniol yn swm yr arian a ddyrannir fesul plentyn ar draws y sir, ac anawsterau wrth sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, wedi ei ddysgu gan staff â chymwysterau addas sydd â gafael ac arbenigedd priodol ar draws amrywiaeth o bynciau, dan arweiniad pennaeth cymwys a phrofiadol.

**Angen Busnes**
Mae angen i'r Awdurdod barhau i foderneiddio ei ysgolion. Nid yw ei weledigaeth graidd wedi newid ers y RhAS blaenorol ac mae'n cael ei yrru gan yr egwyddorion allweddol a ganlyn:

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i fynychu eu hysgol briodol agosaf lle gallant gael mynediad at yr amrywiaeth lawn o gyfleusterau;
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at gyfleusterau addas sy'n caniatáu cyflwyno amrywiaeth lawn o brofiadau addysgol.
- Lleihad yn nifer y lleoedd heb eu llenwi yn ein hysgolion yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Cefnogi datblygu sgiliau arwain o fewn ac ar draws ysgolion er mwyn datblygu system hunan-wella lle mae ymrwymiad a rennir i ragoriaeth.
- Y posibilrwydd o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cydleoli ar yr un campws.
- Alinio Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn i strategaethau allweddol eraill: Cynllun Corfforaethol, y Gymraeg, Rheoli Asedau, 30 awr o ofal plant.

Gallai Band B arwain at godi ysgolion newydd neu adnewyddu ysgolion. Fodd bynnag, i rai cymunedau lleol, bydd yn golygu cau neu uno eu hysgolion. Nid yw hyn rhywbeth newydd i Ynys Môn ers dechrau Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif, gan fod yr Awdurdod wedi bod yn cynnal gwaith moderneiddio ysgolion i uwchraddio'r ystâd ac mae hyn yn cynnwys cymysgedd o gau, cyfuno, ailwampio ac adeiladu ysgolion newydd. Mae hyn wedi arwain at gau/cyfuno 5 ysgol y tu allan i raglen gyfredol Ysgolion yr 21ain ganrif.

Gan fod Ynys Môn yn ynys sy'n cynnwys cymunedau gwledig a threfol, rydym yn rhagweld y bydd Strategaeth Ysgolion ddiwygiedig yr awdurdod a RhAS Band B yn parhau, gyda dull 'economi gymysg' wedi ei deilwra i anghenion lleol yn seiliedig ar y canlynol:

1. ysgolion i rai 0-11 oed gyda chyfleusterau gofal plant a chymunedol ar/gerllaw'r safle;
2. ysgolion i rai 0-11 oed gyda chyfleusterau gofal plant a chymunedol ar/gerllaw'r safle, wedi eu ffederaleiddio ag ysgol arall/ysgolion eraill;
3. ysgolion i rai 3-11 oed gyda chyfleusterau / heb gyfleusterau gofal plant a chymunedol ar/gerllaw'r safle, mewn trefniant ffederaleiddio;
4. Ysgolion i rai 3-16 neu 3-18 oed NEU ysgolion cynradd ac uwchradd ar un safle ac yn rhannu staff arbenigol a chyfleusterau.
5. Ysgolion uwchradd i rai 11-16 neu 11-18 oed, yn rhannu staff arbenigol ag ysgol arall / ysgolion eraill.

**Disgrifiwch unrhyw wahaniaethau i'ch achos strategol ers i fersiwn ddiwethaf eich RhAS/strategaeth Ystadau gael ei llunio.**

**Rhowch fanylion buddion a risgiau eich Rhaglen.**
*Dim mwy na 1000 o eiriau*

Cyflwynwyd cyd-destun strategol y broses moderneiddio ysgolion yn y RhAS blaenorol. Ers hynny, mae'r rhaglen wedi bod cyflawni yn unol â'i hamcanion strategol.

Mae moderneiddio ysgolion wedi bod yn flaenoriaeth gorfforaethol ers y RhAS flaenorol, ac mae'r rhaglen wedi cyflawni blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol yn sgil adeiladu 2 ysgol newydd a fydd yn agor yn 2017, a chymeradwyo achos busnes llawn ar gyfer Bro Rhosyr a Bro Aberffraw. Nododd yr Adolygiad Porth diweddaraf bod y rhaglen yn esiampl o arfer da mewn nifer o agweddau. Mae Cynllun Corfforaethol Ynys Môn yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ar gyfer 2017-2020, ac mae'r rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol ar gyfer y Cyngor.

Mae'r gyrwyr ar gyfer newid yn aros yn ddigyfnewid ers y RhAS blaenorol
1. lleihau lleoedd dros ben

Mae'r ffigurau isod yn dangos bod nifer y lleoedd dros ben yn sector cynradd Ynys Môn wedi gostwng. Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y newid hwn, fel cau ysgolion bach (y broses foderneiddio cyn sefydlu rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif), newidiadau demograffig a rhywfaint o dwf yn y boblogaeth

| RhAS 2013 | Capasiti | Niferoedd cyfredol | Lleoedd gwag |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 6326 | 4819 | 23.9% |
| Uwchradd | 5462 | 4097 | 25% |
| Cyfanswm | 11788 | 8916 | 24.4% |

| RhAS 2017 | Capasiti | Niferoedd cyfredol | Lleoedd gwag |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 5818 | 5188 | 13.0% |
| Uwchradd | 5171 | 3755 | 27.4% |
| Cyfanswm | 10989 | 8943 | 18.6% |

2. gwella safonau addysgu a chyrhaeddiad;
3. gwella deilliannau addysgol i blant a thorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel;
4. darparu adnoddau modern mewn perthynas ag ysgolion ac adnoddau ystafell ddosbarth
5. capasiti arweinyddiaeth a rheoli
6. hyrwyddo cyfleoedd cyfartal

**Y Risgiau**

Rheolir risgiau Moderneiddio Ysgolion yn y modd a ganlyn:

Tîm y rhaglen yn datblygu'r gofrestr risg, yn adnabod y risgiau, yn sgorio ac yn cynnig mesurau lliniaru. Y Bwrdd Trawsnewid Addysg yn herio a chymeradwyo'r gofrestr risg. Mae'r broses rheoli risg wedi aeddfedu ers y RhAS blaenorol. Mae'r gofrestr risg yn awr yn ddogfen fyw ac yn cael ei diweddaru'n rheolaidd, mae gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau'r Bwrdd o'u rôl mewn perthynas â rheoli risgiau, a sefydlwyd proses gadarn i reoli'r risgiau.
Ceir crynodeb o'r prif risgiau isod:

| Risg | Mesurau lliniaru |
|---|---|
| Diffyg cefnogaeth gan y cyhoedd | Cynnal digwyddiadau ymgynghori anstatudol a statudol, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Sefydlu Grwpiau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid. Cyfathrebu'n effeithiol a dangos parodrwydd i wrando, a defnyddio dulliau cyfathrebu amgen. |
| Llywodraeth Cymru yn peidio â chymeradwyo'r achosion busnes / RhAS diwygiedig | Yr Awdurdod i barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru. Herio / craffu ar yr holl ddogfennau perthnasol yn fewnol cyn cael cymeradwyaeth ffurfiol. |
| Derbynion cyfalaf yn llai nag a ragwelir, neu'n cael eu gohirio. | Y Grŵp Tir ac Asedau Corfforaethol i oruchwylio gweithredu'r Cynllun Rheoli Asedau ac adrodd yn ôl i'r Tîm Trawsnewid Addysg fel bo'n briodol. Cynhaliwyd asesiad gwaelodlin yng Nghaergybi o ddefnydd amgen y safleoedd fydd ar gael yn y dyfodol, ynghyd â'r safleoedd eraill sy'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd, cyn eu cau ym mis Awst 2017. |
| Arian cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn ddim yn cael ei wireddu | Tîm y rhaglen i sicrhau bod prosiectau moderneiddio ysgolion yn cael eu cynnwys yn y cynllun cyllido tymor canolig. Gweithio gyda'r Swyddog Adran 151 a'r Adran Gyllid ar gynllunio strategol ar Fand B a Sicrwydd Ansawdd yn erbyn targedau, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd ar fforddiadwyedd. |
| Tanamcangyfrif costau prosiectau | Cyfeirio at wersi a ddysgwyd ar brosiectau eraill, sydd wedi arwain at gostau uwch, e.e. materion yn gysylltiedig ag archaeoleg, costau sy'n gysylltiedig â rhyddhau staff, |

| | |
|---|---|
| | gweithgareddau disgyblion a chynllunio'r cwricwlwm.<br>Diweddaru costau'n fanwl yn ystod y gwaith o ddatblygu achosion busnes.<br>Sicrhau her gorfforaethol i'r holl gostau a ragwelir drwy gydol holl gamau datblygu'r achos busnes. |
| Risgiau sy'n gysylltiedig â phenodi penaethiaid, a chynllunio olyniaeth. | Y Bwrdd Trawsnewid Addysg i herio'r Adran Addysg a'r tîm prosiect ar gynyddu capasiti arweinyddiaeth ar draws y sector cynradd ac uwchradd.<br>Cymeradwywyd y Strategaeth Arweinyddiaeth a Chynllunio Olyniaeth gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor ym mis Mehefin, i'w weithredu o fis Medi 2017 ymlaen. |

**Manteision y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion**
Mae tîm y prosiect wedi datblygu Cynllun Gwireddu Buddion ar gyfer y rhaglen. Cyflwynwyd y Cynllun i'r Bwrdd Trawsnewid Addysg yn 2014 i'w gymeradwyo. Mae'r cynllun yn cynnwys disgrifiad o'r buddion, allbynnau a ragwelir, a dulliau o fesur y buddion (i ddechrau ar gam terfynu diwedd y prosiect). Cynhaliwyd asesiad manwl er mwyn canfod y dibyniaethau, nodi data sylfaenol, a'r dulliau ar gyfer casglu data perthnasol.
Bydd yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i fesur ac olrhain y buddion a ragwelwyd.

## 4. Yr Achos Economaidd

**Disgrifiwch unrhyw wahaniaethau i'r Achos Economaidd ers i fersiwn ddiweddaraf eich RhAS/strategaeth Ystadau gael ei llunio.**
*Dim mwy na 1000 o eiriau*

## Y Prif Ddewisiadau

Roedd y dewisiadau cychwynnol a ystyriwyd fel y rhai a amlinellir yn RhAS 2013, gan roi ystyriaeth i ’Gwneud Dim’, ’Gwneud y lleiaf posibl’, ‘Rhaglen Rhesymoli Ysgolion Bach’ a ’Rhaglen Datblygu Lawn’.

## Dewis a Ffafrir

Bydd y prosiectau a gaiff sylw ym Mand B yn cynnwys y canlynol. Nid yw’n bosib cyflwyno gwybodaeth derfynol ynghylch unrhyw opsiynau terfynol gan fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith. Yn sgil hyn mae’r costau a gyflwynir yn amcan gorau o’r opsiynau a nodir gan swyddogion fel posibilrwydd pendant.

| **Ardal Llangefni** | | |
|---|---|---|
| **Ysgolion** | **Cost** | **Amserlen** |
| **Y Graig, Talwrn, Gaerwen ac Henblas** | **£7.7M** | |

| **Ardal Amlwch** | | |
|---|---|---|
| **Ysgolion** | **Cost** | **Amserlen** |
| **i) Syr Thomas Jones ac ysgolion eraill cyfagos, gan gynnwys Llannerchymedd** | **£14.5M** | |

| **Ardal Lligwy** | | |
|---|---|---|
| **Ysgolion** | **Cost** | **Amserlen** |
| **Goronwy Owen, Llanbedrgoch, Moelfre a Phentraeth** | **£6.8M** | |

| **Ardal Seiriol** | | |
|---|---|---|
| **Ysgolion** | **Cost** | **Amserlen** |
| **Biwmares, Llandegfan a Llangoed** | **£7.1M** | |

Mae’r holl Gostau Cyfalaf ac Amserlenni uchod wedi cael eu haddasu ar gyfer Tuedd Optimistiaeth*.

*Mae tuedd i arfarnwyr prosiectau fod yn rhy optimistaidd. Er mwyn ystyried hyn, mae’r holl Gostau Cyfalaf ac amserlenni prosiectau wedi cael eu haddasu am i fyny. Cyfeirir at yr addasiad hwn fel Tuedd Optimistiaeth. Mae’r Llyfr Gwyrdd yn argymell terfyn uchaf o 24% ar gyfer addasu costau cyfalaf ar adeiladau safonol. Mae’r Llyfr Gwyrdd yn argymell terfyn uchaf o 4% ar gyfer addasu hyd gwaith ar adeiladau safonol. Gan fod y prosiectau / syniadau hyn ar gyfnod cynnar iawn, nid yw’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r prosiectau wedi cael eu rheoli hyd yn hyn, felly mae’r terfyn uchaf wedi cael ei ddefnyddio wrth addasu ar gyfer y duedd optimistiaeth. Mae’r terfynau uchaf yn seiliedig ar y duedd hanesyddol gyfartalog a geir mewn achosion busnes amlinellol.

## 5. Yr Achos Masnachol

| **Disgrifiwch unrhyw wahaniaethau i'r Achos Masnachol ers i fersiwn ddiweddaraf eich RhAS/strategaeth Ystadau gael ei llunio.**<br><br>**Byddwch cystal â chynnwys manylion y modelau cyflenwi rydych yn eu hystyried e.e. fesul swp (*batching*) neu'n unigol (*single delivery*)**<br>*Dim mwy na 1000 o eiriau* |
|---|
| Mae'r Awdurdod yn adolygu'r hyn mae'n ei gynnig i'r sector preifat ar gyfer Band B. Dyma'r opsiynau mae'n eu hystyried:<br><br>Opsiwn 1 – Mae gan yr Awdurdod brofiad da drwy ei dîm dylunio mewnol ar ddylunio ysgolion newydd. Y tîm mewnol profiadol fydd yn gwneud yr holl waith Dylunio Pensaernïol. Bydd ymgynghorwyr allanol o Fframwaith Ymgynghorwyr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cael eu penodi i ategu'r Tîm Dylunio. Byddai Cyngor Môn yn awyddus i roi'r gwaith canlynol ar gontract allanol: Dylunio Saernïol, Dylunio Gwasanaethau Adeiladu, Cynghorwyr Iechyd a Diogelwch, Gwasanaethau Mesur Meintiau, Aseswyr BREEAM a Phenseiri Tirwedd. Byddai Ymgynghorwyr arbenigol eraill yn cael eu penodi ar brosiectau penodol yn ôl yr angen. Neu<br><br>Opsiwn 2 – Bydd y Tîm Dylunio Pensaernïol mewnol yn gwneud y dyluniad cysyniadol ar gyfer prosiect. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ysgwyddo'r rôl Rheolwr Prosiect ac yn penodi Tîm Dylunio cynhwysfawr drwy Fframwaith Ymgynghorwyr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i fynd â'r dyluniad cysyniadol drwy'r broses dyluniad manwl a gwahoddiad i dendro. Neu<br><br>Opsiwn 3 – Bydd y Tîm Dylunio Pensaernïol mewnol yn gwneud y dyluniad cysyniadol ar gyfer prosiect. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ysgwyddo'r rôl Rheolwr Prosiect ac yn penodi prif gontractwr drwy Fframwaith Contractwyr Gwaith Mawr Gogledd Cymru 2 i wneud dyluniad manwl a gwaith adeiladu'r cynllun. Neu<br><br>Opsiwn 4 – Bydd yr Awdurdod yn ysgrifennu manyleb canlyniadau ar gyfer y gwaith o ddylunio ac adeiladu'r ysgolion newydd, a gofynion yr ysgolion wedi'u hadnewyddu, a bydd yn gosod hyn drwy Fframwaith Contractwyr Gogledd Cymru 2. Y tîm mewnol fydd "asiantau'r cyflogwr" i sicrhau bod y contract yn llwyddo i gyflawni'r nod, ond y contractwr llwyddiannus fydd yn ysgwyddo'r risgiau dylunio ac adeiladu.<br>Bydd un o'r Opsiynau'n cael eu dewis ar gyfer pob cynllun unigol, yn seiliedig ar allu'r Tîm Dylunio, y llwyth gwaith ar y pryd a maint y prosiect.<br><br>**Strategaeth Caffael**<br>Byddwn yn defnyddio Fframwaith Contractwyr Gwaith Mawr Gogledd Cymru 2 i benodi ein partneriaid yn y sector preifat. Bydd y contractwr yn cael ei benodi drwy gynnal mini-gystadleuaeth. Mae'n fframwaith cydweithredol ac integredig sy'n adeiladu ar sylfeini buddion Fframwaith Contractwyr Gogledd Cymru 1 llwyddiannus ac arbedion sy'n deillio o ddefnyddio technoleg, prosesau gwell, arferion cydweithio, arbedion cyflenwi ac arbedion effeithlonrwydd drwy brosesau cydweithio cystadleuol, agored a theg ar brosiectau. |

- Sicrhau cymaint o effaith â phosib ar y gymuned leol drwy gydweithio â busnesau bach a chanolig a defnyddio prosesau dethol doeth sy'n seiliedig ar ansawdd, targedau pendant a meincnodau perfformiad.
- Ymrwymiad pendant i gefnogi a datblygu'r gadwyn gyflenwi leol drwy hyfforddiant a rhannu arferion gorau.
- Dod o hyd i fylchau yn y farchnad ac annog cwmnïau i ôl-lenwi'r bylchau hynny.
- Cydweithio ag asiantaethau ategol a sefydliadau addysg sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygu, a'u cyfeirio at gyllid sydd ar gael i wella sgiliau busnesau bach a chanolig lleol.
- Byddwn yn sicrhau bod ein canlyniadau'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan fesur y Fframwaith a pherfformiad y prosiect yn unol â'r Ddeddf.
- Mae arferion teg yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith a bydd hynny'n dal i ddigwydd, yn ogystal â'r ymrwymiad i hyfforddi a datblygu cenedlaethau'r dyfodol a hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Bydd Fframwaith Contractwyr Gogledd Cymru 2 yn cynnwys pum band ar gyfer gwerth tendr:
£250k > £1m
£1m > £2.5m
£2.5m > £5.5m
£5.5m > £10m
Dros £10m
Byddwn hefyd yn edrych ar wahanol opsiynau – gan gynnwys grwpio rhai o'n cynlluniau ac ystyried caffael ar y cyd wrth i awdurdodau ar draws Gogledd Cymru gydweithio. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod economi Ynys Môn a Gogledd Cymru mor hyfyw â phosib. Bydd cynlluniau i gaffael prosiectau mawr unigol ac i grwpio prosiectau llai yn cael eu hystyried.

**Prosesau caffael arloesol**

Mewn prosiectau llwyddiannus diweddar, mae cynnwys y contractwr yn gynnar yn y broses wedi bod yn allweddol wrth gyflawni'r prosiect. Mae'r fframwaith yn cefnogi'r dull hwnnw, a bydd nifer o Brosiectau ym Mand B yn dilyn yr opsiwn hwn. Bydd yn rhoi cyfle i'r tîm, gan gynnwys y contractwr, edrych yn fanwl ar adeiladwyedd y prosiect a'r gwaith rhaglennu. Byddwn yn ceisio sicrhau mwy o sicrwydd o ran pris cyn penodi'r cynigydd a ffefrir, a chydweithio er mwyn lleihau a dileu'r risgiau.
Mae dwy system adeiladu wahanol â fframiau pren wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar mewn ysgolion yn Ynys Môn, lle cafodd yr holl baneli to a waliau eu gwneud oddi ar y safle. Bydd y systemau hyn, ynghyd â systemau adeiladu oddi-ar-y-safle eraill, yn cael eu hymchwilio ym mhrosiectau Band B – gall y rhain gael effaith ddramatig ar y rhaglen ac ar leihau gwastraff y safle. Mae'r Awdurdod a'i swyddogion bob amser yn ceisio gwthio'r ffiniau ac ystyried dyluniadau arloesol a thechnegau adeiladu modern. Ysgol Rhyd y Llan yw'r ysgol gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael ei hadeiladu â phaneli bêls gwellt.

**Buddion i'r Gymuned**

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn dal i ddefnyddio cymalau Buddion i'r Gymuned safonol yn ei brosesau caffael ar gyfer pob prosiect. Mae sicrhau Buddion i'r Gymuned yn rhan ganolog o ddull caffael cydweithredol Fframwaith Contractwyr Gwaith Mawr

Gogledd Cymru 2. Mae'n ymrwymiad i gyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol rhanbarth Gogledd Cymru. Nod y Fframwaith a'r dull gweithredu yw sicrhau gwerth am arian gyda'r dull caffael a'r prosiectau eu hunain. Gellir gwneud hynny drwy sicrhau bod y prosiectau'n cynnig cymaint o fuddion â phosib i'r gymuned leol, a chynnal datblygiad economaidd ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn helpu i gefnogi agenda trechu tlodi Llywodraeth Cymru.
Mae'r hinsawdd economaidd bresennol a blaenoriaethau economaidd 6 awdurdod Gogledd Cymru yn ffactorau allweddol wrth sicrhau bod Buddion i'r Gymuned yn rhan ganolog o'r Fframwaith a'r dull gweithredu ehangach. Y cwmpas yw mynd ati'n strategol i reoli a chydlynu'r buddsoddiad enfawr yn y rhanbarth a'r arbedion maint i sicrhau buddion ehangach a sbarduno twf economaidd drwy sicrhau mwy o gyfleoedd hyfforddiant a gwaith, cadw swyddi, cynlluniau'r gadwyn gyflenwi a mentrau cymunedol. Bydd hyn yn sicrhau twf economaidd cynaliadwy sy'n creu cyfleoedd i bawb yng Nghymru.
Mae'r fframwaith presennol wedi bod yn llwyddiant ysgubol o ran y Buddion i'r Gymuned yn dilyn y ddau brosiect a gwblhawyd yn Ynys Môn, gyda 5 o swyddi'n cael eu creu, 12 prentis yn cael eu cyflogi, 40 o gyfleoedd hyfforddiant a 793 o achosion o ryngweithio â disgyblion.

## 6. Yr Achos Ariannol

**Disgrifiwch unrhyw wahaniaethau i'r Achos Ariannol ers i fersiwn ddiweddaraf eich RhAS/strategaeth Ystadau gael ei llunio.**

**Rhowch fanylion y trefniadau arian cyfatebol ar gyfer eich Rhaglen a chadarnhau a yw'n fforddiadwy neu ddim.**
*Dim mwy na 1000 o eiriau*

Mae'r costau cyfalaf dangosol, ynghyd â derbyniadau cyfalaf cysylltiedig ac amcangyfrif o'r arbedion refeniw, wedi'u nodi isod: **(Bydd angen llenwi'r tabl isod ar ôl penderfynu pa un o'r opsiynau yn rhan 4 a ddewisir).**

| **Disgrifiad** | **Amcangyfrif o'r Costau Cyfalaf** | **Amcangyfrif o'r Derbyniadau Cyfalaf** | **Amcangyfrif o'r (Arbedion Refeniw) / Costau Ychwanegol** |
|---|---|---|---|
| Y Graig a Talwrn | £3,870,660 | £140,000 | (£43,730) |
| Gaerwen | £3,251,739 | £0 | +£23,420 |
| Henblas | £618,307 | £0 | +£9,690 |
| Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd cyfagos gan gynnwys Llannerchymedd | £14,559,703 | £445,000 | (£99,854) |
| Goronwy Owen, Llanbedrgoch, Moelfre a Phentraeth | £6,727,327 | £1,830,000 | (£146,700) |
| Biwmares, Llandegfan a Llangoed | £7,108,765 | £1,416,000 | (£14,486) |
| | **£36,136,501** | **£3,831,000** | **(£271,660)** |
| | | | |

Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost, ac eithrio llog ar fenthyca digymorth ac arbedion refeniw'r rhaglen, yn hyd at £36miliwn.

Mae proffil cyllido sylfaenol wedi cael ei baratoi, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Bydd cymorth grant ar gael gan y Llywodraeth, hyd at '50% o'r Costau Cyfalaf' neu '50% o'r canllaw costau a argymhellir ar gyfer BB98/99'
- Bydd yr holl dderbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu'r hen gyfleusterau yn cael eu cynnwys yn y rhaglen;
- Bydd balans y gwariant yn cael ei dalu gan ddefnyddio dulliau benthyca digymorth.

Mae hyn yn arwain at y ffigurau a ganlyn:

| **FFYNONELLAU CYLLID** | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £18,068,250 |
| Derbyniadau Cyfalaf | £3,831,000 |
| Benthyca Digymorth | £14,237,251 |
| **Cyfanswm** | **£36,136,501** |

Mae’r costau benthyca i ad-dalu'r benthyca digymorth tua £673,422 y flwyddyn.

Byddai rhywfaint o gostau trosiannol tymor byr yn gysylltiedig â’r opsiynau rhataf, canolig a drytaf. Mae’r costau hyn yn cynnwys:
- Penodi Pennaeth yn gynnar cyn i ddisgyblion gael eu cofrestru yn yr ysgol newydd.
- Costau dileu swydd posib ar gyfer Penaethiaid / Athrawon.
- Diogelu tâl Penaethiaid neu Athrawon a fydd yn wynebu gostyngiad mewn cyflog o bosib.
- Costau eiddo ar gyfer yr ysgolion sydd wedi cau, nes bydd modd cael gwared ar yr ysgolion.

Mae fforddiadwyedd y cynllun yn dibynnu ar sicrhau digon o arbedion o Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion drwy ad-drefnu ysgolion neu nodi arbedion o wasanaethau eraill, neu drwy gynyddu’r dreth gyngor neu ddod o hyd i ffynonellau eraill o incwm.

## 7. Yr Achos Rheoli

**Disgrifiwch unrhyw wahaniaethau i’r Achos Rheoli ers i fersiwn ddiweddaraf eich RhAS/strategaeth Ystadau gael ei llunio.**
*Dim mwy na 1000 o eiriau*

Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion a'r prosiectau cysylltiedig yn dal i gael eu monitro gan y Bwrdd Trawsnewid Addysg. Y newid mwyaf o ran dull llywodraethu'r rhaglen yw diwygio byrddau'r rhaglen gorfforaethol. Roedd 3 bwrdd rhaglen yn wreiddiol, ac maent yn gweithredu fel dau fwrdd erbyn hyn. Roedd y Bwrdd Trawsnewid Addysg yn arfer bod yn atebol i'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaethau, ac mae'n atebol i Fwrdd y Rhaglen Gwella Gwasanaethau, Cymunedau a Phartneriaethau erbyn hyn. Mae rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd nawr yn cynnwys goruchwylio a sbarduno prosiectau a rhaglenni newid, gan gynnig cyfeiriad ac argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer rhaglenni cyllid a phrosiectau newid. Mae'r Bwrdd hefyd yn atebol am risgiau'r rhaglenni/prosiectau, cyrraedd cerrig milltir pwysig a chymeradwyo amserlenni rhaglenni mawr a chymhleth.
Mae'r Bwrdd Trawsnewid Addysg wedi mabwysiadu egwyddorion rheoli prosiectau a rhaglenni. Mae angen sêl bendith y Bwrdd Trawsnewid Addysg ar gyfer achosion busnes a phrosiectau moderneiddio ysgolion.

Mae rôl yr Uwch Swyddog Cyfrifol yn dal yn bodoli ers cyflwyno'r RhAS flaenorol er mwyn sicrhau y bydd y rhaglen yn llwyddiant, ac y bydd ei manteision yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, dydy'r Uwch Swyddog Cyfrifol ddim wedi newid – Delyth Molyneux, y Pennaeth Addysg, yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol presennol. Roedd y RhAS flaenorol hefyd yn nodi y dylid penodi Rheolwr Rhaglen i reoli'r llu o brosiectau. Mae'r Rheolwr Rhaglen wedi bod yn y swydd ers tair blynedd.

Mae Tîm Adolygiadau Gateway Llywodraeth Cymru wedi nodi Ynys Môn fel enghraifft o arfer da o ran Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif. Mae Adolygiadau Gateway wedi cadarnhau bod y rhaglen ar y trywydd iawn i gyflawni ei hamcanion. Mae'r Cyngor wedi integreiddio'r timau rheoli rhaglenni a pherfformiad corfforaethol er mwyn rhoi mwy o sylw i reoli perfformiad a chyflawniad.

Roedd y RhAS flaenorol yn pwysleisio pwysigrwydd sefydlu tîm prosiect. Mae'r tîm wedi cael ei sefydlu erbyn hyn ac mae'n llwyddiannus. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o sgiliau a gwybodaeth.

Mae'r cynllun cyfathrebu wedi newid yn sylweddol, ac mae tîm y prosiect wedi edrych ar wahanol ddulliau cyfathrebu er mwyn bodloni anghenion gwahanol randdeiliaid. Mae tudalen Moderneiddio Ysgolion wedi cael ei chreu ar Facebook, gyda dros 100 o ddilynwyr. Mae'r timau prosiect yn awyddus i edrych ar ddulliau eraill i gyfleu negeseuon pwysig, fel fideos a chyfweliadau ar orsafoedd radio lleol.

Mae logiau gwersi yn cael eu diweddaru a'u trafod yn aml, gan fod dysgu o heriau a llwyddiannau prosiectau yn y gorffennol yn hollbwysig er mwyn sicrhau prosiectau llwyddiannus. Mae rhagor o wersi wedi cael eu dysgu am y broses ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'r dogfennau a'r broses wedi cael eu diwygio yn sgil hynny, a byddant yn dal i gael eu datblygu. Bydd grwpiau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid sy'n annog trafodaeth agored yn cael eu sefydlu yn ystod cam datblygu'r prosiectau, gyda'r nod gyffredinol o sicrhau tryloywder a bod yr holl randdeiliaid yn ysgwyddo perchnogaeth dros y broses a'r prosiect.

**Rhowch fanylion y strwythurau sydd ar waith i gyflenwi'r prosiectau yn eich Rhaglen a manylion cysylltu'r tîm craidd.**
*Dim mwy na 500 o eiriau / organogram*

Mae gan yr Awdurdod system llywodraethu a rheoli prosiect corfforaethol ar gyfer y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion sy'n ddigon cadarn i sicrhau cynnydd; bod adnoddau digonol a phriodol yn cael eu defnyddio; bod rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynnwys a'u hysbysu fel y bo'n briodol, a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn amserol. Mae'r trefniadau'n adlewyrchu ac yn cydnabod maint yr ymrwymiad gwariant dan sylw a natur gymhleth yr ymgynghoriad wrth gyflawni'r prosiect hwn.

Bydd y Bwrdd Trawsnewid Addysg yn dal yn atebol i Fwrdd y Rhaglen Gwella Gwasanaethau, Cymunedau a Phartneriaethau – mae'r strwythur llywodraethu hwn yn sicrhau bod y Bwrdd Trawsnewid Addysg a'i brosiectau moderneiddio ysgolion yn gallu dangos i'r Uwch Dîm Arwain ei fod yn cyflawni'r gwaith yn gyflym. Mae'r Grŵp Rheoli Asedau Corfforaethol hefyd yn atebol i'r Bwrdd Trawsnewid Addysg i sicrhau dull cyson o reoli asedau'r Awdurdod. Mae'r Bwrdd Trawsnewid Addysg yn cadw at yr egwyddorion rheoli prosiect corfforaethol, yn gweithio'n unol â chynllun y prosiect ac yn rhoi gwybod am gynnydd. Bydd angen i bob prosiect moderneiddio ysgol a'i achos busnes gael sêl bendith y Bwrdd Trawsnewid Addysg.

Fel yr amlinellir uchod, mae tîm prosiect mewnol wedi cael ei sefydlu, yn seiliedig ar yr amrywiaeth eang o sgiliau a gwybodaeth a phrofiad o reoli prosiect. Bydd aelodau craidd y tîm prosiect mewnol yn cynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| **Uwch Swyddog Cyfrifol** | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu |
| **Rheolwr Rhaglen** | Emrys Bebb<br>Prince 2 a MSP |
| **Rheolwr Rhaglen** | Nonn Hughes<br>Prince 2 a MSP |
| **Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol** | Gareth Thomas<br>Pensaer Siartredig RIBA |
| **Cyfrifydd** | Arwyn Hughes |
| **Uwch Swyddog Prisio** | Dylan Edwards |
| **Swyddog Cynllunio** | Dewi Francis |
| **Cyfreithiwr** | Arwel Jones |
| **Peiriannydd** | Hugh Percy |
| | |

**Rheoli Materion**

Ystyr mater yw digwyddiad annisgwyl lle bydd rhaid i'r rheolwyr weithredu. Gallai fod yn broblem, yn ymholiad neu'n bryder sy'n effeithio mewn rhyw ffordd ar ran o'r rhaglen, neu'r rhaglen gyfan, neu'n risg sydd wedi dod yn wir. Bydd pob mater a fydd yn cael ei godi – o ba bynnag ffynhonnell – yn cael ei gofnodi ar y log materion, sy'n rhan o adnoddau rheoli'r rheolwr

prosiect. Bydd y materion yn cael eu codi ar lefel tîm y prosiect, ac os na fydd modd eu datrys byddant yn cael eu cyfeirio at y Bwrdd Trawsnewid Addysg.

**Gwireddu Buddion**

Bydd y cynllun gwireddu buddion yn cael ei ddefnyddio fel adnodd i sicrhau bod y buddion a fwriedir (canlyniadau, prosesau newid) yn cael eu gwireddu a'u cynnal ar ddiwedd y prosiect. Bydd yr Awdurdod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i lunio adnodd tracio i gadw golwg ar y canlyniadau fel maent wedi'u nodi yn yr achos busnes, ac i adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Bydd y cynllun yn diffinio'r rôl a'r cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau buddion penodol, a'r dull a'r amserlen ar gyfer hynny. Bydd Uwch Swyddog Cyfrifol y rhaglen yn arwain yr adolygiadau buddion ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.

**Trefniadau ar gyfer rheoli risg**

Mae rheoli risg ar y prosiect hwn yn broses sy'n cynnwys nodi risgiau, asesu risgiau a strategaeth lliniaru. Bydd y Rheolwr Prosiect yn cadw Cofrestr Risgiau sy'n cael ei hadolygu:

i. yng nghyfarfodydd y Bwrdd Trawsnewid Addysg, ac

ii. yng nghyfarfodydd Tîm y Prosiect.

Mae'r Uwch Swyddog Cyfrifol hefyd yn annog disgyblaethau cryfach ar gyfer Rheoli Risg yn y Rhaglen gyda sbardunau pendant, a system uwchgyfeirio ac adrodd. Mae tîm y prosiect wedi llunio cofrestr risgiau ar gyfer y rhaglen. Gellir gweld copi o gofrestr risgiau'r prosiect ar gais.

**Trefniadau ar gyfer rheoli contractau**

O safbwynt contract, Gareth Thomas (Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol) fydd yn rheoli'r contract Adeiladu, a bydd yn cael cymorth gan Syrfëwr Meintiau a benodir yn allanol. Bydd rhaid i'r partïon drafod a chytuno ar bob cytundeb a newid yn y contract.

**Trefniadau adolygiadau Gateway**

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yr Awdurdod wedi cael ei hadolygu dair gwaith hyd yma, ac wedi cael y statws Ambr-Gwyrdd drwy gydol y broses o safbwynt ffydd yn y broses gyflawni.

Cynhaliwyd yr Adolygiad Gateway diweddaraf ar 9-11 Ionawr 2017, i gyd-daro â chyflwyno'r Achos Busnes Llawn hwn ar gyfer prosiect Bro Aberffraw / Rhosyr. Mae profiad a phroses adolygiad Gateway yn dal i gynnig sicrwydd i'r Uwch Swyddog Cyfrifol bod y Rhaglen yn dal i gymryd camau cadarnhaol tuag at lwyddiant. Mae'r adolygwyr yn cyfweld â rhanddeiliaid allweddol er mwyn nodi enghreifftiau o arferion da a chyfleoedd i ddathlu llwyddiant.

**Rheoli Newid**

Hanfod y rhaglen moderneiddio ysgolion yw rheoli newid. Mae newid yn gallu arwain at ddigwyddiadau annisgwyl a cholli ffydd rhanddeiliaid. Mae'r Uwch Swyddog Cyfrifol yn ffyddiog bod gan y rhaglen strwythur llywodraethu da i gadw rheolaeth dynn dros wyriadau a materion o bwys.

## Darparwch brif gerrig milltir ar gyfer y Rhaglen os gwelwch yn dda

***COPY PLAN HERE***

## 9. Gwneud cais am arian y Model Buddsoddi Cydfuddiannol

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n bwriadu cyflawni unrhyw rai o'ch prosiectau Band B gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol?** *Dylech ddileu fel y bo'n briodol* | **Nac ydym** |

**Os:**

- **Nac ydych -** ewch i'r adran nesaf, **Adran 10**
- **Ydych -** llenwch yr adran berthnasol ar gyfer awdurdodau lleol neu Sefydliadau Addysg Bellach isod.

**(a) Awdurdodau Lleol**

| **Ysgolion** | | **Nifer** | **Maint** | **Cost - ar sail arweiniad Llywodraeth Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodwch ar gyfer faint o adeiladau ysgol y byddech yn defnyddio'r cyllid hwn:** | **Cynradd** | | | |
| | **Uwchradd** | | | |
| | **Cyfanswm** | | | |

| |
|---|
| **Rhowch fanylion cryno gan gynnwys teitl ac amcangyfrif o gostau cyfalaf y prosiect(au):** *Dim mwy na 1000 o eiriau* |

**Enghraifft:**

**Ysgol Uwchradd Westleaf**

**Amcangyfrif o'r Gost Cyfalaf - £20,000,000**
Dyma ysgol uwchradd newydd gyda lle i 1000 FTE yn nhref x a fydd yn disodli'r ddwy ysgol uwchradd sydd yno'n barod a chyflwr y rheini yn gyflwr categori C a D.

**(b) Sefydliadau Addysg Bellach**

| **Colegau** |
| --- |
| **Rhowch fanylion cryno prosiec(au) eich coleg, ynghyd ag amcangyfrif o'r gost cyfalaf gan ddefnyddio cyfradd cyfalaf Llywodraeth Cymru am bob m$^2$.**<br><br>**Rhowch fanylion am faint y gwaith a gynlluniwyd e.e. campws, amnewid bloc, estyniad a'r math o gyfleusterau e.e. adeiladu, trin gwallt a harddwch.**<br>*Dim mwy na 1000 o eiriau* |

| |
|---|
| **Enghraifft:**<br><br>**Canolfan celfyddydau creadigol a busnes Campws Eastleaf**<br><br>**Amcangyfrif o'r Gost Cyfalaf: £20,000,000**<br><br>Dyma ddatblygiad 600 lle ar gyfer busnes a'r celfyddydau creadigol ar gampws x......... |

## 10. Prosiectau Band B

| | |
|---|---|
| **Faint o brosiectau rydych yn bwriadu'u cyflwyno ym Mand B?** | 6 |

| |
|---|
| **Beth ydy'r rhain? (Sylwch y dylai manylion prosiectau gael eu cynnwys yn y tabl atodedig hefyd). Dylid rhoi'r prosiectau yn ôl blaenoriaeth yn y ddwy ddogfen.**<br>*Dim mwy na 500 o eiriau* |

| Rhif | Cynllun |
|---|---|
| **1.** | **Addasu Ysgol Y Graig yn Llangefni, cau Ysgol Talwrn, symud y disgyblion i Ysgol Y Graig**<br><br>**Amcan gost cyfalaf - £3,870,660** |
| **2.** | **Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd cyfagos, gan gynnwys Llanerchymedd**<br>**Amcan gost cyfalaf - £14,559,703** |
| **3.** | **Lligwy / Gogledd Ddwyrain Môn – Ysgol gynradd newydd yn lle 4 ysgol gynradd**<br><br>**Amcan gost cyfalaf - £6,727,327**<br><br>Ysgol gynradd newydd i 330 |
| **5.** | Biwmares, Llandegfan a Llangoed<br><br>**Amcan gost cyfalaf -** £7,108,765 |
| **6.** | **Ail-fodelu Ysgol Esceifiog, Gaerwen**<br><br>**Amcan gost cyfalaf - £3,251,739**<br><br>Ail fodelu Ysgol Esceifiog i gymryd 150 o blant |
| **7.** | **Ail-fodelu ac ymestyn Ysgol Henblas, Llangristiolus**<br><br>**Amcan gost cyfalaf - £618,307**<br><br>Ail fodelu Ysgol Esceifiog (96 o blant) |

## 11. Bandiau C a D

**Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer Bandiau C a D eich Rhaglen. [Bydd Band C yn weithredol rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2029; bydd Band D yn weithredol rhwng Ebrill 2029 a Mawrth 2034].**

**Band C**

| | |
|---|---|
| **1.** | **Ail-fodelu 2 ysgol gynradd** |
| **2.** | **Ail fodelu ysgol uwchradd** |
| **3.** | **Adeilad 6ed Dosbarth** |
| **4.** | **Ail-fodelu ysgol uwchradd a symud disgyblion un neu ddwy ysgol gynradd I'r ysgol ar y safle** |
| **5.** | **Ail-fodelu ysgol uwchradd** |
| **6.** | **Ail-fodelu ysgol uwchradd** |

| | |
|---|---|
| **7.** | **Ysgol gynradd newydd yn lle 3 ysgol yng Ngorllewin Canolbarth Môn** |

**Band D**

| | |
|---|---|
| **1.** | **Ysgol gynradd newydd yn lle 2 yng Ngorllewin Canolbarth Môn** |
| **2.** | **Ail fodelu ysgol gynradd** |
| **3.** | **Ysgol gynradd newydd yng Ngorllewin Môn** |

## 12. Datganiad Cymeradwyo'r Rhaglen Amlinelliad Strategol - Diweddariad Band B - Gorffennaf 2017

**Llenwch fel bo'n briodol:**

**Cadarnhaf fod y diweddariadau yn y ffurflen hon wedi'u cadarnhau un ai gan Gabinet yr awdurdod lleol neu Bwrdd y sefydliad addysg bellach:**

| | |
|---|---|
| **Awdurdod Lleol/ Coleg** | |
| **Enw** *Print* | |
| **Enw** *Llofnod* | |
| **Swydd yn y sefydliad** | |
| **Dyddiad** DD/MM/BBBB | |

**Os nad oes cadarnhad wedi'i gael ar lefel Cabinet neu Fwrdd, dywedwch pryd y rhagwelir y ceir hyn. Cadarnhewch hefyd ar ba lefel mae'r ddogfen wedi cael ei llofnodi.**

| |
|---|
| |

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

Cyllid Costau Staffio yn y Gwasanaethau Plant /
Funding Staffing Costs within Children's Services

| |
|---|
| **Nid yw Paragraff(au) i gael eu cyhoeddi'n unol â pharagraffau 12, 13 & 14 rhan 1 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972** / Paragraph(s) Not for publication by reason of paragraph 12,13 & 14 of part 1 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972:<br><br>**12. Gwybodaeth ynghylch unigolyn penodol** / Information relating to a particular individual<br>**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)<br>**13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn** / Information which is likely to reveal the identity of an individual<br>**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below)<br>**14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth)** / Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information)<br>**Nid yw gwybodaeth sydd dan baragraff 14 yn wybodaeth eithriedig dan y paragraff hwnnw os oes angen ei chofrestru dan:-** / Information falling within paragraph 14 is not exempt information by virtue of that paragraph if it is required to be registered under:-<br>**Deddf Cwmnïau 1985** / the Companies Act 1985 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1974** / the Friendly Societies Act 1974 **Deddf Cymdeithasau Llesiant 1992** / the Friendly Societies Act 1992 **Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 i 1978** / the Industrial and Provident Societies Acts 1965 to 1978 **Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986** / the Building Societies Act 1986; **neu** / or **Deddf Elusennau 1993** / the Charities Act 1993<br>**Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol (gweler isod)** / Public Interest Test applies (see below) |

| Y PRAWF – THE TEST | |
|---|---|
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw/ The public interest in not disclosing is:-<br><br>**Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am gyflogau unigolion a chyllidebau staffio gwasanaethau. Wedi pwyso a mesur, penderfynwyd gweithredu Prawf Budd y Cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn oherwydd sensitifrwydd y wybodaeth ynghylch staff ac er mwyn gwarchod yr opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor o safbwynt recriwtion yn y dyfodol.**<br><br>This report contains details of Individuals salaries and service staffing budgets. On consideration of balance it is considered that a Public Interest Test is implemented on this report due to the sensitivity of the information in relation to staff and to protect the recruitment options of the Council moving forward. |

**Argymhelliad – Mae'r budd i'r cyhoedd o gadw'r eithriad yn gwrthbwyso'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth /** Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs/ the public interest in disclosing the information.

**Dim i'w gyhoeddi oherwydd paragraff 12, 13 & 14 o rhan 1 Rhestr 12A o'r Ddeddf Llywodraeth Lleol 1972**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **17 Gorffennaf 2017** |
| **Pwnc:** | **Ariannu Costau Staffio yn y Gwasanaethau Plant** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Llinos Medi Huws - Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Y Cynghorydd John Griffith - Cyllid** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Llŷr Bryn Roberts**<br>**Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Dr Caroline Turner** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dim** |

**A –Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

1. Dyrannu swm o £ 181,208 o'r Cronfeydd Wrth Gefn fel y gellwn ymestyn contractau staff asiantaeth am dri mis arall. Ymestyn contract un swydd Rheolwr Gwasanaeth hyd at fis Mawrth 2018 a 3 swydd Gwaith Cymdeithasol tan ddiwedd Rhagfyr 2017.
2. Bwrw ymlaen â'r ail gam yng nghynllun ailstrwythuro'r Gwasanaethau Plant (Costau ychwanegol yn sgil ailraddio swyddi yn Teulu Môn) lle bydd angen gwariant ychwanegol o £17,000 (y gellir ei ariannu o'r gyllideb staffio ar gyfer y Gwasanaethau Plant).
3. Rhoi'r hyblygrwydd i'r Pennaeth Gwasanaeth ddefnyddio peth o'r gyllideb na fydd wedi ei dyrannu (£93,957) ar ôl yr ailstrwythuro er mwyn cynorthwyo i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth dros yr ychydig fisoedd nesaf.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

1. Byddem yn gallu dod â chontractau'r Gweithwyr Cymdeithasol Asiantaeth i ben. Fodd bynnag, ni fyddai'r awdurdod yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol i amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n Derbyn Gofal, sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, ac sydd

Eithriedig

mewn angen, heb barhau i gyflogi Gweithwyr Cymdeithasol Asiantaeth am dri mis pellach, hyd nes y cwblhawyd ailstrwythuro rhannau o’r Gwasanaethau Plant a hyd nes y bydd Gweithwyr Cymdeithasol mwy profiadol wedi cael eu recriwtio.

2. Gallem gadw'r staff presennol sydd wedi trosglwyddo o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar eu graddfeydd cyflog cyfredol a recriwtio staff ychwanegol ar yr un raddfa. Fodd bynnag, ni fyddem yn gallu disgwyl iddynt weithio'n wahanol o fewn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; mae'n annhebygol y byddem yn gallu recriwtio Swyddogion Ymgysylltu ychwanegol os byddai’r swyddi'n cael eu hysbysebu ar y raddfa bresennol.

| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r gyllideb staffio ar gyfer y Gwasanaethau Plant wedi ei hymrwymo ar hyn o bryd. Nid yw swyddogion yn gallu bwrw ymlaen â'r camau a amlinellir yn yr adroddiad sydd ynghlwm heb fynd i gostau ychwanegol, a ariennid o'r Cronfeydd Wrth Gefn. Rhaid cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer hynny. |

| **Ch - A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| |

| **D - A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Byddai angen cyfraniad ariannol ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn unig. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (Gorfodol) | Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi gweld adroddiadau ar Ailstrwythuro’r Gwasanaethau Plant ac ar Strategaeth Ataliol Gorfforaethol, ac mae’n cefnogi'r cynigion, yn amodol ar bod yr arian yn cael ei ryddhau. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (Gorfodol) | Mae'r Pennaeth Cyllid wedi gweld yr adroddiad ac mae’n fodlon. Mae swyddogion cyllid wedi cynghori'r Pennaeth Gwasanaeth yn ystod pob cam o'r broses ailstrwythuro er |

Eithriedig

| | | |
|---|---|---|
| | | mwyn sicrhau bod y strwythur newydd yn fforddiadwy. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (Gorfodol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi bod yn ymwneud â'r mater hwn ar bob cam o'r broses o Ailstrwythuro'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Troseddau ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylchedd** | |
| **5** | **Cydraddoldeb** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | Bydd y cynigion a amlinellir yn yr adroddiad sydd ynghlwm yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd hefyd yn ein golygu y gellwn gyflawni argymhellion a wnaed gan AGGCC yn dilyn ei harolygiad o Wasanaethau'r Awdurdod ar gyfer Plant ym mis Tachwedd 2016. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)** |
|---|

Eithriedig

Gweler yr adroddiad sydd ynghlwm

# Ariannu Costau Staffio yn y Gwasanaethau Plant

## Cefndir

Mae'r Timau Gweithredol yn y Gwasanaethau Plant yn cael eu hailstrwythuro ar hyn o bryd, gyda goblygiadau ar gyfer rhannau eraill o'r Gwasanaeth. Mae timau eraill yn y Gwasanaethau Plant nad ydynt yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan yr ailstrwythuro hwn, ac nid yw eu costau hwy wedi eu hadlewyrchu yn y ffigyrau a welir yn yr adroddiad hwn (yn benodol yr Uned Ddiogelu, y Gwasanaethau Arbenigol Plant, y Tîm Lleoli, Gweithwyr Cymorth, y Tîm Teuluoedd Gwydn a'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd.)  Mae hyn yn dilyn ymgynghori â staff yn ystod mis Chwefror 2017 ar fodel gweithredu newydd a strwythur newydd i gefnogi'r model hwnnw. Cafodd yr Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Gwaith a'r Undebau Llafur eu briffio ar yr ailstrwythuro cyn yr ymgynghoriad. Bydd y strwythur newydd yn galluogi'r Gwasanaeth i gyflawni llawer o'r argymhellion yn yr arolygiad a gynhaliwyd gan AGGCC ar ddiwedd 2016 o wasanaethau'r awdurdod ar gyfer plant; bydd hefyd yn fodd i ni gryfhau ein cefnogaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn unol â gofynion Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Un o'r egwyddorion sylfaenol wrth wraidd yr ailstrwythuro oedd gwella ein gwasanaethau o fewn y gyllideb staffio gyfredol ar gyfer y Gwasanaeth, yn enwedig oherwydd bod yr awdurdod wedi dyrannu adnoddau ychwanegol i gryfhau capasiti'r Gwasanaeth yn ystod 2017. Felly, rydym wedi gweithio o fewn y gyllideb staffio gyfredol ar gyfer Timau Gweithredol, sef **£1,425,290.** Dylai'r strwythur newydd, **a** pholisïau a gweithdrefnau cryfach, olygu y gall y Gwasanaeth recriwtio, datblygu a chadw staff, a thrwy hynny sefydlogi'r Gwasanaeth yn dilyn ychydig o flynyddoedd anodd.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant mewn angen, nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a nifer y plant sy'n Derbyn Gofal gan yr awdurdod lleol.  Mae hyn wedi rhoi cryn straen ar y Gwasanaeth, ar Dimau ac ar unigolion.  Bu trosiant uchel o staff yn y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â chyfnodau sylweddol o salwch staff o fewn rhannau o'r Gwasanaeth.   Rydym wedi ymdopi â'r cyfuniad hwn o bwysau drwy gyflogi Gweithwyr Cymdeithasol Asiantaeth a Rheolwyr Asiantaeth; mae hynny wedi golygu ein bod wedi medru cynnal ein gwasanaethau statudol, ond nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy.  Felly, rydym yn recriwtio ar bob lefel i'r strwythur newydd.  Bydd y chwech i'r naw mis nesaf yn gyfnod trosiannol wrth i ni recriwtio i'r strwythur newydd, gan olygu y gellwn, yn raddol, leihau ein dibyniaeth ar staff Asiantaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw costau ychwanegol staff asiantaeth yn y tymor byr yn ein rhwystro rhag cwblhau'r ailstrwythuro.

Eithriedig

## Y Strwythur newydd

Mae diagramau sy'n amlinellu'r strwythur newydd ynghlwm yn Atodiad A. Prif nodweddion y strwythurau newydd yw:

- Sefydlu Tîm Ymyrraeth Gynnar ac Ataliol , o dan arweiniad Rheolwr Gwasanaeth, a thîm Ymyrraeth Ddwys, hefyd o dan arweiniad Rheolwr Gwasanaeth
- O fewn y ddwy ran hyn o'r gwasanaeth, sefydlir timau llai o Weithwyr Cymdeithasol dan arweiniad wyth Arweinydd Ymarfer, gyda ffocws ar wella ymarfer proffesiynol. Bydd chwech o'r Arweinwyr Ymarfer yn arwain y dyletswyddau statudol a gyflawnir ar hyn o bryd gan y Tîm Dyletswydd, FIT a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Mae seithfed swydd Arweinydd Ymarfer yn cael ei sefydlu yn lle'r bwriad gwreiddiol o gael Rheolwr Tîm yn arwain y Tîm Teuluoedd Gwydn. Bydd yr wythfed Arweinydd Ymarfer yn arwain y Tîm o Amgylch y Teulu (mae adnoddau'r tîm wedi trosglwyddo o'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes i'r Gwasanaethau Plant ers Ebrill 2017)
- Cryfhau'r Uned Ddiogelu trwy ailsefydlu'r swydd Sicrhau Ansawdd a sefydlu swydd weinyddol i gefnogi'r Uned
- Cafodd swydd Rheolwr Prosiect ei chynnwys yn y cyfrifiadau gwreiddiol, ond mae wedi ei gohirio tra byddwn yn adolygu ein blaenoriaethau (mae £46,011 wedi cael ei neilltuo ar gyfer y swydd hon).

Cyfanswm cost y strwythur newydd (fel y cyfrifwyd ym mis Ionawr 2017) yw **£ 1,360,344**. Mae hyn yn rhyddhau **£64,946** i'w ddefnyddio i gryfhau rhannau eraill o'r Gwasanaeth. Mae hyn wedi ein galluogi i symud ymlaen gydag elfennau pellach o'r ailstrwythuro, fel yr amlinellir isod.

## Ail gam yr Ailstrwythuro

Roedd ffocws cam cyntaf yr ailstrwythuro ar gryfhau elfen Gwaith Cymdeithasol y Gwasanaethau Plant. Fodd bynnag, i'r gweithwyr proffesiynol fedru gweithio'n effeithiol, mae angen i rannau eraill o'r gwasanaethau weithredu'n effeithiol i'w cefnogi ac i leihau'r galw ar eu hamser. Mae ail gam yr ailstrwythuro, felly, wedi canolbwyntio ar yr elfennau canlynol:

- Cryfhau **Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth:**
  - drwy sefydlu **Teulu Môn,** sef y pwynt cyswllt cyntaf sy'n gallu darparu Gwybodaeth a Chyngor;
  - trwy gryfhau'r **Tîm o Amgylch y Teulu;**
  - drwy ailgomisiynu gwasanaethau a ariennir gan y rhaglen grant **Teuluoedd yn Gyntaf**.
- Gwneud gwell defnydd o'n tîm o **Weithwyr Cymorth.** Mae gan lawer ohonynt y profiad a'r ddawn i drosglwyddo i'r tîm Teuluoedd Gwydn. 'Rydym yn bwriadu

Eithriedig

symud rhai o'r Gweithwyr Cymorth i’r tîm hwn a lleihau'r adnoddau ar gyfer goruchwylio cyswllt rhwng Plant sy'n Derbyn Gofal a'u teuluoedd biolegol.

Mae'r ddwy elfen hyn yn golygu bod gofyn newid natur a graddfeydd nifer o swyddi o fewn y timau presennol ac mae disgrifiadau swydd newydd wedi cael eu harfarnu gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Mae cydweithwyr yn y Gwasanaeth Cyllid wedi cyfrifo y byddai ailraddio swyddi o fewn Teulu Môn yn costio **£ 17,000 y flwyddyn yn ychwanegol,** ac rydym yn cynnig defnyddio rhywfaint o'r gyllideb a ryddhawyd yn sgil ailstrwythuro’r Timau Gweithrediadau (£64,946) i gwrdd â’r gost ychwanegol hon. Byddai hyn yn gadael **£47,946** i’w ddefnyddio at ddibenion eraill.

## Cyllidebau staffio sydd heb eu dyrannu

Mae dau swm o arian ar gael ar ddiwedd cam cyfredol yr ailstrwythuro:

- £ 47,946 sydd heb ei dyrannu, fel y nodwyd uchod
- £ 46,011 a oedd wedi ei neilltuo’n wreiddiol ar gyfer swydd Rheolwr Prosiect i fonitro gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae hyn yn gadael cyfanswm o **£ 93,957 sydd heb ei ddyrannu** . Awgrymwn y dylai'r rhan fwyaf o'r swm hwn aros fel arian sydd heb ei ddyrannu ar hyn o bryd, er mwyn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i'r Pennaeth Gwasanaeth yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf wrth i ni weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth, ymateb i'r galw am wasanaethau a chwblhau gweddill yr ailstrwythuro.

Un o'r syniadau cychwynnol ar gyfer gwneud defnydd posib o'r swm hwn yw penodi Gweithiwr Cymdeithasol profiadol (Graddfa 8) i weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i fynd ati i leihau nifer y cyfeiriadau CID16 i'r Gwasanaethau Plant (canlyniad y rhan fwyaf o’r achosion hyn yw nad oes angen cymryd unrhyw Gamau Gweithredu Pellach yn eu cylch) . Mae Conwy wedi cynnal cynllun peilot llwyddiannus sydd wedi lleihau'r pwysau ar eu Tîm Dyletswydd, ac efallai y byddwn yn dymuno cynnig dull tebyg o weithredu yn ystod yr haf, ar ôl gwneud rhywfaint o waith ddadansoddi cychwynnol. Efallai y bydd angen darparu cefnogaeth ychwanegol i'r Arweinwyr Ymarfer unwaith y byddwn wedi gweld sut mae'r strwythur newydd yn gweithio (o bosib yn ystod yr hydref). Byddwn yn adolygu'r angen am Reolwr Prosiect i fonitro gweithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nes ymlaen yn yr haf (byddai hon yn swydd am gyfnod penodol.) Yn ogystal, rydym angen yr hyblygrwydd i recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol ychwanegol os bydd y galw am wasanaethau’n cynyddu.

Eithriedig

## Costau Staff Asiantaeth

Fel yr amlinellir yn y cefndir, mae gan y Gwasanaethau Plant nifer sylweddol o staff Asiantaeth, a dau unigolyn dan gontract cyfradd ddyddiol (gweler Atodiad D). Rhoddwyd y trefniadau hyn ar waith yn wreiddiol i helpu'r Gwasanaeth ymdopi â galwadau a phwysau ychwanegol, i sicrhau lefelau staffio digonol oherwydd bod pedwar aelod o staff ar Absenoldeb Mamolaeth, ac i lenwi bylchau ar lefelau rheoli am gyfnod dros dro. Bydd yr angen am staff Asiantaeth yn lleihau dros amser wrth i ni recriwtio a phenodi. Fodd bynnag, mae'r chwech i naw mis nesaf yn debygol o fod yn gyfnod trosiannol, ac mae'n bwysig sicrhau bod hyn yn cael ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau dilyniant ar gyfer plant a theuluoedd ac fel bod modd trosglwyddo achosion yn effeithiol a rhoi cyfle i staff newydd setlo yn eu swyddi newydd (yn enwedig Gweithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso).

Mae angen i ni ymestyn contractau'r staff Asiantaeth am dri mis arall tan ddiwedd mis Medi, ac efallai y bydd angen ymestyn contractau ychydig ohonynt y tu hwnt i hynny tan fis Rhagfyr (er y bydd hyn yn dibynnu ar faint o swyddi gwag y gellwn eu llenwi dros yr haf). Mae'r rhan fwyaf o gostau gweithwyr asiantaeth o fewn y gyllideb staffio oherwydd bod y rhan fwyaf ohonynt yn cyflawni swyddi sy'n wag ar y sefydliad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r gost o gyflogi staff Asiantaeth yn uwch na chost cyflogi staff yn uniongyrchol. Mae gan y Gwasanaeth gyllideb o £50,330 o fewn y gyllideb sylfaenol ar gyfer staff Asiantaeth, ond mae'r gyllideb hon eisoes wedi ei gwario yn ystod y tri mis cyntaf y flwyddyn ariannol. O'r herwydd mae **diffyg** yn **y gyllideb o £ 181,208** os ydym am ymestyn contractau'r holl staff Asiantaeth tan ddiwedd mis Medi.


Rydym yn gofyn am gyllideb ychwanegol ar gyfer 2017/18 i dalu am y gost ychwanegol o gyflogi staff Asiantaeth. Mae'r costau ychwanegol ar gyfer 2017/18 yn gost unwaith ac am byth yn ystod y cyfnod trosiannol wrth i ni recriwtio staff a gwella ein cyfraddau cadw staff, yn unol â'r Strategaeth Gweithlu ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

## Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:


1. Dyrannu swm o £ 181,208 o'r Cronfeydd Wrth Gefn fel y gellwn ymestyn contractau staff asiantaeth am dri mis arall. Ymestyn contract un swydd Rheolwr Gwasanaeth hyd at fis Mawrth 2018 a 3 swydd Gwaith Cymdeithasol tan ddiwedd Rhagfyr 2017.
2. Bwrw ymlaen â'r ail gam yng nghynllun ailstrwythuro'r Gwasanaethau Plant (Costau ychwanegol yn sgil ailraddio swyddi yn Teulu Môn) lle bydd angen gwariant ychwanegol o £17,000 (y gellir ei ariannu o'r gyllideb staffio ar gyfer y Gwasanaethau Plant).
3. Rhoi'r hyblygrwydd i'r Pennaeth Gwasanaeth ddefnyddio peth o'r gyllideb na fydd wedi ei dyrannu (£93,957) ar ôl yr ailstrwythuro er mwyn cynorthwyo i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Eithriedig




Direction of Travel
Any Services Route
Vulnerable Families
Issues such as or combination of:-
•Not in work
•Housing problems
•No qualifications
•MH matters
•Parental illness/ disability
•Low household income
•Can't afford food / clothing
•Domestic violence
•Substance misuse
•School attendance below 75%
•Challenging behaviour
•Parents been in social care or abuse as a child
•Parents limited education
•Inconsistent parenting
•History of offending
•Regularly miss routine health / immunisation appointments
Any Services Route
Priority concerns (child protection, children needing to be looked after, higher level children in need)
Early Intervention and Prevention Services
Requires extensive intervention
Intensive Intervention Service
Accept level of performance
Successful Diversion
Successful short term intervention
Successful long term intervention


## Overall Service Structure




### Early Intervention And Prevention Service



## Intensive intervention



**Atodiad B**

## Cyllideb staffio ar gyfer y Tîm Gweithrediadau yn y Gwasanaethau Plant

| | **Y gyllideb sydd ar gael** | **Ymrwymiadau** |
|---|---|---|
| Y gyllideb sydd ar gael | £ 1,425,290 | |
| Costau cam cyntaf yr ailstrwythuro, gan gynnwys:<br>• Swyddi Arweinydd Ymarfer x 6,<br>• Gweithwyr Cymdeithasol x 18<br>• Ailsefydlu'r swydd Sicrhau Ansawdd, a swydd weinyddol i gefnogi'r Uned Ddiogelu<br>• Swydd Ymgynghorydd Personol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Swyddog Cyswllt Addysg<br>• Swydd Rheolwr Prosiect (wedi ei dal yn ôl ar hyn o bryd) | | £ 1,360,344 |
| Cost ail gam yr ailstrwythuro:<br>• Costau ychwanegol Teulu Môn<br>• Cost ychwanegol ailraddio swyddi Gweithiwr Cymorth i gefnogi'r tîm Teuluoedd Gwydn | | £ 17,000 |
| **Cyfanswm** | **£ 1,425,290** | **£ 1,377,344** |
| Heb ei dyrannu<br>+ Swydd Rheolwr Prosiect sy'n wag ar hyn o bryd (monitro gweithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant)<br>**Cyfanswm sydd ar gael** | | £ 47,946<br>£ 46,011<br>**£ 93,957** |

Eithriedig

**Atodiad C**

## Nodyn ar Gostau Ailstrwythuro, a baratowyd gan y Gwasanaeth Cyllid Ionawr 2017

**Strwythur newydd y meysydd a effeithiwyd gan yr ailstrwythuro**

| Swydd | Graddfa | Nifer y swyddi | Cyfanswm cost |
|---|---|---|---|
| Arweinydd Ymarfer | 9 | 6 | £ 349,021 |
| Rôl Sicrhau Ansawdd | 8 | 1 | £ 52,141 |
| Gweithwyr Cymdeithasol | 7 | 18 | £ 828,196 |
| Ymgynghorydd Personol – Plant sy'n Derbyn Gofal | 4 | 1 | £ 29,014 |
| Swyddog Cyswllt Addysg | 5 | 1 | £ 34,549 |
| Gweinyddiaeth | 2 | 1 | £ 21,412 |
| Rheolwr Prosiect (Blwyddyn yn unig) | 7 | 1 | £ 46,011 |
| | | | £ 1,360,344 |
| Cyllideb gyfredol (gan gynnwys swydd Rheoli Achosion Llys a Swyddog Adolygu Annibynnol) | | 30.4 | £ 1,425,290 |
| Gwarged yn y Gyllideb ar gyfer Staff Parhaol am 2017/18 | | | £ 64,946 |

| | | Pwynt Uchaf y Raddfa |
|---|---|---|
| Arweinydd Ymarfer | gradd 9 | 58,170.13 |
| Rôl Sicrhau Ansawdd | gradd 8 | 52,141.39 |
| Gweithwyr Cymdeithasol | gradd 7 | 46,010.90 |
| Swyddog Cyswllt Addysg | gradd 5 | 34,548.62 |
| Ymgynghorydd LAC Personol | gradd 4 | 29,013.82 |
| Gweithiwr Cymorth | gradd 2 | 21,411.95 |
| Gweinyddiaeth | gradd 2 | 21,411.95 |

Eithriedig

# Atodiad D

**Staff Asiantaeth 1/4/17 - 31/03/2018**

| | Cost wirioneddol | Cyllideb ar gael | Costau Ychwanegol Staff Asiantaeth | Nodyn |
|---|---|---|---|---|
| Rhannu Pennaeth Gwasanaeth | £ 18,600 | £ 0 | £ 18,600 | Dim cyllideb ar y sefydliad |
| Rheolwyr Gwasanaeth x 2.4 | £ 184,879 | £ 111,470 | £ 73,409 | Yn lle swydd wag |
| Rheolwr Tîm x 2 | £ 67,943 | 43,277.50 | £ 24,666 | Yn lle swydd wag |
| Uwch Ymarferydd | £ 39,751 | 25,745.00 | £ 14,006 | Yn lle swydd wag |
| Gweithwyr Cymdeithasol x 7 | £ 292,413 | 191,555.00 | £ 100,858 | Yn lle swydd wag |
| | £ 603,586 | £ 372,048 | £ 231,538 | |

| | |
|---|---|
| Cyllideb Asiantaeth ar gyfer 2017/18 | £ 50,330 |
| Diffyg yn y gyllideb ar gyfer Staff Asiantaeth am 2017/18 | £ 181,208 |

Eithriedig

This page is intentionally left blank